Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Experiences of Blended and Distance Learning During the COVID-19 Pandemic in Wales: School and Stakeholder Evidence.

Prifysgol Aberystwyth University · Prifysgol Glyndŵr University · University of South Wales Prifysgol De Cymru

Teitl: Profiadau Dysgu Cyfunol ac o Bell yn ystod Pandemig COVID-19 yng Nghymru: Tystiolaeth Ysgolion a Rhanddeiliaid.

Awdur(on): Susan Chapman, Rhodri Aled Evans, Sue Horder, Catherine Jones, Siân Lloyd-Williams, Neil Mahoney, Sophie Meace, Mathew Pullen

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

© Hawlfraint y Goron 2022 WG43988 ISBN 978 1 80391 796 2

## Tabl cynnwys


1. Cyflwyniad/Cefndir 12

Nod y prosiect 12

Cwestiynau ymchwil cychwynnol 12

Ymateb i'r cyd-destun sy'n newid 13

Terminoleg 14

Adolygiad o lenyddiaeth 14

Telerau a dulliau chwilio 14

Adolygiad cychwynnol o lenyddiaeth 15

Myfyrdodau ar y profiad o COVID-19 yn y DU 15

Strwythur yr adroddiad 21

2. Methodoleg 22

Dewis dull 22

Cymeradwyaeth foesegol a chydsyniad 24

Sampl a chamau'r ymarfer casglu data 24

Casglu data ac amserlen y prosiect 26

Dulliau casglu data 27

Dadansoddi data 28

Myfyrio ar y dull gweithredu 29

3. Canfyddiadau: Arolwg Cychwynnol 33

Cyflwyniad 33

Y syniad o gynnal gweithgarwch dysgu o bell – myfyrdodau cychwynnol gan ysgolion 33

Rheoli dysgu o bell a dysgu cyfunol: Mawrth 2020 – Tachwedd 2020 34

Mynediad at dechnoleg 35

Adnoddau i gefnogi'r dysgu a'r addysgu mewn amgylchedd dysgu o bell 36

Apiau'r cwricwlwm 37

Myfyrdodau ar brofiad y dysgwr: Mawrth 2020 – Tachwedd 2020 37
Ymatebion i'r newid i ddysgu o bell 38
Cynnal lefelau ymgysylltu 40
Cyfathrebu â Dysgwyr a Rhieni 40
Beth oedd yn effeithiol yn ystod y cyfnod: Mawrth 2020 – Tachwedd 2020? 41
Yr heriau a oedd yn gysylltiedig ag addysgu o bell: Mawrth 2020 – Tachwedd 2020 43
Dysgu proffesiynol a datblygiad personol o fewn dysgu cyfunol a dysgu o bell 44
Gwersi a ddysgwyd: Mawrth 2020 – Tachwedd 2020 45
Beth yw'r goblygiadau i ddatblygu athrawon newydd? 47
Crynodeb 48
4. Canfyddiadau: Llais Rhieni 51
Cyflwyniad 51
Heriau TG 52
Cysylltedd 52
Caledwedd 54
Darpariaeth/profiad dysgu – Llwyfannau a ddefnyddiwyd i'w cynnig ar-lein 55
Cyfathrebu â disgyblion/rhieni 56
Amserlen 58
Gweithfan yn y cartref 59
Lles 61
Disgyblion agored i niwed 61
Effaith ar rieni 62
Llwyth gwaith rhieni/cymorth gan rieni 63
Lefel hyder rhieni i gefnogi'r dysgu 64
Lefelau ymgysylltu/cymhelliant disgyblion 67
Llais disgyblion 68
Crynodeb 69
5. Canfyddiadau: Llais Uwch-arweinwyr 71

Cyflwyniad 71
Addasu – Addasu i ddysgu o bell a dysgu cyfunol 74
Addasu – Dewis llwyfannau ar-lein 75
Cymorth TG – Dysgu proffesiynol 78
Cymorth TG – Caledwedd 82
Cymorth TG – Cysylltedd 83
Llwyth gwaith 84
Lles staff 86
Darpariaeth i ddysgwyr – Y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud 92
Darpariaeth i ddysgwyr – Datblygu darpariaeth 95
Cefnogi dysgwyr – Mynediad at dechnoleg 97
Cefnogi dysgwyr – Dysgwyr agored i niwed a lles dysgwyr 99
Lefelau ymgysylltu disgyblion ar-lein 100
Lles disgyblion 103
Cymorth yn y cartref – Cymorth gan rieni 105
Cymorth yn y cartref – Cymorth i rieni 108
Ailddechrau addysgu ar ôl y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf a dechrau'r ail gyfnod o gyfyngiadau symud cenedlaethol 109
Myfyrio ar arferion da 110
Sylwadau i gloi 111
Crynodeb 111
6. Canfyddiadau: Llais athrawon 115
Addasu i ddysgu o bell 116
Cyfnodau o gyfyngiadau symud 118
Dewis llwyfannau ar-lein 121
Hyblygrwydd 123
Cymorth TG – Hyfforddiant 124
Cymorth TG – Caledwedd 128
Cymorth TG – Cysylltedd 129

Llwyth gwaith 130
Lles staff 135
Cefnogi myfyrwyr 137
Hyblygrwydd wrth ymateb i anghenion disgyblion 137
Myfyrwyr agored i niwed 142
Lefelau ymgysylltu disgyblion ar-lein 145
Ymgysylltiad disgyblion ar draws cyfnodau a phynciau 151
Gweithio gyda rhieni 154
Myfyrio ar y profiad cyfan 158
Myfyrio ar y profiad cyfan – Edrych i'r dyfodol 160
Crynodeb 165
7. Canfyddiadau: Llais Myfyrwyr AGA 167
Y goblygiadau i addysg gychwynnol i athrawon 167
Sut brofiad a gafodd myfyrwyr AGA mewn ysgolion? Mis Mawrth 2020 – mis Chwefror 2021 167
Profiad o leoliad addysgu mewn amgylchedd cyfunol 167
Sut beth oedd dysgu cyfunol? 169
Dulliau dysgu ac addysgu yr arsylwyd arnynt gan fyfyrwyr AGA 171
Technoleg 172
Ymgysylltu dysgwyr mewn dysgu cyfunol 173
Heriau dysgu o bell a dysgu cyfunol 175
Beth yw'r goblygiadau ar gyfer AGA 178
Crynodeb 180
8. Canfyddiadau: Llais Consortia 182
Cefnogaeth barhaus 182
Canllawiau 183
Y cynnig dysgu proffesiynol 183
Effaith COVID-19 185

Safbwyntiau ar brofiad ysgolion 185
Heriau 187
Cyfleoedd 188
Edrych i'r dyfodol 189
Crynodeb 190
9. Prif Ganfyddiadau 191
Addasu 191
Darpariaeth i ddysgwyr 191
Dysgu Proffesiynol 192
Caledwedd a Chysylltedd 192
Llwyth gwaith 193
Lles Staff 193
Ymgysylltu â Disgyblion 194
Disgyblion yn dod yn Ddysgwyr Annibynnol 194
Disgyblion Agored i Niwed 194
Cyswllt â Theuluoedd 195
Cymorth gan Rieni 195
Consortia (AALlau) 195
Goblygiadau i ddarparwyr AGA 195
Nodyn Terfynol 196
10. Argymhellion 197
Camau gweithredu i randdeiliaid 199
Llywodraeth Cymru 199
AALlau a Chonsortia 199
Ysgolion 200
Estyn 202
Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc 203
Darparwyr AGA 203

Casgliad 203
11. Adran Gyfeiriadau 205

## Rhestr o dablau

Tabl 1.1: Y cyd-destun sy'n newid 13
Tabl 2.1: Crynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd gyda'r grwpiau rhanddeiliaid 28
Tabl 2.2: Samplu categorïau mewn ffordd gynrychiadol 30
Tabl 3.1: Apiau'r Cwricwlwm fesul maes. 37
Tabl 3.2: Ymateb i'r newid i ddysgu o bell 39
Tabl 3.3: Beth oedd yn effeithiol? 42
Tabl 3.4: Yr heriau a wynebai ysgolion 43
Tabl 3.5: Gwersi allweddol o fis Mawrth 2020 tan fis Tachwedd 2020 46
Tabl 4.1: Themâu o'r Arolygon i Rieni 51
Tabl 5.1: Sampl o Uwch-arweinwyr 71
Tabl 5.2: Themâu o'r Cyfweliadau ag Uwch-arweinwyr 72
Tabl 5.3: Enghraifft o ddulliau addysgegol fesul cyfnod allweddol a ddefnyddiwyd gan un ysgol yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud 92
Tabl 6.1: Codau Uwch-arweinwyr, Math o Ysgol 115
Tabl 6.2: Themâu o'r grwpiau ffocws 116
Tabl 10.1: Perthnasedd themâu i randdeiliaid 198

## Rhestr o ffigurau


Ffigur 2.1: Trosolwg o'r fethodoleg 22

Ffigur 2.2: Cyfranogwyr 25

Ffigur 2.3: Amserlen y prosiect, yr ymarfer casglu data a'r gwaith dadansoddi. 26

Ffigur 3.1: Teimladau cychwynnol 34

Ffigur 3.2: Dulliau a ddefnyddiwyd i gefnogi dysgu o bell 35

Ffigur 3.3: Technoleg i gefnogi dysgu ac addysgu 36

Ffigur 3.4: Cynnal lefelau ymgysylltu 40

Ffigur 3.5: Crynodeb o ganfyddiadau cychwynnol yr arolwg 48

**Rhestr termau**

Testun y rhestr termau

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Dysgu Cyfunol | Gweithgaredd dysgu neu addysgu sy'n cyfuno'r defnydd o dechnoleg ag addysgu wyneb yn wyneb. |
| Consortia | Gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol.Yn cynnwys ERW, GWE, GCA, CCD |
| Dysgu o Bell | Unrhyw weithgaredd dysgu neu addysgu y bydd disgyblion yn cymryd rhan ynddo oddi ar safle'r ysgol, gan gynnwys dysgu ar-lein cydamserol neu anghydamserol neu ddeunyddiau papur. |
| E-sgol | Menter dysgu cyfunol i gynnig cyfleoedd addysgu a dysgu ar-lein gan ddefnyddio dulliau dysgu uniongyrchol, amser real a rhyngweithiol. Gan ddefnyddio'r amrywiaeth o adnoddau a gwasanaethau sydd ar gael drwy Hwb, mae e-sgol yn cynnig cymorth i ysgolion mewn perthynas â'r setiau sgiliau a'r amrywiaeth o ddulliau addysgegol sydd eu hangen i gynnig y profiadau gorau posibl i'r dysgwyr. |
| SAU | Sefydliad Addysg Uwch |
| HWB | Cronfa adnoddau ar-lein Llywodraeth Cymru |
| AGA | Addysg Gychwynnol i Athrawon |
| AALl | Awdurdod Addysg Lleol |
| Ysgol bartner arweiniol | Ysgol sy'n arwain grŵp o ysgolion partner mewn partneriaeth AGA. |
| ANG | Athro/Athrawon Newydd Gymhwyso |
| Ysgol bartner | Ysgol sy'n cymryd myfyrwyr AGA ar leoliad. |
| DP | Dysgu Proffesiynol |
| UDA | Uwch-dîm Arwain |

# 1. Cyflwyniad/Cefndir

### Nod y prosiect

1.1 Mae COVID-19 wedi gorfodi ein hysgolion i newid eu harferion dysgu ac addysgu. Er bod ganddynt rywfaint o brofiad blaenorol o ddefnyddio dulliau dysgu cyfunol ac adnoddau digidol, cyflwynodd yr amgylchedd dysgu o bell a orfodwyd heriau a chyfleoedd i ddysgwyr, ysgolion, rhieni/gofalwyr a chyrff fel y Consortia Addysg Rhanbarthol. Nod y prosiect ymchwil yw i dri Sefydliad Addysg Uwch (SAUau) (Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam), gasglu gwybodaeth am brofiadau cyfunol ysgolion partner, dysgwyr, rhieni/gofalwyr, consortia rhanbarthol a myfyrwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA). Roedd y sampl ar gyfer y gwaith ymchwil hwn wedi'i rhagnodi yn nhelerau'r alwad gan Lywodraeth Cymru ac mae'n archwilio ymatebion, yn casglu gwybodaeth am brofiadau o ymarfer ac yn gwneud argymhellion ar gyfer y sector gan gynnwys yr hyn y gallwn ei ddysgu ar gyfer datblygiad a dysgu proffesiynol o fewn AGA.

### Cwestiynau ymchwil cychwynnol

1.2 Roedd y cynnig prosiect gwreiddiol yn cynnwys wyth cwestiwn ymchwil cychwynnol:

- CY1: A oes gwahaniaeth rhwng dealltwriaeth gwahanol ysgolion o ddysgu cyfunol?
- CY2:Beth a ddarparwyd gan wahanol ysgolion o ran dysgu cyfunol a dysgu o bell yn ystod COVID-19?
- CY3: Beth oedd profiadau ysgolion arweiniol partneriaethau ac ysgolion partner o'r newid i ddysgu cyfunol?
- CY4: Pa dystiolaeth sydd ar gael o arferion da wedi'u haddasu?
- CY5: Pa strategaethau i ddatblygu a chynnal lefelau ymgysylltu oedd yn effeithiol ym marn ysgolion, dysgwyr a rhieni?

- CY6: Beth yw'r heriau sy'n gysylltiedig â darparu dysgu cyfunol? (Technoleg; sgiliau; diogelu)
- CY7: Sut y gall SAUau baratoi myfyrwyr i addysgu mewn amgylchedd dysgu cyfunol?
- CY8: Sut mae athrawon dan hyfforddiant yn cyfrannu at waith eu lleoliadau mewn ysgolion mewn cyd-destunau wyneb yn wyneb ac ar-lein?

1.3 Y cwestiynau ymchwil oedd sail ein harolwg cychwynnol ond, wrth i'r prosiect ddatblygu, gwnaethom ddilyn dull mwy anwythol a oedd yn cyflawni nod y gwaith ymchwil ond hefyd yn fodd i archwilio mewn ffordd fwy hyblyg er mwyn casglu gwybodaeth am brofiadau pobl o'r cyfnod heriol hwn ym myd addysg.

**Ymateb i'r cyd-destun sy'n newid**

1.4 Roedd y cynnig prosiect gwreiddiol a'r cwestiynau ymchwil yn canolbwyntio ar gasglu data ar gyfnod y cyfyngiadau symud o fis Mawrth 2020 tan fis Gorffennaf 2020. Fodd bynnag, roedd y sefyllfa'n dal i ddatblygu ac addaswyd yr amserlen wrth i'r tîm ymchwil achub ar y cyfle i gasglu data yn ystod gwahanol gyfnodau pandemig COVID-19. Ychwanegodd hyn at ddyfnder a chyfoeth y data (mae rhagor o wybodaeth am yr amserlen a ddefnyddiwyd ar gyfer yr astudiaeth hon i'w gweld yn adran 2.8). Mae'r tabl isod yn dangos y gwahanol gyfnodau yn fras.

**Tabl 1.1: Y cyd-destun sy'n newid**

| Dyddiad | Cyd-destun |
|---|---|
| Mawrth 2020–Gorffennaf 2020 | Y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf – Gofynnwyd i'r dysgwyr aros gartref<br>Angen model dysgu ac addysgu gwahanol ar frys<br>Gwnaed rhai ysgolion yn hybiau ar gyfer plant gweithwyr allweddol<br>Diffyg profiad o ddysgu o bell<br>Dychwelyd i'r ysgol yn rhannol ym mis Gorffennaf 2020 |
| Medi 2020–Rhagfyr 2020 | Dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi 2020<br>Ni ddychwelodd pob dysgwr i'r ysgol oherwydd pryderon ynghylch COVID-19 |

| | |
|---|---|
| | Cyfyngiadau symud lleol mewn gwahanol rannau o Gymru<br>20 Rhagfyr – dechrau'r ail gyfnod o gyfyngiadau symud cenedlaethol |
| Ionawr 2021–Chwefror 2021 | Yr ail gyfnod o gyfyngiadau symud cenedlaethol yn parhau, ynghyd â'r gofyniad i ddysgwyr aros gartref (ac eithrio plant gweithwyr allweddol)<br>Defnyddio profiad o'r cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud<br>Heriau cynllunio yn gysylltiedig ag ansicrwydd ynghylch pryd y bydd y disgyblion yn dychwelyd |

**Terminoleg**

1.5 Er ein bod wedi cynnwys diffiniad o ddysgu o bell yn y rhestr termau, mae'n bosibl y bydd ymatebwyr eraill yn deall neu'n dehongli'r term mewn ffordd wahanol. Mae'n bosibl y bydd ymatebwyr yn y data wedi defnyddio termau megis 'dysgu cyfunol' neu 'dysgu ar-lein' i olygu'r un peth.

**Adolygiad o lenyddiaeth**

1.6 Rhennir yr adolygiad o lenyddiaeth yn ddwy adran: paratoi ar gyfer y prosiect ymchwil hwn, gan edrych ar astudiaethau sydd eisoes yn bodoli ar ddefnyddio dysgu o bell ac o bell ym myd addysg ac, yn ail, myfyrdodau o lenyddiaeth ac adroddiadau sy'n canolbwyntio ar brofiad ysgolion yn ystod argyfwng COVID-19.

**Telerau a dulliau chwilio**

1.7 Defnyddiwyd y cronfeydd data canlynol i chwilio am lenyddiaeth: EBSCOhost, Cyfnodolion Seicoleg Proquest a Sage ar-lein. Dewiswyd termau chwilio a oedd yn adlewyrchu'r gwahanol fathau o ddulliau a oedd ar gael i ysgolion eu dilyn. Defnyddiwyd cyfuniadau o'r termau chwilio canlynol: *Remote learning; Blended learning; Distance learning; Technology enhanced learning; Responses to COVID-19.* Roedd y chwiliadau'n archwilio pob cyd-destun addysg i ddechrau gan mai prin iawn oedd yr astudiaethau

yn y sector ysgolion. Fodd bynnag, yn ystod 2020-2021 ymddangosodd cyhoeddiadau a oedd yn canolbwyntio ar brofiadau ysgolion.

**Adolygiad cychwynnol o lenyddiaeth**

1.8 Ychydig iawn o astudiaethau a oedd yn archwilio dysgu o bell neu ddysgu cyfunol mewn addysg oedran ysgol y daethpwyd o hyd iddynt yn yr adolygiad cychwynnol. Ceir sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer addysg prifysgol a dysgwyr sy'n oedolion ond rhaid ystyried a oes modd trosglwyddo'r dulliau i gyd-destunau ysgolion. Mae hyn yn cyd-fynd ag adolygiadau a gynhaliwyd gan y Sefydliad Gwaddol Addysgol (2020), Poirier et al (2019) a gwerthusiad Bowyer a Chambers (2017) o ddysgu cyfunol hefyd. Arweiniodd yr adolygiad cychwynnol at y themâu canlynol a lywiodd y broses o ddatblygu adnoddau casglu data:

- Archwilio diffiniadau o ddysgu o bell a dysgu cyfunol
- Deall addysgegau sy'n cefnogi dysgu o bell a dysgu cyfunol
- Pa ddulliau sy'n addas mewn gwahanol amgylcheddau yn y sector ysgolion?
- Mynediad at dechnoleg briodol
- Lefelau ymgysylltu myfyrwyr
- Dysgu proffesiynol ar gyfer addysgwyr mewn perthynas â dulliau dysgu o bell a dysgu cyfunol
- Gwerthuso dulliau dysgu o bell a dysgu cyfunol

**Myfyrdodau ar y profiad o COVID-19 yn y DU**

1.9 Ers y cyfyngiadau symud cyntaf, mae dogfennau canllaw, adroddiadau a phapurau academaidd wedi cael eu cyhoeddi yn y DU ac yn rhyngwladol er mwyn casglu gwybodaeth am brofiad ysgolion a'u helpu gyda'u dulliau.

1.10 Mae'r dogfennau a ddarllenwyd wedi'u grwpio yn ôl y themâu canlynol: Canllawiau a roddwyd i ysgolion yng Nghymru; Safbwyntiau athrawon;

Safbwyntiau rhieni; Ymgysylltu; Gagendor digidol; Effaith; Profiadau rhyngwladol.

1.11 Maent wedi'u crynhoi isod:

*Canllawiau a roddwyd i ysgolion yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru, Consortia ac Undebau.*

- **Consortiwm Canolbarth y De (2020) Canllawiau Dysgu Cyfunol.** Dogfen seiliedig ar ymchwil sy'n canolbwyntio ar gwestiynau strategol er mwyn ystyried goblygiadau dysgu cyfunol a chynnwys diffiniadau clir o ddysgu cyfunol. Mae'r ddogfen yn archwilio pob modd dysgu, gan gynnwys wyneb yn wyneb, o bell ac ar-lein. Y nod yw cefnogi lles ymarferwyr yn y rhanbarth drwy roi arweiniad seiliedig ar ymchwil ar yr hyn sy'n gweithio mewn dysgu cyfunol. Rhoddir pwyslais ar ddulliau a arweinir gan addysgeg, gan ystyried gofynion staff a dysgwyr a mynediad i bob dysgwr. Un ffactor pwysig y mae'n ei gydnabod yw bod gan wahanol ysgolion wahanol ofynion.
- **Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol, Estyn, CCD, GCA, ERW, GwE (2020) Datblygu dulliau integredig i gefnogi dysgu cyfunol ar gyfer agor ysgolion yn raddol.**
  Gan adeiladu ar y canllawiau dysgu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r canllawiau hyn yn nodi arferion gorau a dulliau dysgu cyfunol i gefnogi ymarferwyr. Dylai lleoliadau ac ysgolion adeiladu ar eu trefniadau dysgu o bell. Mae'r ddogfen hon yn cynnig awgrymiadau ymarferol er mwyn helpu ysgolion i roi dull integredig ar waith ar gyfer dysgu cyfunol
- **Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol, Estyn, CCD, GCA, ERW, GwE (2020) *Modelau Dysgu Cyfunol.***
  Mae'r canllawiau hyn yn adeiladu ar ‘Datblygu dulliau integredig i gefnogi dysgu cyfunol ar gyfer agor ysgolion yn raddol’. Y nod yw ysgogi trafodaethau dysgu proffesiynol am y canlynol: dulliau addysgu a dysgu ac adborth effeithiol; cynllunio profiadau dysgu ar gyfer dysgwyr; cynllunio ar gyfer y dysgwyr hynny na fydd yn ymgysylltu'n

llawn o bosibl, neu'r rhai a fydd yn penderfynu nad yw dychwelyd i'r ysgol yn briodol iddynt ar hyn o bryd, a chyfathrebu'n effeithiol rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae'r canllawiau hefyd yn ystyried y broses o roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith a rheoli gweithgarwch dysgu yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau symud yn y dyfodol.

- **Llywodraeth Cymru (2020) *Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref.* Llywodraeth Cymru.**
  Diben y canllawiau hyn yw rhoi cyfres gyffredin o flaenoriaethau ar gyfer dysgu i ysgolion a phartneriaid sy'n eu cefnogi, ni waeth beth fo lefel y gweithrediadau mewn ymateb i COVID-19. Bydd ysgolion yn paratoi ar gyfer amrywiaeth o senarios ac mae'r canllawiau hyn yn nodi pa flaenoriaethau dysgu ddylai aros yn gyson drwy gydol y rhain: un dull sy'n ddigon hyblyg i ymateb i amodau sy'n newid.
- **Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) CYMRU (2020) *Remote Teaching and Learning – Arrangements Issues and Support.***
  Mae'r cyngor hwn yn ymdrin â ffactorau y bydd angen i ysgolion fynd i'r afael â nhw wrth gynllunio ar gyfer addysg o bell a dysgu cyfunol a'u cyflwyno. Hefyd, mae'n nodi'r hyn y mae NASUWT yn ei ystyried yn ymarfer derbyniol ac annerbyniol. Mae'n rhoi trosolwg o ddiffiniad o addysg o bell a dysgu cyfunol ac mae'r negeseuon allweddol yn ymdrin â disgwyliadau realistig, defnydd priodol o ddysgu digidol, yr angen i beidio â monitro perfformiad athrawon, hyfforddiant, cydnabyddiaeth broffesiynol, mynd i'r afael â llwyth gwaith, preifatrwydd a diogelu data, gweithio'n hyblyg, diogelu a lles staff.

*Safbwyntiau athrawon*

- **Müller L-M a Goldenberg, G. (2020) *Education in times of crisis: Teachers' views on distance learning and school reopening plans during COVID-19.* Y Coleg Addysgu Siartredig.**
  Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau arolwg ar-lein o bron i 1,800 o aelodau o'r Coleg Addysgu Siartredig a thrafodaethau o chwe

grŵp ffocws. Casglwyd yr ymatebion rhwng 7 Mai a 5 Mehefin 2020. Nod yr astudiaeth hon oedd ymchwilio i safbwyntiau athrawon ar effaith cau ysgolion yn rhannol ar ddysgu, lles, cynlluniau i ailagor ysgolion a'r goblygiadau hirdymor posibl i addysg.

*Safbwyntiau rhieni*

- **Andrew, A. et al. (2020) Learning during the lockdown: real-time data on children's experiences during home learning. Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.**
  Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar arolwg a gwblhawyd ar-lein gan fwy na 4,000 o rieni plant 4–15 oed rhwng mis Ebrill a mis Mai 2020 yn Lloegr. Ymhlith y canfyddiadau allweddol mae'r canlynol: Ar gyfartaledd, mae myfyrwyr cynradd ac uwchradd yn treulio tua 5 awr y dydd yr un ar ddysgu gartref. Mae rhieni ar incwm uchel yn llawer mwy tebygol na rhieni llai cefnog o ddweud bod ysgol eu plant yn cynnig dosbarthiadau ar-lein a'r gallu i fideogynadledda ar-lein gydag athrawon. Mae plant o deuluoedd mwy cefnog yn treulio 30% yn fwy o amser ar ddysgu gartref na'r rhai o deuluoedd tlotach ac mae mwy o adnoddau ar gael iddynt. Mae llawer o rieni plant ysgol gynradd ac uwchradd yn dweud eu bod yn ei chael hi'n anodd helpu eu plant i ddysgu gartref. Ceir risg o ehangu anghydraddoldebau.

*Ymgysylltu*

- **Lucas, M., Nelson, J. Sims, D (2020) Schools' Responses to COVID-19: Pupil Engagement in Remote Learning. Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg.**

  Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau arolwg cenedlaethol o 1233 o uwch-arweinwyr a 1821 o athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd a ariennir yn gyhoeddus yn Lloegr. Y ffactorau a gaiff eu harchwilio yw mynediad at TG, lefelau ymgysylltu rhieni, lefelau ymgysylltu disgyblion; y cymorth a geir gan eu hysgolion. Ymhlith y canfyddiadau allweddol mae'r canlynol: Roedd athrawon mewn

cysylltiad rheolaidd â 60 y cant o'u disgyblion. Fodd bynnag, llai na hanner y disgyblion (42 y cant) a ddychwelodd eu darn diwethaf o waith a osodwyd. Mae mynediad cyfyngedig disgyblion at TG yn her sylweddol. Er gwaethaf lefelau uchel o arweinyddiaeth, arweiniad a pharodrwydd athrawon i gefnogi'r dysgu o bell, ceir bylchau sylweddol yn y cwricwlwm sydd wedi cael ei addysgu gan ysgolion. Dywedodd athrawon fod ychydig dros hanner (55 y cant) rhieni eu disgyblion yn ymgysylltu â dysgu eu plant yn y cartref. Mae athrawon yn pryderu am lefelau ymgysylltu eu holl ddisgyblion difreintiedig, a disgyblion â mynediad cyfyngedig at TG a/neu'r rhai heb le i astudio gartref.

*Gagendor Digidol*

- **Y Sefydliad Polisi Addysg (2020) *Addressing the digital divide in education-Enabling a blended learning approach for all pupils and teachers.***
  Mae'r ddogfen hon yn crynhoi trafodaeth bord gron a gynhaliwyd gan y Sefydliad Polisi Addysg a oedd yn archwilio profiadau yn ystod cyfnod cyntaf y cyfyngiadau symud yn Lloegr o safbwynt arweinwyr ysgolion. Roedd yn ystyried profiadau rhyngwladol, yn ategu'r angen am fynediad cyfartal i ddisgyblion a sut i wella'r broses o bontio o'r ystafell ddosbarth i'r cartref.

*Effaith ar ddysgu*

- **Cullinane, C a Montacute, R. (2020) *COVID-19 and Social Mobility Impact Brief #1: School Shutdown.* Ymddiriedolaeth Sutton.**
  Mae'r briff hwn yn edrych ar y problemau sy'n wynebu disgyblion oedran ysgol, gyda safbwyntiau gan athrawon a rhieni, gan gynnwys yr hyn y mae ysgolion wedi'i ddarparu ers iddynt gau mewn perthynas â darpariaeth wyneb yn wyneb, y cymorth sydd ar gael i ddisgyblion gartref, yr adnoddau ffisegol ac ariannol sydd ar gael iddynt (gan gynnwys technoleg, neu gymorth arall megis gwersi preifat), ac effaith hyn ar y gwaith ysgol sy'n cael ei gwblhau yn y cartref. Mae'n gorffen

drwy edrych ar strategaethau lliniaru posibl sydd ar gael i ysgolion a'r llywodraeth er mwyn ceisio lleihau unrhyw effaith ar y bwlch cyrhaeddiad sydd eisoes yn llydan rhwng y disgyblion cyfoethocaf a thlotaf, a diogelu'r rhagolygon o ran symudedd cymdeithasol hirdymor.

- **Sharp, C. et al. (2020) Schools' Responses to COVID-19: The Challenges Facing Schools and Pupils in September 2020, Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA).**
  Mae'r gwaith ymchwil hwn yn ymchwilio i effaith COVID-19 ar ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd yn Lloegr ac arolwg (SCYA) cynharach o ymatebion ysgolion i COVID-19 ym mis Mai 2020. Mae'r ffocws ar yr heriau a oedd yn gysylltiedig â dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi 2020. Y prif themâu yw p'un a yw disgyblion 'ar ei hôl hi' ai peidio mewn perthynas â dysgu o fewn y cwricwlwm a ble mae angen cymorth ychwanegol, a'r problemau o ran logisteg ac adnoddau sy'n gysylltiedig â dychwelyd i'r ysgol. Hefyd, ceir myfyrdod ar y profiad o ddysgu o bell yn ystod y cyfyngiadau symud a dysgu cyfunol o fis Mehefin 2021 ymlaen.

*Profiadau Rhyngwladol*

- **Centre on Reinventing Public Education (CRPE) (2020) Lessons from Remote Learning in Six School Systems, Centre on Reinventing Public Education. Centre on Reinventing Public Education.**
  Traciodd CRPE sampl o ardaloedd ysgolion er mwyn deall eu dulliau ar gyfer dysgu ar-lein a dylanwad hyn ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ganlynol. Roedd yr astudiaethau achos yn cynnwys ardaloedd trefol a gwledig yn Chicago.
- **Morgan, H. (2020) 'Best Practices for Implementing Remote Learning during a Pandemic', Clearing House: A Journal of Educational Strategies, Issues and Ideas, 93(3), tt. 134–140.**
  Gwerthusiad o ysgolion yn UDA sydd wedi rhoi trefniadau dysgu o bell  ar waith mewn ymateb i'r cyfyngiadau symud. Mae'n codi materion

yn ymwneud ag anghydraddoldeb gan ei fod yn canfod nad oedd gan lawer o ysgolion ddigon o adnoddau i gynnig cyfleoedd dysgu i'w myfyrwyr, ac nad oedd gan bob disgybl fynediad i'r rhyngrwyd gartref. Neges allweddol y gwaith ymchwil oedd ei bod yn rhaid i ysgolion ddatblygu dulliau sy'n deg i bob dysgwr.

**Strwythur yr adroddiad**


1.12 Mae'r adroddiad yn amlinellu **Methodoleg** y cytunwyd arni gan y tri SAU, a ddatblygwyd yn unol â gofyniad yr alwad ymchwil. Dilynir hyn gan adran **Canfyddiadau** sy'n archwilio'r data fesul dull casglu data, a daw i ben gyda chrynodeb sy'n coladu'r data ac yn ymateb i'r cwestiynau ymchwil a bennir. Mae'r adran **Prif Ganfyddiadau** yn nodi canfyddiadau allweddol yr ymchwil. Ar ddiwedd y ddogfen, cyflwynir **Argymhellion** i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru, Ysgolion, darparwyr AGA a Chonsortia.

# 2. Methodoleg

### Dewis dull

2.1 Mae'r fethodoleg a ddewiswyd ar gyfer y gwaith ymchwil hwn yn gyfuniad o ddulliau ansoddol a meintiol, gyda phwyslais cryfach ar ddulliau ansoddol gan mai diben yr astudiaeth yw archwilio, gyda'r cyfranogwyr, realiti dysgu yn ystod pandemig COVID-19. Mae'n ceisio archwilio a deall eu profiadau uniongyrchol. Mae Ffigur 1 yn rhoi trosolwg o'r dull methodolegol.

**Ffigur 2.1: Trosolwg o'r fethodoleg**




2.2 Roedd y tîm ymchwil yn awyddus i archwilio **gyda'r** cyfranogwyr sut oedd eu profiad uniongyrchol. O ganlyniad i dirwedd gyfnewidiol y pandemig, bu'n rhaid i'r tîm ymchwil ymateb i ysgolion pan oeddent ar gael a gweithio gyda phob ysgol yng nghyd-destun tirwedd   symudol ar adegau oherwydd y newidiadau i'r cyfyngiadau. Defnyddiwyd dull astudiaethau achos yn seiliedig ar yr ysgolion yn y partneriaethau a oedd yn gysylltiedig â phob Sefydliad Addysg Uwch (SAU) a oedd yn rhan o'r prosiect. Mae Creswell (2013) yn dadlau mai diben gwaith ymchwil ansoddol yw gwneud synnwyr o ffenomenau a'u dehongli, a'r ystyr y bydd pobl yn ei chreu o'r ffenomenau. Mae'r data ansoddol yn y prosiect hwn yn archwilio profiad uniongyrchol amrywiaeth o randdeiliaid mewn perthynas â'r dulliau gweithredu a

fabwysiadwyd ar gyfer dysgu o bell/cyfunol, o ganlyniad i bandemig COVID-19 pan oedd yr ysgolion ar gau.

2.3 Er bod dulliau ymchwil ansoddol wedi cael eu beirniadu oherwydd y posibilrwydd o fethu arwain at ganfyddiadau y gellir eu cyffredinoli (Hammersley, 2008), mae'r gwaith ymchwil hwn, drwy ddefnyddio dull astudiaethau achos, yn archwilio taith y cyfranogwyr drwy eu profiadau ac mae'n cyd-fynd yn gyfforddus ag astudiaeth sy'n ansoddol yn bennaf, ac o fewn ymarfer go iawn y cyfranogwyr, gyda data a gasglwyd o amrywiaeth o ffynonellau. Bydd y gwaith ymchwil yn galluogi'r cyfranogwyr i ddisgrifio eu profiad o ddysgu o bell/cyfunol, wedi'i ddatgelu drwy eu straeon unigol ac unigryw.

2.4 Mae dull astudiaethau achos yn ddefnyddiol wrth ystyried defnyddio'r achos i ddadansoddi problem benodol neu lunio damcaniaeth yn seiliedig ar y canlyniadau (Gray, 2018). Yn y prosiect hwn, mae effaith pandemig COVID-19 a'r pwyslais ychwanegol ar ddysgu o bell/cyfunol yn ategu'r defnydd o ddull astudiaethau achos ac, fel y noda Creswell (2013), mae dyluniad astudiaethau achos yn ddull ansoddol lle y bydd yr ymchwilydd yn archwilio system gyfoes go iawn o fewn terfynau (achos) neu nifer o systemau o fewn terfynau (achosion) gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth. Hefyd, mae astudiaeth achos, yn ôl Denzin a Lincoln (2013), yn dibynnu ar gyfweld, arsylwi a dadansoddi dogfennau. Mae Flick (2014) yn dadlau bod astudiaethau achos yn ymwneud ag enghraifft nodweddiadol neu addysgiadol o broblem fwy cyffredinol a bod angen i ymchwilwyr ddiffinio beth arall a all berthyn i'r achos (t.122). Er enghraifft, wrth astudio profiad uniongyrchol ysgol, drwy ddull astudiaethau achos, bydd angen i ymchwilydd ystyried a fydd data o'r ysgol honno yn unig yn ddigon. Yn y prosiect hwn, casglwyd data gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys: athrawon, uwch-arweinwyr, rhieni, disgyblion a chonsortia.

2.5 Oherwydd natur gyfnewidiol y pandemig a'r cyfyngiadau a oedd ar waith yn sgil hynny, daeth y tîm ymchwil i'r casgliad y byddai'n anos cynnal cyfweliadau gydag athrawon a rhieni o bosibl. Felly, lluniodd y tîm arolygon

ar-lein y gellid eu hanfon drwy e-bost at athrawon a rhieni er mwyn casglu rhagor o ddata fel y disgrifiwyd gan Flick (2014). Galluogodd hyn y tîm ymchwil i barhau â'r gwaith ymchwil drwy gydol y datblygiadau a'r newidiadau parhaus i'r amgylchiadau. Mae'n bwysig nodi bod y data a gasglwyd ym mhob ymarfer casglu data yn cynrychioli cyfnod penodol mewn amser ac yn gysylltiedig â phrofiad anghyfarwydd a oedd yn dal i fynd rhagddo.

### Cymeradwyaeth foesegol a chydsyniad

2.6 Ceisiwyd cymeradwyaeth foesegol gan bob SAU er bod y prosiect wedi'i gydnabod fel menter gydweithredol. Cafodd taflen gydsyniad a gwybodaeth ei phasio drwy bwyllgor moeseg pob SAU, yn yr un modd â chynlluniau rheoli a storio data, a chafwyd cymeradwyaeth foesegol gan bob SAU ar gyfer yr astudiaeth a'r gwaith o gynhyrchu data a ddisgrifir uchod. Roedd yr holl ddogfennaeth ar gael yn ddwyieithog a gofynnwyd i'r cyfranogwyr beth oedd eu dewis iaith ar gyfer eu cyfweliad. Roedd yr ystyriaethau moesegol yn cynnwys sicrhau bod enwau unigolion a dynodwyr ysgolion yn cael eu cadw'n gyfrinachol (defnyddiwyd codau a oedd yn hysbys i bob SAU) a bod prif ddogfennaeth y prosiect yn cael ei chadw ar storfa gwmwl ddiogel un SAU, a oedd yn hygyrch i bob aelod o'r tîm ymchwil. Nodwyd canllawiau BERA presennol a chadwyd atynt yn ystod pob cam o'r ymchwil.

### Sampl a chamau'r ymarfer casglu data

2.7 Roedd cam cyntaf yr ymarfer casglu data yn cynnwys adolygiad systematig o lenyddiaeth ac arolwg o ysgolion partner er mwyn gwella dealltwriaeth o'r meysydd ffocws. Anfonwyd yr arolwg cychwynnol i bob un o ysgolion partner y tair prifysgol ac roedd yn fodd i dreialu'r cwestiynau a'r meysydd a fyddai'n cael eu harchwilio'n fanylach drwy gyfweliadau a grŵp ffocws. Cynhaliwyd yr ail gam gyda 15 o ysgolion (pump o bob partneriaeth) ac roedd yn cynnwys cyfweliadau, arolygon a grwpiau ffocws gydag ysgolion o bartneriaethau'r

SAUau, cyfweliadau â chonsortia rhanbarthol a grwpiau ffocws gyda myfyrwyr AGA. Casglwyd y data o'r 15 o ysgolion ac, mewn rhai achosion, oherwydd llwyth gwaith ac argaeledd y cyfranogwyr, casglwyd rhai setiau data drwy naill ai grwpiau ffocws neu arolygon gan ddefnyddio'r un cwestiynau er mwyn sicrhau cysondeb yr ymatebion. Dewisodd pob SAU bum ysgol o bob partneriaeth i weithio gyda nhw. Y ffrâm samplu ar gyfer y gwaith ymchwil yw ysgolion partner pob SAU fel y rhagnodwyd yn yr alwad ymchwil gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn golygu bod modd ymgysylltu ag ysgolion trefol a gwledig; ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cynradd ac uwchradd. Nid arweiniodd y ffrâm samplu at broblemau ansawdd. Mae'r ffrâm samplu yn cynnwys cofnodion ar gyfer y boblogaeth gyfan a gydsyniodd i fod yn rhan o'r gwaith ymchwil. Cytunwyd ar ddechrau'r prosiect y byddai ymatebion gan ysgolion yn cael eu codio er mwyn sicrhau anhysbysrwydd. Cafodd yr adnoddau ymchwil eu datblygu ar y cyd gan y tîm ymchwil a oedd yn cynnwys unigolion o bob SAU.


**Ffigur 2.2: Cyfranogwyr**



**Casglu data ac amserlen y prosiect**

2.8 Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, casglwyd yr holl ddata ar-lein drwy Microsoft Teams. Cafodd yr offerynnau ymchwil eu datblygu ar y cyd gan dîm ymchwil y SAUau. Mae Ffigur 2.3 isod yn cynnwys rhagor o fanylion am yr amserlen ar gyfer casglu data. Fel y trafodwyd uchod, roedd angen addasu'r amserlen i gyd-fynd ag argaeledd y cyfranogwyr ac, felly, cafodd rhai setiau data eu casglu dros gyfnod estynedig o amser.

**Ffigur 2.3: Amserlen y prosiect, yr ymarfer casglu data a'r gwaith dadansoddi.**



**Dulliau casglu data**

2.9 Oherwydd y cyd-destun cyfnewidiol a amlinellwyd yn **Nhabl 2**, roedd y dulliau cynhyrchu data a ddefnyddiwyd yn y gwaith ymchwil hwn yn dibynnu ar yr amgylchiadau ar unrhyw adeg ac ar y ffordd orau y gallai'r cyfranogwyr gymryd rhan yn y gwaith ymchwil. Er enghraifft, casglwyd data gan athrawon drwy gynnal grwpiau ffocws ac adnodd arolwg a oedd yn defnyddio'r un set o gwestiynau. Mae Tabl 2 yn crynhoi'r gwahanol ddulliau casglu data a'r ymatebwyr y cawsant eu defnyddio gyda nhw. Cadarnhaodd y dulliau mai dull ansoddol yn bennaf oedd y ffordd fwyaf effeithiol o gasglu gwybodaeth am y profiad uniongyrchol.

**Tabl 2.1: Crynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd gyda'r grwpiau rhanddeiliaid**

| Cyfranogwr | Dull | Math o ymchwil | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Ysgolion | Arolwg cychwynnol | Cymysg | Roedd yr arolwg cychwynnol yn cynnig llinell sylfaen er mwyn cael ymdeimlad o'r profiad er mwyn cynllunio'r offeryn ymchwil dilynol |
| Llais Rhieni | Arolwg<br>Arolygon mewn ysgolion | Cymysg | Roedd gwybodaeth o arolygon mewn SAUau ac ysgolion yn cynnig cyfle i gasglu a chymharu data |
| Llais Disgyblion | Arolwg gyda chydsyniad rhieni | Ansoddol | Arolwg dau gwestiwn syml er mwyn casglu gwybodaeth am lais disgyblion mewn ffordd nad oedd yn fygythiol |
| Llais Uwch-arweinwyr | Cyfweliadau | Ansoddol | Cyfle i archwilio'r themâu yn fanwl mewn amgylchedd llawn ymddiriedaeth |
| Llais Athrawon | Grŵp ffocws/arolwg | Ansoddol | Cyfle i fyfyrio a thrafod mewn amgylchedd diogel |
| Myfyrwyr AGA | Grŵp ffocws | Ansoddol | Rhoi llais i fyfyrwyr AGA er mwyn iddynt fyfyrio a rhannu ymarfer â staff AGA |
| Safbwynt Consortia | Cyfweliadau | Ansoddol | Cyfle i drafod dysgu proffesiynol a chroesgyfeirio â phrofiadau'r ysgolion |

**Dadansoddi data**

2.10 Mae'r gwaith dadansoddi data yn seiliedig ar ddull anwythol (Thomas, 2006) er mwyn nodi themâu sy'n bwysig i'r cyfranogwyr. Cynhaliwyd ymarfer codio cychwynnol er mwyn archwilio'r themâu, a chafodd y gwaith dadansoddi data ar gyfer pob dull casglu data ei ddyrannu i aelodau o'r tîm ymchwil.

Gwneir gwaith dadansoddi anwythol drwy ddarllen data crai sawl gwaith er mwyn ceisio eu crynhoi a thynnu themâu allan sy'n dangos profiad uniongyrchol y cyfranogwyr yn yr astudiaeth. Yn ystod y gwaith dadansoddi anwythol, roedd y tîm ymchwil yn ymwybodol, fel y noda Thomas (2006), na ddylai'r dadansoddiad ddatblygu'n gyfres o ddisgwyliadau mewn perthynas â chanfyddiadau penodol. Yn ystod y cam dadansoddi, sylweddolodd y tîm ymchwil fod y themâu a ddaeth i'r amlwg yn allweddol er mwyn datgelu canfyddiadau'r cyfranogwyr o'r profiad uniongyrchol. Am y rheswm hwn, caiff y canfyddiadau yn adran 3 eu cyflwyno drwy'r themâu a ddaeth i'r amlwg gan bob un o'r gwahanol rhanddeiliaid a gymerodd ran.

**Myfyrio ar y dull gweithredu**

2.11 Anfonwyd yr arolwg cychwynnol i ysgolion ym mis Tachwedd 2020 ac fe'i llywiwyd gan y cwestiynau ymchwil a amlinellir yn y **cyflwyniad yn 1.2.** Fodd bynnag, am fod cyd-destun y gwaith ymchwil yn newid yn barhaus o ganlyniad i wahanol gamau'r prosiect, daeth yn amlwg i'r tîm ymchwil y byddai angen i'r prosiect gasglu data mewn ffordd fwy anwythol. Er y credid mai dull astudiaethau achos oedd y dull mwyaf priodol ar gyfer yr astudiaeth hon o hyd, cyfeiriodd y tîm ymchwil at waith Ravitch a Riggan (2012) sy'n dadlau na ddylai fframwaith cysyniadol gael ei godi oddi ar silff ond, yn hytrach, y dylai gael ei greu gan yr ymchwilydd/ymchwilwyr o nifer o ffynonellau. Mae Ravitch a Riggan (2012, t.7) o'r farn mai naïf yw'r canfyddiad y gall ymchwilwyr ddewis un ddamcaniaeth neu fframwaith yn un naïf, ac maent yn dadlau y gellir ystyried mai dadl ynghylch pam mae'r pwnc dan sylw yn werth ei astudio, a pham mae'r dull methodolegol yn briodol, yw fframwaith cysyniadol (t.7).

**Tabl 2.2: Samplu categorïau mewn ffordd gynrychiadol**

| Epistemoleg | Safbwynt damcaniaethol | Methodoleg | Dulliau |
|---|---|---|---|
| Lluniadaeth | Deongliadaeth<br>Ffenomenoleg<br>Esboniadaeth | Ymchwil ffenomenolegol | Cyfweliadau<br>Arolygon<br>Nodi themâu<br>Dadansoddi dogfennau<br>Dadansoddi sgyrsiau |

Ffynhonnell: Crotty, 1998, t.5

2.12 Gwnaeth y ffaith bod safbwynt ffenomenolegol (Van Manen, 1997) wedi cael ei ystyried lywio'r fframwaith cysyniadol ar gyfer y gwaith ymchwil hwn ymhellach. Mae Henriksson a Friesen (2012) yn disgrifio ffenomenoleg fel astudio profiad unigolion, yn enwedig wrth iddo gael ei fyw a'i strwythuro drwy ymwybyddiaeth, ac roedd y defnydd o ddull ffenomenolegol yn yr achos hwn yn ategu'r broses o archwilio profiadau uniongyrchol y rhai a oedd yn cyfrannu at y gwaith ymchwil hwn. Mae dull ffenomenolegol wedi cael ei feirniadu ac mae Finlay (2012) yn awgrymu y gallai rhyng-gysylltiad goddrychol rhwng yr ymchwilydd a thestun y gwaith ymchwil (t.17) ostwng gwerth y canlyniadau. O ystyried bod y tîm ymchwil yn yr achos hwn yn cynnwys aelodau o dri SAU ledled Cymru a bod y profiad uniongyrchol yn cael ei ddatgelu gan y cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil, nid oedd yr ymchwilwyr yn dylanwadu arno o reidrwydd. Fodd bynnag, mewn ymateb i'r rhyngymwybodolrwydd posibl rhwng yr ymchwilydd a thestun y gwaith ymchwil, ystyriwyd dull ffenomenolegol esboniadol.

2.13 Mae ffenomenoleg esboniadol yn seiliedig ar waith Heidegger a Gadamer (Smith et al., 2009). Mae Heidegger yn cwestiynu'r posibilrwydd o unrhyw wybodaeth y tu allan i safbwynt deongliadol ac yn awgrymu bod safbwynt deongliadol wedi'i wreiddio yn y byd go iawn. (Smith et al. 2009, t.16). I'r gwrthwyneb, mae Hood (2016) yn archwilio'r syniad o safbwynt realaidd beirniadol fel ffordd o wneud gwaith ymchwil ansoddol. Disgrifir yr ysgogiad cyffredinol ar gyfer safbwynt realaidd beirniadol gan Hood (2016) fel

mabwysiadu dull lluoseddol yn hytrach nag un fframwaith, sy'n cynnig mwy nag un lens ddeongliadol. Mae Hood (2016) yn dyfynnu gwaith cynnar Bhaskar (1979, 2008) sy'n cynnig ontoleg sy'n gysylltiedig â thair haen; yr empirig, y gwirioneddol a'r real. Mae Hood (2016) yn defnyddio realaeth feirniadol a lens ansoddol i ddeall natur achosiaeth, galluogedd, strwythur, a chysylltiadau. Mae ffenomenoleg esboniadol yn canolbwyntio ar brofiadau goddrychol yr ymarferwyr yn yr astudiaeth hon (Kafle, 2011) a, thrwy wneud hynny, mae'n datgelu strwythur eu profiad uniongyrchol, drwy'r gwahanol leisiau a'r lens ddeongliadol.

2.14 Mae'r canfyddiadau yn seiliedig ar ddata a gasglwyd gan y tri SAU ac yn cynrychioli myfyrdodau ar draws sectorau ysgol a rhanddeiliaid eraill a nodwyd, fel y dangosir yn yr adran Methodoleg. Trefnir y canfyddiadau ar ffurf trafodaeth am yr arolwg cychwynnol ac yna fyfyrdodau gan bob un o'r ‘lleisiau’ y siaradwyd â nhw. Cafodd y cwestiynau a ofynnwyd i bob grŵp eu dewis drwy drafodaeth rhwng y SAUau. Ar ddiwedd pob dyfyniad, darperir y ffynhonnell wedi'i nodi yn ôl ysgol a rôl. Mae'n bwysig nodi bod y broses o gasglu data yn ystyried effaith gwahanol sefyllfaoedd roedd ysgolion ynddynt yn ystod y cyfnod rhwng mis Mawrth 2020 a mis Chwefror 2021.

- Arolwg cychwynnol
- Llais rhieni a disgyblion
- Llais uwch-arweinwyr
- Llais athrawon
- Llais myfyrwyr AGA
- Llais consortia

2.15 Mae nifer o gyfyngiadau ar y data a gasglwyd fel rhan o'r prosiect a dylid cadw hyn mewn cof wrth ystyried y canfyddiadau. Un o'r cyfyngiadau hyn yw bod y prosiect wedi cael ei gynllunio mewn ymateb i'r cyfyngiadau symud cyntaf ym mis Mawrth 2020 ond bod y data wedi cael eu casglu dros gyfnod

o tua chwe mis (o fis Tachwedd 2020 tan fis Ebrill 2021) pan newidiodd y sefyllfa mewn ysgolion yn gyflym ac yn aml. Mae'r profiadau a rannwyd gan y rhanddeiliaid yn gymysgedd o fyfyrdodau ar brofiad blaenorol ac ymateb i'r heriau cyfredol.  Roedd yr amgylchiadau a wynebai ysgolion yn ystod y cyfnod hwn yn golygu bod y sampl yn dethol ei hun; nid oedd pob ysgol yn fodlon rhannu'r dolenni i'r arolygon â rhieni a oedd eisoes yn ymdopi â heriau dysgu o bell, ac nid oedd athrawon yn gallu ymrwymo i'r cyfweliadau na'r grwpiau ffocws.  Roedd prosiectau ymchwil eraill, er enghraifft yr un a gynhaliwyd gan Estyn, yn defnyddio'r un boblogaeth.

# 3. Canfyddiadau: Arolwg Cychwynnol

### Cyflwyniad


3.1 Anfonwyd arolwg cychwynnol i ysgolion ym mhob un o bartneriaethau'r SAUau er mwyn archwilio eu profiadau o'r cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud a dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi. Ymatebodd 24 o ysgolion o wahanol bartneriaethau (19 o ysgolion cynradd a thair ysgol uwchradd a dwy ysgol 3-18 oed). Ymhlith yr ymatebwyr roedd chwe Phennaeth, chwe Dirprwy Bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol; pedwar aelod o Uwch-dimau Arwain (UDA) ac wyth athro. Cymedr nifer y blynyddoedd o brofiad o addysgu oedd 17 mlynedd, gan amrywio o 5 i 27 mlynedd. Dim ond naw o'r ymatebwyr oedd wedi defnyddio dysgu o bell gyda'u dysgwyr.

Dosbarthwyd yr arolwg ym mis Tachwedd 2020 ac mae'n crynhoi profiadau o'r cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud a'r broses o ddychwelyd i'r ysgol o fis Medi 2020 ymlaen. Y wybodaeth hon, wedi'i chyfuno â'r adolygiad o lenyddiaeth, oedd sail y trafodaethau manwl ag ysgolion yr astudiaethau achos a'r trafodaethau â myfyrwyr AGA. Daw'r adran i ben â chrynodeb sy'n gysylltiedig â'r cwestiynau ymchwil cychwynnol. Mae dyfyniadau Cymraeg wedi'u cynnwys air am air a dyfyniadau Saesneg wedi'u cyfieithu.

### Y syniad o gynnal gweithgarwch dysgu o bell – myfyrdodau cychwynnol gan ysgolion

3.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi tri gair i ddisgrifio eu teimladau ar ddechrau'r cyfyngiadau symud mewn perthynas â chynnal gweithgarwch dysgu o bell. Roedd ymdeimlad cryf o ansicrwydd ac anesmwythder ynglŷn â newid mor sylweddol heb fawr ddim amser paratoi.

**Ffigur 3.1: Teimladau cychwynnol**





**Rheoli dysgu o bell a dysgu cyfunol: Mawrth 2020 – Tachwedd 2020**

3.3 Roedd ysgolion yn wynebu amgylchedd dysgu ac addysgu gwahanol iawn yn ystod y cyfnod hwn a bu'n rhaid iddynt reoli cyfnodau o ddysgu o bell a dysgu cyfunol. Roedd yr arolwg yn gofyn cwestiynau am yr effaith ar lwyth waith, dulliau dysgu ac addysgu a chyfathrebu â dysgwyr a rhieni.

3.4 Dywedodd 15 o'r ymatebwyr fod y newid i ddysgu o bell wedi cael effaith sylweddol ar eu llwyth gwaith ac archwilir hyn yn fanylach yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau. Crynhodd un ymatebydd deimladau'r sampl:

‘mae wedi bod yn gyfnod heriol ac rwy'n teimlo bod ein staff wir wedi treulio llawer o'u hamser yn datblygu eu dulliau, er gwaethaf gofynion cymorth eu teuluoedd drwy gydol y cyfnod hwn’

**Ffigur 3.2: Dulliau a ddefnyddiwyd i gefnogi dysgu o bell**




3.5 Yn ystod y cyfnod hwn, defnyddiodd pob un o'r ymatebwyr gyfuniad o ddeunyddiau ar-lein ac anfon gwaith at ddisgyblion. Gwnaed rhywfaint o ddefnydd o adnoddau trafod ar-lein. Roedd yn ymddangos bod cefnogi iechyd a lles wrth wraidd y dulliau a ddefnyddiwyd. Soniodd un o'r ymatebwyr am bwysigrwydd cymorth dros y ffôn o dan y categori ‘arall’, a chyfeiriodd yr ymatebwyr eraill at hyn mewn ymatebion eraill yn yr arolwg. Dywedodd 17 o'r ymatebwyr fod eu dulliau dysgu o bell wedi newid yn ystod y cyfnod rhwng mis Mawrth 2020 a mis Tachwedd 2020. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn bod ganddynt ddull dysgu o bell y cytunwyd arno ar gyfer yr ysgol gyfan.

**Mynediad at dechnoleg**

3.6 Teimlai 15 o'r sampl fod ganddynt dechnoleg briodol i gefnogi dysgu o bell. Roedd pedwar yn ansicr ar y pryd ac roedd pedwar arall yn teimlo bod eu mynediad yn annigonol.


3.7 Teimlai pob un o'r ymatebwyr fod cysylltiad da â'r rhyngrwyd, mynediad at galedwedd briodol ac ymwybyddiaeth o apiau yn arwyddocaol. Roedd apiau wedi cael eu dewis yn ofalus fel eu bod yn hygyrch i'r dysgwyr a'u rhieni.

> ‘Mae rhieni'n gweld hyn yn yr un ffordd â mynd i'r ysgol, ac nid fel bod hyn yn ddewisol’

**Adnoddau i gefnogi'r dysgu a'r addysgu mewn amgylchedd dysgu o bell**

3.8 Tynnwyd sylw at seilwaith ac argaeledd apiau i gefnogi'r dysgu a'r addysgu fel ffactor er mwyn llwyddo yn y llenyddiaeth ar ddysgu cyfunol a dysgu o bell. Datblygodd ysgolion adnoddau papur ac adnoddau ar-lein ar gyfer eu dysgwyr. Gwelwyd defnydd cyfartal o Hwb, apiau addysgol a gwefannau addysgol. Roedd gan hanner yr ymatebwyr amgylchedd dysgu penodol i'r ysgol ac roedd gan nifer bach o ysgolion eu mewnrwyd eu hunain. Yn y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud, roedd e-bost yn bwysig er mwyn anfon gwybodaeth at ddysgwyr a chyfathrebu'n rheolaidd â nhw.

**Ffigur 3.3: Technoleg i gefnogi dysgu ac addysgu**



### Apiau'r cwricwlwm

3.9 Roedd y defnydd a wnaed o apiau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm yn amrywio o ysgol i ysgol. Rhestrodd rhai fwy na 17 o enghreifftiau. Mae'r tabl isod yn dangos meysydd dysgu a gefnogwyd gan yr apiau. Roedd pwyslais sylweddol ar feysydd datblygu craidd llythrennedd, iaith, mathemateg a rhifedd. Hefyd, mewn perthynas â datblygu sgiliau digidol da, nodwyd amrywiaeth dda o apiau codio.

**Tabl 3.1: Apiau'r cwricwlwm fesul maes.**

| Maes | Apiau |
|---|---|
| Llythrennedd ac Iaith | Pages, Puppet Pals, Office, Hoff Ganeuon Selog, Hoff Lyfrau Selog, Oxford Reading Buddies, Myon, Spelling Shed, DuoLingo, Nessy, Spelling Frame, Google Translate, Say Something in Welsh, Shark, Word, Epic |
| Mathemateg a Rhifedd | Numbers, Office, Mathswatch, My Maths, Mathletics, BigMaths, Times Tables Rockstar, White Rose Maths, Sumdog |
| Creadigrwydd | Doodle Buddy, Padlet, Espresso, ChatterPix, iMovie, Minecraft Education, Garageband, Bitmoji |
| Codio | Bee Bot, Kodable, Purple mash, Scratch, Logo |
| Cyffredinol | Microsoft Office, Google Classroom, Google Drive, See-Saw, Quizlet, Kahoot, Keynote, Youtube, Show My Homework (Satchel One), Hwb |

### Myfyrdodau ar brofiad y dysgwr: Mawrth 2020 – Tachwedd 2020

3.10 Fel yn achos unrhyw amgylchedd dysgu, gwnaeth y dysgwyr ymgysylltu mewn gwahanol ffyrdd. Roedd rhai yn gweld eisiau amgylchedd yr ysgol a'r cyswllt cymdeithasol â ffrindiau. Dywedodd un athro fod y dysgwyr, pan wnaethant ddychwelyd i'r ysgol, yn gwerthfawrogi'r cyswllt, yr adnoddau a'r amgylchedd.

3.11 Codwyd pwysigrwydd deall y gwahanol fathau o ddysgwr a'r angen am amrywiaeth o dasgau.

> ‘...roedd angen (i ddysgwyr gael) yr amrywiaeth o dasgau a'r ymreolaeth i ddewis... roedd mwy o ymgysylltu pan oeddent yn gallu dewis lefel yr her ac, yn aml, byddent yn gwthio eu hunain i gyrraedd lefel uwch.’

3.12 Cyfeiriodd ysgolion at y cynnydd cadarnhaol a wnaed oherwydd yr adnoddau dysgu o bell.

> ‘Mae bron pob disgybl Bl1-Bl6 wedi setlo yn ôl yn yr ysgol. Yn ystod y dysgu o bell, dywedodd y mwyafrif o'r dysgwyr mai gweithgareddau mathemateg a darllen yr oeddent wedi'u cwblhau yn bennaf. Mae hyn yn amlwg o'r safonau a welwyd. Mae llawer o blant a gafodd gymorth gartref wedi gwneud y cynnydd disgwyliedig o ran darllen. Mae sgiliau celf... wedi gwella ar y cyfan. Mae pob dysgwr wir yn mwynhau bod allan yn yr awyr agored.’

3.13 Cafodd mynediad at dechnoleg effaith ar b'un a oedd y profiad yn un cadarnhaol ai peidio ac roedd heriau, yn enwedig os oedd mwy nag un brawd neu chwaer gartref. Roedd cymorth rhieni yn allweddol hefyd:

> ‘Roedd yn dibynnu'n gyfan gwbl ar ymgysylltiad rhieni ar gyfer fy nosbarth oherwydd ni allai'r dysgwyr gael mynediad yn annibynnol. Dywedodd un rhiant a roddodd gymorth fod y plant wedi mwynhau'r gweithgareddau ond y byddai'n well gan bob un ohonynt fod yn yr ysgol ac y byddent yn cael mwy o fudd o ddysgu wyneb yn wyneb.’

> ‘Rwy'n credu bod dysgu o bell wedi gweithio'n dda i ddisgyblion â rhieni cefnogol.’

> ‘Am nad oeddent yn yr ystafell ddosbarth, rwy'n credu bod y rhan fwyaf o blant heb gymorth cryf gan eu rhieni yn ei weld fel dewis.’

### Ymatebion i'r newid i ddysgu o bell

3.14 Drwy ddadansoddi'r data cychwynnol a gasglwyd, nodwyd pedair thema mewn perthynas â'r newid i ddysgu o bell: Cadw mewn cysylltiad â dysgwyr agored i niwed; ymgysylltu; mynediad at dechnoleg a chymorth rhieni.


**Tabl 3.2: Ymateb i'r newid i ddysgu o bell**

| Thema | Enghraifft |
|---|---|
| Cadw mewn cysylltiad â dysgwyr agored i niwed | 'Plant bregus yn derbyn galwadau ffon yn wythnosol. Os nad oes plant yn ymgysylltu galwadau wythnosol' |
| Ymgysylltu | 'Cymerodd tua hanner ein disgyblion ran mewn dysgu o bell yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud.'<br>'Amrywiol – gwnaeth rhai ei groesawu ond roedd yn anodd ymgysylltu ag eraill.'<br>'tua 70% yn fras'<br>'Ar y dechrau, byddai llawer o ddisgyblion yn cwblhau gwaith a osodwyd, ond lleihaodd y nifer i raddau helaeth tua'r diwedd.'<br>'Da iawn ar y dechrau'<br>'Roedd rhai disgyblion yn ei chael hi'n anodd gweithio gartref'<br>'Roedd yr ymgysylltu'n wael i ddechrau.' |
| Mynediad at Dechnoleg | 'Roedd y rhai a oedd â'r dechnoleg a rhyngrwyd effeithiol yn gadarnhaol iawn.'<br>'Llawer o broblemau cychwynnol.' |
| Cymorth Rhieni | 'Ymatebol iawn. Gwnaeth y mwyafrif o'r rhieni helpu a chefnogi eu plant i ddysgu, a chadw mewn cysylltiad â mi.<br>'Roedd rhai yn rhagweithiol iawn... yn aml yn dibynnu ar yr amser a oedd ar gael i'r rhieni helpu ac ymgyfarwyddo â'r adnoddau'<br>'Roedd llawer o rieni'n dweud ei bod yn rhy anodd cael eu plentyn i wneud y gwaith gartref.'<br>'Cefnogol a gwerthfawrogol iawn'<br>'Rydym bellach yn taro cydbwysedd rhwng annog rhieni'n gadarn i gefnogi eu plant gartref a'r angen i fod yn ymwybodol o bwysau a straen gartref.' |

**Cynnal lefelau ymgysylltu**

3.15 Roedd 16 allan o 24 o ymatebwyr o'r farn bod y mwyafrif o'r dysgwyr wedi ymgysylltu â dysgu o bell ond roedd pob un yn cydnabod yr her o gynnal lefelau ymgysylltu.

**Ffigur 3.4: Cynnal lefelau ymgysylltu**




**Cyfathrebu â Dysgwyr a Rhieni**

3.16 Roedd cyfathrebu â dysgwyr a rhieni yn flaenoriaeth allweddol i ysgolion a defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau gweithredu. Y mwyaf poblogaidd oedd galwadau ffôn, negeseuon testun a'r cyfryngau cymdeithasol. Ar ôl hynny roedd e-bost a defnyddio gwefan yr ysgol. Lluniodd 11 o'r ymatebwyr gylchlythyr ysgol hefyd. Hefyd, defnyddiodd ysgolion apiau fel Class Dojo, See Saw, Teams a Google Classroom. Cyfeiriodd rhai ysgolion at bwysigrwydd cyfathrebu'n rheolaidd ac yn aml â dysgwyr a rhieni. Roedd 12 o'r ymatebwyr yn cadw mewn cysylltiad â dysgwyr yn ddyddiol. Roedd pump yn gwneud hynny fwy nag unwaith yr wythnos, pump yn wythnosol ac un bob pythefnos yn dibynnu ar anghenion teuluoedd.

**Beth oedd yn effeithiol yn ystod y cyfnod: Mawrth 2020 – Tachwedd 2020?**

3.17 O'r ymatebion ansoddol, daeth pum thema i'r amlwg mewn perthynas â'r hyn a oedd yn effeithiol: Cyfathrebu'n bersonol â dysgwyr a rhieni; cynnal lefelau ymgysylltu; deall anghenion dysgwyr a rhieni; defnyddio technoleg i gefnogi'r dysgu a defnyddio technoleg i gefnogi staff a rhieni.

**Tabl 3.3: Beth oedd yn effeithiol?**

| Thema | Enghraifft |
|---|---|
| Cyfathrebu'n bersonol â dysgwyr a rhieni | 'Sgwrs reolaidd â'r dysgwyr'<br>'Cynnig cymorth yn aml ar gyfer agweddau ehangach ar ddysgu a datblygu'<br>'Trafodaeth barhaus â rhieni/dysgwyr er mwyn gosod tasgau'<br>'Adborth unigol ar waith a chyswllt dyddiol â rhieni drwy Class Dojo'<br>'Cyfathrebu er mwyn gwella lles' |
| Cynnal Lefelau Ymgysylltu | 'Amrywio'r mathau o weithgareddau er mwyn cynnal diddordeb a lefelau ymgysylltu'<br>'Gweithgareddau ysgol gyfan, e.e. fideo staff pasio'r enfys a oedd yn ysbrydoliaeth i lawer o weithgarwch ymhlith y disgyblion'<br>'Casglu, arddangos a dathlu gwaith ar-lein er mwyn annog cyfranogiad'<br>'Adborth cyson ar waith a gyflwynwyd'<br>'Bydd disgyblion yn ymgysylltu'n well pan fyddant yn gallu gweld wyneb eu hathro' |
| Deall anghenion dysgwyr a rhieni | 'Defnyddio'r hyn a oedd wedi cael ei ddysgu'n flaenorol yn y dosbarth ac adnoddau roedd y plant eisoes yn gyfarwydd â nhw'<br>'Tasgau penagored roedd y dysgwyr yn gallu eu cwblhau mewn arddull dysgu a oedd yn addas i'w hamgylchiadau/cymorth'<br>'Cynnig dewisiadau o fewn y gweithgareddau a oedd yn ystyried pa adnoddau a allai fod ar gael i'r dysgwyr a'u teuluoedd, gan gynnig opsiynau amgen hygyrch a defnyddio gwrthrychau pob dydd a threfn arferol'<br>'Anfon amlinellau manylach ynghyd â'r amlinellau bras o'r gweithgareddau er mwyn helpu rhieni â lefelau gwahanol o ddealltwriaeth'<br>'Ymweliadau cartref er mwyn dosbarthu deunyddiau i deuluoedd mewn sefyllfa fregus'<br>'Darparu tasgau ar bapur ac ar-lein fel y gall pawb gael gafael arnynt' |
| Defnyddio technoleg i gefnogi'r dysgu | 'Gwell defnydd o Google Classroom'<br>'Cyflwyno Dysgu Byw o ddisgyblio'<br>'Seesaw yn ystod y cyfyngiadau i rannu gwaith'<br>'Diwrnod mabolgampau rhithwir' |

| | |
|---|---|
| | ‘Addaswyd y dulliau I ddefnyddio Teams/assignments o fewn Hwb yn hytrach na godos Gwaith o few Ffieliau’<br>‘Athrawon...yn ateb cwestiynau drwy'r cyfleuster sgwrsio yn Teams’<br>‘Crëwyd tîm ar gyfer pob dosbarth’ |
| Defnyddio technoleg i gefnogi staff a rhieni | ‘Cyfarfodydd Zoom fel ysgol gyfan i egluro'r disgwyliadau’<br>‘Cyfarfodydd Zoom/Teams i deulu cyfan yr ysgol gadw mewn cysylltiad a theimlo'n rhan o gymuned yr ysgol’<br>‘Rhoi benthyg dyfeisiau i bob cartref’ |

**Yr heriau a oedd yn gysylltiedig ag addysgu o bell: Mawrth 2020 – Tachwedd 2020**

3.18 Yn sgil y newid cyflym hwn, daeth nifer o heriau i'r amlwg i ysgolion ac maent wedi'u clystyru'n seiliedig ar y themâu a nodir yn nhabl 3.4

**Tabl 3.4: Yr heriau a wynebai ysgolion**

| Her | Enghreifftiau |
|---|---|
| Mynediad at Dechnoleg | ‘Rhaid cael cysylltiad we da’<br>‘Angen mwy o galedwedd o fewn Ysgol’<br>‘Cysylltiad cyfyngedig â'r rhyngrwyd’<br>‘Problemau wi-fi ardal wledig’<br>‘Sicrhau bod gan deuluoedd difreintiedig offer i allu manteisio ar ddysgu ar-lein’ |
| Dysgu ac addysgu | ‘Mae newid yn ôl i ddull “sialc a siarad” yn hytrach na bod yn rhan o sgwrs ddysgu wedi achosi anawsterau o ran gwneud sesiynau mor ysgogol a sicrhau bod y disgyblion yn cwblhau tasgau’<br>‘Dim modd mesur faint o gynnydd y mae'r dysgwyr wedi'i wneud’ |
| Llwyth gwaith | ‘Bod “ar ddyletswydd”.’<br>‘Teimladau/pwysau ychwanegol yn ymwneud ag atebolrwydd’ |
| Rhieni | ‘Diffyg cefnogaeth rhieni’<br>‘Anodd cynllunio ar gyfer cynifer o amgylchiadau teuluol gwahanol’<br>‘Cael teuluoedd anos eu cyrraedd i ymgysylltu’ |

| | |
|---|---|
| | 'Dealltwriaeth rhieni o sut i ddefnyddio'r llwyfannau dysgu' |
| Ymgysylltu | 'Diffyg ymgysylltu' |
| | 'Byddai dysgwyr nad oeddent yn awyddus i ymgysylltu/cwblhau tasgau yn honni bod problemau gyda'r feddalwedd' |
| | 'Mynd ar ôl rhieni/disgyblion i hybu lefelau ymgysylltu' |

**Dysgu proffesiynol a datblygiad personol o fewn dysgu cyfunol a dysgu o bell**

*Cyn y cyfyngiadau symud ym mis Mawrth 2020*

3.19 Nid oedd saith ymatebydd wedi ymgymryd ag unrhyw ddysgu proffesiynol ar ddefnyddio dysgu gyda chymorth technoleg cyn y cyfyngiadau symud cyntaf a chyfeiriwyd at 'ddysgu wrth inni fynd yn ein blaenau' a hefyd at 'brofi a methu'. Soniodd rhai o'r ymatebwyr am hyfforddiant mewnol a rhannu arbenigedd. Cafwyd rhywfaint o hyfforddiant ar ddefnyddio Teams, Google Classroom. Soniodd un ysgol am y cyfle i gymryd rhan mewn cyrsiau ar-lein. Teimlai dwy ysgol eu bod mewn sefyllfa dda am fod ganddynt staff TGCh profiadol yn yr ysgol sy'n rhoi hyfforddiant mewnol. Gwnaed dau gyfeiriad at y canllawiau sydd ar gael ar Hwb.

*Yn ystod y cyfnod o fis Mawrth 2020 tan fis Tachwedd 2020*

3.20 Yn arbennig ar ddechrau'r cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud, trodd ysgolion at gyngor a chymorth o fewn eu hysgolion eu hunain. Roedd 17 allan o'r 24 o ymatebwyr o'r farn bod y rhan fwyaf o'r cyngor a'r cymorth yn dod o'r tu mewn i'r sefydliad. Roedd 11 o'r ymatebwyr wedi defnyddio cyngor a chymorth gan eu consortia. Ymhlith y ffynonellau eraill roedd SAUau partner ac awdurdodau lleol ond bach oedd y niferoedd. Gofynnwyd i'r ymatebwyr am anghenion dysgu proffesiynol penodol yn seiliedig ar y profiad hwn. Roedd 13 yn awyddus i ddatblygu mewn dulliau dysgu estynedig drwy dechnoleg, roedd 12 yn awyddus i archwilio sut y gellid cynnwys dysgu cyfunol yn y cwricwlwm ac roedd gan chwech ddiddordeb mewn creu cymunedau dysgu. Dywedodd 17 fod y profiad wedi gwneud iddynt feddwl am y ffordd y byddant yn defnyddio technoleg yn y dyfodol.

**Gwersi a ddysgwyd: Mawrth 2020 – Tachwedd 2020**

3.21 Gofynnwyd i'r ymatebwyr fyfyrio ar yr hyn a ddysgwyd o'u profiad.

**Tabl 3.5: Gwersi allweddol o fis Mawrth 2020 tan fis Tachwedd 2020**

| Thema | Enghreifftiau |
|---|---|
| Datblygu dysgwyr annibynnol | ‘Mwy o hyfforddiant i ddisgyblion yn yr ysgol ar gael gafael ar waith ar-lein yn annibynnol’<br>‘Roedd angen i'r disgyblion gael gwaith y gallent ei gwblhau ar eu pen eu hunain’ |
| Annog dysgwyr i ymgysylltu | ‘Bydd disgyblion yn ymgysylltu'n well pan fyddant yn gallu gweld wyneb eu hathro’<br>‘Mae'r disgyblion yn gwneud yn well yn yr ysgol’<br>‘Pwysigrwydd adborth effeithiol a rhyngweithio’ |
| Dulliau dysgu hyblyg | ‘Pwysigrwydd cynnig dewisiadau amgen er mwyn gwella mynediad a chynhwysiant’<br>‘Cynnig cynifer o adnoddau â phosibl i blant a rhieni’ |
| Technoleg | ‘Roedd y disgyblion yn rhagori mewn defnyddio sgiliau digidol’<br>‘Roedd mynediad at ddyfeisiau yn broblem’ |
| Rôl rhieni | ‘Gwell dealltwriaeth o flaenoriaethau rhieni’<br>‘Dim ond y rhai â rhieni cefnogol sy'n ymgysylltu’<br>‘Anodd i rai rhieni ymdopi â dysgu gartref/gweithio gartref’<br>‘Nid oedd gan bob rhiant amser i fod yn gefnogol’<br>‘Mae gan y rhieni ddigon o wybodaeth a chymorth i gefnogi eu plant’ |
| Iechyd a lles | ‘Roedd y disgyblion yn gweld eisiau cyswllt â'u ffrindiau a'u hathrawon’<br>‘Roedd gofalu am les y disgyblion a'r rhieni yn ffactor enfawr’<br>‘Ni fydd pob rhiant yn pwyso ar eu plant i gwblhau gwaith – lles ac iechyd oedd o bwys iddyn nhw’<br>‘Roedd teuluoedd yn gwerthfawrogi'r gweithgareddau teuluol a oedd yn canolbwyntio ar ddysgu yn yr awyr agored a lles’<br>‘Mae plant yn addasu'n gyflym’<br>‘Lles a llesiant’ |
| Dysgu Proffesiynol | ‘Sgiliau technoleg gwell na'r disgwyl’<br>‘Peidiwch â bod ofn gwthio'r ffiniau’<br>‘Rwy'n llawer mwy gwydn wrth ddysgu sgiliau newydd’<br>‘Sut i ddefnyddio amrywiaeth ehangach o feddalwedd’<br>‘Adfyd a ddaw â chyfleoedd yn ei law’<br>‘Mae angen amser i uwchsgilio staff’ |

**Beth yw'r goblygiadau i ddatblygu athrawon newydd?**

3.22 Mae dau o'r cwestiynau ymchwil yn canolbwyntio ar yr hyn y gallwn ei ddysgu ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon a gofynnwyd i'r ymatebwyr fyfyrio ar yr hyn y gallwn ei ddysgu o'r profiad hwn ar gyfer datblygu athrawon newydd. Nodwyd y meysydd canlynol: Sut i gyfuno dysgu gartref ac yn yr ysgol; Rhoi adborth o bell; Diogelu a dysgu ar-lein; Hyder mewn gwahanol fodelau dysgu cyfunol; Cyfle i weithio gyda gwahanol lwyfannau dysgu; Annog dysgwyr i ymgysylltu; Meddwl yn greadigol am ffyrdd y gall technoleg gefnogi'r dysgu; Deall anghenion dysgwyr; Defnyddio technoleg mewn ffyrdd a arweinir gan addysgeg.

## Crynodeb

**Ffigur 3.5: Crynodeb o ganfyddiadau cychwynnol yr arolwg**

A oes gwahaniaeth rhwng dealltwriaeth gwahanol ysgolion o ddysgu cyfunol?

- Dehongliadau gwahanol o’r termau
- Amrywiaeth o ddulliau gweithredu yn cael eu defnyddio
- Defnydd o dermau yn gyfnewidiadwy

Beth a ddarparwyd gan wahanol ysgolion o ran dysgu cyfunol a dysgu o bell yn ystod COVID-19?

- Mae’r dadansoddiad cychwynnol yn dangos amrywiaeth o ddulliau gweithredu sy’n gysylltiedig â: gwybodaeth a phrofiad athrawon; mynediad i dechnoleg; anghenion dysgwyr

Beth oedd profiadau ysgolion arweiniol partneriaethau ac ysgolion partner o'r newid i ddysgu cyfunol?

- Gorfod gwneud penderfyniadau pragmatig mewn cyfnod byr
- Archwilio ffyrdd o gefnogi pob dysgwr
- Cromlin ddysgu gyflym
- Llwyth gwaith athrawon
- Caiff yr iaith a ddefnyddiwyd i ddisgrifio’r profiad ei dadansoddi

Pa dystiolaeth sydd ar gael o arferion da wedi'u haddasu?

- Defnyddio apiau sydd ar gael yn hawdd i gefnogi dysgu
- Cyfathrebu â rhieni a disgyblion
- Datblygu dulliau gweithredu dros y cyfnod

| | |
|---|---|
| Beth yw'r heriau sy'n gysylltiedig â darparu dysgu cyfunol? | • Anghenion dysgu proffesiynol<br>• Llwyth gwaith athrawon<br>• Ymwybyddiaeth o ddulliau gweithredu y gellid eu defnyddio<br>• Mynediad i dechnoleg<br>• Mynediad i adnoddau<br>• Gwahaniaethau rhwng y sectorau ynghylch materion fel diogelu<br>• Cymorth i rieni |
| Sut y gall SAUau baratoi myfyrwyr i addysgu mewn amgylchedd dysgu cyfunol? | • Modiwlau mewn addysgeg arloesol a chreadigol<br>• Archwilio ffyrdd o ddefnyddio technoleg yn yr ystafell ddosbarth<br>• Meithrin sgiliau mewn dulliau cydweithredol o ddysgu<br>• Cyfleoedd ar gyfer y prosiectau dysgu gweithredol gan ganolbwyntio ar ddulliau cyfunol |
| Pa dystiolaeth sydd ar gael o arferion da wedi'u haddasu? | • Defnydd arloesol o amrywiaeth o apiau<br>• Ymgysylltu â rhieni<br>• Cyfathrebu'n gyson â rhieni a disgyblion<br>• Datblygu dulliau gweithredu rhyngweithiol |
| Sut mae athrawon dan hyfforddiant yn cyfrannu at waith eu lleoliadau mewn ysgolion mewn cyd-destunau wyneb yn wyneb ac ar-lein? | • Ymgysylltu â phrosiectau dysgu gweithredol sy'n canolbwyntio ar ddulliau dysgu cyfunol a dysgu o bell<br>• Rhannu'r hyn a ddysgwyd am ffyrdd arloesol o ddefnyddio technoleg yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt<br>• Gweithredu fel ymgynghorwyr ar ddysgu estynedig drwy dechnoleg |

# 4. Canfyddiadau: Llais Rhieni

### Cyflwyniad

4.1 Casglwyd data ar lais rhieni o ysgolion yr astudiaethau achos yn y tair partneriaeth AGA a oedd yn rhan o'r prosiect hwn (Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Glyndŵr) naill ai drwy arolwg wedi'i deilwra i rieni neu drwy ddata arolwg a roddwyd gan ysgolion.

4.2 Roedd yr ymatebion gan rieni yn cynnwys amrywiaeth eang o grwpiau oedran (ac roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr rhwng 30 a 60 oed), ac roeddent hefyd yn cynnwys rhieni disgyblion o bob oed (cynradd ac uwchradd) a dosbarthiad teg mewn perthynas â chategorïau rhywedd.

4.3 Mae'r holl ddata ar rieni wedi cael eu coladu yn yr adran hon a chaiff y canfyddiadau eu cyflwyno isod a'u trefnu yn ôl themâu. Mae'r themâu a nodir ac a drafodir yn y naratif canlynol i'w gweld yn nhabl 9.Mae'n dilyn yr un patrwm adrodd ag a ddefnyddiwyd â setiau data eraill a gasglwyd ar gyfer y prosiect hwn.

**Tabl 4.1: Themâu o'r Arolygon i Rieni**

| | **Themâu** | **Is-thema** |
|---|---|---|
| 1 | TG – heriau | Cysylltedd |
| | | Caledwedd |
| 2 | Darpariaeth i ddysgwyr | Llwyfannau a ddefnyddiwyd |
| | | Cyfathrebu â disgyblion/rhieni |
| | | Amserlen |
| | | Gweithfan |
| | | Lles disgyblion |
| | | Disgyblion agored i niwed |
| 3 | Effaith ar rieni | Llwyth gwaith rhieni |
| | | Hyder rhieni |
| 4 | Lefelau ymgysylltu disgyblion | Cymhelliant |
| | | Dysgu annibynnol |

### Heriau TG

4.4 Roedd y prif broblemau technolegol (a nodwyd gan rieni) yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, broblemau cysylltedd (cyfeiriodd tua hanner y rhieni at broblem barhaus yn ymwneud â chysylltedd), llwyfannau'n methu ag ymdopi, pwysau ar gysylltedd yn y cartref am fod angen i fwy nag un aelod o'r aelwyd ddefnyddio'r rhyngrwyd a diffyg caledwedd briodol.

### Cysylltedd

4.5 Roedd problemau yn ymwneud â chysylltedd yn bryder ac yn broblem fawr i sawl rhiant.Er bod problem benodol mewn ardaloedd gwledig, roedd problemau i'w gweld mewn ardaloedd trefol hefyd. Ni allai rhai rhieni fforddio mynediad at wi-fi ac roeddent yn dibynnu ar geisio defnyddio ffonau symudol.

> ‘Mae cryfder y wi-fi yma yn wan ar y gorau ond roedd yn arbennig o wael yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud.’(Rhiant, A1)

> ‘Rhyngrwyd gwael mewn ardaloedd gwledig.’ (Rhiant, A1)

> ‘Mae'r rhyngrwyd yn ansefydlog iawn.’(Rhiant, A4)

> ‘Mae gennym broblemau mawr gyda'r rhyngrwyd. Nid yw'n gweithio gan amlaf, ac wedyn pan fydd yn gweithio o bryd i'w gilydd bydd yn boenus o araf.’ (Rhiant, A1)

> ‘Yn lleol rydym yn dal i ddefnyddio gwifrau copr – nid ffibr, felly gall y cysylltiad fod yn wan ac yn ysbeidiol. Mae'r lled band yn aml yn gyfyng.’ (Rhiant, A4)

4.6 Er mwyn gwella cysylltedd, cyfeiriodd sawl rhiant hefyd at y gost ychwanegol sy'n gysylltiedig ag uwchraddio eu cysylltiad band eang. Er bod hyn yn opsiwn dichonadwy i rai rhieni, roedd yn rhoi pwysau ychwanegol ar eraill.

> ‘Uwchraddiais fy ffibr am fod angen i'r tri ohonom ddefnyddio Teams yn ystod y dydd.’ (Rhiant, A4)

‘Mae cyflymder y rhyngrwyd yn ofnadwy yn ein hardal felly mae'n rhaid inni ddod o hyd i'r arian ychwanegol i geisio cael band eang ffibr.’ (Rhiant, A1)

4.7 Hefyd, nododd nifer o rieni eu bod wedi cael problemau wrth ddefnyddio'r llwyfannau ar-lein eu hunain a bod y llwyfannau (oherwydd cynnydd mewn defnydd) yn methu ag ymdopi â'r niferoedd ychwanegol,

‘Nid wyf yn credu y gall Microsoft Teams ymdopi â nifer y plant sydd arno.’ (Rhiant, A4)

‘Roedd popeth yn chwalu drwy'r amser’ (Rhiant, A1)

‘Weithiau, byddai'n methu ag ymuno â chyfarfod, neu byddai'n llwyddo i ymuno ac yna byddai'n diflannu. Holais dechnegydd TG yr ysgol am hyn ac roedd cystal ag y gallai fod. Roedd y tarfu'n digwydd am fod y rhwydwaith/Teams yn cael ei orlwytho ar adeg benodol, fwy na thebyg.’ (Rhiant, A1)

‘Cafodd drafferth wrth geisio cadw a chyflwyno tasgau a bu'n rhaid iddo eu hail-wneud, a oedd yn ddigon i dorri ei ysbryd gan ei fod wedi gweithio'n galed i gymryd rhan a gwneud y gwaith.’ (Rhiant, A4)

4.8 Un broblem ychwanegol a nodwyd yn aml gan rieni ac sydd hefyd yn gysylltiedig â chysylltedd yw achosion lle roedd angen i fwy nag un aelod o'r aelwyd ddefnyddio'r rhyngrwyd ar yr un pryd, a oedd yn cael effaith sylweddol ar gyflymder a hygyrchedd band eang, gan ychwanegu at rwystredigaethau rhieni yn aml.

‘Am fod rhieni'n gweithio gartref a brodyr neu chwiorydd hefyd yn cael addysg gartref, ni allai'r rhyngrwyd ymdopi â'r galw ar adegau.’ (Rhiant, A1)

‘Pan oedd [y rhyngrwyd] yn [gweithio], roedd ei angen arnaf ar gyfer fy ngwaith, felly roedd hynny'n creu llawer o broblemau.’

‘Mae chwe pherson yn ceisio defnyddio'r cysylltiad â'r rhyngrwyd yn ein cartref ac nid yw hynny'n gweithio ar adegau.’ (Rhiant, A1)

‘Mae gen i dri o blant y mae angen iddynt ddysgu ar-lein, rwy'n fyfyrwraig fy hun ac yn mynychu darlithoedd byw ar Zoom ac wedyn o bryd i'w gilydd bydd fy ngŵr yn gweithio gartref. Mae'r rhyngrwyd yn wael iawn ac rwy'n byw mewn tref! Rhaid i rywbeth ildio’ (Rhiant, A3)

**Caledwedd**

4.9 Problem gyffredinol arall oedd mynediad at galedwedd briodol. Cyfeiriai'r rhieni yn aml at yr angen i fenthyca neu brynu caledwedd ychwanegol ac roedd hyn hefyd yn broblem arbennig i'r rhai â sawl plentyn ar yr un aelwyd. Roedd rhai rhieni wedi prynu bysellfyrddau ar gyfer PlayStation fel y gallai plant fynd ar-lein.

‘Ryden ni wedi gorfod prynu gliniadur ail-law i'n plentyn. (Eitem ddrud annisgwyl)’ (Rhiant, A1)

‘Rydym yn ffodus ein bod mewn sefyllfa lle y gallwn gynnig gliniadur i'r ddau blentyn. Ni all pob teulu wneud hynny ac mae'n rhaid bod hynny'n rhoi pwysau ofnadwy arnynt, oherwydd dylai'r ddau blentyn ddysgu ar yr un pryd’ (Rhiant, A1)

‘Gwnaethom ddefnyddio'r PlayStation â bysellfwrdd!’ (Rhiant, B2)

‘Gwnaethom lwyddo i gael benthyg un gliniadur gan yr ysgol. Mae'n anodd allgofnodi un plentyn a mewngofnodi'r nesaf o un cyfarfod i'r llall, yn ogystal â chwblhau gwaith, gan fod angen llawer o gymorth a chefnogaeth ar un ohonynt.’ (Rhiant, A5)

‘Wedi cael benthyg gliniadur gan yr ysgol. Roedd yn gwrthod cysylltu â'r rhyngrwyd. Bu'n rhaid cysylltu drwy ether-rwyd ac nid yw hynny'n dda iawn.’ (Rhiant, A4)

‘Dim ond un cyfrifiadur sydd gennym, ac roedd ei angen arnaf ar gyfer fy ngwaith.’(Rhiant, A1)

Bu'n rhaid imi brynu pedwar gliniadur fel y gallent gwblhau'r gwaith.’ (Rhiant, A1)

‘Un gliniadur rhwng dau blentyn!’ (Rhiant, A3)

4.10 Hefyd, soniodd sawl un am eu plant yn ceisio cael gafael ar y cynnwys ar ddyfais symudol am nad oedd y galedwedd briodol ar gael iddynt,

‘Roedd fy mab yn gallu defnyddio Teams ar ffôn symudol, ond nid oedd yn ddelfrydol, a hefyd ni fyddai dolenni'n agor.’ (Rhiant, A1)

‘Nid yw edrych ar sgrin fach (ar ffôn symudol) drwy'r dydd yn ddelfrydol.’ (Rhiant, A1)

4.11 Hefyd, cyfeiriodd sawl rhiant at broblemau wrth argraffu taflenni gwaith a chael gafael ar adnoddau priodol. Yn yr achosion hyn, roedd llawer o ysgolion wedi danfon neu bostio deunyddiau at deuluoedd.

‘Nid oedd gen i gyfleusterau argraffu.’ (Rhiant, A4)

‘Roedd yn anodd argraffu'r taflenni gwaith am fod cynifer ohonynt. Un diwrnod, roedd bron 20’ (Rhiant, A4)

‘Nid wyf yn fedrus iawn yn dechnegol felly mae dysgu ar-lein yn anodd imi.’(Rhiant, A4)

**Darpariaeth/profiad dysgu – Llwyfannau a ddefnyddiwyd i'w cynnig ar-lein**

4.12 Cyfeiriodd y rhieni at amrywiaeth o lwyfannau/rhaglenni ar-lein ac adnoddau a ddefnyddiwyd ac a ddarparwyd gan ysgolion yn ystod cyfnodau'r cyfyngiadau symud. Ymhlith y rhan roedd llwyfannau a ddefnyddiwyd ar gyfer addysgu ar-lein byw, h.y. Zoom a Teams; paratoi mathau amrywiol o ddeunydd wedi'i recordio; defnyddio meddalwedd ar-lein, h.y. Flipgrid, Just2Eeasy, SeeSaw; defnyddio e-bost a llwyfannau negeseua a hyd yn oed anfon deunyddiau a gweithgareddau dysgu drwy'r post. Mewn un ysgol, cafodd y rhieni gymorth i ddefnyddio SeeSaw cyn COVID-19 ac roeddent yn hyderus yn defnyddio'r ap.

4.13 Yn unol â'r cyfeiriad uchod, dywedodd rhieni hefyd fod ysgolion wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu i gefnogi disgyblion yn ystod y

cyfnod pan oedd addysgu ar-lein yn digwydd. Ymhlith y dulliau cyfathrebu roedd e-bost, llwyfannau negeseua (Class Dojo, Show My Homework, Parentmail), galwadau ffôn a chanllawiau ar-lein i rieni.

**Cyfathrebu â disgyblion/rhieni**

4.14 Roedd pa mor aml y byddai ysgolion yn cyfathrebu â disgyblion gartref yn amrywio, gyda rhai ysgolion mewn cysylltiad rheolaidd â'r cartref i bob golwg, 'gallem ffonio'r ysgol unrhyw bryd a byddai'r athrawon yn ffonio ddwywaith yr wythnos', ond nododd rhieni eraill na chysylltodd yr ysgolion â nhw o gwbl yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud, 'dim cyfathrebu o gwbl ynglŷn â'm plentyn, dim ond rwtsh am yr Urdd ac ati.' Dywedodd rhai rhieni eu bod wedi cael eu hannog i ymuno yng ngalwad lles eu plentyn a'u bod yn teimlo bod eu lles nhw yr un mor bwysig i'r ysgol â lles y plentyn.

4.15 Nododd ambell riant fod y lefel o gyfathrebu a darpariaeth ar gyfer dysgwyr ar ddechrau'r cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud yn isel ond bod hyn wedi gwella wrth i'r cyfnod fynd yn ei flaen,

> '...dim byd ar gyfrifiadur tan yn llawer hwyrach, wedyn newidiodd y system dair gwaith. Anodd deall beth roedd disgwyl i'ch plentyn ei wneud erbyn hynny. Dim mynediad i Hwb; cymerodd saith wythnos i roi'r disgyblion ar ben ffordd.' (Rhiant, A3)
>
> 'Mae'r ysgol wedi defnyddio sawl llwyfan digidol a gwefan i ddosbarthu gwaith. Mae wedi bod yn anodd deall ble i ddod o hyd i bethau neu ble i gyflwyno gwaith ysgrifenedig ar adegau.' (Rhiant, A3)
>
> 'Rhoddwyd un pecyn yn gynnar iawn yn y cyfnod o gyfyngiadau symud... Gwael iawn yn ystod y cyfnod.' (Rhiant, A3)
>
> 'Yn y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud roedd y gwaith a roddwyd yn gyffredinol a bu'n rhaid i mi fel rhiant benderfynu ar ba lefel roedd angen i'm plentyn weithio. E.e. gwaith a ddosbarthwyd drwy Twinkle.' (Rhiant, A4)

> ‘Byddai pecynnau'n cael eu hanfon i'r tŷ yn rheolaidd a'u danfon â llaw gan yr athro dosbarth’ (Rhiant, B1)

> ‘Darparwyd amrywiaeth o weithgareddau ond nid oedd yn amlwg faint a oedd yn ddisgwyliedig.’ (Rhiant, A3)

4.16 Hefyd, nododd sawl rhiant o gartrefi di-Gymraeg (yr oedd eu plant yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg) y byddai rhagor o gymorth yn Saesneg wedi bod yn fuddiol ac wedi'u galluogi i roi mwy o gymorth i'w plant wrth ddysgu gartref. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â chanfyddiadau eraill (gweler prosiect 3 am ddadansoddiad manylach o safbwyntiau rhieni ar hyn).

> ‘Ar gyfer y gwaith a ddarparwyd yn Gymraeg, nid oedd cyfieithiad Saesneg er mwyn imi allu helpu fy mhlentyn i ddeall y dasg yn iawn. Bu'n rhaid imi ddibynnu ar Google Translate, nad oedd yn effeithiol, ac atebodd fy mhlentyn gwestiynau yn anghywir oherwydd cyfieithu gwael.’ (Rhiant, A4)

> ‘Dim ond yn Gymraeg y cafodd y cyfarwyddiadau ar gyfer rhai tasgau eu darparu, a oedd yn anodd i rieni Saesneg eu hiaith!’ (Rhiant, A5)

> ‘Roedd fy merch ar yr ochr Gymraeg felly roedd yn anodd imi ei helpu i wneud ei gwaith gan nad wyf yn siarad Cymraeg.’ (Rhiant, A1)

4.17 Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hefyd yn cydnabod bod ysgolion wedi addasu'n gyflym, ac roeddent yn fodlon ar y cymorth a roddwyd ar y cyfan, yn enwedig wrth i amser fynd yn ei flaen gan eu bod o'r farn ei fod *wedi gwella'n fawr.*

> ‘Ni allaf gefnogi'r ysgol ddigon – roedd yn gefnogol iawn inni i gyd fel teulu’ (Rhiant, A4)

> ‘Cawsom alwad ffôn neu ddwy gan yr ysgol ond gallem fod wedi cysylltu â'r ysgol drwy e-bost neu dros y ffôn pe bai gennym unrhyw broblemau’ (Rhiant, A5)

‘Teimlaf fod yr ysgol a’r athrawon wedi gwneud eu gorau i ddarparu gwaith i fy mhlant ar amser ble roedd pawb yn dygymod â dysgu sgiliau newydd.’ (Rhiant, A4)

‘Byddai'r gwaith bob amser yn cael ei esbonio'n glir gan ddefnyddio fideo ac esboniad ysgrifenedig. Amrywiaeth o weithgareddau ymarferol a rhai ysgrifenedig.’ (Rhiant, A5)

‘Ni allem fod wedi ymdopi heb gymorth yr ysgol – gwaith i'r plant, parseli bwyd pan oedd pethau'n anodd’

4.18 Hefyd, cytunai'r rhan fwyaf o'r rhieni fod yr amrywiaeth o dasgau a gweithgareddau yn briodol ac yn glir ond bod angen rhagor o arweiniad ar adegau

‘Ambell dasg gyda chyfarwyddiadau sydd ddim yn glir’ (Rhiant, A4)

4.19 Hefyd, gwnaed ambell gyfeiriad at ddiffyg adborth yn gyffredinol yn ystod y cyfnod cychwynnol hwn, heb ddim gwaith yn cael ei gyflwyno er mwyn ei farcio na rhoi adborth arno.

**Amserlen**

4.20 Pan ddaeth y cyfyngiadau symud i rym gyntaf, cyfeiriodd y rhieni at yr angen i roi rhyw fath o strwythur ar waith yn y cartref. Er mwyn cadw amserlen drefnus gartref, strwythurodd sawl rhiant y dysgu ar-lein o gwmpas y diwrnod ysgol,

‘gwnaethant gynnal y gwersi yn unol â'r amserlen arferol’ (Rhiant, A4)

‘Roedd y ddau blentyn mewn sesiynau byw rhwng 9 a 3.30’ (Rhiant, A4)

‘roedd yn bresennol ym mhob gwers a gwnaethom lynu wrth yr amserlen fel pe baent yn yr ysgol.’ (Rhiant, A3)

4.21 Dywedodd nifer o rieni eraill eu bod wedi creu eu hamserlenni eu hunain a oedd yn addas i'w anghenion eu hunain,

‘Roeddem yn hyblyg o ran trefnu gwaith ysgol o amgylch bywyd teuluol gan fod gennym fabi, ac yn dibynnu ar sut roedd fy mhlentyn yn teimlo.’ (Rhiant, A4)

‘Y ddau'n gweithio yn y bore, ond ar adegau gwahanol.’ (Rhiant, A1)

‘Roedd ganddi wers bob bore ar yr un amser ac wedyn byddem yn ceisio gwneud dau ddarn o waith bob dydd fel y cawsant eu gosod gan yr athro.’ (Rhiant, A5)

‘Wedi cadw at drefn yr ysgol ar gyfer y bore – wedyn rhoi'r ffidil yn y to ar ôl cinio am nad oedd digon o waith iddynt ei wneud.’ (Rhiant, A3)

‘Un plentyn yn y bore a'r llall yn y prynhawn.’ (Rhiant, A4)

‘Yn y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud, ar ôl disgwyl gwaith gan yr ysgol, gwnaethom baratoi ardaloedd gweithio iddynt ac roeddem yn disgwyl y byddent yn gweithio yn ystod oriau ysgol ond ni ddaeth ddim byd o'r ysgol felly gwnaethom ein gorau glas i osod tasgau iddynt ond ceisio eu hatal rhag chwarae oedd y nod yn y pen draw.’ (Rhiant, A4)

‘Ar ôl dechrau anffurfiol – a rhai prosiectau yn yr awyr agored – lluniais amserlen ar eu cyfer – yn debyg i un yr ysgol ond nid yn union yr un fath. Dechrau ychydig yn hwyrach – egwyl ychydig yn hwy – gan roi amser i ddyfrio'r planhigion a gwneud ychydig o ymarfer corff – gweddill sesiwn y bore – ar ôl cinio roedd yn amser cwblhau'r hoff bynciau – gyda'r plentyn ieuengaf yn gorffen yn gynharach.’ (Rhiant, A1)

‘Gwnaethom gymryd seibiannau a gwnaethom cystal ag y gallem’ (Rhiant, A1)

**Gweithfan yn y cartref**

4.22 Roedd sawl rhiant yn cydnabod yr angen i glustnodi gweithfan benodol wrth ddysgu/gweithio gartref am fod angen i bawb gael *lle i weithio*

‘Roedd gan y naill a'r llall ddesg a gliniadur yr un’ (Rhiant, A3)

‘Y plant mewn ystafelloedd ar wahân er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o bethau'n mynd â'u sylw’ (Rhiant, A3)

4.23 Fodd bynnag, cyfeiriodd llawer hefyd at yr angen i droi / dynodi gwahanol leoliadau o amgylch y tŷ (yn enwedig bwrdd y gegin) yn weithfannau ac roedd man cymunol hefyd yn allweddol mewn rhai achosion gan fod hyn hefyd yn eu galluogi i fonitro gweithgareddau eu plant,

‘Eisteddodd y naill a'r llall wrth fwrdd y gegin ar adegau gwahanol fel bod ganddynt le i weithio.’ (Rhiant, A4)

‘Roeddwn yn gweithio mewn ardal gymunol fel y gallwn gadw golwg arni am fod ei sylw'n gallu crwydro ac fel bod cymorth wrth law.Digonedd o le i weithio.’ (Rhiant, A1)

‘Fe wnaeth hi weithio mewn gwahanol lefydd yn y tŷ - roedd yn symud os oedd hi'n cael llond bol mewn lleoliad e.e. symud o fwrdd y gegin a rhoi bwrdd bach yn ffenest yr ystafell fyw.’ (Rhiant, A1)

‘Byddem yn gweithio wrth fwrdd y gegin er mwyn iddi wybod ei bod yn amser gwneud gwaith ysgol. Roedd sefydlu'r drefn honno o gymorth, i raddau.’ (Rhiant, A4)

4.24 Fodd bynnag, roedd ambell riant hefyd yn cydnabod ei bod yn anodd dod o hyd i weithfan briodol ar adegau,

‘Llawer o heriau wrth ddod o hyd i le tawel’ (Rhiant, A4)

‘Prin iawn o le’ (Rhiant, A4)

‘Roedd fy merch yn gweithio ar fy ngliniadur yn fy ngweithfan.’ (Rhiant, A4)

‘Rwy'n athro ac yn rhiant a dim ond hyn a hyn o amldasgio y gallwch ei wneud ac roedd yn anodd dod o hyd i le i wneud fy addysgu fy hun’ (Rhiant, B2)

**Lles**

4.25 Fel y nodwyd yn y setiau data eraill, roedd lles hefyd ar flaen meddyliau rhieni a gwnaethant geisio sicrhau bod eu plant hefyd yn cael cymorth yn hyn o beth. Yn aml, rhoddwyd blaenoriaeth i les ar draul yr angen i gwblhau tasgau academaidd.

> ‘Neb i oruchwylio, fodd bynnag, ac nid wyf yn fodlon gorfodi unrhyw beth chwaith am nad wyf am beryglu ei iechyd meddwl a'i les.’ (Rhiant, A4)

> ‘Roedd yn anodd iawn am ei fod yn gweld eisiau ei ffrindiau ysgol a'i drefn arferol.’ (Rhiant, A2)

> ‘Mae angen cofio mai plant yw'r rhain a dychmygu sut bydden ni (oedolion) wedi hoffi gwneud beth mae'r plant yn gorfod ei wneud rŵan). Plant a phobl ifanc ydyn nhw wedi'r cwbl - nid oedolion bach! Iechyd a lles yw popeth.’ (Rhiant, A1)

**Disgyblion agored i niwed**

4.26 Cyfeiriodd ambell riant hefyd at yr angen i gefnogi'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol ac roedd hyn yn heriol dros ben i nifer o rieni yn ystod y cyfyngiadau symud,

> ‘Oherwydd ei anghenion arbennig, roedd yn anodd sicrhau ei fod yn canolbwyntio.’ (Rhiant, A4)

> ‘Mae fy mab yn cael cymorth un i un fel arfer ac mae angen oedolyn yn bresennol er mwyn cwblhau'r rhan fwyaf o waith ysgrifenedig ar ei ran. Ddim yn ddelfrydol gan fod cymorth un i un fel arfer’ (Rhiant, A3)

> ‘Roedd yn anodd cefnogi fy mab dyslecsig ym mhob pwnc, oherwydd byddai'n rhaid imi ddysgu agweddau ar y gwaith yn gyntaf er mwyn ei helpu (yn ogystal â gweithio'n llawn amser).’ (Rhiant, A4)

> ‘Mae gan fy mhlentyn hynaf ADHD, sy'n gallu ei gwneud hi'n anos iddo ganolbwyntio ar geisio gweithio.’ (Rhiant, A4)

‘Mae fy mab yn derbyn ystod o ymyriadau gan amrywiaeth o arbenigwyr (lleferydd ac iaith, ffisiotherapi, nam ar y clyw ac ati) ac nid oes gen i'r profiad i wneud hyn.’ (Rhiant, A4)

‘Mae arnaf ofn anfon fy mhlentyn i'r ysgol ond ni allaf ddarparu'r hyn sydd ei angen gartref – mae angen iddo gael y cymorth arbenigol sydd ar gael iddo yn yr ysgol’

4.27 Mae rhagor o ffocws ar brofiadau dysgwyr a dysgwyr difreintiedig yn ystod y pandemig ar gael ym mhrosiectau ymchwil 2 a 7.

**Effaith ar rieni**

4.28 Ymgymerodd rhieni â rôl athrawon amser llawn yn ogystal â gofalwyr yn ystod cyfnodau'r cyfyngiadau symud, gan arwain at sawl her a phwysau ychwanegol ar rieni i gwblhau'r tasgau ar-lein a osodwyd ar gyfer eu plant,

‘Rwy'n weithiwr rheng flaen ac ni allaf eistedd gyda fy mhlentyn 14 oed yn ystod oriau ysgol.’ (Rhiant, A4)

‘Roeddwn yn ei chael hi'n anodd oherwydd fy anawsterau dysgu.’ (Rhiant, A1)

‘Roedd angen cymorth rhiant ar gyfer pob tasg. Byddai'n rhaid imi fynd drwy'r gwaith cyn y gallai fy mhlant ddechrau. Fi oedd yr athro, fel petai.’ (Rhiant, A3)

‘Roedd mab fy mhartner gyda fi ar y pryd hefyd, ac un a oedd newydd ddechrau yn y coleg. Ni allwn ymdopi â'r holl waith a anfonwyd gan yr ysgol felly trefnais fy amserlen fy hun, gan ddefnyddio'r gwaith ysgol fel sylfaen a gwneud y rhannau y gallwn eu gwneud gyda phob un ohonynt.’ (Rhiant, A3)

‘Cefais drafferth aruthrol gyda gwahanol i'w wneud gyda phob un... Yn y pen draw bu'n rhaid inni roi'r gorau iddi.’ (Rhiant, A1)

**Llwyth gwaith rhieni/cymorth gan rieni**

4.29 Un neges glir a chyson a ddaeth i'r amlwg drwy'r data ar rieni oedd bod addysgu eu plant gartref yn aml yn heriol ac, mewn rhai achosion, yn achosi mwy o bryder,

> ‘Llawer o straen’ / ‘Nid oeddem yn ymdopi :(’  (Rhiant, A1)

> ‘Y prif heriau oedd gallu (fel rhieni) gweithio gartref a rheoli ei ddysgu ar yr un pryd.’ (Rhiant, A5)

> ‘Rwy'n gweithio'n llawn amser felly roedd yn anodd cydbwyso fy ngwaith fy hun a gwaith fy mhlant ar adegau.’ (Rhiant, A3)

> ‘Mae angen cymorth arna i cymaint â fy mhlentyn ac mae gen i gymorth gan oedolion’ (Rhiant, B1)

4.30 Yn benodol, roedd sawl rhiant wedi'u gorlethu ac yn ei chael hi'n anodd dros ben ymdopi â'u gwaith eu hunain yn ogystal â helpu eu plant i ddysgu ar-lein,

> ‘Roedd angen i'r ddau fod ar-lein drwy'r dydd ac roedd angen cymorth i fynd drwy'r tasgau gyda nhw er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni cymaint â phosibl.’ (Rhiant, A1)

> ‘Yr her fwyaf oedd helpu pedwar plentyn a oedd yn gofyn am help ar yr un pryd os nad oeddent yn deall rhywbeth’ (Rhiant, A4)

> ‘[Roedd y cymorth] yn amrywio yn dibynnu ar yr hyn roedd angen ei wneud allan ar y fferm’ (Rhiant, A4)

> ‘Roedd bron yn amhosibl i'r plant i gyd weithio ar wahanol lefelau wrth yr un bwrdd’ (Rhiant, A3)

> ‘Hoffwn dreulio mwy o amser yn goruchwylio'r dysgu ond dyw'r amser ddim gen i.’ (Rhiant, A3)

> ‘Roedd yn rhaid i'r ddau riant weithio felly roedd y dysgu'n ysbeidiol ac yn digwydd drwy hap a damwain ar y gorau.’ (Rhiant, A2)

‘Roedd yn anodd gyda dau fabi yn effeithio ar ei allu i ganolbwyntio ac ar fy ngallu i i roi'r holl sylw roedd ei angen arno’ (Rhiant, A5)

**Lefel hyder rhieni i gefnogi'r dysgu**

4.31 Hefyd, nododd y rhieni lefelau amrywiol o hyder wrth ystyried eu gallu i helpu eu plant i ddysgu'n effeithiol yn amgylchedd y cartref.

> ‘Nid wyf yn dda am addysgu... Roedd hefyd yn achosi straen imi.’ (Rhiant, A4)
>
> ‘Nid athro ydw i / Doeddwn i ddim yn siŵr a oeddwn yn ei addysgu'n iawn.’ (Rhiant, A2)
>
> ‘Dydw i ddim yn teimlo fy mod i yn deall digon i helpu; dim athrawes ydw i’ (Rhiant, A4)
>
> ‘Roeddwn yn teimlo'n hyderus, ond nid y cartref yw'r lle i gynnal gwersi.’
>
> ‘Ddim yn gwybod sut y ddylsen i ddysgu’r gwaith iddo, pa lefel oedd e arno, faint dylsen i ei bwsho, beth oedd disgwyliadau’r ysgol’ (Rhiant, A4)
>
> ‘Doeddwn i ddim yn teimlo'n hyderus wrth esbonio'r dasg.’ (Rhiant, A4)
>
> ‘Gallwn gefnogi ond nid athrawon ydyn ni ac mae ein plentyn ieuengaf yn 4 oed ac arno ef y mae angen y cymorth mwyaf, a hynny'n aml ar draul y gweddill.’ (Rhiant, A3)
>
> ‘Roedd yn anodd imi eu cefnogi am nad wyf yn gyfarwydd â'r cwricwlwm na'r pynciau roeddent yn gweithio arnynt.’ (Rhiant, A1)
>
> ‘Roedd rhai tasgau yn hawdd eu trin ac roedd eraill yn fwy heriol.’ (Rhiant, A4)
>
> ‘Nid wyf wedi bod i'r brifysgol i ddysgu sut i addysgu plant ac, er mai fy merch i yw hi, mae gennym ffyrdd gwahanol o ddysgu pethau. Hefyd, rwy'n ddiamynedd dros ben, ac nid yw hynny'n helpu pan fydd fy merch yn cynhyrfu am na allaf ddeall y gwaith, a mam yn methu esbonio.’ (Rhiant, A4)

‘Roedd yn achosi straen ac, ar gyfer llawer o'r pynciau, byddai'n rhaid imi ddefnyddio Google i ddeall y gwaith cyn mynd ati i helpu.’ (Rhiant, A4)

4.32 Hefyd, roedd yn ymddangos bod cysylltiad rhwng hyder a phroffesiwn y rhiant, ac roedd y rhai â rhywfaint o brofiad o addysgu, neu ddigon o amser, yn aml yn fwy hyderus wrth roi'r cymorth roedd ei angen.

‘Mae fy ngwraig a minnau wedi cael addysg i lefel gradd ac mae gennym gymwysterau proffesiynol’ (Rhiant, A1)

‘Gyda chymorth yr ysgol, rwy'n hyderus y gallaf ddarparu addysg i safon eithaf da.’ (Rhiant, A2)

‘Roeddwn hefyd yn addysgu gartref yn ystod y cyfnod hwn ac mae gen i ddealltwriaeth drylwyr o ambell bwnc – ond llawer llai yn achos pynciau eraill! Roeddwn yn teimlo'n fwy hyderus wrth gefnogi plentyn ysgol uwchradd na phlentyn ysgol gynradd gan mai dyna ble mae fy mhrofiad.’ (Rhiant, A1)

‘Mae gen i lawer o amser i helpu gan fy mod yn fam llawn amser.’ (Rhiant, A4)

4.33 Yn unol â'r sylwadau blaenorol am ganllawiau uniaith Gymraeg yn cael eu cynnig gan rai ysgol cyfrwng Cymraeg, hyd yn oed i'r rhai o aelwydydd di-Gymraeg, teimlai sawl rhiant fod eu diffyg gallu ieithyddol (yn y Gymraeg) wedi effeithio ar eu gallu i gefnogi eu plant yn effeithiol.

‘Mewn rhai pynciau, roeddwn yn teimlo'n hyderus iawn ond mae fy Nghymraeg wedi rhydu felly byddai'n rhaid imi ailedrych yn aml.’ (Rhiant, A4)

‘Byddwn yn hyderus iawn oni bai am y problemau gyda'r Gymraeg (Saesneg yw iaith y cartref).’ (Rhiant, A5)

‘Yn hyderus wrth gefnogi'r dysgu yn Saesneg ond ni allaf helpu gyda'r Gymraeg ac rwy'n teimlo y bydd yn dioddef yn y maes hwn.’ (Rhiant, A5)

‘Y ddau blentyn yn gweithio yn Gymraeg a minnau'n addysgu drwy gyfrwng y Saesneg.’ (Rhiant, A1)

‘Roeddwn i'n deall rhywfaint ond gan ei fod yn Gymraeg roedd yn anodd ei ddilyn felly doeddwn i ddim yn gallu helpu rhyw lawer.’ (Rhiant, A1)

‘Nid oeddwn yn deall y rhannau Cymraeg’ (Rhiant, A1)

‘Mae pethau mor wahanol y dyddiau hyn ac mae'r technegau'n wahanol. Mae fy mhlant yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Maent yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae fy nealltwriaeth yn gyfyngedig ond mae gen i rywfaint o wybodaeth sylfaenol.’ (Rhiant, A1)

4.34 Pryder arall a bwysleisiwyd gan rieni oedd eu diffyg gwybodaeth pwnc-benodol,

‘Mae pethau Bl 7 ac 8 yn iawn ond mae gwaith TGAU Mathemateg, Ffiseg, Bagloriaeth Cymru a Chemeg yn anodd iawn eu deall’ (Rhiant, A3)

‘Nid wyf wedi cyfrannu. Mae'r hyn mae'n gweithio arno ymhell y tu hwnt i fy lefel i o addysg!’ (Rhiant, A4)

‘Ar y cyfan yn hyderus ond ddim wastad gyda'r arbenigedd i fedru ei helpu. Fel rhieni ryden ni'n trio mor galed ac y gallwn ni i gefnogi ein plant. Dwi'n aml yn meddwl am y plant lle does ddim cefnogaeth adre a mor anodd mae o iddyn nhw.’ (Rhiant, A1)

‘Rwy'n gwybod mwy am rai pynciau na phynciau eraill! Ac wrth iddi nesáu at TGAU rwy'n disgwyl na fydd gen i ddigon o wybodaeth, ond rwy'n gwybod sut i ymchwilio a dod o hyd i adnoddau.’ (Rhiant, A4)

4.35 Peth arall sy'n gysylltiedig â'r uchod yw'r gydnabyddiaeth bod strategaethau addysgu a dulliau addysgegol wedi newid ers i'r rhieni fod yn yr ysgol,

‘Maent yn gwneud pethau'n wahanol nawr.’ (Rhiant, A4)

‘Mae addysg heddiw yn wahanol iawn i'r ffordd roedd yn arfer bod ac roedd hi'n anodd esbonio gwybodaeth i'r plant’ (Rhiant, A1)

‘Caiff plant eu haddysgu'n wahanol i'r ffordd y cefais i fy addysgu.’ (Rhiant, A4)

4.36 Hefyd, cyfeiriodd rhieni at rwystredigaeth gynyddol am eu bod yn teimlo nad oedd eu plant yn ymateb iddynt yn yr un ffordd ag y byddent yn ymateb i athrawon yn yr ysgol,

> 'Ond nid yw'n gwrando arna i fel y mae'n gwrando ar yr athrawon.' (Rhiant, A4)
>
> 'Nid oedd yn berthnasol; nid oedd yn caniatáu imi helpu.' (Rhiant, A1)
>
> 'Gallwn helpu pan oedd angen, ond ni fyddai fy merch yn gwrando ar fy nghyngor mewn gwirionedd. Mae'n dweud bod ffyrdd eraill wedi cael eu haddysgu iddi, ac nad wyf yn gwybod beth rwy'n ei wneud!' (Rhiant, A4)
>
> 'Dywedodd fy mab nad ysgol yw hwn, nad athro wyf fi, ac na fydd yn dysgu. Felly mae'n rhaid imi bwyso'n galed arno i wneud unrhyw beth.' (Rhiant, A4)

**Lefelau ymgysylltu/cymhelliant disgyblion**

4.37 Mewn perthynas â'r thema flaenorol, soniodd y rhieni hefyd am anawsterau wrth geisio cymell eu plant i ymgysylltu'n effeithiol â dysgu ar-lein,

> 'Roedd yn anodd dros ben gwneud iddo ganolbwyntio.' (Rhiant, A1)
>
> 'Roedd yn anodd cynnal eu ffocws' (Rhiant, A1)
>
> 'Nid oes ganddi gymhelliant i wneud y gwaith.' (Rhiant, A4)
>
> 'Roedd yn anodd perswadio fy mab i fewngofnodi ac, ar adegau, gwrthododd wneud hynny' (Rhiant, A4)
>
> 'Roedd yn anodd ailgydio ynddi. Roedd fy mhlentyn ieuengaf yn brin o hyder.' (Rhiant, A1)
>
> 'Roedd gen i'r amser i'w helpu ond nid oedd ganddynt ddiddordeb o gwbl. Byddent yn rhuthro drwy unrhyw waith y byddent yn ei wneud er mwyn ei orffen. Yn y bôn, nid oeddent yn dysgu dim byd mewn gwirionedd.' (Rhiant, A1)

4.38 Fodd bynnag, roedd rhai rhieni hefyd yn cydnabod nad oedd angen anogaeth rhieni ar eu plant a'u bod yn tueddu i gwblhau gwaith ar eu pen eu hunain,

> ‘Roedd fy mhlentyn yn wych am hunan-ddisgyblu.’ (Rhiant, A1)
>
> ‘Roedd yn rhaid iddo ei wneud ar ei ben ei hun. Rydyn ni'n gweithio’ (Rhiant, A4)
>
> ‘Mae'n annibynnol iawn ... byddai'n bwrw ati yn annibynnol’ (Rhiant, A4)
>
> ‘Byddwn yn ei gadael ar ei phen ei hun.’ (Rhiant, A4)

**Llais disgyblion**

*Beth oedd eich profiadau o ddysgu cyfunol yn ystod y gwahanol gyfnodau o gyfyngiadau symud?*

4.39 Soniodd y disgyblion am heriau mewn perthynas â chael mynediad at liniaduron a chyflwyno gwaith ar-lein. Hefyd, rhoddodd disgyblion ysgolion uwchradd wybod am anawsterau wrth gwblhau gwaith ymarferol gartref.

> ‘Llwyddais i wneud y rhan fwyaf o'r gwaith ysgrifenedig ond cefais anawsterau wrth wneud gwaith ymarferol drwy gydol y cyfnod.’ (Bl 13, dwyieithog, y Canolbarth)

4.40 Soniodd disgyblion ysgolion cynradd am orfod tynnu ffotograffau o'u gwaith a'u hanfon at eu hathrawon.

*Beth yw heriau neu fanteision dysgu cyfunol?*

4.41 Pan ofynnwyd iddynt am heriau dysgu cyfunol yn ystod y cyfyngiadau symud, dywedodd disgyblion ei bod yn anodd gweithio ar eu pen eu hunain a chanolbwyntio. Soniodd un disgybl am symud o'r Hyb i ddysgu gartref.

> ‘Roedd rhai diwrnodau pan nad oeddwn yn yr ysgol hyb ac roedd yn anodd iawn dysgu gartref am nad oedd athro ar gael i fy helpu. Mae

athro ar gael yn yr ysgol hyb ac rwy'n dysgu'n llawer cyflymach yn yr ysgol hyb.’ (Bl 6, y Canolbarth)

4.42 Roedd mynediad at dechnoleg a rennir hefyd yn her ac roedd y ffaith bod rhieni a oedd yn gweithio gartref yn defnyddio'r dechnoleg yn golygu y bu'n rhaid i rai disgyblion wneud eu gwaith ysgol dros y penwythnos er mwyn gallu defnyddio dyfeisiau.

> ‘Bu'n rhaid inni ei wneud i gyd dros y penwythnos oherwydd roedd yn rhaid i Mami a Dadi wneud eu gwaith.’ (Bl 1, Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg, y Canolbarth)

4.43 Er gwaethaf yr heriau, dywedodd y disgyblion hefyd fod cael dewis yr hyn y byddent yn ei ddysgu a gallu gweithio wrth eu pwysau eu hunain yn enghreifftiau o fanteision dysgu cyfunol.

**Crynodeb**

4.44 Mae'r data'n dangos bod rhieni a disgyblion wedi cael amrywiaeth o brofiadau gwahanol. Fodd bynnag, er gwaethaf yr heriau a gododd yn ystod pandemig COVID-19, roedd y rhieni'n cydnabod bod ysgolion wedi addasu'n gyflym i'r newidiadau mewn amgylchiadau a'u bod yn fodlon ar y cymorth a roddwyd gan ysgolion ar y cyfan. Mae crynodeb o'r canfyddiadau allweddol mewn perthynas â llais rhieni a disgyblion wedi'i amlinellu isod:

- Mae'r data'n dangos bod heriau TG, caledwedd ddigonol a chysylltedd yn bryder allweddol yn ystod y gwahanol gyfnodau o gyfyngiadau symud. Gwnaeth rhieni a disgyblion sylwadau am hyn.
- O ran cyfathrebu â disgyblion a rhieni, gwelwyd amrywiaeth ar draws y set ddata, gyda rhai ysgolion mewn cysylltiad â'r cartref yn rheolaidd ac eraill yn nodi na fu'r ysgol mewn cysylltiad o gwbl yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud. Fodd bynnag, dywedwyd bod lefel y cyfathrebu wedi gwella wrth i'r cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud fynd yn ei flaen, ac yn yr ail gyfnod.

- Cynhaliodd rhai ysgolion eu harolygon eu hunain er mwyn casglu gwybodaeth am brofiad rhieni er mwyn llywio eu hymarfer a mesur faint o gymorth sydd ei angen.
- Dywedodd rhieni mewn cartrefi di-Gymraeg y byddai rhagor o gymorth yn Saesneg wedi'u helpu i gefnogi eu plant gartref yn fwy effeithiol.
- Soniodd rhieni am heriau wrth gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol a chydbwyso bod yn athrawon amser llawn â chyfrifoldebau gofal a gwaith. Cyfeiriwyd yn aml at deimladau o bryder a gorlethu. Hefyd, gwnaeth rhieni sylwadau ar lefelau amrywiol o hyder mewn perthynas â helpu eu plant yn effeithiol i ddysgu yn amgylchedd y cartref.
- Cyfeiriodd rhieni at yr heriau a oedd yn gysylltiedig â chymell eu plant yn effeithiol i ymgysylltu â dysgu ar-lein/o bell. Hefyd, dywedodd disgyblion ei bod yn anodd gweithio ar eu pen eu hunain a chanolbwyntio ar ddysgu.
- Fodd bynnag, dywedodd y disgyblion fod cael dewis yr hyn y byddent yn ei ddysgu a gallu gweithio wrth eu pwysau eu hunain yn enghreifftiau o fanteision dysgu cyfunol.

# 5. Canfyddiadau: Llais Uwch-arweinwyr

### Cyflwyniad

5.1 Cynhaliwyd sawl cyfweliad (N=14) ag uwch-arweinwyr o ddetholiad o ysgolion a oedd yn gysylltiedig â'r tri SAU sy'n cydysgrifennu'r adroddiad hwn (Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Glyndŵr). Er mwyn gwarchod hunaniaeth yr unigolion a'r sefydliadau, dyrannwyd cod i bob ysgol (gweler y tabl isod).

**Tabl 5.1: Sampl o Uwch-arweinwyr**

| | Cod yr Ysgol | Math o Ysgol | Dyddiad y Cyfweliad | Iaith Addysgu |
|---|---|---|---|---|
| 1 | A1 | Pob oed | Rhagfyr 2020 | Dwyieithog |
| 2 | A2 | Cynradd | Rhagfyr 2020 | Saesneg |
| 3 | A3 | Uwchradd | Rhagfyr 2020 | Dwyieithog (Saesneg yn bennaf) |
| 4 | A4 | Pob oed | Ionawr 2021 | Dwyieithog |
| 5 | A5 | Cynradd | Ionawr 2021 | Cymraeg |
| 6 | B1 | Cynradd | Mawrth 2021 | Saesneg |
| 7 | B2 | Cynradd | Ebrill 2021 | Saesneg |
| 8 | B3 | Cynradd | Ebrill 2021 | Saesneg |
| 9 | B4 | Cynradd | Ebrill 2021 | Saesneg |
| 11 | C1 | Cynradd | Chwefror 2020 | Saesneg |
| 12 | C2 | Cynradd | Chwefror 2020 | Saesneg |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 13 | C3 | Cynradd | Chwefror 2020 | Saesneg |
| 14 | C4 | Cynradd | Mawrth 2020 | Saesneg |
| 15 | C5 | Cynradd | Mawrth 2020 | Saesneg |

5.2 Cafodd pob cyfweliad ei drawsgrifio a chynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r themâu allweddol a'r is-themâu. Nodwyd naratif o'r themâu a gellir gweld data ansoddol a gymerwyd o'r cyfweliadau isod a cheir crynodeb o'r themâu yn Nhabl 5.2.

**Tabl 5.2: Themâu o'r Cyfweliadau ag Uwch-arweinwyr**

| | **Themâu** | **Is-thema** |
|---|---|---|
| 1 | Addasu | Addasu i ddysgu o bell a dysgu cyfunol |
| 2 | Dewis llwyfannau ar-lein | |
| 3 | Cymorth TG | Hyfforddiant a dysgu proffesiynol<br>Caledwedd<br>Cysylltedd |
| 4 | Llwyth gwaith | |
| 5 | Lles staff | |
| 6 | Darpariaeth i ddysgwyr | Cyfyngiadau symud cyntaf<br>Datblygu darpariaeth<br>Addysgeg ac ymarfer |
| 7 | Cefnogi dysgwyr | Mynediad at dechnoleg<br>Myfyrwyr agored i niwed |
| 8 | Lefelau ymgysylltu disgyblion ar-lein | |
| 9 | Lles disgyblion | |
| 11 | Cymorth yn y cartref | Cymorth gan rieni<br>Cymorth i rieni |
| 12 | Ailddechrau addysgu ar ôl y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf a dechrau'r ail gyfnod o | |

| | |
|---|---|
| | gyfyngiadau symud cenedlaethol |
| 13 | Myfyrio ar arferion da |

**Addasu – Addasu i ddysgu o bell a dysgu cyfunol**

5.3 Un thema gyson drwy'r cyfnod o fis Mawrth 2020 tan fis Chwefror 2021 oedd addasu i wahanol ddulliau cyflawni. Cafwyd cyfnodau o ddysgu o bell a chyfnodau o ddysgu cyfunol pan nad oedd y dysgwyr yn yr ysgol bob amser neu pan dorrodd cyfyngiadau symud lleol a chwarantinau ar draws yr addysgu wyneb yn wyneb. Yn y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud, gwelwyd newid cyflym i ddysgu o bell. Nododd un cyfranogwr fod y newid i ddysgu o bell yn ‘sioc’ i lawer.

> ‘Doedd neb wedi clywed am y gair ‘Teams’ na dysgu o bell tan yr wythnos ‘ny.
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A5)

5.4 Hefyd, roedd consensws cyffredinol bod y newid i ddysgu ar-lein (er ei fod yn ddisgwyliedig i raddau) wedi digwydd yn sydyn, heb fawr ddim rhybudd a heb lawer o amser i ysgolion allu paratoi ar gyfer y ddarpariaeth ar-lein newydd. Caiff yr ymdeimlad o frys ei gyfleu yn y dyfyniadau canlynol:

> ‘Cynhaliwyd cyfarfod staff brys er mwyn inni roi hyfforddiant cychwynnol...’ (UA1, A1)
>
> ‘Yr her o orfod ei wneud yn hytrach na'i archwilio!’ (UA1, C1)

5.5 Dangosodd y sampl fod ysgolion ar gamau gwahanol iawn o ran gallu newid i ddysgu o bell a dysgu cyfunol cyn y cyfyngiadau symud. Nid oedd gan rai ysgolion sylfeini digon cadarn o ran defnyddio meddalwedd ar gyfer dysgu o bell ond roedd gan eraill fwy o arbenigedd a phrofiad ym maes dysgu estynedig drwy dechnoleg.

> ‘Araf deg... Roedden ni, os dwi’n onest, tu ôl i le dylen ni wedi bod o ran dysgu o bell ac o ran dysgu annibynnol ar lein, a phethau fel na… Pan ddechreuon ni roedden ni dal ... ddim ar HWB ... doedd e ddim yn rhan o’n dysgu.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

5.6 Dywedodd unigolion o un ysgol eu bod wedi meddwl i ddechrau y byddai'r ysgol ar gau am y pythefnos cyn y Pasg, ac yna drwy wyliau'r Pasg. Roeddent wedi bod yn gwrando ar y newyddion ac yn dilyn yr hyn a oedd yn digwydd mewn rhannau eraill o'r byd. O ystyried yr ansicrwydd ar y pryd, ni wnaeth yr ysgol ystyried defnyddio technoleg i gefnogi dysgu yn y cartref, ond gwnaethant nodi eu bod yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda cyn y cyfyngiadau symud cyntaf. Yn ogystal â hynny, dywedodd yr ysgol fod y negeseuon am gau ysgolion, cau ysgolion yn rhannol a pharhau ar ôl gwyliau'r Pasg yn ddryslyd iawn.

> 'Fel uwch-dîm arwain, gwnaethom ddefnyddio'r wythnos gyntaf honno ym mis Mawrth i baratoi pecynnau i'r plant â gwerth pythefnos o ddysgu ynddynt. Felly aethom ati i baratoi pecynnau papur, prynu adnoddau a gwneud yn siŵr bod ganddynt bensiliau, papur, llyfrau a digon o weithgareddau i bara am bythefnos cyfan. Felly gwnaethom argraffu popeth. Mae gennym dri chant saith deg naw o blant yn yr ysgol ac felly gwnaethom baratoi tri chant saith deg naw o becynnau.' (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, B3)

5.7 Yn ogystal ag addasu i ddarpariaeth o bell, bu'n rhaid i nifer o ysgolion newid yn gyflym i ddarpariaeth gyfunol hefyd am iddynt ddod yn ysgolion 'hyb' a gorfod cynnig darpariaeth o bell ac wyneb yn wyneb. Cafodd dysgu cyfunol ei ddehongli gan ysgolion mewn amrywiaeth o ffyrdd oherwydd eu lefelau o brofiad ac anghenion eu dysgwyr.

> 'Cymysgedd o ddulliau i gefnogi'r dysgu yw dysgu cyfunol, ac nid dim ond dysgu ar-lein' (Cyfwelid ag Uwch-arweinydd, C1)

**Addasu – Dewis llwyfannau ar-lein**

5.8 Yn dilyn y newid cychwynnol, cyfeiriodd ysgolion hefyd at yr angen i ddewis llwyfan(nau) dysgu o bell priodol i'w (d)defnyddio yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd ysgolion yn y sampl ar gamau gwahanol o ran eu defnydd o dechnoleg a pha mor gyfarwydd oeddent â llwyfannau ac apiau y gellid eu

defnyddio yn y sefyllfa hon. Yn y pen draw, dewisodd rhai ysgolion lwyfan a oedd yn diwallu eu hanghenion unigol eu hunain, i bob golwg:

> ‘Y peth cyntaf oedd edrych i weld beth oedd mas na, a sut oni am ddechrau’r daith yma ar ddysgu o bell a dysgu cyfunol. Wnaethon ni trafod a nifer o ysgolion...am le allen ni fynd, ac roedd e’n edrych fel rhyw fath o ‘mixed economy’ oedd beth allen ni neud, gyda chymysgedd o Teams a Moodle. Doedd na ddim lot o gefnogaeth at Moodle o’r awdurdod, ond i ni mi oedd Moodle yn edrych fel rhywbeth allwn ni datblygu, a rhywbeth sy’n gallu tyfu gyda ni, a rhywbeth allwn ni defnyddio i greu rhywbeth arbennig.’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

5.9 Hefyd, cyfeiriodd sawl ysgol at gyfnod treialu, a oedd yn cynnwys trafod y gwaith o ddatblygu'r llwyfannau a oedd eisoes yn cael eu defnyddio neu fabwysiadu llwyfan newydd drwy'r ysgol gyfan,

> ‘…beth oedd y gorau i ddefnyddio? Ife parhau gyda Show My Homework neu symud i Microsoft Teams neu fynd i ddefnyddio Google Classroom? A fuon ni’n treiali ymysg ein gilydd, yn gosod aseiniadau, ac yn y blaen, ac mi ddaethon ni i’r canlyniad bod ni’n mynd i fynd gyda Teams er mwyn, mewn ysgol 3 i 19, fod gyda ni fodd i feithrin cysondeb ar draws yr ysgol.’
>
> (UA1, A4)

5.10 Mae'r broses hon hefyd i'w gweld yn yr ymateb a gafwyd mewn cyfweliad ag ysgol arall,

> ‘Cafodd pob un ohonom rywfaint o hyfforddiant ar-lein... Gwnaethom edrych ar y ddwy system [Google Classroom a Teams], a daethom i'r casgliad bod Google Classroom yn adnodd ychydig yn symlach i'w ddefnyddio gyda phlant, yn hytrach na Teams. Dyna pam y gwnaethom ei ddewis.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A2)

5.11 Roedd yr angen cychwynnol i fabwysiadu llwyfan yn gyflym yn ganfyddiad allweddol wrth i ysgolion gydnabod bod mabwysiadu llwyfan ar-lein yn hanfodol er mwyn gallu cyfathrebu'n effeithiol â'r dysgwyr,

> ‘Heb y dechnoleg yma dwi ddim yn gwybod sut fydden ni wedi cyrraedd teuluoedd a throsglwyddo gwaith heb system fel Teams...’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A4)

5.12 Creodd un ysgol wefan i ddechrau er mwyn sicrhau y gallai'r dysgwyr a'r rhieni gael gafael ar adnoddau a ‘siop un stop’ yn hawdd,

> ‘Cafodd y wefan ei chynllunio a'i chreu gyda mynediad at adnoddau. Roedd gridiau dewis yn cwmpasu'r meysydd dysgu a dewis dysgu rhydd yn seiliedig ar destunau. Byddai'r testunau'n cael eu pennu gan y grwpiau blwyddyn a'u newid bob wythnos. [ar y dechrau] nid oedd disgwyl dysgu byw na fideos.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, C3)

5.13 Fodd bynnag, soniodd rhai ysgolion, pan gawsant eu cyfweld, am broses esmwyth iawn o newid i ddysgu ar-lein yn sgil blaenoriaethau a oedd eisoes wedi'u pennu mewn perthynas â'u gwaith ar asesu ffurfiannol cyn y pandemig. Gwnaeth nifer o ysgolion cynradd sylwadau ar y defnydd o SeeSaw.

> ‘Ac fel rhan o hynny, rydym wedi bod yn edrych ar adborth a defnyddio dysgu cyfunol a SeeSaw, sydd wedi bod ar waith ers tua blwyddyn, fwy na thebyg. Ac roedd hynny'n tyfu. A'r defnydd ohono o ran ymwybyddiaeth y disgyblion ohono, y ffordd roedd yn cael ei ddefnyddio yn yr ystafell ddosbarth neu fel rhan o ymarfer yn yr ystafell ddosbarth – roedd hynny wedi'i wreiddio.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, B2)

> ‘Rydym wedi defnyddio SeeSaw ers amser maith er mwyn helpu i gyfathrebu â rhieni felly gwnaethom ei ddefnyddio am ein bod yn gyfarwydd ag ef ac am fod y rhieni'n gallu ei ddefnyddio gartref.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, C3)

5.14 Nododd un cyfwelai fod cysylltiad agos rhwng y dewis o ran llwyfan ar-lein a'r cymorth a oedd ar gael gan yr awdurdod lleol, a bod addasu llwyfan ar-lein penodol yn cyd-fynd â'r hyn roedd yr awdurdod lleol yn ei hyrwyddo,

> ‘fod e’n ffitio mewn gyda beth oedd y Sir yn neud...’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A4)

5.15 Fel y nodwyd uchod, roedd profiadau rhai cyfweleion o'r cymorth a roddwyd gan yr awdurdod lleol yn gadarnhaol. Fodd bynnag, nododd cyfwelai arall o ysgol wahanol (ac awdurdod lleol gwahanol) fod yr awdurdod lleol wedi llesteirio galluoedd technolegol yr ysgol. O ran mabwysiadu Hwb, nododd y dylai'r cam fod wedi cael ei gymryd ‘bum, chwe blynedd yn ôl’ ac nid ar fyr rybudd ar ddechrau pandemig byd-eang.

> ‘Roedd mynd ar HWB yn beth mawr. Roedd bod yn rhan o gyfundrefn genedlaethol o ran y ffordd yr ydych chi’n cyfathrebu plant... Rwyt ti’n teimlo, gyda'r rhwydwaith yna - un Gymru gyfan - y tu ôl i chi, fod fwy o hyder gyda chi yn yr hyn yr ydych yn neud.’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

**Cymorth TG – Dysgu proffesiynol**

5.16 Er mwyn newid i ddysgu o bell, a defnyddio amrywiaeth eang o lwyfannau i gynnig y ddarpariaeth, roedd angen llawer o gymorth a dysgu proffesiynol er mwyn paratoi ac ‘uwchsgilio’ athrawon. Nodwyd datblygiad dysgu proffesiynol mewn addysgeg dysgu estynedig drwy dechnoleg, sgiliau technoleg, gwneud dewisiadau technolegol, a modelau dysgu cyfunol a dysgu o bell.

5.17 Nododd dau gyfrannwr mai dim ond lleiafrif bach iawn o'u staff a ddywedodd fod ganddynt unrhyw fath o brofiad o addysgu o bell cyn y cyfyngiadau symud. O ganlyniad i hynny, yn ystod yr wythnos cyn y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud, bu'n rhaid iddynt barhau ag elfen ar addysgu eu

dysgwyr, gan ddatblygu sgiliau ar yr un pryd a throsglwyddo rhywfaint o hyfforddiant ar Teams:

> '…roedden ni'n padlo fel elyrch ar y dŵr gyda'r traed bach yn mynd, a ninnau'n trio gweithio'n socs off i ddeall Teams...'
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A5)

5.18 Cyfeiriodd rhai ysgolion at eu profiad blaenorol o E-sgol. Fodd bynnag, unwaith eto, er mai dim ond nifer bach o aelodau o staff oedd yn rhan o'r rhaglen rhwydwaith gyfan hon, roeddent yn amhrisiadwy o ran addysgu a helpu staff i newid i ddefnyddio meddalwedd fel Teams ar gyfer dysgu o bell drwy ffrydio byw. Amcangyfrifodd un cyfrannwr fod tua 60% o staff ei ysgol wedi cael budd o'r hyfforddiant a ddarparwyd gan ei athrawon E-sgol.

5.19 Roedd manteision eraill i'r ymgysylltiad hwn ag E-sgol, yn enwedig mewn perthynas â rheoli ymateb y sefydliadau wrth lunio polisïau dysgu o bell,

> '…mae di roi lot o hyder i'n staff ni i wybod beth ma nhw'n neud, a sut ma nhw'n gallu cadw saff. Ni wedi seilio protocols ni ar protocols E-sgol, sy wedi helpu ni i ddysgu ac i wybod fod ni ddim yn dechrau o'r dechrau, ond yn hytrach ni'n dechrau o safbwynt pobol sydd â llawer mwy o wybodaeth na ni.'
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

5.20 Fel y defnydd o E-sgol y cyfeiriwyd ato uchod, roedd y defnydd o fodel 'hyrwyddwyr' technolegol i bob adran o fewn sefydliad er mwyn arwain a chynnal arloesedd technolegol yn eu meysydd a chynorthwyo'r athrawon eraill yn yr adran hefyd yn ganfyddiad allweddol.

5.21 Mewn rhai achosion, nodwyd bod y cymorth gan yr awdurdod lleol yn gymharol araf yn cyrraedd. Dywedodd un cyfrannwr: 'Gwnaethom gychwyn ar y llwybr' cyn i'r cymorth hwnnw ymddangos. Hefyd, ni chafwyd dim cymorth i ddefnyddio Moodle gan yr awdurdod lleol. Roedd yr awdurdod lleol yn ffafrio Google Classroom, gan gyfyngu ei gymorth i'w feddalwedd honno. Roedd yr ysgol, fodd bynnag, yn gweld manteision Moodle, am ei fod yn

cynnig rhywbeth ‘gwych’ i'r ysgol yn yr hirdymor, yn hytrach nag ateb byrdymor fel yr oedd Google Classroom yn ymddangos. Yn ffodus i'r ysgol, cafodd gymorth penodol o ffynonellau amgen. Dywedodd y cyfrannwr fod ‘cydberthnasau da a chydberthnasau cryf’ eisoes wedi'u sefydlu ag ysgolion eraill a oedd â phrofiad o arwain ar ddefnyddio Moodle. Roedd y cymorth hwn yn arwyddocaol, ac yn gyfle i staff gael a rhannu arbenigedd.

5.22 Nododd cyfrannwr arall fod ei gonsortiwm lleol wedi:

> ‘...creu llawer o ddogfennau ar ei wefan. Ond mae'n rhaid imi fod yn onest oherwydd roeddem wedi dechrau arni ac yn fodlon ar ein system ac roedd y rhieni'n fodlon arni i bob golwg. Roeddem am wneud rhywbeth a oedd yn syml iawn.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, B1)

5.23 Dywedodd un ysgol fod y cymorth gan y consortiwm wedi datblygu ac addasu drwy'r cyfnod o fis Mawrth 2020 tan fis Chwefror 2021, a chadarnhawyd hyn mewn cyfweliad â'r consortia. Cyfeirio at adnoddau oedd y cymorth i ddechrau, ond datblygodd yn ddysgu proffesiynol byr er mwyn cefnogi a datblygu dulliau gweithredu.

5.24 Fodd bynnag, ym mhrofiad y cyfranwyr hynny o ardaloedd eraill, roedd ymdeimlad bod awdurdodau lleol y sir wedi bod yn gefnogol dros ben hefyd.

> ‘Mae’n amhrisiadwy! O ran y dysgu o bell. O ran strwythur dyddiol yr ysgol. O ran y rheolau. Mae pob adran wedi cyd-dynnu i helpu. Oni bai amdanyn nhw dwi’n siŵr fyddai lot ohonon ni ar goll. Ma nhw wedi bod yn anhygoel.’
>
> (UA1, A5)

5.25 Canolbwyntiodd un awdurdod lleol ar hyrwyddo'r defnydd o Teams, a alluogodd ysgolion i fanteisio ar gymorth arbenigol unigolion yn yr awdurdod addysg lleol, a'r amrywiol sesiynau adeiladol a gynhaliwyd ar ddefnyddio Teams – o gymorth cychwynnol, cyffredinol i gymorth ar ddefnydd mwy soffistigedig o'r feddalwedd. Hefyd, rhoddodd yr awdurdod hyfforddiant ychwanegol, yn ogystal â dyrannu adnoddau ac ymateb i unrhyw broblemau neu anawsterau technolegol. Fel y pwysleisiodd un cyfrannwr, roedd hefyd

yn bosibl gofyn am gymorth wedi'i deilwra o gyfeiriad y sir, a chymorth dethol ar gyfer meddalwedd benodol. Yn seiliedig ar hyn, gellid llunio cyrsiau ar gyfer ysgolion neu adrannau penodol. Yn ôl y dystiolaeth, roedd hyn yn enghraifft o gymorth wedi'i deilwra 'da iawn'.

5.26 Wrth ystyried cymorth gan y consortia, nododd un cyfrannwr 'nad oedd cymaint â hynny' o gymorth ar y dechrau ond bod sesiynau cymorth wedi cael eu cynnig maes o law.

5.27 Mewn perthynas â hyfforddiant ar ddiogelwch ar-lein, nododd un cyfrannwr mai dim ond ychydig o hyfforddiant ar ddiogelwch plant a gafodd ei drefnu ar lefel ysgol gyfan y tu hwnt i ddarpariaeth yr awdurdod lleol. Trefnwyd hyfforddiant annibynnol ar gyfer rhai adrannau ac athrawon unigol, ond roedd hynny'n seiliedig ar eu meysydd astudio penodol neu awydd penodol i feistroli technoleg benodol. Yn ogystal â hynny, dywedodd cyfrannwr arall mai'r unig hyfforddiant ychwanegol a gafwyd y tu hwnt i ddarpariaeth y sir oedd hyfforddiant ar Minecraft.

5.28 Hefyd, nododd un cyfrannwr y dylai'r sgiliau a gafodd eu dysgu a'u datblygu gan y staff barhau i gael eu defnyddio ar ôl i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio:

> 'Dwi'n cofio dweud yn ystod y cyfnod clo cyntaf, popeth rydyn ni'n dysgu nawr, mae'n rhaid i ni beidio â gadael y rhain i fynd. Mi oedd yn rhaid i ni gadw defnyddio'r sgiliau Flip Grid, a Screen Cast, Adobe Spark, ac yn y blaen - ein bod ni'n cadw nhw, ac yn defnyddio nhw. A sicrhau fod y plant yn gyfarwydd â nhw.'
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A5)

5.29 Nododd ysgol arall y bu ymgais, ar ôl y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud, i gynnal arolwg ar ôl dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi ar y math o hyfforddiant neu gymorth roedd yr athrawon am ei gael. Hefyd, ceisiwyd rhoi system ar waith lle y byddai pob aelod yn cael sesiwn olaf rydd bob pythefnos. Y gobaith oedd y byddai hyn yn galluogi'r staff i weithio gartref a/neu gael hyfforddiant proffesiynol yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn dilyn hyn, gwnaed

ymgais i ddiwygio'r amserlenni dysgu er mwyn sicrhau bod gan y staff awr ychwanegol i gael hyfforddiant yn y dyfodol.

> ‘Rydyn ni wedi dechrau symud ar bethau nawr, a dydyn ni ddim eisiau i ni arafu ar bethau gan fod pethau’n symud. Eto, mae’n bwysig buddsoddi yn hwnna.’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

5.30 Nododd y rhan fwyaf o athrawon mai yn ystod tymor yr haf y cynigiwyd y prif hyfforddiant ac anogaeth. Fodd bynnag, nododd un cyfrannwr fod diwrnodau HMS bellach yn cynnwys ffocws cynyddol ar godi ymwybyddiaeth o sgiliau technegol. Soniodd nifer o gyfranwyr am nifer y cyfleoedd datblygu mewnol yn eu hysgolion, ‘cafodd y staff gefnogaeth drwy raglen fewnol i ddatblygu sgiliau’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, C1). Mae'n bwysig nodi'r ffordd y gwnaeth ysgolion ymwneud â chymorth mewnol i ddatblygu eu sgiliau.

**Cymorth TG – Caledwedd**

5.31 Roedd mynediad at galedwedd briodol yn her i ysgolion a dysgwyr wrth iddynt ddatblygu eu dulliau gweithredu mewn perthynas â dysgu o bell a dysgu cyfunol. Caiff y newidiadau yn y gofynion eu hadlewyrchu yn y thema hon.

5.32 Mewn un ysgol, nodwyd mewn arolwg cychwynnol fod y ddarpariaeth dechnolegol ymhlith ei staff yn dderbyniol ar y cyfan. Nododd rhai y bu'n rhaid iddynt gaffael cyfarpar newydd am nad oedd y cyfarpar ‘mwyaf dibynadwy’ ar gael iddynt, ond nid yn gyffredinol. Fodd bynnag, cafodd y ddarpariaeth ei hailasesu maes o law. Wrth i gyfnod y cyfyngiadau symud fynd rhagddo, ac wrth i'r ddarpariaeth addysgol newid, penderfynwyd bod angen gliniaduron i roi'r cyfleoedd gorau i'r dysgwyr. Y ‘rhwystredigaeth’ na allai rhai aelodau o staff gyflawni rhyw fath o addysgu o bell oedd y sbardun i sicrhau bod caledwedd effeithiol gan bob un ohonynt,

> ‘Dyfeisiau cyfyngedig a hen ffasiwn ar gyfer addysgu’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, C3)

5.33 Fodd bynnag, penderfynodd ysgol wahanol fod angen rhoi gliniaduron i bob aelod o staff o'r cychwyn er mwyn sicrhau chwarae teg i bawb. Felly, buddsoddwyd mewn gliniaduron i'r staff ac, o ganlyniad i hynny, roedd modd i gyfrifiaduron y staff, a oedd ym mhob dosbarth cyn hynny, gael eu cynnig i'r dysgwyr yn yr ystafelloedd cyfrifiaduron. Yn ôl y cyfrannwr, roedd y gliniaduron hyn yn hanfodol fel y nodwyd yn yr ymatebion isod:

> ‘Newid y gêm yn llwyr’
>
> ‘Os nag yw’r teclynnau iawn gyda chi yna sdim pwynt’
>
> ‘Rydych chi yn gallu gofyn i unigolion defnyddio peiriannau eu hunain, ond mae’n anodd iawn cael unrhyw fath o gysondeb wedyn, a ti ddim yn ysbrydoli hyder yn y staff fod yr ysgol eisiau cefnogi nhw...ac yn gwneud e’n hawdd.’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

5.34 Fodd bynnag, roedd hi'n anos cael gafael ar liniaduron i'r staff oherwydd prinder gliniaduron byd-eang. Felly, er iddynt gymryd camau i brynu'r gliniaduron yn syth pan gyhoeddwyd y cyfyngiadau symud cyntaf, roedd y gliniaduron yn araf yn cyrraedd, gan effeithio ar gyflymder y newid i ddysgu o bell. Defnyddiodd rhai ysgolion gynllun Llywodraeth Cymru i gefnogi'r rhai roedd angen cymorth arnynt. Ceir hefyd enghreifftiau o addasu technoleg chwarae gemau drwy ychwanegu bysellfyrddau er mwyn i fyfyrwyr allu dysgu ar-lein.

5.35 Hefyd, tynnodd cyfwelai arall sylw at bwysigrwydd deunyddiau ychwanegol i staff wrth newid i ddysgu o bell. Nodwyd bod mynediad at glustffonau, llygod a cheblau hefyd yn hanfodol er mwyn sicrhau effeithiolrwydd dysgu o bell.

### Cymorth TG – Cysylltedd

5.36 Un thema gyson ac allweddol ym maes anawsterau technegol i'r staff oedd cysylltedd a mynediad at gysylltiad dibynadwy â'r rhyngrwyd. Nododd sawl

cyfrannwr fod hyn wedi peri problem enfawr i sawl aelod o staff drwy gydol cyfnod y cyfyngiadau symud,

> ‘O ran y ddaearyddiaeth, a le ydyn ni, mae e’n hunllef i rai staff. A ma rhai yn byw mewn pentrefi eithaf torfol, a chi’n disgwyl byddai e’n gweithio mewn pentrefi poblog, ond na... Bore ‘ma, fel esiampl dda, dwi di gael tri aelod staff gyda ‘Teams’ ddim yn gweithio, neu mae e’n glitchy, felly hwnna yw’r pen tost penna.’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A5)

5.37 Fel yn yr enghraifft uchod, tynnwyd sylw at anawsterau cysylltedd fel problem benodol mewn ardaloedd gwledig hefyd,

> ‘Am ein bod yn byw mewn ardal mor wledig, roedd yr athrawon yn cael problemau gyda'r rhyngrwyd, yn ogystal â'r disgyblion. Felly, mewn rhai achosion, roedd yn anodd lanlwytho aseiniadau, hyd yn oed, am fod y rhyngrwyd mor wael.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A1)

5.38 Mewn un achos, roedd deg aelod o staff mewn un ysgol yn dioddef o'r problemau hyn, a bu'n rhaid iddynt deithio o'r cartref i ddod o hyd i signal ffôn symudol digon cryf i anfon a derbyn data, teithio i'r ysgol i weithio am gyfnodau byr, neu gael ‘Mi-Fi’.

**Llwyth gwaith**

5.39 Yn ogystal â heriau mewn perthynas â TG, y farn gyffredin (ym mhob ysgol) oedd bod y cyfnod yn heriol dros ben, a bod pethau'n parhau i fod yn heriol dros ben. Yn ôl un cyfrannwr, bu cynnydd ‘pendant’ yn y pwysau ar athrawon. Nododd yr unigolyn fod angen i bob aelod o staff newid yn sylweddol ar ddechrau cyfnod ‘anferth’ y cyfyngiadau symud.

> ‘Dwi di fod yn dysgu am 30 mlynedd, a dyma’r cyfnod gwaethaf erioed o bell ffordd.’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A4)

5.40 Cafodd yr ymdeimlad hwn o gynnydd mewn llwyth gwaith ei ategu gan gyfweleion eraill hefyd,

> ‘O’ni o flaen y gliniadur o fore gwyn tan nos achos oni’n ceisio fod 'na i bawb, boed yn rheini neu staff. Roedd e’n drwm!’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A5)
>
> ‘Roedd aelodau llai hyderus o staff yn teimlo fel pe baent ar alw i'r staff drwy'r amser’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, C3)

5.41 Hefyd, nododd un unigolyn fod y pwysau cynyddol yn nodwedd gyson ac nad yw wedi ysgafnhau er mis Mawrth 2020,

> ‘Ni di bod wrthi ers mis Mawrth heb yr un brêc. Hyd yn oed yn ystod gwyliau’r haf mi oedd na dal pethau’n codi...’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A4)

5.42 Nodwedd arall y tynnwyd sylw ati oedd y tueddiad i deimlo bod angen bod ar-lein drwy'r amser i helpu'r plant. Roedd rhai'n teimlo, hyn yn oed yn ystod y gwyliau,

> ‘…fod rhaid bod ar y we trwy’r amser er mwyn cefnogi plant a rheini.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A4)

5.43 Roedd hyn yn cynnwys ceisio ymdopi â llwyth gwaith a sicrhau bod athrawon yn ymrwymo i oriau gwaith derbyniol. Fodd bynnag, mewn achos arall, nodwyd bod pwysau gwaith yn parhau i fod yn anodd, er gwaethaf ymdrechion i sicrhau seibiant,

> ‘Daeth [gwyliau] yr Haf, a ... dywedodd ein pennaeth wrthym, ‘yn ystod y pythefnos cyntaf, rhowch y gorau i weithio a pheidiwch â gwneud dim byd’, a dyna a wnaethom. Yn llythrennol, gwnaethom roi'r gorau i weithio ac ni wnaethom ddim byd... [Ond] treuliwyd y tair wythnos olaf yn cynllunio ar gyfer y dyfodol. Fel uwch-dîm arwain, roeddem yn cynllunio, yn edrych ar y canllawiau, ac yn gwneud yn siŵr bod y trefniadau yn yr ysgol yn iawn.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A1)

5.44 Er gwaethaf yr heriau, nododd rhai ysgolion fod y staff wedi cydweithio i geisio rhannu'r llwyth gwaith lle bynnag y bo modd,

> ‘Rhannodd yr athrawon lwyth gwaith y cynlluniau a'r gweithgareddau, a hynny i gyd yn seiliedig ar straeon, yn llawn hwyl a cheisio ennyn eu diddordeb cymaint â phosibl, a dweud y gwir’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, B3)

5.45 Dywedodd un cyfrannwr fod disgwyliadau rhieni yn ystod yr ail gyfnod o gyfyngiadau symud yn fwy nag yn ystod y cyntaf am nad oedd neb yn gwybod am faint y byddai'r cyfyngiadau symud yn para ac am fod y dyfodol yn ansicr iawn bryd hynny. Roedd rôl yr uwch-dîm arwain mewn ysgolion yn hollbwysig er mwyn rheoli'r amgylchedd gwaith newydd hwn i'r staff a'r goblygiadau i'w llwyth gwaith. Ceir negeseuon cadarnhaol gan athrawon a rheolwyr ynglŷn â'r ffaith eu bod yn cydnabod y ffordd wahanol hon o weithio ac wedi ceisio ei chefnogi:

> ‘Roedd hon yn ffordd wahanol o weithio. Bu'n rhaid i'r uwch-dîm arwain flaenoriaethu lles a gwneud yn siŵr bod y staff yn cael amser i ymlacio... roedd rhwydweithiau cymorth mewnol yn allweddol a hefyd roedd yn rhaid inni fod yn ymwybodol o effaith gofynion rhieni ar y staff a'u canfyddiadau o'r hyn y dylai'r ysgol fod yn ei wneud.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, C3)

**Lles staff**

5.46 Oherwydd y pwysau dwys yn ystod yr amrywiol gyfnodau o gyfyngiadau symud (fel y mynegwyd uchod), roedd yr angen i gefnogi staff yn ystod y cyfnod hwn yn amlwg iawn. Roedd sgyrsiau byr pan fyddai'r staff yn digwydd gweld ei gilydd, boed ar y campws neu oddi arno, yn ystod y cyfyngiadau symud, yn ffordd o gefnogi ei gilydd. Fodd bynnag, roedd y cyfleoedd hyn yn gyfyngedig yn ystod cyfnodau'r cyfyngiadau symud.

5.47 Pan wnaethant ddychwelyd i'r campws, dywedodd un cyfrannwr fod system ‘cyfeillio’ wedi cael ei sefydlu ar gyfer y staff:

> ‘...fel y gall y staff siarad â'i gilydd go iawn. Mae'n swnio'n wirion, ond cyn COVID-19 roedd llawer o ryngweithio cymdeithasol. Ond erbyn hyn, gan fod mesurau cadw pellter cymdeithasol yn yr ystafell staff a dim modd dod ynghyd i gael cyfarfodydd, nid yw'r staff yn gallu siarad â'i gilydd ddigon – dim ond am sgwrs. Weithiau, byddwch yn dod allan o wers ac yn ysu am gael cwyno a swnian... a chael cyfaill i ... fynd a chael coffi a sgwrs y tu allan.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A1)

5.48 Mae'n ymddangos mai ar dimau uwch-reolwyr roedd y pwysau mwyaf, er mwyn sicrhau bod eu cydaddysgwyr, a staff ychwanegol, yn cael y cymorth a'r gefnogaeth angenrheidiol yn ystod cyfnodau'r cyfyngiadau symud.

5.49 Roedd natur y gefnogaeth a roddwyd gan uwch-reolwyr yn amrywio. Dywedodd un ysgol fod y tîm uwch-reolwyr wedi ymgymryd â'r galwadau cynnal lles achlysurol er mwyn sicrhau lles eu staff. Fodd bynnag, mewn achos arall, defnyddiodd un sefydliad strwythurau'r ysgol i helpu. Siaradodd aelodau o'r tîm uwch-reolwyr a'r rheolwyr canol â'i gilydd, a gwnaethant hwy ac aelodau ychwanegol o staff siarad â'i gilydd er mwyn sicrhau lles y staff. Felly, roedd modd sicrhau bod materion a oedd yn peri pryder yn cael eu trafod, yn ogystal â chael eu trosglwyddo i reolwyr penodol iddynt ymateb iddynt.

5.50 Fodd bynnag, mewn un ymateb annisgwyl, nododd un cyfrannwr na newidiodd y pwysau arno gymaint â hynny ar ddechrau cyfnod y cyfyngiadau symud, er i'r pwysau gynyddu ychydig ar ôl ailddechrau addysgu wyneb yn wyneb. Yn wir, dywedodd rhai cydweithwyr eraill eu bod yn teimlo'n euog na wnaethant weithio'n galetach yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud.

> ‘…teimlo’n euog cyn lleied oedden nhw’n neud. Roedden nhw’n teimlo bo dim lot o waith i neud o gwbl [yn ystod y clo mawr], ac roedden nhw’n teimlo, wedi dychwelyd, fod rhad iddyn nhw neud lan am hynny. Mae e’n dibynnu ar yr athro/athrawes. Ond dwi ddim yn meddwl, o ran oriau, fod e di cynyddu’r baich.’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

5.51 Un agwedd allweddol lle y cynyddodd llwyth gwaith staff yn sylweddol oedd mewn perthynas â'r ysgolion hyb. Roedd pwysau ychwanegol ar y staff a oedd yn gweithio yn yr hybiau yn rhyngweithio â dysgwyr ac, yn aml, roedd gan y dysgwyr hynny anghenion dwys nad oeddent yn ymwybodol ohonynt. Fodd bynnag, roedd hyn hefyd yn peri straen i'r athrawon hynny nad oeddent yn gallu mynychu'r hybiau,

> ‘Ni allai rhai o'r staff weithio yn yr hyb am resymau meddygol... ac yna byddai'r gweddill ohonom yn mynd yno i weithio deuddydd yr wythnos. Roedd y cyfarfodydd tîm yn ddefnyddiol iawn i ni, am eu bod yn golygu bod yr aelodau hynny nad oeddent yn gallu dod i mewn yn cael cyfle i'n gweld, ac yn gwneud yn siŵr bod pawb yn iawn ac nad oeddem wedi dal COVID-19. Oherwydd y lefelau pryder a oedd yn gysylltiedig â mynd i mewn i ysgol newydd, lle nad oeddem yn gwybod pwy oedd y plant, a lle nad oeddem yn adnabod y plant am nad oeddent o'n hysgol ni, ac o ystyried COVID-19 hefyd, roedd y lefelau pryder yn eithaf uchel. Felly, roedd cael presenoldeb ar-lein gyda'n gilydd yn ddefnyddiol iawn fel cyfle inni drafod pethau.’ Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A2)

5.52 Dywedwyd bod un ysgol wedi penderfynu peidio â chynnal hyb yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud ac aros ar agor i blant gweithwyr allweddol. Y farn oedd bod hwn yn benderfyniad cadarnhaol i'r ysgol hon, ac aeth ati i greu rota i'r holl staff, gan gynnwys y pennaeth, er mwyn treulio cyn lleied o amser â phosibl yn yr ysgol. Roedd yr athrawon yn addysgu yn yr ysgol pan oeddent ar y rota ac yn addysgu o'u cartrefi hefyd. Roedd yr ysgol hon yn cydnabod bod hynny wedi newid yn ystod yr ail gyfnod o gyfyngiadau symud. Parhaodd yr ysgol i gynnig cyfleoedd dysgu thematig fel y gwnaeth yn ystod y cyfnod cyntaf.

> ‘Roeddem yn gwybod y byddai'r rhieni yn disgwyl mwy. Felly, yr ail dro, roedd ein hathrawon gartref oherwydd roeddwn yn gwybod y byddai llawer mwy o ddisgwyliadau. Roeddwn yn yr ysgol gyda'r cynorthwywyr addysgu yn gofalu am blant gweithwyr allweddol a dysgwyr agored i

> niwed. Roedd yr athrawon gartref. Roeddent yn mynd o'u co' braidd erbyn y diwedd – druan ohonynt – oherwydd roeddem yn gwybod y byddai mwy o ddisgwyliadau.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, B2)

5.53 Fodd bynnag, roedd y prif bwysau, fel y nododd cyfrannwr arall, yn deillio o'r ansicrwydd

> ‘o beidio â gwybod beth oedd yn dod’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A4)

5.54 Roedd y pryder hwn yn gyffredin mewn sawl ysgol. Dywedodd un cyfrannwr fod yr ansicrwydd cyffredinol ymhlith y staff ynglŷn â datblygiadau o ganlyniad i gyhoeddiadau'r llywodraeth wedi arwain at greu grŵp WhatsApp er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ac ateb unrhyw gwestiynau neu sylwadau. Roedd yn:

> ‘rhywbeth syml oedd yn gweithio yn arbennig o dda’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A4)

5.55 Hefyd, cyfrannodd y defnydd o lwyfannau negeseua at ymdeimlad ymhlith y staff fod rhywun yn gwrando arnynt, gan fod modd iddynt ofyn cwestiynau ar lwyfannau o'r fath. Roedd sicrhau bod llais y staff yn cael ei glywed yn ystyriaeth hollbwysig mewn llawer o sefydliadau. Sefydlodd un ysgol gyfrif e-bost:

> ‘...lle y gall y staff rannu unrhyw bryderon neu ofidiau drwy e-bost, a bydd ... tîm canolog, a byddwn yn gweld a allwn ddatrys unrhyw broblemau. Oherwydd, yn y bôn, byddwch yn mynd adref, yn cael te ac yn eistedd i lawr ac yn meddwl am yr hyn a ddigwyddodd heddiw. Felly, os gallwch roi hynny mewn e-bost a chael gwared arno, yn hytrach na meddwl am y peth dros nos, gobeithiwn y gall hynny eu helpu...’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A1)

5.56 Yn gysylltiedig â'r uchod roedd yr angen i ymateb i amrywiaeth eang o rwystrau a digwyddiadau a gododd ym mywydau'r staff. Yn aml, roedd angen cymorth a hyblygrwydd gan yr ysgol:

> ‘Ma rhaid trio fod yn hyblyg gyda phobol gydag anghenion gwahanol, er enghraifft o fod gyda theulu, o fod gyda theulu yn hunan ynysu a phethau fel hyn. Ma just eisiau trio gwrando gymaint â ni’n gallu.’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

5.57 Er mwyn helpu gyda hyn, cymerodd ysgol arall gamau er mwyn sicrhau,

> ‘...bod gennym fwy o bobl ar y rhestr gyflenwi, felly os byddwn mewn sefyllfa lle bo'n rhaid i nifer o'r staff fod i ffwrdd, yna bydd yr athrawon cyflenwi hynny ar gael.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A1)

5.58 Ynghyd â'r cymorth uchod, roedd delio â rhwystredigaeth a phryder ynglŷn â sgiliau TGCh gwan yn broblem fawr. Mae'n ymddangos bod hyn yn broblem arbennig ymhlith carfanau o athrawon hŷn. Roedd rhai yn teimlo ‘straen aruthrol’ ynglŷn â'r profiad o newid i addysgu o bell, ac roedd y swydd yn peri rhwystredigaeth iddynt er gwaethaf yr hyfforddiant. Roedd hyd yn oed yr hanfodion symlaf, fel defnyddio meddalwedd, a gosod gwaith ar y feddalwedd benodol, yn peri anhawster sylweddol a hirdymor. Yn ogystal â hynny, gwelwyd bod lefelau hyder wrth addysgu yn amrywio'n sylweddol rhwng yr ystafell ddosbarth a'r amgylchedd ar-lein. Nododd un cyfrannwr ei fod wedi darganfod bod rhai o'i gyd-aelodau o staff, a oedd â phrofiad helaeth yn yr ystafell ddosbarth, yn:

> ‘...nerfus iawn o ran mynd o flaen fideo’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A4)
>
> ‘Roedd y staff yn bryderus ynglŷn â gwersi byw a bod yn agored i farn y rhieni’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, C1)
>
> ‘Pwysau yn sgil rhywun yn “arsylwi” arnynt drwy'r amser’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, C2)

5.59 Yn fwy cyffredinol, rhoddwyd polisïau ar waith er mwyn sicrhau y gallai staff weithio gartref. Roedd rhai disgwyliadau o ran cynnal cyfarfodydd safle, gwneud gwaith angenrheidiol ar y campws, ac achosion lle nad oedd ymgysylltu'n digwydd gartref. Ond, yn gyffredinol, bu pawb yn gweithio gartref er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch y staff.

5.60 Hefyd, cafodd cyfarfodydd staff cyfan eu trefnu ar lwyfannau fel Teams. Teimlwyd bod y rhain yn sesiynau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth a rhoi gwybod am ddatblygiadau, ond hefyd, yn ôl un cyfrannwr, roeddent yn ffordd effeithiol o synhwyro'r ymdeimlad ymhlith y staff, er bod rhai cyfyngiadau i'r dechnoleg ar-lein o gymharu â gweld unigolion wyneb yn wyneb.

5.61 Wrth ailddechrau addysgu wyneb yn wyneb, roedd angen sicrhau bod cymorth sylweddol yn parhau i gael ei gynnig i'r staff. Fel y nododd un cyfrannwr,

> ‘...cafodd rhai athrawon sioc fawr wrth ddychwelyd ym mis Medi am eu bod yn symud o gwmpas a'r plant yn aros ble roeddent. Roedd cario pethau o gwmpas, a pheidio â chael eu hystafell ddosbarth eu hunain lle roeddent yn gwybod ble mae popeth, yn eithaf anodd iddynt.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A1)

5.62 Gwnaeth yr ymdeimlad o fod ‘heb fan sefydlog iddynt hwy eu hunain’ gymhlethu'r her o ddychwelyd i'r ysgol ymhellach,

> ‘...mae'n anodd arnynt... ac maent wedi blino. Mae yna fasgiau wyneb, a feisorau, a phopeth arall... addysgu'n rhithwir ac addysgu drwy ddulliau cyfunol. Mae'r rhain gennym ond, nawr, rydych hefyd yn gaeth i ddesg, ac mae llawer o athrawon yn tueddu i gerdded o gwmpas wrth addysgu...ac wedyn rhaid ichi eistedd, ddau fetr i ffwrdd oddi wrth bawb, ac wedyn rhaid ichi sefyll yno a darlithio... Mae'n wahanol.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A1)

5.63 Hefyd, roedd rhai aelodau o staff mewn gwahanol ysgolion yn teimlo'n nerfus iawn ynglŷn â dychwelyd i'r ysgol, a chyswllt wyneb yn wyneb â phlant ar

adegau pan oedd digwyddedd yn gymharol uchel yn y gymuned o hyd. Gwnaethant barhau i bryderu, yn enwedig yn ystod y cyfnodau hynny pan oedd adroddiadau o gynnydd mewn digwyddedd yn yr ardal. O ganlyniad i hynny, dechreuodd llawer o staff deimlo'n ofidus ac yn rhwystredig nad oedd camau pellach yn cael eu cymryd i gau'r ysgol.

**Darpariaeth i ddysgwyr – Y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud**

5.64 Roedd y ddarpariaeth dysgu gychwynnol a gynigiwyd i ddysgwyr yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud yn dangos y gwahaniaeth rhwng y dulliau gweithredu a ddilynwyd mewn gwahanol gyfnodau allweddol (mae'r gwahaniaethau y tynnwyd sylw atynt mewn un ysgol wedi'u nodi yn Nhabl 12).

**Tabl 5.3: Enghraifft o ddulliau addysgegol fesul cyfnod allweddol a ddefnyddiwyd gan un ysgol yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud**

| Cyfnod Allweddol | Egwyddor Addysgegol |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Ymateb i'r sefyllfa gyfnewidiol drwy ddarparu pecynnau papur cychwynnol yn cynnwys gwaith addas.<br>Wrth iddynt ddatblygu, aethpwyd ati i roi gwaith ar wefan yr ysgol a chyfathrebu â'r rhieni drwy 'Parentmail'. Drwy hyn, cafodd y gwaith ei ddosbarthu ynghyd â chymorth ac arweiniad i'r rhieni.<br>Yn ddiweddarach, gwnaethant ymrwymo i drosglwyddo'r dysgwyr hynny i Teams. |
| Cyfnod Allweddol 2 | Yn syth i Teams, gyda thimau unigol i bob dosbarth.<br>Er mwyn helpu'r broses gychwynnol o newid i ddysgu o bell, rhoddwyd pecynnau cychwynnol hefyd. Fodd bynnag, roedd pwysau i sicrhau eu bod ar-lein cyn gynted â phosibl, a rhoi gwaith ac adborth yn ddyddiol. Cynigiwyd gwaith gyda chyflwyniadau fideo, a sesiynau adborth byw hefyd.<br>Defnyddir Teams o hyd i osod a derbyn gwaith cartref. |
| Cyfnodau Allweddol 3 a 4 | Roedd dysgwyr uwchradd eisoes yn defnyddio 'Show My Homework' i anfon gwaith cartref. Roedd y drefn hon eisoes |

| | |
|---|---|
| | ar waith, felly parhawyd â hynny ar ddechrau'r cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud.<br>Roedd rhai hefyd yn gyfarwydd â model dysgu o bell 'E-sgol'.<br>Yn gyffredinol, byddai tasgau craidd yn cael eu rhoi i'r dysgwyr ar ddydd Llun, a thasgau nad oeddent yn rhai craidd ar ddydd Mercher. |
| Dysgwyr ag ADY / SIY | Byddai'r gwaith yn cael ei deilwra yn unol ag anghenion unigolion. |

5.65 Dywedodd ymatebydd arall o ysgol wahanol fod yr ymatebion yn cynnwys darparu copïau caled trawsgwricwlaidd o waith/adnoddau. Fodd bynnag, erbyn diwedd y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud, cafodd y ddarpariaeth ei diwygio i gynnig amserlen benodol o ddysgu o bell, gyda sesiynau byw yn cael eu cynnal o amgylch amserlen arferol y diwrnod ysgol:

> 'Rydyn ni'n gallu cynnig lot fwy o strwythur erbyn hyn. Rydyn ni'n gallu cynnig diwrnod ysgol, mwy neu lai, just o bell, sydd yn newid anferth.'
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

5.66 Soniodd ysgol arall am un llwyfan i'r babanod a llwyfan gwahanol i'r plant iau. Nid oedd yr ysgol wedi defnyddio llwyfannau ar-lein mewn ffordd ystyrlon cyn y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud mewn gwirionedd, gan nodi:

> 'Mae ein babanod yn defnyddio...rydyn ni'n defnyddio Purple Mash, sef y ffordd y mae'r babanod wedi dysgu gartref, ac mae'r plant iau wedi defnyddio Google Classroom, sy'n gysylltiedig â Hwb, sef llwyfan Llywodraeth Cymru... Felly gwnaeth athrawon yr adran iau gynyddu eu defnydd o Google Classroom gyda'r plant yn yr ystafell ddosbarth. Felly roedd gennym rywfaint o syniad sut i'w ddefnyddio oherwydd, cyn hynny, nid oeddent wir wedi defnyddio Google Classroom o'r blaen. Doedd dim angen mewn gwirionedd am fod pawb yn yr ystafell ddosbarth.' (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, B1)

5.67 Y prif ffocws addysgol, ymhlith yr holl sefydliadau yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud, oedd cynnal y pynciau craidd, h.y. iaith, mathemateg. Ar ddechrau cyfnod y cyfyngiadau symud, yn benodol, y dyhead oedd

> ‘cadw nhw i fynd er mwyn bo’ nhw ddim yn cwympo nôl’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

5.68 Hefyd, nododd un ymatebydd fod y ddarpariaeth gychwynnol yn canolbwyntio ar ddysgu sgiliau hanfodol ond, yn unol â hyn, fod cyfle i gynnwys rhywfaint o arloesi hefyd. Dywedodd yr ymatebydd fod pecynnau trawsgwricwlaidd wedi cael eu paratoi ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 3, mewn ymgais i sicrhau ffocws cynhwysfawr ar agweddau craidd, gan baratoi a datblygu dulliau addysgu trawsgwricwlaidd fel rhan o'r cwricwlwm newydd hefyd ar yr un pryd.

> ‘Wnaethon ni cael pecynnau traws-cwricwlaidd a gosod themâu. Dwi ddim yn meddwl themâu yw’r ffordd i fynd o ran y cwricwlwm newydd, ond mae e wedi bod yn gam cyntaf da er mwyn cael pobol i weithio mewn ffordd well gyda'i gilydd a bydd rhai adolygu hynny wrth i ni fynd ymlaen.’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

5.69 Fodd bynnag, roedd yr holl ymatebwyr hefyd yn cydnabod bod y newid cychwynnol i ddysgu ar-lein hefyd wedi effeithio ar eu gallu i addysgu'n effeithiol, oherwydd,

> ‘Pan fydd y plant yn yr ysgol, bydd yn llawer haws inni fodelu, ac addysgu, a dangos iddynt dros gyfnod o amser.’ Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A2)

5.70 Nododd un ysgol bryder am blant Blwyddyn 6 o ystyried eu bod yn ymwybodol o'r hyn a oedd yn digwydd, oherwydd y cyfryngau.

> ‘Nid oeddem yn gwybod beth i'w ddweud wrthynt, a dweud y gwir, oherwydd yr ansicrwydd. Ond roeddem am eu paratoi, rhag ofn na

> fyddai cyfle iddynt ddychwelyd. Ac roedd hynny'n eithaf anodd – delio â'r dryswch.' (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, B3)

**Darpariaeth i ddysgwyr – Datblygu darpariaeth**

5.71 Nododd sawl cyfrannwr fod eu strategaethau dysgu o bell wedi datblygu dros amser. Fel y soniodd un cyfrannwr yn flaenorol, roedd camsyniad ymhlith llawer o'r dechrau y byddai fformat yr addysgu o bell wedi'i gyfyngu i sesiynau byw. Er mai hyn fyddai conglfaen ymdrechion bron pob ysgol maes o law, mabwysiadwyd strategaethau eraill hefyd:

> 'Mae pawb yn meddwl fod dysgu o bell yn meddwl ffrydio byw, ac mae dyna be sy yn y peth. Ond mae e wedi bod yn job o addysgu i gael yr athrawon i ddeall beth ydy dysgu cyfunol, a'r gwahanol bethau chi'n gallu neud. Pethau fel defnyddio FlipGrid, Adobe Spark, ac mi oedd cael y sgyrsiau na yn beth mawr ohono fe.'
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

5.72 Yn seiliedig ar hyn, roedd modd newid y ddarpariaeth addysgol yn sylweddol ar sail ehangu'r ddealltwriaeth o'r llwyfannau amgen a oedd ar gael i athrawon.

5.73 Casglodd yr arolwg cychwynnol wybodaeth am yr amrywiaeth o feddalwedd roedd ysgolion yn ei defnyddio a chadarnhawyd yr hyn a oedd yn cael ei ddefnyddio yn y cyfweliadau ag uwch-arweinwyr. Cyfeiriodd ymatebydd arall at ddefnydd yr ysgol o feddalwedd Flip Grid, Show My Homework, Just2easy, G Suite for Education a TT Rockstars. Felly, pwysleisiodd hyn awydd i gynnig y ddarpariaeth yn seiliedig ar y cymorth sydd ar gael drwy Hwb, ond hefyd drwy fabwysiadu offer nad yw ar gael drwy Hwb hefyd, fel yn achos TT Rockstars a Maths Watch.

5.74 Datblygodd ysgolion ddarpariaeth a oedd yn briodol i'w cymunedau dysgu, a hynny'n seiliedig ar dechnoleg ac ar bapur, gan gynnwys pecynnau i ddysgwyr.

5.75 O ganlyniad i'r dryswch cychwynnol yn sgil peidio â gwybod pa mor hir y byddai'r cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud yn para, roedd un ysgol yn cydnabod, pan gyhoeddwyd y newyddion y byddai ysgolion ar gau ar ôl gwyliau'r Pasg, y byddai'n rhaid iddi ailystyried ei hymateb gwreiddiol i'r cyfyngiadau symud ac adolygu ei dull gweithredu ar gyfer dysgu ar-lein a sut y gellid sicrhau ei fod yn hygyrch i bawb.

> 'Felly, gwnaethom benderfynu defnyddio ein gwefan am ei bod wedi ennill ei phlwyf ac am fod y rhieni'n gwybod i chwilio am wybodaeth ar y wefan. Roedd yn gysylltiedig ag ap hefyd, felly gallent gael hysbysiadau yn syth i'w ffonau.' (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, B3)

5.76 Ceir tystiolaeth o'r cyfweliadau ag uwch-arweinwyr fod arolygon ac ymgyngoriadau â rhieni wedi cael eu cynnal i drafod faint o waith oedd i'w wneud a'r dulliau roedd yr ysgol yn eu defnyddio. Er enghraifft, yn seiliedig ar ymgynghoriad, gwnaeth un ysgol benderfyniad bwriadol i beidio â chynnal sesiynau cydamserol.

> 'Nid yw cydamserol yn deg i'r dysgwyr' (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, C3)

5.77 Datblygodd yr un ysgol strwythur a oedd yn rhoi eglurder ac amser i'r rhieni ofyn cwestiynau.

> 'Ar ddydd Sul, byddai cydlynydd y Blynyddoedd Cynnar yn anfon deunyddiau ar gyfer yr wythnos a byddai'r athrawon ar gael drwy'r wythnos i'r rhieni gysylltu â nhw i ofyn am help' (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, C3)

5.78 Mae'r data'n dangos tystiolaeth o'r ffordd yr aeth ysgolion ati i fyfyrio ar eu dulliau a'u haddasu a'u datblygu i gefnogi dysgwyr,

> 'Gwelsom fod angen i ddysgwyr weld yr oedolion, ac aethom ati i gynllunio gwersi â chyflwyniadau wedi'u recordio er mwyn i'r dysgwyr weld eu hathro.' (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, C1)

5.79 Roedd nifer o ysgolion yn awyddus i bwysleisio rôl bwysig cynorthwywyr addysgu yn y gwaith o gefnogi dysgwyr yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau symud ac wrth ailddechrau addysgu wyneb yn wyneb.

> ‘Dylid pwysleisio bod cynorthwywyr addysgu yn bwysig ac yn gryfder. Gwnaethant ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol yn eu hamser eu hunain a chynnig cymorth hanfodol’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, C1)

**Cefnogi dysgwyr – Mynediad at dechnoleg**

5.80 Roedd mynediad dysgwyr at dechnoleg yn broblem FAWR a ddaeth i'r amlwg wrth newid i ddysgu o bell. Un o'r pethau mwyaf annisgwyl, fel y nododd un ymatebydd, oedd gweld bod rhai dysgwyr (ac ymhlith dysgwyr ysgolion uwchradd roedd hyn fwyaf amlwg) yn ymdopi heb ddim mynediad at dechnoleg o gwbl:

> ‘Roedd lot mawr o rieni a theuluoedd heb ddim un cyfarpar o gwbl. Roedd e’n synnu fi sut yr oedd pobl yn dod i ben gyda rhedeg eu bywyd heb unrhyw fath o fynediad ar-lein y dyddiau yma!’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A4)

5.81 Felly, nododd pob ysgol y bu'n rhaid dosbarthu dyfeisiau yn aml, megis gliniaduron a llechi, er mwyn i ddysgwyr allu ymgysylltu â'r broses addysgu. Roedd y broses o gynnal arolwg er mwyn canfod pa fyfyrwyr oedd â mynediad at galedwedd yn ‘dipyn o gur pen’ i staff gan nad oedd y dull mwyaf cyffredin o ddosbarthu'r holiaduron (e-bost) ar gael i'r rhai yr oedd yr arolwg yn eu targedu. Felly, roedd yn hollbwysig ceisio canfod ffordd arall o ymgysylltu â'r dysgwyr hynny, a'u rhieni. Mewn un ysgol pob oed, rhoddwyd cyfanswm o 60 o ddyfeisiau electronig i ddisgyblion.

5.82 Mewn achosion eraill, hyd yn oed pan oedd gan unigolion fynediad at ddyfais o ryw fath, roedd llawer o ddysgwyr yn dioddef o ddiffyg mynediad at

gyfarpar digonol ar gyfer dysgu o bell. Er enghraifft, nododd llawer ohonynt mai dim ond hen galedwedd a oedd yn araf dros ben a oedd ar gael i rai addysgwyr a disgyblion, ac na allai'r galedwedd honno ymdopi â gofynion ffrydio byw, yn ogystal â gofynion dysgu eraill. At hynny, nododd un cyfrannwr:

> ‘Roedd rhai pobl yn trio defnyddio ffonau symudol i lawr lwytho pethau, ond roedd maint y sgrin yn fach iawn, ac roedd yn anodd iawn i ddefnyddio hynna i weithredu drwy Teams.’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

5.83 Nododd un ysgol bryderon mewn perthynas â gallu plant i ddysgu ar-lein am ei bod mewn ardal o amddifadedd uchel a bod hyn yn dylanwadu ar y dewis o weithgareddau a oedd ar gael a'r ffordd y byddai'r plant yn cael mynediad atynt.

> ‘Roeddem yn ymwybodol iawn oherwydd yr ardal roeddem ynddi. Roedd yn ardal o amddifadedd uchel ac, o ran y gweithgareddau, nid oeddem yn gallu gofyn iddynt brynu unrhyw beth arbennig. Felly bu'n rhaid inni ystyried y gweithgareddau hynny'n ofalus iawn. Gwnaethom ddefnyddio llawer o ddolenni i YouTube am ein bod yn gwybod y byddai'r mwyafrif o'r plant yn gallu ei ddefnyddio ac yn gallu mynd arno ar gonsolau gemau ac ati. Roeddem hefyd yn ymwybodol nad oeddem am gynnig gweithgareddau yr oedd angen gliniadur neu gyfrifiadur i'w cwblhau gan fod llawer o'r rhieni yn ein hardal yn mynd ar y wefan ar eu ffonau symudol. Felly gweithgareddau ar bapur oedd y cyfan.’
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, B3)

5.84 Hefyd, er y cydnabuwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cynnig rhywfaint o gymorth ar gyfer cysylltedd drwy hybiau ‘mi-fi’, bu'n rhaid i'r ysgolion fynd gam ymhellach yn aml a chynnig cymorth ychwanegol i ddisgyblion gan ddefnyddio eu rhwydweithiau cymorth eu hunain er mwyn rhoi caledwedd briodol i ddisgyblion,

> ‘Ni fyddwn yn dweud mai [cymorth] Llywodraeth Cymru oedd y cyfan. Cafodd yr hybiau bach eu darparu ganddi... ond o'r ysgol y daeth y gliniaduron. Daeth pob un o'n hysgolion clwstwr ynghyd...a gwnaethom drafod â'r penaethiaid er mwyn canfod ar faint o blant yr oedd angen rhoi gliniaduron iddynt a gwnaethom gasglu ein gliniaduron ynghyd...a chaniatáu iddynt fynd adref... Daeth y gliniaduron gennym ni, a'r hybiau bach gan Lywodraeth Cymru.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A1)

5.85 Fodd bynnag, yn ôl rhai ymatebwyr, er bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu mynd ar y rhyngrwyd drwy ddulliau amrywiol, cafwyd problemau cysylltedd parhaus a chyson mewn rhai achosion, a bu'n rhaid i rai dysgwyr (ac athrawon) newid lleoliad er mwyn dod o hyd i ‘lecyn Wi-Fi’ neu gysylltiad 3G neu 4G digonol. Amlygodd y broses gyfan fath o loteri cod post, gyda darpariaeth cysylltedd yn chwarae rôl bendant. Roedd rhai dysgwyr dan anfantais sylweddol o ganlyniad i hyn, fel y gwelir yn y sylw canlynol,

> ‘Mae ‘na phlant sydd, efallai, yn ymuno, ond dydyn nhw methu siarad achos dydy’r sain ddim yn gweithio, neu dydyn nhw ddim yn gweld o achos fod y cwbl yn pixelated, a ma na eraill yn clywed ond ddim yn gweld. Felly, ma hwnna’n rhywbeth dyddiol.’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A5)

**Cefnogi dysgwyr – Dysgwyr agored i niwed a lles dysgwyr**

5.86 Roedd ysgolion yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi eu dysgwyr agored i niwed a lles pob dysgwr.

5.87 Yn ystod y cyfyngiadau symud, roedd yn bwysig sicrhau y gallai ysgolion barhau i ofalu am ddysgwyr agored i niwed a'u cefnogi. Yn ôl un ysgol:

> ‘Gwnaethom nodi'r grŵp o blant a oedd yn agored i niwed yn ein barn ni. A gwnaethom ffonio eu cartrefi'n gyson. Gwnaethom gynnig lleoedd iddynt yn yr ysgol. Gwnaethom hefyd ofyn am gael siarad â'r plant dros y ffôn oherwydd, fel arfer, gallwch gasglu o ymatebion plant sut mae pethau'n mynd. A rhoesom gymaint â phosibl o adborth i'r

gwasanaethau cymdeithasol ynglŷn ag unrhyw bryderon a oedd yn cael eu codi.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, B4)

5.88 Cyfeiriodd ysgol arall at blant agored i niwed mewn teuluoedd yr oedd y gwasanaethau cymdeithasol eisoes mewn cysylltiad â nhw;

> ‘Mae gennym bump neu chwech, efallai saith teulu ar lefel o'r fath. A dyna'r rhai rwyf wedi ceisio eu targedu. A phe na bawn yn clywed ganddynt, byddwn yn parhau i anfon e-byst a negeseuon testun atynt ac yn dweud, “Rho wybod imi dy fod yn iawn”. A byddent yn gwneud hynny yn y pen draw. Cawsom rai problemau yn ymwneud â diogelu. Felly cysylltais â'r gwasanaethau plant ynglŷn â hynny a gwnes atgyfeiriad a gwnaethant ymchwilio i'r mater.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, B1)

**Lefelau ymgysylltu disgyblion ar-lein**

5.89 Nododd sawl ymatebydd fod lefelau ymgysylltu'r disgyblion â dysgu ar-lein yn amrywiol. Roedd elfen o newydd-deb i'r sefyllfa i ddechrau ond, ymhen ychydig, roedd y diffyg ymgysylltu uniongyrchol ag athrawon, a'r ffaith na allai athrawon sicrhau ymgysylltu uniongyrchol â'r broses addysgu, a rhoi tawelwch meddwl, yn golygu bod rhai disgyblion wedi colli diddordeb. O ganlyniad,

> ‘Roedd rhai plant yn defnyddio fe pob dydd, ac yn rheolaidd, ac yn fanwl iawn, ac mi oedd eraill ddim yn defnyddio fe o gwbl’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

5.90 Awgrymodd un ymatebydd fod lefelau ymgysylltu'n tueddu i amrywio o un pwnc i'r llall. Mewn rhai pynciau, lle roedd rhyw fath o ddysgu cyfunol neu ddefnydd o lwyfannau eisoes yn digwydd cyn y cyfyngiadau symud, e.e. mathemateg drwy ddefnyddio TT Rockstars neu Maths Watch, roeddent yn tueddu i fod yn uwch na mewn pynciau eraill lle roedd darpariaeth ar-lein yn dal i gael ei datblygu. Mae hyn yn croesgyfeirio â chanfyddiadau'r arolwg cychwynnol o'r prif apiau a oedd yn cael eu defnyddio i gefnogi dysgwyr.

5.91 Roedd gwybodaeth ysgolion am eu dysgwyr yn amrywio drwy'r sampl. Roedd gan ddwy ysgol rolau ymgysylltu â theuluoedd ac roeddent yn allweddol er mwyn deall amgylchiadau eu dysgwyr a dylunio a darparu cymorth priodol. Fodd bynnag, nid oedd athrawon bob amser yn ymwybodol o amgylchiadau'r dysgwyr unigol, felly nododd sawl ymatebydd na roddwyd dim pwysau ychwanegol ar ddysgwyr pe baent yn peidio ag ymgysylltu am gyfnodau cymharol fyr. Dyfalwyd y gallai salwch aelodau o'r teulu, neu golled yn y teulu o ganlyniad i'r pandemig, fod wedi cyfrannu at y diffyg ymgysylltu hwn.

5.92 Yn gysylltiedig â'r sylw uchod, nododd un ymatebydd hefyd y gall arfer yr ysgol o rannu aseiniadau ar-lein fod wedi cyfrannu at ymdeimlad unigolion o bwysau academaidd, ac at ddiffyg ymgysylltu yn dilyn hynny,

> ‘Roedd rhai yn ymdopi, a rhai eraill wedyn yn struglo ‘chydig bach gyda’r nifer o dasgau oedden nhw’n cael ... a gyda chwblhau’r gwaith.’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

5.93 Mewn ymateb i ddiffyg ymgysylltu gan rai disgyblion, nododd ymatebydd arall ei fod, er budd ei ddysgwyr, wedi amrywio'r tasgau a osodwyd er mwyn sicrhau na fyddai'r dysgwyr yn eistedd o flaen sgrin drwy'r dydd, a'u bod yn gallu ymgymryd â thasgau hawdd. Defnyddiwyd:

> ‘...tasgau lle y gallai'r plant weld rhywbeth ar y gliniadur ac yna fynd i ffwrdd i wneud y gwaith, e.e. rhywbeth ar fwystfilod bychain neu greu tŷ pryfed. Am fod y tywydd mor braf, roedd llawer o weithgareddau awyr agored y gallai'r plant fynd i ffwrdd i'w cwblhau fel nad oedd eu holl ffocws ar ddyfais.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A2)

5.94 Mewn rhai achosion, nododd yr ymatebwyr fod y newid i ddysgu ar-lein wedi rhoi hwb i allu rhai disgyblion i weithio'n annibynnol, a theimlid bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar lefelau ymgysylltu disgyblion penodol. Roedd hyn hefyd yn galluogi eraill i ddychwelyd at bynciau a thestunau nad oeddent yn eu deall yn iawn y tro cyntaf – disgyblion a oedd yn anfodlon mynegi eu hansicrwydd yn yr ystafell ddosbarth o bosibl,

> ‘Ma nhw’n gallu mynd nôl dros bethau rydym ni wedi recordio, a ma adborth y plant wedi bod yn rili dda. Ac yn enwedig... gyda’r rhai mwy tawel yn y dosbarth, a falle archolladwy. Nhw sydd wedi joio fe mwy. Oni’n ffeindio fod y rhai tawel yn ymuno mewn lot mwy yn y gwersi.’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

5.95 Cyfeiriodd sawl ymatebydd at newid mewn ffocws ar ôl i'r ysgolion gau yn gyntaf, i ganolbwyntio ar adborth yn hytrach nag asesu. Roedd hyn yn aml yn cael ei weld fel angen i ymateb i'r gwahaniaethau rhwng sefyllfaoedd disgyblion

> ‘…wnaethon ni rhoi pwyslais mawr ar les yn ystod y cyfnod cau cyntaf, doedden i ddim eisiau rhoi straen neu bwysau ar fyfyrwyr, so roedden ni’n dweud fod ddim deadlines. Os chi’n gallu gwneud y gwaith, ac os ych chi’n gallu hala fe mewn at athrawon, yna wnawn ni cynnig adborth - dim marcio, ond adborth. Doedd ddim lot o ‘take up’ ar hynny.’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

5.96 Hefyd, nododd sawl ymatebydd ei bod yn anodd rhoi adborth effeithiol i ddechrau. Fodd bynnag, datblygwyd sawl strategaeth wedyn, h.y. sesiynau adborth byw un i un, marcio llyfrau gan ddefnyddio Moodle, Show My Homework, a meddalwedd fel Screen Castify, Flip Grid a fideos. Arweiniodd hyn at wella ansawdd yr adborth a roddwyd a chynnydd yn lefelau ymgysylltu disgyblion.

5.97 Yn ogystal â hynny, er mwyn sicrhau cymaint o ymgysylltu â phosibl gan y disgyblion a bod disgyblion agored i niwed (nad oedd ganddynt fynediad at ddyfeisiau/cysylltiad digonol) yn gallu ymgysylltu, nododd sawl ymatebydd y byddent yn recordio sesiynau yn ôl yr angen. Fodd bynnag, nododd ysgol arall ei bod wedi dilyn amserlen gynhwysfawr a oedd yn cynnwys sesiynau wedi'u hamseru ar gyfer gwahanol grwpiau oedran.

5.98 Hefyd, wrth geisio canfod lefel yr ymgysylltu gan fyfyrwyr, roedd sawl ymatebydd yn cydnabod mor ddefnyddiol oedd Teams er mwyn casglu ystadegau ar ddysgwyr unigol. Gellid monitro'r data hyn yn agos a gwneud

ymdrechion ychwanegol i gysylltu â'r disgybl pe bai'r lefel ymgysylltu yn isel dros gyfnod estynedig.

5.99 Un canlyniad cadarnhaol a nodwyd gan dair ysgol gynradd oedd y gallent weld dysgwyr mwy annibynnol yn datblygu ar sail y profiad hwn. Roedd hyn yn rhywbeth yr hoffent ei ddatblygu ymhellach,

> ‘Mae'r dull dysgu cyfunol wedi meithrin annibyniaeth newydd ymhlith ein dysgwyr’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, C2)

**Lles disgyblion**

5.100 Roedd lles academaidd y dysgwyr, a'u lles cyffredinol, yn ystyriaeth ganolog i bob ysgol yn ystod y cyfnod hwn. Dywedodd sawl ysgol y byddent yn trefnu galwadau lles er mwyn cael sgwrs â'r myfyrwyr a'u teuluoedd: ‘Roeddem yn gwneud galwadau lles, felly roeddem yn cael gwybod pa fyfyrwyr oedd yn ei chael hi'n anodd defnyddio Teams ac yna'n trefnu galwadau â nhw.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A1)

5.101 Roedd cynnydd yn y defnydd o lwyfannau a hyfedredd wrth ddefnyddio llwyfannau ymhlith y staff hefyd yn helpu i frwydro yn erbyn unigrwydd, ac yn sicrhau bod disgyblion yn teimlo eu bod yn dal yn rhan o gymuned yr ysgol,

> ‘Ma nhw’n teimlo fel bod systemau gyda ni mewn lle sydd yn addas, a'u bod nhw’n gweithio. Ma nhw dal yn teimlo’n rhan o’r ysgol hyd yn oed os nag ydyn nhw yma, yn wirioneddol.’
>
> ‘Maent yn teimlo fel bod gennym systemau ar waith sy'n addas, a'u bod yn gweithio. Maent yn dal i deimlo'n rhan o'r ysgol hyd yn oed os nad ydynt yma go iawn.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

5.102 Tynnir sylw pellach at hyn yn y sylw isod,

> ‘[Roedd creu grwpiau ar Teams] yn rhoi amser i blant siarad ymhlith ei gilydd [yn ogystal â'r cyfle i drafod materion ag athrawon.] Bydd y rhan fwyaf o blant yn dal i fyny'n academaidd, neu efallai eu bod eisoes wedi gwneud hynny, ond yr ochr gymdeithasol yw'r peth y mae'r plant wir

wedi'i golli. Maent wedi gweld eisiau rhyngweithio â ffrindiau a'u grwpiau o gyfoedion... Roedd cael sgwrs fach [ddyddiol] wir yn help i'r plant ac yn rhoi gwybod iddynt eu bod i gyd yno o hyd, hyd yn oed os na allent weld ei gilydd.' Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A2)

5.103 Wrth ddychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud, parhaodd yr angen parhaus i hunanynysu a delio ag achosion newydd i gael effaith andwyol ar ddisgyblion, fel y gwelir yn yr enghraifft isod:

> 'Mae tri achos positif wedi bod mewn [un grŵp blwyddyn] felly, er enghraifft, roedd un fyfyrwraig y siaradais â hi newydd ddychwelyd ar ôl hunanynysu am 14 diwrnod ... ac roedd wedi gwneud hynny unwaith o'r blaen hefyd. Roedd wedi bod yn yr ysgol am dri diwrnod ac wedi bod i ffwrdd o'r ysgol am 28 diwrnod! Roedd bron â dechrau beichio crïo pan gafodd wybod y byddai'n rhaid iddi fynd adref a gwneud hyn i gyd ar-lein eto. Mae ein holl alwadau ffôn oherwydd achos positif wedi bod ar benwythnos... felly ni allem ganiatáu i'r plant hynny ddod i mewn ar fore Llun. Felly, yn llythrennol, roedd yn rhaid inni ddweud wrth blant am 7:30pm ar nos Sul na fyddent yn dod i mewn ddydd Llun... Felly rydym wedi bod ar ben arall y ffôn yn dweud wrth eu rhieni na fyddant yn dod i mewn. Ond cawsom wybod am un achos am 11:00am [ar ddiwrnod ysgol] felly bu'n rhaid inni alw'r holl blant a oedd wedi bod mewn cysylltiad i mewn i'r theatr a dweud wrthynt na fyddent yn cael mynd adref ar y bws ac yn y blaen. A gallech weld effeithiau'r hyn roeddem yn ei ddweud wrthynt, fel pe baent yn meddwl 'Mae'n rhaid imi fod gartref am 14 diwrnod arall, ac ni allaf ddelio â mwy o hyn. Nid wyf am fynd yn ôl ar-lein. Rwyf am weld fy ffrindiau. Rwyf am ddysgu. Rwyf am fod yn yr ysgol. Ac ar yr adeg honno byddech yn sylweddoli, "bobl bach – mae hyn yn effeithio arnynt". Mae hyn wir yn cael effaith negyddol ar eu lles meddyliol.' (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A1)

5.104 Mewn ymateb i achosion, fel yr un y cyfeirir ato uchod, nododd rhai ysgolion bod galwadau wedi cael eu cynnal yn amlach gyda'r disgyblion hynny yr

oedd angen iddynt hunanynysu er mwyn iddynt allu bod mewn cysylltiad â'r ysgol yn rheolaidd,

> ‘Mae'r rhieni'n gweithio gartref, fwy na thebyg, ac yn gwneud eu gorau glas [gyda'u gwaith]...Mae'n bwysig bod rhywun ar gael i siarad, a gwybod bod modd ffonio'r ysgol os bydd angen siarad â ni.’ (UA1, A1)

5.105 Fodd bynnag, nododd sawl ymatebydd hefyd fod gallu disgyblion i addasu i'r amgylchiadau cyfnewidiol wedi eu synnu,

> ‘Ma resiliance y plant yn anhygoel. Ma nhw di addasu i’r amserlenni gwahanol, a bod gwahanol ddosbarthiadau mas ar amser chwarae gwahanol, a bod pawb yn eu ‘zone’ amser chwarae. Yn ystod clybiau brecwast pryd ma gan bawb eu bwrdd, ac amser cinio'r un peth... Dydyn nhw ddim di cwestiynu’r peth, ond just clatsho bant.’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A5)

**Cymorth yn y cartref – Cymorth gan rieni**

5.106 Un duedd y pwysleisiwyd ei bod yn arbennig o bwysig er mwyn hybu ymroddiad dysgwyr i'w haddysg yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud oedd lefel y cymorth a chefnogaeth a oedd ar gael iddynt gartref. Yn gyffredinol, roedd rhieni'n awyddus i weld eu plant yn ymgysylltu â'r broses addysgu a chwblhau tasgau hyd eithaf eu gallu. Yn yr achosion hynny lle roedd rhieni eisoes yn ymwybodol o'r llwyfannau technolegol, rhoddwyd llawer o gymorth oherwydd,

> ‘Roedd y rhieni'n gyfarwydd â mewngofnodi a chefnogi'r dysgwyr’ (UA1, A2)

5.107 Fodd bynnag, lle roedd y prosesau'n newydd, ac yn anghyfarwydd, ac o ystyried y pwysau ychwanegol a oedd eisoes wedi dod i'r amlwg yn sgil COVID-19, roedd rhieni na wnaethant neu nad oeddent yn gallu cynnig yr un math o gymorth. Fel y nododd un cyfrannwr,

> ‘roedd rhai rhieni just yn penderfynu peidio gwneud dim o lawer’

(Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A4)

5.108 Nododd sawl ymatebydd fod y rhieni'n meddwl mai cyfrifoldeb yr ysgol oedd cynnig cymorth addysgol er mwyn helpu eu plant i ddysgu. Yn seiliedig ar hyn, a'r diffyg anogaeth gan rieni i'w plant ymgysylltu â'r broses addysgu, tynnodd rhai yn ôl o'r broses 'yn llwyr' yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud ac, er gwaethaf ymdrechion gorau'r ysgol i gynnwys y rhieni neu'r gwarcheidwaid, parhaodd hyn i fod yn her gyson:

> 'roedden ni'n cael trafferth i gael hyd i deuluoedd ar y ffôn. Roedden ni'n trial a trial ffonio ond ddim yn cael ateb... Roedd e'n gyfnod eithaf heriol.'

(Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A4)

5.109 Ar rai achlysuron, hyd yn oed pan wnaed cysylltiad â'r rhieni neu'r gwarcheidwaid, nododd ysgolion eu bod yn gwadu ffaeleddau eu plant, naill ai'n fwriadol neu ar sail anwybodaeth:

> 'Roedden nhw'n dweud weithiau, o, "ie, mae e'n mynd ar Teams yn ddyddiol." Ond roedden ni'n dweud, "wel, sori, ni'n tracio a ni'n gallu gweld yn union [faint mae wedi mynychu] a dydyn nhw heb fod arno fe ers mis!" Y fath na o senarios oedden ni'n cael.'

(Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

5.110 Yn ogystal â hynny, roedd sawl ymatebydd yn gweld cyfnod y cyfyngiadau symud, a'r newid i ddysgu o bell, ac felly ddiffyg ymgysylltu eu plant, fel problem a sbardunwyd gan y system addysg. Yn hyn o beth, roeddent yn feirniadol o'r unigolion hynny a oedd yn gyfrifol am gadw eu plant gartref yn eu barn nhw. Nododd un cyfrannwr:

> 'Blynyddoedd yn ôl roedd rhieni yn diolch am bob peth, ond mae 'na garfan nawr yn barod iawn i gwyno os nad ydyn nhw'n cael y ddarpariaeth maen nhw eisiau - neu yn meddwl eu bod nhw'n teilyngu. Mae hynna di cicio mewn yn y blynyddoedd diwethaf.'

(Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A4)

5.111 Nododd un ymatebydd fod yr ysgol wedi trawsnewid y ffordd yr oedd yn ymgysylltu â rhieni yn gyhoeddus. Un rhan o hyn oedd cymryd camau i ddiweddaru'r wefan, gan ei gwneud yn adnodd llawer haws ei defnyddio:

> ‘Ni wedi defnyddio cwmni lleol er mwyn gwella’r wefan. Mae’r wefan nawr yn holl newydd, ac yn ‘'unrecognisable' i’r hyn oedd yna o’r blaen.’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

5.112 Yn ogystal â hynny, cymerodd yr ysgol hefyd gamau i sicrhau bod ei phresenoldeb ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn well ac yn fwy amlwg:

> ‘...[er mwyn] sign postio a just cael y ‘buy in’ o rieni ni di mynd i’r afael a’r cyfryngau cymdeithasol a chael rhywun mewn i reoli hwnna. Ni di cael aelod o’r uwch dim yn y gorffennol, ond dyw e just ddim yn digwydd. Os wyt ti fishi just sdim amser da ti neud y gwaith. Ma cyfryngau cymdeithasol yn real sgil arbennig, a ma defnyddio fe’n dda yn cymryd amser a ma rhaid ti wybod be ti’n neud.’
>
> Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

5.113 Defnyddiodd un ysgol y broses o ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi 2020 fel cyfle i gynnal arolwg o'r rhieni a'r athrawon ynglŷn â lefel ymgysylltu isel â dysgu ar-lein yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud. Rhoddodd hyn gyfle i'r ysgol ddiwygio ei harlwy ar-lein yn llwyr a chreu gwefan newydd.

> ‘Dechreuais ddweud wrth y rhieni y byddai'r holl wybodaeth y byddwn yn ei rhannu i'w gweld ar ein gwefan, er mwyn eu hannog i ddechrau ei defnyddio. Gwnaethom greu adran debyg iawn ar ddysgu gartref ar y wefan a, phan oedd y plant yn yr ysgol, gwnaethom eu haddysgu sut i'w defnyddio. Felly, drwy roi hyn ar y wefan heb fod angen cyfrinair na dim byd o'r fath, gwelsom fod y lefelau ymgysylltu'n llawer uwch.’
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, B3)

5.114 Fodd bynnag, mewn rhai achosion cyfyngedig iawn, gwelwyd achosion o ymddygiad annerbyniol gan rieni ar y gwefannau cymdeithasol:

> ‘Ceir achosion... lle mae disgybl wedi gofyn cwestiwn i athro/athrawes yn ystod y gwyliau, a dim wedi cael ateb yn syth achos fod yr aelod staff ar wyliau. Wedi hynny ni di cael comments wedi gadael ar luniau [ar y cyfryngau cymdeithasol]. Achos fod y gallu gyda ni i weithio o bell, mae’n anodd rheoli’r disgwyliadau fod athrawon ar gael 24/7 i ateb cwestiynau.’

**Cymorth yn y cartref – Cymorth i rieni**

5.115 Er budd pennaf y dysgwyr, cyfeiriodd yr ymatebwyr hefyd at yr angen i sicrhau bod prosesau ar waith a oedd yn galluogi ysgolion i gynnig cymorth ar arweiniad i rieni. Cyfeiriodd un cyfrannwr at greu fideos amrywiol er mwyn helpu rhieni gyda gwaith ysgol eu plant, gwybodaeth ar sut y gallent eu helpu i gyflwyno eu gwaith, yn ogystal â sut i gael gafael ar ddeunyddiau, gan gynnwys sesiynau ffrydio byw, i gynorthwyo eu haddysg. Hefyd, byddai'r athrawon yn creu enghreifftiau i'r rheini er mwyn eu helpu i ddeall y camau angenrheidiol er mwyn cwblhau'r dasg gyda'u plant. Cynigiwyd sesiynau hyfforddi ar-lein hefyd, a oedd yn cynnig canllawiau ‘cam wrth gam’ i rieni. Cafodd y cymorth ychwanegol hwn ei gynnig ar ôl iddi ddod i'r amlwg bod llawer o rieni a gwarcheidwaid yn wynebu anawsterau,

> ‘Yn yr wythnosau cyntaf ‘na gyd oni’n neud oedd eistedd adre yn ymateb i alwadau’r rhieni ynglŷn â usernames, passwords, a sut oedd gwneud hwn, a sut oedd lan lwytho a’r fath yna o beth achos bod e’n newydd. Roedden ni wedi cael peth amser i esbonio i’r plant yng nghyfnod allweddol 2, ond dim digon o fanylder iddyn nhw fod yn hunan cynhaliol...’
>
> (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A4)

5.116 Hefyd, cyfeiriodd sawl ymatebydd at yr arfer o gynnig galwadau lles achlysurol i rieni. Mewn ysgolion eraill, byddai hyn yn cael ei wneud yn wythnosol, yn enwedig yn achos teuluoedd agored i niwed hysbys. Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni'n gwerthfawrogi'r galwadau, ac ymholiadau am eu lles

wrth i'r cyfnod fynd rhagddo, a dywedodd ymatebwyr o'r ysgolion lle y cafodd yr arfer hon ei mabwysiadu eu bod yn fuddiol.

5.117 Roedd yr angen i gefnogi'r rhieni, yn ogystal â'r plant, yn rôl yr oedd ysgolion yn cydnabod ei bod yn allweddol i gefnogi'r plant hefyd. Amlinellwyd hyn yn y dyfyniad hwn o un ysgol.

> ‘Oherwydd ein bod yn ymwybodol bod rhai o'r rhieni yn ein hardal yn ddibynnol ar y siopau tecawê a heb arfer â choginio bwyd cartref. Ac, wrth gwrs, roedd popeth ar gau. Felly roeddem yn ymwybodol bod angen eu bwydo. A dim ond microdon a phethau tebyg oedd gan rai rhieni. Felly gwnaethom geisio gwneud cymaint â phosibl i helpu'r rhieni hefyd. Gwnaethom rannu cryn dipyn o ryseitiau – ryseitiau syml iawn y gallent eu gwneud gyda'r plant. Roedd elfen o ddysgu, ond hefyd byddai'n bwydo'r teulu i de.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, B3)

> ‘Cyfathrebu â'r rhieni am lefelau gwaith. Gwnaethom gynnal arolwg o'r rhieni er mwyn parhau i ryngweithio â'r rhieni a chasglu eu mewnbwn ar yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio...Tynnodd y rhieni sylw at les a gwnaethom roi gwybod i'r rhieni y gall y wybodaeth newydd am TG sydd gan y myfyrwyr agor drysau iddynt.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, C1)

**Ailddechrau addysgu ar ôl y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf a dechrau'r ail gyfnod o gyfyngiadau symud cenedlaethol**

5.118 Bwriad y cynnig ymchwil gwreiddiol ar gyfer y prosiect hwn oedd edrych ar y cyfnod o fis Mawrth 2020 tan fis Gorffennaf 2020; ond wrth i'r sefyllfa newid a datblygu, gwnaethom hefyd lwyddo i gasglu gwybodaeth am y cyfnod o ailddechrau addysgu wyneb yn wyneb, cyfyngiadau symud lleol a chwarantinau, a'r ail gyfnod o gyfyngiadau symud o fis Rhagfyr 2020 tan fis Chwefror 2021.

5.119 Wrth fyfyrio ar y profiad o fis Medi 2020 tan fis Chwefror 2021, nododd ysgolion ddatblygiadau ers y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud,

newidiadau a wnaed a'r heriau i'w hwynebu o hyd. Darparodd rhai ysgolion weithgareddau yn yr un modd â'r cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud ond roedd tystiolaeth o fwy o weithgareddau byw, cydweithio a dealltwriaeth gyffredin drwy ymgynghori â rhieni a dysgwyr a mwy o hyder ymhlith y staff ynghylch addysgu a dysgu yn yr amgylchedd hwn.

> ‘Rhannu cylchlythyrau â'r rhieni – straeon i greu cysylltiadau’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, C2)
>
> ‘Mwy o ffocws ar adborth gan rieni’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, C3)
>
> ‘Fideo yn y bore i wneud pethau'n fwy personol...Sesiynau byw yn canolbwyntio ar les’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, C2)
>
> ‘Ehangodd y dysgu gartref ond roedd y rhieni'n barod amdano ac roedd y lefelau ymgysylltu yn uchel’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, C2)
>
> ‘Dewis ble i gysylltu ar-lein, a pha mor aml’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, C2)
>
> ‘Saesneg a Mathemateg yn y bore ac un gweithgaredd yn y prynhawn yn canolbwyntio ar les’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, C1)

**Myfyrio ar arferion da**

5.120 Myfyriodd rhai ysgolion ar effaith uniongyrchol y profiad hwn, a'i effaith yn y dyfodol, ar y ffordd y maent yn addysgu eu dysgwyr ac yn rhyngweithio â nhw. Cyfeiriodd ysgolion at y canlynol:

| Thema | |
|---|---|
| Y goblygiadau i ddysgu ac addysgu | Gwireddu'r potensial i ddefnyddio dulliau cyfunol mewn cymorth wyneb yn wyneb er mwyn helpu dysgwyr i ddiwallu eu hanghenion unigol ac ategu eu rôl yn y cwricwlwm newydd.<br>Mae athrawon yn cyflwyno dulliau addysgegol newydd yn yr ystafell ddosbarth |
| Datblygu dysgwyr | Cyfle i ddefnyddio dulliau cyfunol i ddatblygu annibyniaeth dysgwyr |

| | |
|---|---|
| Dysgu proffesiynol | Cefnogi lles staff drwy roi'r rhyddid iddynt ddewis pryd a sut i gael yr hyfforddiant sy'n berthnasol iddynt. |
| Technoleg | Archwilio rôl technoleg o ran cynnig cyfleoedd newydd |
| Rhieni | Archwilio cyfleoedd i gynnwys rhieni'n fwy yn y broses ddysgu |

**Sylwadau i gloi**

‘[Rydym wedi dysgu bod] plant wir yn gwerthfawrogi'r ysgol.’ Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A2)

‘Unwaith ti’n dechrau siarad am y peth ti’n sylweddoli beth sy' 'di digwydd, a faint o bethau ni di neud. Mae 'di bod yn neis siarad am y peth. Mae e di gneud i fi deimlo, ie, blydi hell, ni wedi gwneud lot, a di neud yn OK.’ (Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

‘…yn gyffredinol, mae cofid wedi gwneud i ni ffocysu ar y pethau dylen ni wedi bod yn ffocysu arno. O ran lles y plant. O ran y datblygiadau yma. Mae e wedi sbarduno, ac wedi bod yn help, os rhywbeth. Dwi’n meddwl dawn ni allan yn well na sut aethon ni mewn... Kick up the arse really! Mae’n beth da.’

(Cyfweliad ag Uwch-arweinydd, A3)

**Crynodeb**

5.121 Roedd y themâu allweddol a nodwyd yn y data a gasglwyd gan uwch-arweinwyr yn aml yn cyfeirio at yr angen i **addasu** eu harferion yn barhaus yn ystod y pandemig, yn enwedig mewn perthynas â **dewis llwyfannau ar-lein** a'r **ddarpariaeth a roddwyd i ddysgwyr**. Yn gysylltiedig â'r canfyddiadau hyn roedd y gofyniad am fwy o **gymorth TG** i staff, dysgwyr a rhieni, a chyfeiriodd y cyfranogwyr yn aml at broblemau wrth gael gafael ar **galedwedd** briodol a lefelau anghyson o **gysylltedd** (yn enwedig mewn

lleoliadau gwledig ond ledled Cymru hefyd). Hefyd, roedd pwyslais clir yn yr ymatebion ar hybu a chefnogi **lles** ymhlith staff a myfyrwyr, ac roedd cynnydd mewn **llwyth gwaith** yn ffactor allweddol i'r staff (yn enwedig i uwch-arweinwyr mewn ysgolion). Fodd bynnag, gwnaeth ymarferwyr hefyd achub ar y cyfle i **fyfyrio ar arferion da**, ac roedd pob cyfranogwr yn cydnabod yr angen i adeiladu ar y sgiliau (yn enwedig sgiliau ar-lein) a ddatblygwyd yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud.

5.122 Mae crynodeb o'r canfyddiadau allweddol o'r cyfweliadau ag uwch-arweinwyr i'w weld isod:

- Un thema gyson drwy'r cyfnodau o gyfyngiadau symud oedd addasu i wahanol ddulliau cyflawni. Cafwyd cyfnodau o ddysgu o bell a chyfnodau o ddysgu cyfunol pan nad oedd y dysgwyr yn yr ysgol bob amser neu pan dorrodd cyfyngiadau symud lleol a chwarantinau ar draws yr addysgu wyneb yn wyneb. Yn y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud, gwelwyd newid cyflym i ddysgu o bell.
- Roedd ysgolion yn y sampl ar gamau gwahanol o ran eu defnydd o dechnoleg a pha mor gyfarwydd oeddent â llwyfannau ac apiau y gellid eu defnyddio yn y sefyllfa hon. Yn y pen draw, dewisodd rhai ysgolion lwyfan a oedd yn diwallu eu hanghenion unigol eu hunain, i bob golwg. Cafodd eraill eu harwain gan y cymorth a oedd ar gael gan awdurdodau addysg lleol penodol.
- Er mwyn newid i ddysgu o bell, a defnyddio amrywiaeth eang o lwyfannau i gynnig y ddarpariaeth, roedd angen llawer o gymorth a hyfforddiant er mwyn paratoi ac ‘uwchsgilio’ athrawon. Nodwyd datblygiad dysgu proffesiynol mewn addysgeg dysgu estynedig drwy dechnoleg, sgiliau technoleg, gwneud dewisiadau technolegol, a modelau dysgu cyfunol a dysgu o bell.
- Roedd mynediad at galedwedd briodol yn her i ysgolion a dysgwyr wrth iddynt ddatblygu eu dulliau gweithredu mewn perthynas â dysgu o bell a dysgu cyfunol. Cyfeiriodd sawl ysgol at yr angen i sicrhau bod caledwedd briodol ar gael i staff a dysgwyr ei defnyddio ac, yn aml, cafodd gliniaduron eu caffael i staff a dysgwyr.
- Un thema gyson ac allweddol ym maes anawsterau technegol i'r staff oedd cysylltedd a mynediad at gysylltiad dibynadwy â'r rhyngrwyd. Nododd sawl cyfrannwr fod hyn wedi peri problem enfawr i sawl aelod o staff drwy gydol cyfnod y cyfyngiadau symud, ac roedd hyn yn broblem allweddol i ddysgwyr hefyd.

- Yn ogystal â heriau mewn perthynas â TG, y farn gyffredin (ym mhob ysgol) oedd bod y cyfnod yn heriol dros ben. Yn ôl un cyfrannwr, bu cynnydd ‘pendant’ yn y pwysau ar athrawon.
- Oherwydd y pwysau dwys yn ystod yr amrywiol gyfnodau o gyfyngiadau symud, roedd yr angen i gefnogi staff yn ystod y cyfnod hwn yn amlwg iawn. Roedd defnyddio ‘systemau cyfeillio’ mewn ysgolion o gymorth o ran cefnogi aelodau o staff yn ystod y cyfnod hwn. Roedd uwch-arweinwyr yn allweddol er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi'n effeithiol yn ystod y cyfnodau o gyfyngiadau symud.
- Roedd lles academaidd y dysgwyr, a'u lles cyffredinol, yn ystyriaeth ganolog i bob ysgol yn ystod y cyfnod hwn, a chymerodd ysgolion gamau eithriadol i sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei gefnogi'n effeithiol.
- Roedd y ddarpariaeth dysgu gychwynnol a gynigiwyd i ddysgwyr yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud yn dangos y gwahaniaeth rhwng y dulliau gweithredu a ddilynwyd mewn gwahanol gyfnodau allweddol. Cyfeiriodd sawl ymatebydd at yr angen i ddarparu copïau ar-lein a chopïau caled o waith a/neu adnoddau. Y prif ffocws addysgol (ym mhob sector) yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud oedd cynnal y pynciau craidd a'r sgiliau craidd. Fodd bynnag, datblygodd strategaethau dysgu o bell dros amser ac roedd modd newid y ddarpariaeth addysgol yn sylweddol ar sail ehangu'r ddealltwriaeth o'r llwyfannau amgen a oedd ar gael i athrawon.
- Nododd sawl ymatebydd fod lefelau ymgysylltu'r disgyblion â dysgu ar-lein yn amrywiol. Roedd elfen o newydd-deb i'r sefyllfa i ddechrau ond, ymhen ychydig, roedd y diffyg ymgysylltu uniongyrchol ag athrawon, a'r ffaith na allai athrawon sicrhau ymgysylltu uniongyrchol â'r broses addysgu, a rhoi tawelwch meddwl, yn golygu bod rhai disgyblion wedi colli diddordeb. Fodd bynnag, sylwodd eraill ar gynnydd mewn annibyniaeth ymhlith eu dysgwyr.
- Un duedd y pwysleisiwyd ei bod yn arbennig o bwysig er mwyn hybu ymroddiad dysgwyr i'w haddysg yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud oedd lefel y cymorth a chefnogaeth a oedd ar gael iddynt gartref. Yn gyffredinol, roedd rhieni'n awyddus i weld eu plant yn ymgysylltu â'r broses addysgu a chwblhau tasgau hyd eithaf eu gallu. Fodd bynnag, oherwydd diffyg anogaeth gan nifer bach o rieni, tynnodd rhai dysgwyr yn ôl o'r broses ‘yn llwyr’ yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud ac, er gwaethaf ymdrechion gorau'r ysgol i gynnwys y rhieni neu'r gwarcheidwaid, parhaodd hyn i fod yn her gyson.
- Er budd pennaf y dysgwyr, cyfeiriodd yr ymatebwyr hefyd at yr angen i sicrhau bod prosesau ar waith a oedd yn galluogi ysgolion i gynnig

cymorth ar arweiniad i rieni. Byddai'r athrawon yn creu enghreifftiau i'r rheini er mwyn eu helpu i ddeall y camau angenrheidiol er mwyn cwblhau'r dasg gyda'u plant, a chafodd sesiynau hyfforddi eu cynnig ar-lein hefyd er mwyn cynnig canllawiau ‘cam wrth gam’ i'r rhieni.

- Yn olaf, gwnaed sawl cyfeiriad at ddefnyddio ‘arferion da’ yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, ac roedd consensws cyffredinol bod angen parhau i ddefnyddio llwyfannau ar-lein a dulliau cyfunol er mwyn diwallu anghenion dysgwyr a chydymffurfio â gofynion y cwricwlwm newydd.

# 6. Canfyddiadau: Llais athrawon

6.1 Cynhaliodd un bartneriaeth SAU grwpiau ffocws gyda grwpiau o athrawon rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr 2020, a defnyddiodd dwy arall arolygon a gynhaliwyd rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2021 i gasglu data ar brofiadau athrawon. Roedd y grwpiau ffocws yn cynnwys tri neu bedwar athro o wahanol bynciau a chyfnodau. Mewn rhai grwpiau ffocws cynradd, roedd uwch-arweinwyr yn bresennol ac nid oeddent yn bresennol mewn rhai eraill. Casglodd arolwg un bartneriaeth SAU ddata gan saith athro mewn dwy ysgol gynradd, gan gynnwys arweinwyr yr ysgolion, a chasglodd y bartneriaeth arall ddata gan bum ysgol gynradd. Mae codau'r ysgolion yr un peth â'r rhai a ddefnyddiwyd wrth adrodd ar y cyfweliadau ag uwch-arweinwyr.

**Tabl 6.1: Codau Uwch-arweinwyr, Math o Ysgol**

| | Cod Ysgol | Math o Ysgol | Iaith Addysgu |
|---|---|---|---|
| 1 | A1 | Pob oed | Dwyieithog |
| 2 | A2 | Cynradd | Saesneg |
| 3 | A3 | Uwchradd | Dwyieithog (Saesneg yn bennaf) |
| 4 | A4 | Pob oed | Dwyieithog |
| 5 | A5 | Cynradd | Cymraeg |
| 6 | B1 | Cynradd | Saesneg |
| 7 | B2 | Cynradd | Saesneg |
| 8 | C1 | Cynradd | Saesneg |
| 9 | C2 | Cynradd | Saesneg |
| 10 | C3 | Cynradd | Saesneg |
| 11 | C4 | Cynradd | Saesneg |
| 12 | C5 | Cynradd | Saesneg |

6.2 Defnyddiodd y grwpiau ffocws a'r arolygon yr un set o gwestiynau. Cafodd pob cyfweliad ei drawsgrifio a chynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r themâu allweddol a'r is-themâu. Dilynwyd proses debyg o ddadansoddi

thematig ar gyfer yr ymatebion i'r arolygon. Nodwyd naratif o'r themâu a gellir gweld data ansoddol a gymerwyd o'r cyfweliadau a'r ymatebion i'r arolygon isod a cheir crynodeb o'r themâu yn Nhabl 13.

**Tabl 6.2: Themâu o'r grwpiau ffocws**

| | **Themâu** | **Is-thema** |
|---|---|---|
| 1 | Addasu | Addasu i ddysgu o bell<br>Cyfnodau o gyfyngiadau symud |
| 2 | Dewis llwyfannau ar-lein<br>Hyblygrwydd | |
| 3 | Cymorth TG | Hyfforddiant<br>Caledwedd<br>Cysylltedd |
| 4 | Llwyth gwaith | |
| 5 | Lles staff | |
| 6 | Cefnogi myfyrwyr | Hyblygrwydd wrth ymateb i anghenion<br>Myfyrwyr agored i niwed |
| 7 | Lefelau ymgysylltu dysgwyr ar-lein | Heriau mewn pynciau/cyfnodau gwahanol |
| 8 | Gweithio gyda rhieni | |
| 9 | Myfyrio ar y profiad cyfan | Edrych i'r dyfodol |

**Addasu i ddysgu o bell**

6.3 Roedd y cyfnod cychwynnol o newid i ddysgu o bell ym mis Mawrth 2020 yn heriol i ysgolion a dysgwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd.

> ‘Roedd yn naid fawr i lawer o ddisgyblion yn y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud. Yn amlwg, roedd llawer o broblemau technegol...ymgyfarwyddo â sut i fewngofnodi a sut i ddefnyddio Teams.’ (Athro, A1)

6.4 Roedd agweddau a safbwyntiau'n amrywio, gyda rhai unigolion yn dweud eu bod ‘wedi dychryn’ (Athro, A3), neu fod y newid yn ‘sioc enfawr’ (Athro, A4), ac eraill yn fwy hyderus:

> ‘Nid oes llawer o amser ers imi adael y brifysgol, felly nid oedd mynd ar-lein yn peri gormod o bryder.’ (Athro, A3)

6.5 Roedd gan ysgolion eraill safbwynt gwahanol ac roeddent yn gweld y newid yng nghyd-destun gwaith roeddent eisoes yn ei wneud i integreiddio technoleg yn y dysgu a'r addysgu:

> ‘A dweud y gwir, roeddem wedi paratoi ymlaen llaw ar gyfer hyn, bron... cyn y cyfyngiadau symud. [Ers] mis Medi 2019, roeddem eisoes yn defnyddio Hwb... yng Nghyfnod Allweddol Dau gyda J2E i wneud cryn dipyn o waith cartref a oedd yn cael ei osod ar-lein.’ (Athro, A2).

> ‘Roeddem eisoes wedi defnyddio rhaglen Purple Mash yn yr ysgol a gwnaethom ddefnyddio'r llwyfan hwn i gynnal ein gweithgarwch dysgu o bell ar gyfer ein disgyblion. Roedd y staff, y disgyblion a'r rhieni eisoes yn gyfarwydd â'i ddefnyddio, felly roedd y broses o newid i ddysgu o bell yn un ddidrafferth.’ (Athro B1)

> ‘Roedd ein llwyfan Seesaw eisoes yn cael ei ddefnyddio yn yr ysgol felly hwn oedd y dewis amlwg i'w ddefnyddio ar gyfer dysgu o bell.’ (Athro B2)

> ‘Roedd llwyfan See Saw wedi ennill ei blwyf ymhlith ein dysgwyr ac, yn bwysig ddigon, ein rhieni’ (Athro C1)

6.6 Gwnaeth ysgolion benderfyniadau bwriadol ynglŷn â'r ffordd orau o reoli'r newid ar gyfer eu dysgwyr eu hunain a'u teuluoedd:

> ‘Fel tîm yn y Cyfnod Sylfaen, gwnaethom drafod y fformat gorau ar gyfer ein dysgwyr ifanc. Gwnaethom gytuno ar daflen wythnosol o dasgau dysgu gartref. Cafodd y fformat ei drafod mewn cyfarfodydd staff rhithwir. Cafwyd trafodaethau ar gysondeb drwy'r ysgol a rhannwyd enghreifftiau o arferion da.’ (Athro B1)

6.7 I rai, er gwaethaf amheuon cychwynnol, roedd y newid yn dipyn o agoriad llygad:

> ‘Rwyf wedi bod yn eithaf amharod yn y gorffennol, ond roeddwn yn synnu pa mor gyflym y gallai pob un ohonom wneud hyn, a pha mor gyflym y gallem symud. Rydym wedi cael gliniaduron newydd a meddalwedd newydd a, mwyaf sydyn, rydym i gyd yn addysgu ar-lein!’ (Athro, A3).

6.8 Ymatebodd ysgolion yn gyflym iawn i ofynion dysgu o bell er gwaethaf y sioc gychwynnol. Eu blaenoriaeth oedd dod o hyd i ddulliau a oedd yn gweithio i'r disgyblion, ac roedd cydweithio yn yr ysgol yn bwysig er mwyn datblygu ymarfer.

**Cyfnodau o gyfyngiadau symud**

6.9 Gwnaed y gwaith casglu data cychwynnol mewn grwpiau ffocws rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2020 felly roedd y cyfranogwyr yn myfyrio ar y dysgu o bell yn ystod gwanwyn 2020 a dysgu cyfunol pan oedd yn ofynnol i rai disgyblion neu grwpiau hunanynysu yn ystod tymor yr hydref. Mewn gwaith casglu data diweddarach (arolwg a rhai grwpiau ffocws) myfyriwyd ar brofiadau pobl o'r broses o newid cyn Nadolig 2020 a'u profiadau o'r cyfnod o fis Ionawr tan fis Mawrth 2021.

6.10 Gan amlaf o lawer, profiad pobl o'r cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud oedd bod y ffocws ar les yn hytrach na dysgu:

> ‘Cyfyngiadau symud #1 = gweithgareddau i ddiddanu'r plant!
>
> Cyfyngiadau symud #2 = disgwyl i'r plant barhau i ddysgu a gwneud cynnydd.’ (Athro B2)

6.11 Myfyriodd rhai athrawon ar yr heriau a oedd yn gysylltiedig ag addysgu yn yr ystafell ddosbarth gan gadw pellter cymdeithasol pan ddychwelodd y plant i'r ysgol ym mis Medi 2020:

> ‘Nid oeddwn yn gallu ymgysylltu â'r plant yn yr un ffordd. Roedd yn rhaid bod 2m i ffwrdd a gwisgo feisor i'w helpu gyda'u gwaith neu wrando arnynt yn darllen, neu gael sgwrs â nhw.’ (Athro B1)

‘Hefyd, cyflwynodd fy ysgol amserlen i'r dosbarthiadau ddefnyddio'r toiledau, gan drefnu amser i'r glanhäwr lanhau'r toiledau hefyd. Roedd yn anodd disgwyl i fy nosbarth (Blwyddyn 3) ddilyn amserlen gaeth ar ddefnyddio'r toiled.’ (Athro B1)

6.12 Dychwelodd y rhan fwyaf o'r plant i'r ysgol ym mis Medi 2020 ac roeddent yn frwdfrydig dros gymryd rhan ond:

‘Cafodd nifer o ddisgyblion eu cadw gartref yn ystod tymor yr hydref oherwydd pryderon rhieni am y feirws – cysylltwyd â'r disgyblion hyn bob wythnos ac roedd eu lefelau ymgysylltu â'r dysgu yn dda drwy Google Classroom.’ (Athro C3)

6.13 Erbyn mis Ionawr 2021, roedd tystiolaeth bod ysgolion a disgyblion wedi addasu a datblygu'r ddarpariaeth.

‘Rwy'n credu ein bod wedi cael mwy o amser y tro hwn i gyfleu'r disgwyliadau i'r myfyrwyr ... Felly, bu'n llawer haws ei reoli yr ail dro. Yn y cyfnod cyntaf roedd popeth ar frys braidd.’ (Athro, A1)

6.14 I rai athrawon, newidiodd y blaenoriaethau rhwng y ddau gyfnod, o ffocws ar les yn bennaf i ffocws ar barhad dysgu:

‘Oherwydd mae gwahaniaeth rhwng y cyfnod diwethaf o gyfyngiadau symud, a oedd yn llawer mwy seiliedig ar ofal plant, a dweud y gwir, a'r cyfnod hwn sydd, yn gywir ddigon, yn llawer mwy seiliedig ar geisio parhau ag addysg y plant, p'un a ydynt gartref neu yn yr ysgol.’ (Athro, A2).

‘Lefelau ymgysylltu uwch yn y cyfnod hwn o gyfyngiadau symud a mwy o ymateb gan y rhieni a'r myfyrwyr eu hunain. Maent yn dangos mwy o ymateb i wersi byw ac yn gofyn mwy o gwestiynau.’ (Athro C2)

6.15 Nododd rhai ysgolion effaith pwysau i ddiwygio mewn ffyrdd penodol gan y sir a Llywodraeth Cymru ar wahanol adegau:

‘Mi ddaeth y pressure o’r top, ar y llywodraeth, lawr ar y Sir, ac mi fu ar i ni deimlo’r pwysau o’r Sir yn dod lawr arnon ni, a deud fod yn rhaid i ni

roi shifft arno rŵan, ac mi oedd hynny'n amlwg yn enwedig tua mis Tachwedd [2020]… wnaethon ni cael shifft er mwyn, eto, fatha profi pwynt i'r Llywodraeth, i'r Cyngor, ac i bwy bynnag, ein bod ni yn gweithio'n galed, ac ein bod ni yn gwneud hyn yn 'iawn' drwy gynnig dau sesiwn byw'r dydd. [Ond] oni yn teimlo … 'ydyn ni'n neud hyn er mwyn y plant?' Achos, yn bersonol, oni'n teimlo fatha bod ni just yn ticio bocsys, ac yn trio plesio nhw [yr awdurdodau].'

(Athro, A4)

6.16 Yn ystod y gwahanol gyfnodau o gyfyngiadau symud, addasodd ysgolion eu hamserlenni a'u dulliau yn seiliedig ar waith myfyrio ac adborth gan ddisgyblion a rhieni:

> '[Yn ystod y cyfnod clo cychwynnol roedd yr] amserlen wreiddiol yn cael ei gynnal … [ond] wnaethon ni ymateb yn eithaf cyson i adborth rhieni, so, yn y diwedd wnaethon ni rhoi amserlen newydd lle roedden ni'n gosod pynciau craidd ar y dydd Llun, pynciau anghraidd ar y dydd Mercher, ac wedyn roedd pawb yn gwybod, er bod lot o'r tasgau yn cael eu gosod yr un pryd, roedd gan y disgyblion gweddill yr wythnos [neu hyd y diwrnod penodol] i'w cwblhau. Cafodd hynna ei wneud yn seiliedig ar adborth disgyblion a rhieni.'

(Athro, A5)

6.17 Dywedodd athrawon fod y gweithgarwch dysgu a gynigiwyd i ddisgyblion dros y gwahanol gyfnodau o gyfyngiadau symud wedi gwella wrth i'w sgiliau TG eu hunain a'u dealltwriaeth o ddysgu o bell ddatblygu:

> 'Mae'r arlwy dysgu y gallwn ei gynnig i'n disgyblion wedi gwella'n sylweddol yn sgil cyfleoedd hyfforddiant i'r staff yn ystod Tymor yr Hydref – mae hyder y staff wrth ddefnyddio pecynnau TG wedi'u galluogi i fod yn greadigol gyda'r sesiynau addysgu byw.' (Athro C2)

> 'Yn y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud, roedd llawer o'n gwaith ar daflenni gwaith – mae hynny wedi newid yn sylweddol.' (Athro C2)

> ‘Mwy o addysgu byw, gwasanaethau byw a sesiynau lles. Daeth yn amlwg bod angen i'r plant weld eu hathro a'u ffrindiau eu hunain hefyd, a bod angen dangos iddynt nad oeddent ar eu pen eu hunain. Dangosodd adborth o'r arolygon o rieni fod angen i'r rhieni gael addysgu byw gan yr addysgwr proffesiynol ac mae'r adborth yn dangos bod y plant yn ymgysylltu'n well am eu bod yn gallu gweld eu hathro a'u ffrindiau yn fyw ar y sgrin.’ (Athro C2)

6.18 Ar y cyfan, roedd yr athrawon yn teimlo'n gadarnhaol am brofiad eu disgyblion yn ystod y cyfnodau o gyfyngiadau symud, ond mynegodd un ohonynt bryder:

> ‘Mae'r dysgwyr wedi llithro'n ôl mewn hyder, yn gymdeithasol ac yn academaidd. Sylwyd ar hyn pan wnaethant symud i ddosbarth uwch ym mis Medi ond, wrth i'r cyfnodau o gyfyngiadau symud a hunanynysu ddod yn amlach, roedd yr holl gynnydd academaidd yn cael ei golli'n raddol.’ (Athro C1)

6.19 Mae'n bwysig nodi nad dim ond unwaith y bu'n rhaid i ysgolion addasu eu harferion, ond sawl gwaith yn olynol. Roedd heriau ar bob cam, addasu i ddysgu o bell ond croesawu dysgwyr yn ôl i amgylchedd ysgol ar ei newydd wedd hefyd. Nodweddwyd profiadau'r athrawon gan broses o addasu'n barhaus.

**Dewis llwyfannau ar-lein**

6.20 Roedd y ffordd yr aeth ysgolion ati i ddewis llwyfannau ar-lein yn dibynnu ar nifer o ffactorau, fel y cynnydd yr oeddent wedi'i wneud wrth integreiddio dysgu ar-lein yn eu hymarfer, argaeledd, ac arweiniad gan siroedd a chonsortia. Ar y cyfan, mae'r data gan ysgolion uwchradd, gan gynnwys ysgolion pob oed, yn awgrymu mai Teams oedd y dewis a ffafriwyd, ond roedd mwy o amrywiaeth yn yr ysgolion cynradd:

> ‘Rhwng y cyfyngiadau symud diwethaf [a'r] cyfyngiadau symud hyn [gwnaethom] roi popeth ar Google Classrooms, a gwnaethom brynu

pecynnau ar-lein eraill. . Pethau fel Oxford Owl, fel y gall y plant gael llyfr darllen bob dydd.’ (Athro, A2)

‘Cawsom oriau maith o hyfforddiant ar bob rhaglen dan haul. Wrth gwrs, fel y bu pethau, Teams oedd yr un y byddem yn ei ddefnyddio drwy'r amser, ond nid oeddem yn gwybod hynny ar y pryd.’ (Athro, A3)

‘[Darparu gwaith wythnosol] mewn modd deniadol i bawb [drwy Adobe Spark]’ (Athrawon, A4)

‘Reit ar y cychwyn oedd na mwy nag un platfform i gael gyda ni fel ysgol, a mi oedd hynna’n profi yn bach o broblem … Roedden nhw [y disgyblion] wedi arfer gyda Show My Homework [ond rhaid oedd diwygio]’ (Athro, A5)

‘Roedd ein llwyfan Seesaw eisoes yn cael ei ddefnyddio yn yr ysgol felly hwn oedd y dewis amlwg i'w ddefnyddio ar gyfer dysgu o bell.’ (Athro B2)

6.21 Hefyd, gwnaeth ysgolion benderfyniadau ynglŷn â'r ffyrdd mwyaf effeithiol o gyfathrebu â theuluoedd:

‘Gwnaethom ddefnyddio tudalen Twitter yr ysgol i gyfathrebu a gwnaethom lunio cynllun dysgu gartref a fyddai'n cael ei e-bostio at y rhieni bob wythnos.’ (Athro B2)

6.22 Ar y cyfan, roedd cyfuniad cyfartal o sesiynau byw ar-lein, dysgu anghydamserol ar-lein a chopïau caled drwy'r post ar draws y sampl yn unol ag anghenion dysgwyr a phrofiad athrawon. Dangosodd ysgolion rywfaint o ymreolaeth wrth ddewis llwyfannau a oedd yn briodol i'w cymunedau. Mewn rhai achosion, roedd y penderfyniadau'n seiliedig ar waith ymchwil cyn y pandemig ac, mewn achosion eraill, gwnaed y penderfyniadau mewn ymateb iddo.

**Hyblygrwydd**

6.23 Mae'n bosibl bod y cynnydd yn nifer y llwyfannau ar-lein a oedd ar gael wedi arwain at ansicrwydd wrth i ysgolion newid i ddysgu o bell, ond rhoddodd hyblygrwydd iddynt ddiwallu anghenion disgyblion hefyd. Roedd ysgolion yn cydnabod nad oedd sesiynau byw yn briodol nac yn ymarferol drwy'r dydd neu'r wythnos o reidrwydd:

> ‘Rydym wedi ceisio dilyn dull hyblyg iawn o'r cychwyn cyntaf, ac wedi dweud wrth y rhieni yn y cyfnod hwn o gyfyngiadau symud y byddwn yn rhoi tan ddydd Sul iddynt, felly os na fyddant yn llwyddo i gwblhau rhywbeth ddydd Iau, bydd ganddynt tan ddydd Sul i'w gwblhau a'i lanlwytho. Ac rwy'n credu bod defnyddio Google Classroom y tro hwn, yn hytrach na Hwb, wedi bod yn haws i ni ... Mae'n ymddangos ei bod yn ffordd fwy hyblyg o gyflwyno'r gwaith, a'r rhieni sy'n ei gyflwyno mewn gwirionedd, a gallant ei weld.’ (Athro, A2)

6.24 Gwnaeth rhai ysgolion addasu'r defnydd o lwyfannau yn unol ag amgylchiadau'r dysgwyr a oedd yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar ddyfeisiau a chysylltedd:

> ‘[Gwnaethom ddweud wrth y disgyblion] y gallwch weithio o'r dudalen ar Teams os na allwch fod ar yr alwad ac, os na allwch fod ar y dudalen ar Teams, yna gallwch fy e-bostio, a byddaf yn anfon y gwaith atoch. Wedyn, bydd pobl yn yr ysgol na allant wneud hynny ac felly byddwn yn rhoi copïau caled iddynt.’ (Athro, A3)

6.25 Mewn rhai achosion, mae wedi cymryd amser i fanteisio i'r eithaf ar botensial y dechnoleg:

> ‘Rŵan rydyn ni actually’n cynnal live online sessions. Rydyn ni’n ffrydio’n fyw dwywaith y dydd, pob dydd, gyda’r plant. Mae di cymryd amser i ni gael caniatâd pawb [ond y datblygiad yn werth chweil].’
>
> (Athro, A4)

6.26 Dywedodd unigolion o bob ysgol eu bod wedi parhau i ddysgu ac addasu drwy gydol y gwahanol gyfnodau o gyfyngiadau symud a bod rhannu arferion da o fewn ysgolion yn elfen bwysig o'u datblygiad.

**Cymorth TG – Hyfforddiant**

6.27 Roedd rhywfaint o amrywiaeth yn y lefel o hyfforddiant a chymorth a oedd ar gael i athrawon. Chwaraeodd arweinwyr dysgu ac addysgu TGCh ran arwyddocaol yn y gwaith o gefnogi hyfforddiant mewn rhai ysgolion, fel y gwnaeth rheolwyr TGCh hefyd. Gwnaeth staff hefyd ymgymryd â dysgu hunangyfeiriedig ar wahanol lwyfannau, a manteisio ar arbenigedd myfyrwyr AGA ar leoliad. Roeddent yn gwerthfawrogi'r cymorth a oedd ar gael iddynt gan arbenigwyr yn yr ysgol a gynigiodd ddarpariaeth wedi'i theilwra pan oedd angen:

> ‘Mae gennym reolwr T.G. ardderchog... a arweiniodd y ffordd yn llwyr o ran bod yn rhagweithiol iawn wrth ddefnyddio Teams. Ac rydym wedi cael llawer o hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio, gyda llawer o sesiynau galw heibio hefyd, bob nos Fawrth, i unrhyw un sy'n cael anhawster â thechneg benodol.’ (Athro, A1)

6.28 Nododd rhai ysgolion lefelau gwahanol o hyfforddiant ar adegau gwahanol yn ystod y pandemig:

> ‘Ychydig iawn yn ystod cyfyngiadau symud #1 ond mwy o gymorth, cyngor ac arweiniad gan yr awdurdod lleol a GwE yn ystod tymor yr Hydref.’ (Athro B2)

> ‘Rhoddodd y GCA hyfforddiant ar-lein yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud.’ (Athro C1)

6.29 Mewn rhai achosion, roedd yr hyfforddiant a oedd ar gael o ffynonellau allanol yn ddigon i lethu pobl i ddechrau:

> ‘Cawsom oriau maith o hyfforddiant ar bob rhaglen dan haul...ond roedd yn ormod ar unwaith, mewn gwirionedd.’ (Athro, A3)

6.30 Yn yr un ysgol, datblygodd y dull gweithredu fel mai un aelod o'r staff oedd yr unigolyn cyswllt ar gyfer hyfforddiant ar wahanol lwyfannau, i bob pwrpas:

> ‘Rydym wedi cael hyfforddiant parhaus, drwy'r amser, gan aelod o staff sy'n mynd rhwng yr holl gynrychiolwyr – cynrychiolwyr Moodle, cynrychiolwyr Microsoft Teams, cynrychiolwyr Go for Schools a phethau tebyg. Felly, ar gyfer unrhyw beth sydd ar-lein, mae gennym gynrychiolydd o'r cwmni ac mae gennym aelod o staff sy'n ganolwr rhyngom, a dyna at bwy y byddwn yn troi.’ (Athro, A3)

6.31 Mewn cyd-destunau eraill, dywedwyd bod llai o hyfforddiant:

> ‘Yn ystod diwrnod HMS ar ddechrau'r ail gyfnod o gyfyngiadau symud, cawsom hyfforddiant byr ar ddefnyddio Google Classroom, yn crynhoi sesiwn hyfforddi a gawsom flwyddyn neu ddwy yn ôl.’ (Athro B1)

6.32 Hefyd, er bod cymorth gan y siroedd, roedd gweithio drwy'r profiad yn werthfawr hefyd:

> ‘Roedd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol, rwy'n credu. Mae gennym arweinydd eithaf da yn [y sir] o'r enw [xx] sy'n dda iawn am anfon llawer o wybodaeth atom. Felly mae yno ac ar gael yn hawdd. Ond dysgais drwy wneud.’ (Athro, A3)

6.33 Gwnaeth athrawon mewn ysgol pob oed mewn sir wahanol sylwadau ar y cymorth wedi'i deilwra gan yr awdurdod lleol a rhannu arferion da rhwng cydweithwyr yn yr ysgol:

> ‘Mae’r awdurdod lleol wedi bod yn wych...o ran darparu hyfforddiant, ac maen nhw dal yn darparu hyfforddiant.’
>
> (Athro, A5)

> ‘Be oni’n gweld yn ddefnyddiol - a fydden i yn dweud fod hyn ar draws yr hyfforddiant oedd y Sir, Erw, y Llywodraeth yn cynnig - oedd bod y cymorth yn cael ei deilwra’
>
> (Athro, A5)

> ‘Fydden i’n cael lot o syniadau o siarad â staff. Dim ond ddoe oni’n siarad gydag aelod o staff lle...oedd hi eisiau canu a dysgu can ffeithiol i’r disgyblion. So ma gymaint o staff gwych yn yr ysgol ac mi ydyn ni’n lwcus iawn.’ (Athro A5)

6.34 Wrth gwrs, mae ysgolion cynradd yn gweithio ar raddfa lai, ond roedd gwahaniaethau rhwng y dulliau a ddefnyddiwyd gan yr ysgolion yn y sampl. Mewn rhai ysgolion, roedd yr hyfforddiant yn rhan o'r ymgysylltu â dysgu ar-lein, a ddechreuodd cyn y pandemig, ond mewn ymateb i'r sefyllfa penderfynodd eraill gymryd rhan mewn hyfforddiant. Roeddent yn gallu manteisio ar gyrsiau, eu cysylltiadau ag ysgolion eraill yn lleol, ac arbenigedd staff:

> ‘Yn y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud, roedd llawer iawn o gyrsiau ar-lein, yn gysylltiedig â Google Classrooms, Teams, Adobe Spark... ac rwy'n credu bod pob un ohonom wedi dod i'r casgliad, ar ôl siarad ag ysgolion eraill a mynd i'r hyfforddiant, y byddem yn parhau i ddefnyddio Hwb ond y byddem yn symud o J2E fel y prif lwyfan ar-lein i Google Classrooms. Rydym wedi cynnal cynllun peilot ac wedi treialu'r cyfan yn ystod tymor yr hydref. Felly, rydym wedi dysgu o'n camgymeriadau o'r blaen ac roedd gwir raid inni ddibynnu arno. Ac rydym yn dal i ddysgu nawr, ond rwy'n credu ein bod yn ceisio defnyddio'r wybodaeth sydd gennym ar y cyrsiau, a chefnogi ein gilydd ac edrych ar yr hyn y mae ysgolion eraill yn ei wneud hefyd, mewn gwirionedd.’ (Athro, A2)

> ‘Roeddwn wedi cael hyfforddiant o'r blaen pan wnaethom brynu pecyn Purple Mash ychydig flynyddoedd yn ôl felly nid oedd angen rhagor o hyfforddiant arnom pan ddechreuodd y cyfyngiadau symud.’ (Athro B1)

6.35 Hefyd, aeth athrawon ati i chwilio am hyfforddiant i ddiwallu eu hanghenion eu hunain:

> ‘Yn y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud, dilynais lawer o wahanol gyrsiau a oedd ar gael am ddim ar Google Classroom a'r holl wahanol

rai hynny, a gwahanol bethau y penderfynais eu dilyn fy hun am fy mod yn awyddus i ddysgu.' (Athro, A2)

6.36 Mewn cyd-destunau eraill, roedd ysgolion yn dibynnu'n fwy ar yr hyfforddiant allanol a ddarparwyd gan y sir:

> 'Ma na lot o sesiynau hyfforddi wedi bod, a mae'r sir wedi bod yn dda o ran cynnig hyfforddiant...ac mae o di bod yn wych o ran faint o hyfforddiant sydd allan yna.'
>
> (Athro, A5)

6.37 Ar yr un pryd, mae'n bwysig cydnabod bod agweddau unigolion yn dylanwadu ar y profiad:

> 'Oni mewn panic yn ystod un sesiwn byw wrth ffrydio, a nes i ddanfon chat... i [hyfforddwr technegol yr awdurdod lleol] a ddaeth hi nôl gydag ateb yn syth. Ma nhw'n gefnogol iawn fel na, a fyswn i'n deud fod nhw'n effeithiol.'
>
> (Athro, A4)
>
> 'Dwi yn teimlo pan ma nhw yn cynnig hyfforddiant, mae o dros y Sir a ma na gymaint o bobl ar yr hyfforddiant fel dwi ddim yn gofyn cwestiwn. Er bod gen i gymaint o gwestiynau mae o'n rhy overwhelming i mi ofyn cwestiwn rili stupid o flaen 30/40 o bobl .'
>
> (Athro, A4)

6.38 Mewn rhai ysgolion, nid oedd hyfforddiant ar gael ar gyfer dysgu o bell:

> 'Dim hyfforddiant ar gyfer dysgu o bell.' (Athro B2)

6.39 Mae'r darlun cyffredinol yn dangos amrywiaeth, o ormod o hyfforddiant i fawr ddim hyfforddiant. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod hyfforddiant canoledig neu fasnachol yn ddefnyddiol i ysgolion ond mai un elfen allweddol yw hyfforddiant neu gymorth sy'n ymateb i anghenion yr ysgol neu'r athro unigol. Dywed ysgolion fod hyn yn effeithiol pan oedd yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno gan eu staff eu hunain.

**Cymorth TG – Caledwedd**

6.40 Cyfeiriodd pob ysgol at heriau mewn perthynas â mynediad disgyblion at galedwedd ar ddechrau'r cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud. Ymhlith y ffyrdd o ddatrys y broblem hon roedd sir yn rhoi gliniaduron i ddisgyblion chweched dosbarth, ysgolion yn rhoi gliniaduron i rai disgyblion a Llywodraeth Cymru yn cyflenwi donglau. Wrth i'r pandemig fynd rhagddo, nododd ysgolion fod caledwedd briodol yn llai o broblem.

> ‘Roedd yr ysgol wir yn wych o ran darparu [cyfarpar] a hyd yn oed gyda'r plant... rwy'n credu bod pob plentyn, neu nifer sylweddol o'r plant yr oedd eu hangen arnynt, wedi cael gliniaduron hefyd.’ (Athro, A3)

6.41 Roedd ysgolion yn ymwybodol, fodd bynnag, bod brodyr a chwiorydd yn rhannu dyfeisiau mewn rhai teuluoedd a bod hyn yn dylanwadu ar y ffyrdd y gallai'r disgyblion ymgysylltu â'r dysgu:

> ‘Rydym wedi amserlennu'r dosbarthiadau eraill ar adegau gwahanol, oherwydd yn amlwg efallai fod brodyr a chwiorydd mewn dosbarthiadau gwahanol ac efallai nad oes digon o ddyfeisiau.’ (Athro, A2)

> ‘Ond rydym yn llwyddo i osgoi'r broblem. Efallai y byddant yn dweud, “O, Miss, mae angen imi fynd oherwydd mae angen i fy mrawd ddefnyddio'r gliniadur”, felly byddaf yn esbonio'n gyflym sut i wneud hyn, ac yn gofyn i'r plentyn ddychwelyd mewn 20 munud. Maent wedi addasu'n dda, i weithio gyda chi.’ (Athro, A3)

6.42 Roedd angen dyfeisiau ar y staff hefyd ond, mewn rhai achosion, roedd oedi cyn iddynt gael eu darparu, a effeithiodd ar waith athrawon:

> ‘Rwy'n credu, yn yr ysgol, un peth y byddem wir wedi'i hoffi yw gliniaduron i'r staff, a dweud y gwir. Rwy'n credu ein bod wedi gorfod defnyddio gliniaduron a oedd wedi'u clustnodi ar gyfer y plant. Fodd bynnag, ers pythefnos, mae gan bob aelod o staff liniadur. Mae

gliniaduron wedi cael eu danfon at bob un ohonom, a chawsant eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, ac rwy'n defnyddio un nawr, fel mae'n digwydd, ac mae'n wych! Byddai wedi bod yn braf iawn eu cael ychydig bach yn gynharach, o edrych yn ôl.' (Athro, A2)

6.43 Mewn ysgolion eraill, roedd y ddarpariaeth ar waith cyn y cyfyngiadau symud:

> 'Ni'n eithaf lwcus fod ysgol ni di darparu iPad yr un i bob athro neu athrawes, so fedra i neud rhywbeth ar y laptop, neu dangos gwaith, a chael yr iPad wrth fy ochr hefyd. Ond dwi'n gwybod fod ddim pob ysgol efo hwnna.'
>
> (Athro, A5)

6.44 Roedd yn hanfodol bod gan athrawon gyfarpar priodol ar gyfer dysgu ar-lein. I'r rhai roedd y cyfarpar ganddynt, roedd newid i ddysgu o bell yn haws ac yn llai trafferthus.

**Cymorth TG – Cysylltedd**

6.45 Roedd cysylltedd yn broblem i lawer o ddisgyblion ar ddechrau'r cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud ond cafodd rhai o'r problemau hyn eu datrys dros amser, naill ai drwy ddarparu technoleg neu drwy addasu ymarfer:

> 'Rwy'n credu, am ein bod yn recordio gwersi... . mae'n llai o broblem nawr. Felly, os byddant yn colli cysylltiad â'r Wi-fi, byddant yn gwybod y gallant ei lawrlwytho yn nes ymlaen. Felly, mae hynny'n sicr wedi helpu disgyblion sydd â Wi-Fi gwael neu fynediad ysbeidiol. Ond nid yw'n gynifer o bobl y tro hwn. Rwy'n siŵr bod llawer mwy o ddonglau wedi cael eu dosbarthu ar gyfer y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud.' (Athro, A1)
>
> 'Felly, mae'r cysylltedd wedi gwella o safbwynt yr ysgol, fwy na thebyg. Rwy'n credu y bydd gan rai rhieni broblemau o hyd yn yr ardaloedd

pellaf i ffwrdd ond, ar y cyfan, ac yn yr ysgol nawr, mae'n sicr yn llawer gwell nag yr oedd ym mis Mawrth, fwy na thebyg.' (Athro, A2)

'Ond, yn yr ardal lle rydym ni'n byw, nid oes gan lawer ohonynt gysylltedd da iawn. Ond rydym wedi dod i arfer ag ymdopi â'r broblem.' (Athro, A3)

'Ma gen i 5 pecyn yr wythnos ar gyfer y plant hynny sydd heb we dderbyniol ddyn nhw ddefnyddio ar gyfer dysgu o bell'

(Athro, A4)

6.46 Mae tystiolaeth o ddisgyblion yn mynd i drafferth i allu dysgu:

'Mi oedd na' achos lle oedd brodyr gynnon ni yn gweithio ar hap, a ffeindion ni mas fod yn rhaid iddyn nhw fynd trwy gwpwl o gaeau a lan i dop bryn gyda ffon symudol er mwyn ddyn nhw lawr lwytho 'r cyfan...' (Athro, A5)

6.47 Roedd cysylltedd yn broblem i ysgolion gwledig a'u disgyblion. Ni roddodd ysgolion mewn ardaloedd gwledig a gwblhaodd yr arolwg wybod am unrhyw broblemau cysylltedd. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod eu gwybodaeth am eu dalgylchoedd wedi'u galluogi i ragweld problemau a bod staff ysgolion a'u dysgwyr yn hynod ddyfeisgar wrth ddod o hyd i atebion. Serch hynny, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen rhagor o gymorth mewn perthynas â seilwaith.

**Llwyth gwaith**

6.48 Er bod rhywfaint o amrywiaeth rhwng ysgolion, nododd y rhan fwyaf y bu cynnydd sylweddol yn eu llwyth gwaith o ganlyniad i'r newid i ddysgu o bell.

'Gwelais gynnydd mawr iawn. Rwy'n credu nad oedd yn ormod o broblem yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud oherwydd roeddem yn gosod gwaith, ac yna gallech reoli eich amser yn well o ran pryd y byddech yn marcio darnau, ond am ein bod yn gwneud

popeth ar y pryd nawr, rwyf wedi gweld bod rhaid imi fod ychydig yn fwy strategol.’ (Athro, A1)

‘Effaith enfawr! Cymerodd lawer o amser i gynllunio'r gweithgareddau am fod angen i'r tasgau ennyn diddordeb y disgyblion ond bod yn ddigon hawdd i'r rhieni eu deall a gweithio drwyddynt. Gan mai plant bach rwy'n eu haddysgu, roedd cymorth gan rieni yn angenrheidiol.’ (Athro, B1)

‘Roedd y llwyth gwaith yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf yn ddwys ac yn drymach na phe byddem wedi bod yn yr ysgol. Mwy o weithio ar sgriniau oherwydd cyfarfodydd Teams a dogfennau i'w darllen. Roeddwn yn gweithio o 8am i 7pm heb gymryd y seibiannau priodol, a byddwn i'n dal heb orffen fy ngwaith.’ (Athro, C1)

‘Yn ystod cyfyngiadau symud tymor y gwanwyn [2021] mae'r effaith ar lwyth gwaith ac amser o flaen sgrin wedi bod yn arbennig o fawr.’ (Athro, C3)

6.49 Mae ysgolion yn dweud eu bod wedi gorfod ailddylunio cynlluniau gwaith ar gyfer dysgu o bell fel mesur dros dro:

‘Cafodd ein holl waith ysgol ei rwygo'n ddarnau a'i ailddechrau, i bob pwrpas, mewn cyfnod byr iawn yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud... Felly, rydym yn gwneud yr holl waith, ond rydym yn gwybod y byddwn yn dychwelyd i'r norm. Nid yw fel pe baem yn gwneud y gwaith ar y cynlluniau gwaith hyn nawr oherwydd y byddwn yn eu defnyddio eto yn y dyfodol.’ (Athro, A1)

‘Roedd y gwaith cynllunio'n cymryd mwy o amser am nad oeddwn wedi arfer â chynllunio ar gyfer y mathau hynny o wersi... Ac wedyn... bod o flaen sgrin drwy'r dydd, a ffrydio'n fyw drwy'r dydd ar roeddwn wedi llwyr ymlâdd erbyn diwedd y dydd.’ (Athro, A3)

‘Roedd gwaith cynllunio'n cymryd mwy o amser am fod rhaid addasu neu ddod o hyd i waith a oedd yn addas i bob gallu. Hefyd, bu'n rhaid i mi feddwl am ffordd o eirio'r gwaith cynllunio mewn ffordd y byddent yn

ei deall, oherwydd ni fyddwn yno yn y cnawd i ddangos iddynt sut i gwblhau tasgau.' (Athro, B1)

'Roedd y llwyth gwaith yn achosi llawer o straen ac roedd yn anodd addasu ar gyfer gwaith anghenion arbennig.' (Athro, C2)

6.50 Roedd rhoi adborth i ddisgyblion yn cymryd mwy o amser ar-lein:

'Roeddwn yn gweld llawer mwy nag y byddwn yn ei wneud fel arfer pe baem yn yr ysgol, oherwydd dim ond yn ystod y wers y byddwn yn gwneud hynny, yn hytrach na gorfod agor y gwaith, ei farcio, gwneud sylwadau arno a'i roi yn ôl.' (Athro, A3)

6.51 Hefyd, roedd rhai athrawon yn teimlo pwysau i gynnal presenoldeb ar-lein y tu allan i oriau ysgol, er eu bod yn ymwybodol nad oedd hyn yn iach, o wybod mai dim ond y tu allan i oriau ysgol y gallai rhai disgyblion gael gafael ar yr adnoddau:

'Rwy'n gwybod na ddylwn ddweud hyn mewn gwirionedd oherwydd mae'r undebau'n casáu hyn, fwy na thebyg, ond ar gyfer fy chweched dosbarth yn arbennig, a blwyddyn 11, rwyf ar gael drwy'r amser i raddau.' (Athro, A3)

'Roeddwn yn ei chael hi'n anodd symud fy meddwl oddi ar waith y tu allan i oriau ysgol, am fy mod yn derbyn negeseuon gan ddisgyblion/rhieni ac roedd arnaf ofn colli neges gan rywun a oedd angen fy help. Byddai gwaith yn cael ei gyflwyno gan ddisgyblion bob adeg o'r dydd hefyd, gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau. Treuliais amser yn creu fideos er mwyn arddangos a modelu'r hyn roeddwn am i fy nisgyblion ei gyflawni, a hefyd at ddibenion lles. Cymerodd amser ychwanegol i ffilmio a chreu'r rhain.' (Athro, B2)

6.52 Arweiniodd ffrydio byw at bwysau tebyg mewn ysgol gynradd:

'Ac wedyn...dydyn ni ddim yn cymryd brecs... Ni ar y cyfrifiaduron yma, bron a bod, o 8:30/9:00 y.b. tan yn rhwydd 16:00 yn gwylio pob post sy'n dod trwyddo rhag ofn bo' ni mynd i golli un o'r plant yma yn gofyn

am help ac wedyn teimlo, jiw, ni di gadael y plentyn na lawr, neu fod rhiant yn gweld bo' ni heb ymateb yn ddigon cloi.'

(Athro, A4)

6.53 Roedd angen addasu'r deunyddiau ar gyfer y llwyfan a sicrhau eu bod yn hawdd i'r disgyblion eu defnyddio'n annibynnol:

> 'Ffeindies i mas cyn y Nadolig fod y plant methu gwneud gwaith ar Publisher, felly roedd pob taflen gwaith oni di creu wedi gorfod cael eu hail wneud ar Word. Oni methu copïo a phastio pethau draw, felly roedd rhaid i fi ddechrau eto am ryw reswm. Wedyn ma rhaid ti gwahaniaethu'r daflen tair gwaith, neu pedair gwaith... ac oni just yn gweld fod rhaid creu gymaint o daflenni newydd a gwaith newydd. Dwi di bod yn dysgu ers 5 mlynedd, ac mi oedd pob dim gen i ar Publisher, felly mi oedd yn rhaid i mi newid pob dim.'

(Athro, A4)

6.54 Roedd llwyth gwaith ychwanegol i'r athrawon hynny yr oedd angen iddynt ddarparu deunyddiau dwyieithog i rieni plant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg nad oeddent yn siarad Cymraeg eu hunain:

> 'Yna ma na rhai sydd eisiau pob dim yn Saesneg a dim yn y Gymraeg. Ma rhai eisiau pacs achos does ganddyn nhw ddim Internet, so, da ni'n neud triple neu quadruple y gwaith fyddan ni'n neud gan amlaf yn yr ysgol bob dydd'.

(Athro, A4)

6.55 Roedd angen gwahaniaethu gwaith mewn ffordd gliriach yn ysgrifenedig nag a fyddai'n digwydd yn y dosbarth:

> 'Rydyn ni'n gweithredu pedair neu pum tasg, rili, o fewn i bob gwers... Rydyn ni'n gorfod gwneud gwaith gwahaniaethol ta beth ar gyfer ein holl blant, ac wedyn ni'n gwahaniaethu ar gyfer y rhieni achos mae'n rhaid i ni addysgu'r rhieni i addysgu'u plant; felly ma' rhaid cael popeth yn ddwyieithog.'

(Athro, A4)

6.56 Cafodd un athro gyfle i gymharu'r profiad o ddysgu o bell yng Nghymru â'r profiad yn y Ffindir:

> ‘Bûm yn gweithio dramor (yn y Ffindir) yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud, tan fis Gorffennaf 2020. Pan oedd yr ysgolion ar gau yn y Ffindir, roedd y llwyth gwaith fymryn yn drymach nag arfer oherwydd, wrth ysgrifennu cynlluniau'r gweithgareddau ar gyfer dysgu gartref, byddai'n cymryd amser i esbonio'r tasgau er mwyn i'r plant eu cwblhau gartref, yn ogystal â chynnal y tasgau yn yr ysgol ar gyfer plant gweithwyr allweddol. Ers dychwelyd i'r DU, o fis Medi tan fis Rhagfyr pan oedd yr ysgol ar agor, roedd y llwyth gwaith yr un mor drwm ag arfer. Fodd bynnag, roedd addysgu'n achosi llawer mwy o straen imi oherwydd y cyfyngiadau yn y dosbarth, yr angen i lanhau offer drwy'r amser, methu â chynnal gweithgareddau egnïol nac ymarferol, a sicrhau bod y plant yn aros ar eu heistedd.’ (Athro, B1)

6.57 Roedd rhai athrawon yn teimlo mai dim ond estyniad i'r hyn y byddent yn ei wneud fel arfer oedd y llwyth gwaith:

> ‘Dydy hwn ddim yn swydd hawdd mewn amseroedd arferol. Ma' hwn yn swydd lle chi’n derbyn chi mewn yn gynnar ac yn gadael yn hwyr.’
>
> (Athro, A5)
>
> ‘Mae bod ar gael ar unrhyw adeg o'r dydd wedi bod yn iawn, oherwydd efallai y bydd angen i riant gysylltu â chi am 20:00, ac mae gallu gwneud hynny wedi bod yn bwysig oherwydd nid yw'r problemau hynny'n codi yn ystod y dydd rhwng 9 a 15:30, a bydd angen iddynt gysylltu pan fydd angen. Ac, yn amlwg, i'r disgyblion a'r teuluoedd hynny sy'n agored i niwed, mae angen mwy o gymorth arnynt nawr nag erioed o'r blaen.’ (Athro, A5)

6.58 Yng nghyd-destun rolau gwahanol, nododd un ymatebydd newid mewn llwyth gwaith:

> 'Llai o lwyth gwaith fel athro dosbarth am fod cynlluniau'n cael eu rhannu rhwng adrannau. Mwy o lwyth gwaith fel pennaeth – asesiadau risg, cynlluniau, paratoi ar gyfer plant gweithwyr allweddol, trefnu ac ati.' (Athro, B2)

6.59 Roedd yr effaith ar lwyth gwaith athrawon yn sylweddol ym mhob sector. Byddai lefel a natur y cynnydd yn amrywio yn ôl y cyfnod o gyfyngiadau symud a rôl yr unigolyn yn yr ysgol. Mae'n debygol y bydd y llwyth gwaith yn parhau i fod yn drymach nag arfer tra bydd protocolau COVID-19 ar waith mewn ysgolion. Y rhwystredigaeth i athrawon oedd ailgynllunio gwaith fel mesur dros dro, o gymharu â chynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, er enghraifft. Byddai athrawon yn sicrhau eu bod ar gael yn gyson i gefnogi eu disgyblion.

**Lles staff**

6.60 Disgrifiwyd y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud fel '*naid fawr i'r disgyblion*' (Athro, A1), '*sioc enfawr*' (Athro, A4) a dywedodd un athro ei fod '*wedi dychryn*' (Athro, A3). O gofio'r tarfu cyffredinol, y sylwadau hyn a'r cynnydd mewn llwyth gwaith a nodwyd yn 3.5.4, myfyriodd yr athrawon yn y grwpiau ffocws ar effaith dysgu o bell ar eu lles.

6.61 Un elfen bwysig oedd y cymorth a'r gefnogaeth ymhlith staff ysgolion a helpodd cyfarfodydd Teams i gynnal y cyswllt hwn:

> 'Yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud, . gwnaethom ddechrau cynnal cyfarfodydd Teams fel staff lle y byddai pawb yn mewngofnodi, a byddem yn cyfarfod ar ddydd Mercher, . ac roedd hynny ar gyfer ein lles meddyliol yn bennaf. Am fod rhai ohonom yn yr hyb, a rhai ohonom yn methu â mynd i'r hyb, roedd yn braf cadw mewn cysylltiad â'n gilydd.' (Athro, A2).

6.62 Gwnaed ymdrechion eraill i ail-greu'r cyfathrebu anffurfiol arferol rhwng cydweithwyr yn yr ysgol:

> ‘A ma' na... flyer, come poster, come newyddlen...yn rhannu arfer da, a ma' athrawon yn cael dweud y pethau hynny sydd wedi gweithio’n dda...a ma' hynny’n cael ei rhannu ymysg staff.’ (Athro, A5)

6.63 Fodd bynnag, mewn rhai cyd-destunau, roedd y staff yn teimlo'n ynysig ac yn brin o gymorth:

> [Ond] mae o’n bwysig, ond does neb yn gofyn i ni fel staff sut mae’n lles a’n iechyd ni. Ac achos dydyn ni ddim yn gweld ein gilydd...dyw e [y sgyrsiau anffurfiol] ddim yn digwydd. (Athro, A4)

6.64 Nododd athrawon y gwahaniaethau rhwng y gwahanol gyfnodau o gyfyngiadau symud a'r ffaith bod yr hyb wedi'i leoli yn eu hysgol eu hunain:

> ‘Symudodd yr hyb i'n hysgol ni, a gwnaeth hynny wahaniaeth hefyd. Mae'n braf bod gyda'ch timau eich hunain, hefyd, a gallwch gael sgwrs. Mae wedi bod yn llesol i'n hiechyd meddwl hefyd. Am eich bod mor gyfarwydd â gweld eich gilydd drwy'r amser, roedd cyrraedd mis Mawrth y llynedd a gweld ein gilydd lond llaw o weithiau yn unig dros yr haf yn eithaf anodd, a dweud y gwir.’ (Athrawon, A2)

6.65 Roedd heriau penodol i athrawon a oedd yn dechrau mewn swyddi newydd, lle roedd y syniad o beidio â chwrdd â chydweithwyr yn ystod y pandemig yn ychwanegu at yr her:

> ‘Yn sicr, byddwn yn dweud, i mi, ac rwy'n newydd i'r ysgol ers mis Ionawr, roedd y syniad o orfod addysgu tri phwnc y Dyniaethau – Hanes, Daearyddiaeth ac Addysg Grefyddol – ar ben methu â chwrdd â chydweithwyr, yn golygu llwyth gwaith trwm iawn am yr wythnos neu ddwy gyntaf.’ (Athro, A3)

6.66 Gwnaeth rhai athrawon sylwadau ar bwysigrwydd hunanddisgyblaeth er mwyn osgoi gorweithio.

> ‘Rwyf wedi gorfodi fy hun i wneud pethau. Os caf egwyl, af â'r ci am dro i fyny'r ffordd ac yn ôl oherwydd, fel arall, byddwch yn eistedd o flaen y sgrin, ac os na symudwch oddi yno, bydd yn gwneud ichi deimlo'n sâl.’ (Athro, A3)

> ‘Mae angen inni ofalu amdanom ein hunain ychydig yn well, yn enwedig o ran cydbwysedd bywyd a gwaith. Yn sicr, rwy'n fwy llym erbyn hyn o ran dweud “Reit, dydw i ddim yn gweithio heibio'r amser hwn”. Oherwydd nid yw'r holl amser o flaen sgrin yn beth da. Nid yw'n dda i fy ngolwg, ac nid yw'n dda i fy iechyd.’ (Athro, A1)

6.67 Mae athrawon yn ymwybodol iawn o'r angen i gynnal cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith ond roedd gofynion y sefyllfa yn peryglu hyn. Un agwedd bwysig ar les athrawon yw cefnogaeth eu cydweithwyr: adrannau, timau neu'r ysgol gyfan. Roedd colli'r cyswllt dyddiol hwn yn her ond, yn y rhan fwyaf o achosion, roedd cyfuniad o strategaethau ysgol gyfan a hunanddisgyblaeth yn ffordd o ddatrys y broblem yn rhannol.

**Cefnogi myfyrwyr**

6.68 Drwy gydol y trafodaethau, prif ffocws yr athrawon oedd esbonio'r ffyrdd y gwnaethant geisio cefnogi myfyrwyr mor effeithiol o bell ag y byddent wedi'u cefnogi yn yr ystafell ddosbarth. Nodwyd ym mharagraff 3.5.2.1 fod ysgolion yn gwerthfawrogi hyblygrwydd gwahanol lwyfannau ar-lein. Adlewyrchir hyn ymhellach yn y ffordd yr aeth ysgolion ati i ddefnyddio'r dechnoleg a strategaethau eraill i roi'r gwaith mwyaf priodol i'r dysgwyr.

**Hyblygrwydd wrth ymateb i anghenion disgyblion**

6.69 Nododd un ysgol newid dull yn ystod y gwahanol gyfnodau o gyfyngiadau symud:

> ‘Rwy'n credu bod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud yn ... dydw i ddim yn siŵr sut i ddweud hyn ond ... ychydig yn fwy o fynd ati gan

bwyll a gofalu amdanoch eich hunain, a chadw eich hunain yn ddiogel. Roeddem yn cael sgyrsiau lles rheolaidd er mwyn gweld sut mae pawb. Ac wedyn rwy'n teimlo, yn bersonol, po fwyaf mae pob un ohonom wedi datblygu ein sgiliau yn yr hyn a wnawn, a pho fwyaf y byddwn yn gwella, yr uchaf yw'r disgwyliadau.’ (Athro, A1)

‘Oherwydd mae gwahaniaeth rhwng y cyfnod diwethaf o gyfyngiadau symud, a oedd yn llawer mwy seiliedig ar ofal plant, . a'r cyfnod hwn sydd, yn gywir ddigon, yn llawer mwy seiliedig ar geisio parhau ag addysg y plant, p'un a ydynt gartref neu yn yr ysgol.’ (Athro, A2)

6.70 Mae athrawon wedi addasu eu harferion yn barhaus er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael cymaint â phosibl o amrywiaeth, cefnogaeth ac adborth o'u gwersi:

‘Felly, er enghraifft, pe baech yn gwneud cwestiwn ar ddarn o destun, byddech wedi gwneud y gwaith modelu a pharatoi a dweud “Mae gennych chwarter awr, ugain munud i ysgrifennu hwn, a chyflwynwch y gwaith imi yfory i'w farcio”. Ni fyddai llawer iawn ohonynt yn ei gyflwyno. Felly rwyf wedi ceisio addasu hynny, a nawr rwy'n neilltuo chwarter awr olaf llawer o wersi, os oes darn rwyf am ei asesu, ac rwyf wedi dweud “Rwy'n rhoi pum munud ichi nawr i nôl eich camera a thynnu llun o hwn a'i lanlwytho”.’ (Athro, A1)

‘Rwy'n credu ein bod wedi ceisio ei ddatblygu heb unrhyw amheuaeth a chynnwys llawer mwy o amrywiaeth o bethau ac rydym hefyd wedi cyflwyno pethau fel Oxford Owl, fel y gall y plant gael llyfr darllen bob dydd.’ (Athro, A2)

‘Os oeddwn i'n teimlo felly, ac mae plant yn arbennig o hoff o redeg o gwmpas, pa mor rhwystredig a diflas roedden nhw'n teimlo? Felly, dechreuais wneud pethau fel, os oedd y tywydd yn braf, byddwn yn gofyn iddynt fynd allan, i gyfrif yr adar, ac yna byddem yn addysgu siartiau cylch ar niferoedd yr adar roeddent wedi'u cyfrif. Byddwn yn sicrhau eu bod yn mynd allan pryd bynnag y bo modd. Ac roeddwn yn

> teimlo bod angen hynny arnynt. Ac rwy'n credu bod y rhan fwyaf o bobl wedi dechrau gwneud hynny gyda phlant, hyd y gwn i, i amrywio pethau ychydig.' (Athro, A3)
>
> '2 x 15 munud o ffrydio byw bob wythnos (a gyflwynwyd ddiwedd mis Chwefror 2021), at ddibenion lles yn bennaf. Byddem yn chwarae gemau, yn darllen straeon ac yn cael cwis yn ystod ein sesiynau ffrydio. Pe bai gan y plant dasg anodd neu gysyniad i'w ddeall yr wythnos honno, byddem yn mynd dros hynny yn ein sesiwn ffrydio byw.' (Athro, B1)

6.71 O ganlyniad i recordio gwersi a gosod tasgau annibynnol, bu gwelliant mewn hygyrchedd i ddisgyblion a bu modd i ysgolion addasu yn ôl amgylchiadau teuluoedd:

> 'Am ein bod yn recordio gwersi – yn recordio gwersi byw – rwy'n credu bod y broblem yn llai nawr. Felly, os byddant yn colli cysylltiad â'r Wi-fi, byddant yn gwybod y gallant ei lawrlwytho yn nes ymlaen.' (Athro, A1)
>
> 'Rydym wedi ceisio dilyn dull hyblyg iawn o'r cychwyn cyntaf, ac wedi dweud wrth y rhieni yn y cyfnod hwn o gyfyngiadau symud y byddwn yn rhoi tan ddydd Sul iddynt, felly os na fyddant yn llwyddo i gwblhau rhywbeth ddydd Iau, bydd ganddynt tan ddydd Sul i'w gwblhau a'i lanlwytho. A byddwn yn dweud bod y mwyafrif o'r rhieni yn gallu gwneud hynny.' (Athro, A2)
>
> 'Rwy'n credu, ers inni ddechrau recordio cryn dipyn o'n gwersi, neu bob un o'n gwersi, fwy neu lai, mae hynny'n rhoi hyblygrwydd i'r rhieni ailwylio pethau a gweld pethau yn hytrach na'n bod yn fyw ac yn ceisio sicrhau bod pawb yno erbyn naw o'r gloch. Ac rwy'n gwybod bod hynny'n gweithio.' (Athro, A2)

6.72 Roedd rhai ysgolion yn cydnabod bod rhai teuluoedd yn ei chael hi'n anodd cwblhau'r gwaith neu gynnal ffocws y plant, a gwnaethant addasu eu harferion mewn ymateb i hynny:

> ‘Yr hyn y byddwn yn ei wneud nawr, ar ôl siarad â'r plant yr wythnos diwethaf a chlywed eu bod i gyd yn treulio gormod o amser o flaen sgrin, yw cynnal dydd Gwener i'r teulu. Felly, yr hyn rydym wedi'i ddweud wrth y rhieni yw mai'r nod ddydd Gwener yw gwneud yn siŵr bod holl weithgareddau'r wythnos wedi'u cwblhau a'u cyflwyno ar Google Classrooms ac wedyn, ddydd Gwener yma, byddwn yn gosod her ichi fel teulu, os hoffech chi.’ (Athro, A2)

> ‘Mae'r model rydym yn ei ddefnyddio yn datblygu o un wythnos i'r llall wrth inni ddysgu beth sydd ei angen i weithio a sut y gallwn gefnogi'r rhieni hefyd.’ (Athro, A2)

6.73 Hefyd, roedd angen i ysgolion fod yn hyblyg mewn ymateb i gyfyngiadau ymarferol a dewisiadau myfyrwyr:

> ‘Mae gennym opsiynau bob amser. Gallwch weithio o'r dudalen ar Teams os na allwch fod ar yr alwad ac, os na allwch fod ar y dudalen ar Teams, yna gallwch fy e-bostio, a byddaf yn anfon y gwaith atoch. Wedyn, bydd pobl yn yr ysgol na allant wneud hynny ac felly byddwn yn rhoi copïau caled iddynt.’ (Athro, A3)

> ‘Rwy'n credu mai dim ond un disgybl, hyd y gwn i, sydd wedi gofyn am gopi caled o'r gwaith, ac mae hynny'n fwy oherwydd dewis personol na bod heb ddyfais a fydd yn gallu ei agor. Mae'n well ganddo ei wneud â llaw.’ (Athro, A1)

6.74 Pan fo angen, ac mewn ymateb i adborth gan ddisgyblion, cynigiodd ysgolion opsiynau llai technolegol ar gyfer rhai gweithgareddau:

> ‘Ni feddyliais o gwbl am fod heb signal data na chysylltiad â'r rhyngrwyd oherwydd, yn yr oes fodern sydd ohoni, nid ydych yn meddwl am y peth. Felly, byddem yn gwneud y fideos YouTube neu beth bynnag, ac yna byddai aelod arall o'r staff yn lanlwytho llun fel ffordd o wneud y gwaith heb signal data. Felly, gallai'r plant lawrlwytho'r llun a'i ddarllen, fwy neu lai, yn lle mynd ar YouTube. Ac

> mae hynny'n rhywbeth a wnaethom wedyn ar gyfer popeth.' (Athrawon, A3)

6.75 Gwnaeth ysgolion benderfyniadau ynghylch dewis adnoddau a'r ffordd y cawsant eu defnyddio, gan sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfleoedd i gysylltu â'u hathrawon eu hunain yn ogystal â defnyddio fideos:

> 'Rwyf wedi dewis ychydig bach o gymysgedd. Byddaf bob amser yn mewngofnodi ac yn ffrydio'n fyw i ddweud helo a chael sgwrs â nhw am fy mod yn teimlo eu bod yn mwynhau hynny ... ond wedyn, mae miliynau o fideos mathemateg ar gael ar-lein felly nid oes angen gwneud rhai am fod cynifer ar gael.' (Athro, A3)

6.76 Er bod amrywiaeth o arferion yn y gwahanol ysgolion, roedd llawer o'r farn mai cyswllt rheolaidd, ond nid cyson, oedd fwyaf effeithiol.

> 'Rwy'n meddwl bod yr amrywiaeth yn helpu hefyd. Ar y dechrau roeddwn i'n mynnu ar amserlen lawn o ffrydio byw yn unig. Ac erbyn y dydd Gwener cyntaf roeddwn wedi llwyr ymlâdd. Ac rwyf wedi sylwi'n fwy erbyn hyn fod y plant yn hoffi amrywiaeth o weithgareddau. Felly byddaf yn eu gweld ddydd Llun, ac yn ffrydio'n fyw. Wedyn efallai y byddaf yn eu gweld ddydd Mercher ac yn gosod gwaith iddynt ei wneud yn annibynnol ac yn sicrhau fy mod ar gael yn y fforwm ar Teams. Ac rwy'n credu bod y plant yn hoffi'r amrywiaeth. Nid yw mor feichus na thrwm i mi nac iddyn nhw. Rwy'n credu eu bod yn eithaf hoff o'r gwersi ffrydio byw, ond nid os byddant yn cael eu cynnal drwy'r amser.' (Athro, A3)

> 'Rydyn ni'n ffrydio'n fyw dwywaith y dydd pob dydd gyda'r plant. Rydyn ni'n dangos ein hwynebau ni, ac mae'r plant yn clywed ni'n siarad trwy bethau.'
>
> (Athro, A4)

6.77 Mewn rhai ysgolion, yr ymateb oedd diwygio'r amserlen yn gyfan gwbl er mwyn hwyluso ymgysylltu ar-lein:

> ‘Wnaethon ni ymateb yn eithaf cyson i adborth rhieni so yn y diwedd wnaethon ni rhoi amserlen newydd lle roedden ni’n gosod pynciau craidd ar y dydd Llun, pynciau anghraidd ar y dydd Mercher, ac wedyn roedd pawb yn gwybod, er bod lot o’r tasgau yn cael eu gosod yr un pryd, roedd gan y disgyblion gweddill yr wythnos i’w cwblhau. Cafodd hynna ei wneud yn seiliedig ar adborth disgyblion a rhieni.’
>
> (Athro, A5)

6.78 Roedd ysgolion yn cydnabod bod addysgu ar-lein yn wahanol iawn i addysgu yn yr ystafell ddosbarth, a bod cyfyngiadau a photensial unigryw yn gysylltiedig â hynny:

> ‘Ma dysgu byw yn peth arbennig, a dwi’n rhagweld fydd na elfen ar dysgu byw yn parhau gyda ni am cyfnodau...adolygu neu dal i fyny wrth dod i fyny i cyfnod arholi...yn enwedig gyda’r cyfle i recordio pethau a cael y plant i ail edrych ar rhywbeth. Dwi yn gweld mae’r cam fwyaf...ydy’r dysgu byw.’
>
> (Athro, A5)

6.79 Ymatebodd ysgolion yn gyflym ac yn hyblyg i adborth gan ddisgyblion a rhieni, gan addasu eu harferion er mwyn diwallu anghenion eu cymuned. Gwnaethant weithredu'n annibynnol yn seiliedig ar wybodaeth am eu disgyblion eu hunain a'u hanghenion. Mae'r ymatebion yn dangos bod ysgolion wedi gwerthuso eu harferion yn barhaus ac wedi cynnwys amrywiaeth o ddulliau gweithredu er mwyn galluogi disgyblion i ddysgu.

**Myfyrwyr agored i niwed**

6.80 Mae'r profiad o ddysgu o bell wedi peri i ysgolion ehangu'r diffiniad o fod yn agored i niwed am fod rhai plant yn agored i niwed o ganlyniad i'r sefyllfa, yn enwedig wrth iddi barhau:

> ‘Rydym yn gofyn i blant ddod i mewn ychydig bach yn amlach nawr, dim ond am resymau yn ymwneud â lles. Gwelsom fod rhai o'r plant

yng Nghyfnod Allweddol Dau, yn enwedig y tro hwn o gymharu â'r tro diwethaf, yn ei chael hi'n anodd, o ran eu lles a'u lles meddyliol, yn fwy o lawer y tro hwn na'r tro diwethaf.’ (Athro, A2)

‘Newid pendant yn y rhai y mae angen cymorth arnynt.’ (Athro, A5)

‘Rydym wedi darganfod bod ein disgyblion sy'n bryderus yn yr ysgol yn gwneud yn dda iawn gartref ond bod y rhai sy'n bryderus ynglŷn â pheidio â bod yn yr ysgol wir yn ei chael hi'n anodd ar hyn o bryd. Mae ein cydbwysedd yn gwyro tuag at y ffaith bod angen mwy o gymorth.’ (Athro, A5)

6.81 Mynegwyd pryderon hefyd ynglŷn â'r ffyrdd roedd disgyblion yn ymgysylltu â'u gwaith a'r effaith bosibl ar eu lles:

‘Byddaf yn cael e-byst gan fyfyrwyr tua dau o'r gloch y bore. Yn amlwg, ni fyddaf yn ymateb iddynt tan fore trannoeth, ond mae meddwl eu bod yn effro yn gwneud gwaith imi bryd hynny... Nid wyf yn teimlo'n gyfforddus am hynny. Ni ddylent fod yn gwneud hynny. Felly, mae hynny ychydig bach yn anghyfforddus pan fyddwch yn dychmygu bod y myfyrwyr yn eistedd yn eu hystafelloedd gwely, am hanner nos, yn ceisio gwneud gwaith astudiaethau busnes. Nid yw hynny'n teimlo'n iawn. Rwy'n teimlo ei bod yn rhy hawdd cael gafael arnom. Mae'n rhy hawdd cael gafael arnyn nhw [y myfyrwyr] hefyd, am wn i. Nid oes bwlch rhwng eu cartref a'u hysgol.’ (Athro, A1)

6.82 Hefyd, roedd ysgolion yn gallu nodi anghenion mewn grwpiau penodol, naill ai yn ôl oedran neu ryw:

‘Rwy'n credu bod angen iddynt gael tawelwch meddwl oherwydd rwy'n credu bod y rhai cydwybodol yn cael eu llethu am fod ganddynt gymaint i'w wneud, ac maent yn credu bod rhaid i bopeth fod yn berffaith ac yn meddwl “Ni fyddaf yn ei gyflwyno oni bai ei fod yn berffaith”. Felly rwy'n credu bod hynny wedi helpu i chwalu'r rhwystr i rai ohonynt a rhoi tawelwch meddwl iddynt ei bod hi'n iawn peidio â bod yn berffaith ar yr adeg hon ym mlwyddyn 11.’ (Athro, A1)

> ‘Mae'n mynd yn groes i'r graen i'r plant eu bod heb fod yn dod i mewn. Mae'r term agored i niwed yn derm eithaf eang, rwy'n credu, beth bynnag, ac rwy'n credu bod rhai o'r plant hynny yn eithaf agored i niwed yn yr ystyr bod eu hiechyd meddwl wedi dioddef o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud...yn enwedig ym mlwyddyn pump a chwech.’ (Athro, A2)

> ‘Mae angen ychydig o gymorth ychwanegol ar fwy o lawer o fechgyn yn y cartref ar hyn o bryd.’ (Athro, A5)

6.83 Mewn ysgolion uwchradd, byddai anghenion disgyblion agored i niwed yn cael eu diwallu gan y timau bugeiliol:

> ‘Mae gennym dîm bugeiliol gwych sy'n gyswllt ar gyfer y mathau hynny o bethau [e.e. materion yn ymwneud â chysylltedd a mynediad at waith].’ (Athro, A3)

6.84 Mewn ysgolion cynradd, roedd galwadau ffôn rheolaidd yn elfen bwysig ar gyfer monitro lles plant ond, pan ddaeth ffrydio byw yn elfen reolaidd o'r ymarfer, roedd gweld y plant yn rheolaidd yn rhoi tawelwch meddwl i'r athrawon:

> ‘Cysylltu a pob disgybl dros y ffôn yn wythnosol yn y cychwyn.’
>
> (Athro, A4)

6.85 Defnyddiodd ysgolion eu gwybodaeth am eu disgyblion a monitro lefelau ymgysylltu er mwyn cefnogi dysgwyr agored i niwed hysbys. Hefyd, ailwerthusodd y rhan fwyaf ohonynt eu meini prawf ar gyfer adnabod y rhai a gafodd eu gwneud yn agored i niwed o ganlyniad i'r pandemig a datblygu cymorth fel y bo'n briodol. Roedd rhai dysgwyr yn ffynnu ar ddiogelwch gweithio gartref a chael cymorth ac adborth manwl gan eu hathrawon.

### Lefelau ymgysylltu disgyblion ar-lein

6.86 Nododd athrawon a ymatebodd i'r arolwg ar ddechrau 2021 wahaniaethau yn y lefelau ymgysylltu yn ystod y gwahanol gyfnodau o gyfyngiadau symud. Yn y cyfnod o fis Mawrth tan fis Mehefin 2020:

> ‘Ymgysylltodd y mwyafrif o fy nysgwyr yn effeithiol drwy rannu eu gwaith yn wythnosol ar ein blog dosbarth.’ (Athro, B1)
>
> ‘Roedd tua hanner fy nosbarth yn ymgysylltu yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud. Sylwais mai'r un plant bob wythnos oedd y rhai nad oeddwn yn clywed ganddynt. Roedd yr enwau hyn yn cael eu rhoi i fy mhennaeth bob wythnos.’ (Athro, B1)
>
> ‘Ychydig iawn o ymgysylltu – llai na 25%’ (Athro, B2)

6.87 Un ffactor arwyddocaol oedd yr adnoddau a oedd ar gael i rieni er mwyn helpu eu plant:

> ‘Roedd ein lefelau ymgysylltu yn ysbeidiol. Dywedodd llawer o'n rhieni na fyddai'r plant yn eistedd a chaniatáu iddynt eu helpu i gwblhau'r gwaith. Dywedodd llawer o rieni nad oedd yr adnoddau TG ganddynt i gefnogi dysgu ar-lein. Gofynnodd llawer o rieni am becynnau papur ac wedyn ni wnaethant eu casglu.’ (Athro, C3)
>
> ‘Roedd y sgiliau TG a oedd gan rieni'r plant yn cael effaith enfawr ar lefelau ymgysylltu. Dywedodd llawer o'r plant nad oeddent wedi cwblhau llawer o'r dysgu yn y cartref yn ystod y cyfnod hwn. Ar ddechrau mis Mawrth, nid oedd gwersi byw yn hanfodol ac rwy'n credu bod y myfyrwyr wedi colli diddordeb. Os nad oeddent yn deall rhywbeth, nid oeddent yn gallu gofyn cwestiynau a chael atebion.’ (Athro, C2)

6.88 Mae rhai ysgolion uwchradd wedi rhoi gwybod am batrymau ymgysylltu gwahanol mewn grwpiau blwyddyn gwahanol:

> ‘Rwy'n addysgu blynyddoedd 9–13 ac rwy'n sylwi bod yr ymgysylltu yn well yn uwch yn yr ysgol. Felly, anaml iawn y byddai disgybl chweched

dosbarth yn colli gwers, ond ym mlwyddyn naw roedd 16 allan o 26. Rwyf hefyd yn sylwi, yn is i lawr yr ysgol, eu bod yn hapus i ysgrifennu yn y sgwrs ar Teams. Felly, gall pawb ofyn cwestiwn, rhannu eu gwaith o flaen ei gilydd, ond wrth inni symud i fyny'r ysgol, rwy'n sylwi bod y myfyrwyr TGAU a Safon Uwch yn fy e-bostio. Nid ydynt yn awyddus i rannu eu meddyliau. Nid ydynt am rannu'r cwestiynau yr hoffent eu gofyn imi, ac maent yn tueddu i fy e-bostio yn hytrach na defnyddio Teams.' (Athro, A1)

'Mae fy amserlen addysgu gyfan yn cynnwys blynyddoedd 10 i 13 yn bennaf, ac mae'r cyfan yn seiliedig ar aseiniadau hefyd. Felly mae fy e-bost ar agor drwy'r amser ac mae fy sgwrs Teams ar agor ac mae pobl yn cysylltu â mi o bob cyfeiriad. Allwch chi edrych ar hwn? Ydy hwn yn iawn? Ydw i wedi gwneud hwn yn iawn?... Fel arfer, byddech mewn ystafell ddosbarth a byddent yn gofyn ichi wyneb yn wyneb ond, nawr, mae popeth yn cael ei wneud ar-lein. Ac mae'n cymryd llawer mwy o amser i ymateb i e-bost.' (Athro, A1)

'Byddent yn sicr yn dod i'r gwersi, a byddai'r rhan fwyaf ohonynt yno ar gyfer y gwersi ond, yn sicr, roedd amharodrwydd gan rai i gyflwyno gwaith yr oeddent wedi'i gwblhau...Felly rwyf wedi ceisio addasu hynny, a nawr rwy'n neilltuo chwarter awr olaf llawer o wersi, os oes darn rwyf am ei asesu, ac rwyf wedi dweud "Rwy'n rhoi pum munud ichi nawr i nôl eich camera a thynnu llun o hwn a'i lanlwytho".' (Athro, A1)

6.89 Mewn rhai ysgolion, cafodd cyfnodau o gwarantin fwy o effaith ar rai grwpiau nag eraill yn ystod hydref 2020:

'Ym mlwyddyn 11, er enghraifft, maent yn wych oherwydd arnyn nhw roedd yr effaith fwyaf, i ni, gyda chwarantinau, ac rydym wedi cael llawer o lais y dysgwr ganddynt, ac mae rhai ohonynt wir yn digalonni. Roeddent wedi cael llond bol. Roedd yn gas ganddynt fod gartref pan oedd pawb arall yn yr ysgol. Felly, maent yn ymgysylltu'n dda iawn

> oherwydd maent yn gwybod ei fod yn bwysig ac maent yn awyddus i wneud yn dda.' (Athro, A1)

6.90 Nododd rhai ysgolion fod dysgu ar-lein wedi arwain at fanteision i rai dysgwyr, a hynny'n groes i'r disgwyl:

> 'Caiff llawer o blant eu gwthio i'r cysgodion yn y dosbarth, ac nid ydynt yn awyddus i ofyn, neu mae gormod o bethau eraill yn digwydd, ond gallant gysylltu â mi yn uniongyrchol, unrhyw bryd, naill ai yn sgwrs y cyfarfod neu drwy fy e-bostio tra bydd pawb yn gwneud eu gwaith. I lawer o blant, mae hynny wedi gwneud yr addysgu'n fwy hygyrch.' (Athro, A3)

> 'Mae hyn wedi fy syfrdanu – mae llond llaw o blant wedi blodeuo, drwy ddysgu'n annibynnol. Drwy fod i ffwrdd o'r pethau sy'n tynnu eu sylw yn yr ysgol maent wedi hedfan. Maent yn dysgu popeth rwy'n ei addysgu iddynt ac wedyn yn mynd ac yn gwneud eu gwaith eu hunain am eu bod gartref.' (Athro, A3)

6.91 I rai ysgolion cynradd, dangosodd y lefelau ymgysylltu ymhlith y disgyblion beth oedd yn effeithiol i'w dysgwyr:

> 'Am ein bod wedi treialu hyn o fis Medi ymlaen, gwnaeth y plant ei fwynhau, ac roedd yn anhygoel pa mor hawdd y gwnaethant ddysgu sgiliau defnyddio iPads i lanlwytho gwaith a dod o hyd i ddogfennau, i weithio arno, i ddod â phethau. Erbyn iddynt roi eu dannedd ynddo, nhw oedd yn arwain y ffordd, a dangosodd hyn inni ein bod wedi gwneud y penderfyniad cywir.' (Athro, A2)

6.92 Cododd heriau yn gysylltiedig â disgyblion na wnaethant ymgysylltu ond mae'r ysgolion wedi gweithio gyda nhw a'u teuluoedd i'w hannog:

> 'Rwy'n credu bod mwy o blant ar y dechrau nad oeddent yn ei wneud. Ac roedd un bachgen yn chwarae Warcraft ar un adeg, hyd yn oed, a gallem ei glywed! Ond roedd gennym bobl yn yr ysgol a gysylltodd â rhieni'r plant hynny... ond mae'n ymddangos fel eu bod wedi ailymuno, a dweud y gwir. Felly roedd rhai plant ar y dechrau nad oeddent yn

gwneud unrhyw waith. Byddent yn esgus eu bod yno. Ond mae'n ymddangos eu bod yn cymryd rhan erbyn hyn.' (Athro, A3)

6.93 Mewn rhai ysgolion, roedd rhywfaint o rwystredigaeth ynglŷn â'r diffyg ymateb:

> 'Roedd y plant yn teimlo felse bo gormod i wneud...ma nhw di cyfaddef, "na Miss, dydyn ni ddim yn mynd ar Adobe Spark," ond pob dydd dwi'n ychwanegu tasgau newydd ar Adobe Spark.'
>
> (Athro, A4)
>
> 'Yn ogystal, dwi'n defnyddio gwefannau ac yn y blaen a dwi'n teimlo fod hwna'n wastraff achos dydy'r plant ddim yn ymateb i bopeth.'
>
> (Athro, A4)

6.94 Mewn rhai cyd-destunau, roedd tystiolaeth bod lefelau ymgysylltu disgyblion wedi gostwng dros amser, naill ai wrth i'r wythnos fynd yn ei blaen neu dros gyfnod y cyfyngiadau symud.

> 'Dwi'n teimlo ar ddechrau'r wythnos – ar y dydd Llun a'r dydd Mawrth – mae'r canran yn uchel iawn o rhan y plant sy'n ffrydio'n fyw, ond erbyn y dydd Iau a dydd Gwener [mae e'n is]... Ma na deimlad os wna i e dydd Llun, dydd Mawrth a dydd Mercher yna ma dydd Iau a dydd Gwener [I ymlacio]...ma nhw wedi gorffen y tasgau. Dwi'n rhoi y tasgau lan ar y dydd Llun ac efallai fydd tri o'r bechgyn wedi cwblhau dwy dasg cyn bo ni'n ffrydio'n fyw i esbonio nhw.'
>
> (Athro, A4)
>
> 'Mae'r ymateb wrth y disgyblion yn cwympo'n ddyddiol… [ma] nhw'n colli'r trefn, a ma angen y strwythur arnyn nhw...[mae nhw] yn mynd yn eithaf disengaged gyda be sy'n digwydd, a ma na ddiffyg cymhelliant. Er bo nhw efallai yn y gwersi dydyn nhw ddim wedi ymrwymo cystal a be oedden nhw ar y cychwyn. Ma nhw eisiau fod nol yn yr ysgol.'
>
> (Athro, A4)

6.95 Fodd bynnag, nododd athrawon eraill fod rhai disgyblion wedi sylweddoli dros amser eu bod yn gweld eisiau'r ysgol ac yn awyddus i ymgysylltu:

> ‘Ond, . wrth i amser fynd yn ei flaen, mae'r plant wedi sylweddoli ac wedi dysgu eu bod am gael addysg mewn gwirionedd, ac nid ydynt am gael eu gadael allan, ac maent yn gwybod ei fod yn effeithio ar eu dyfodol ac maent wedi dechrau ymgysylltu llawer yn fwy.’ (Athro, A3)

6.96 Drwy'r sampl o ysgolion, roedd camau dilynol yn cael eu cymryd yn achos disgyblion nad oeddent yn ymgysylltu, sef galwad ffôn fel arfer. Erbyn yr ail gyfnod o gyfyngiadau symud, roedd y lefel ymgysylltu'n llawer uwch, er bod cafeatau:

> ‘Mae tua 80% yn cadw mewn cysylltiad ond prin yw'r rhaid sy'n gwneud gwaith 'effeithiol'.’ (Athro, B1)

> ‘Rwy'n fodlon iawn ar yr ymdrech, ar ansawdd y gwaith ac ar faint o waith y mae fy mhlant yn ei wneud yn ystod y cyfnod hwn o gyfyngiadau symud. Fodd bynnag, mae'n anodd gwybod faint ohono yw eu gwaith eu hunain, a faint sy'n fewnbwn gan eu rhieni. (Athro, B1)

> ‘Lefel ymgysylltu o 75%+ ym mhob dosbarth yn ystod y cyfnod diweddaraf o gyfyngiadau symud. Yr anoddaf i ennyn eu diddordeb = Blwyddyn 6.’ (Athro, B2)

> ‘Ar ôl y Nadolig, roeddwn yn teimlo fy mod yn deall dysgu ar-lein yn well... roeddwn yn gallu defnyddio fy fformat cynllunio fy hun a gafodd ei fabwysiadu gan holl staff yr ysgol ymhen amser. Roedd yr adborth gan y rhieni yn gadarnhaol. Yn ystod y cyfnod hwn o gyfyngiadau symud, roedd mwy o blant yn ymgysylltu â'r tasgau nag yn ystod y cyfnod cyntaf.’ (Athro, B1)

6.97 Nododd athrawon fod y dulliau a ddefnyddiwyd i roi adborth yn elfen a gyfrannodd at ymgysylltu:

> ‘I'r rhai sy'n cyflwyno gwaith, rwy'n credu ei fod [Google Classroom] wedi bod yn gadarnhaol iawn. Rwy'n credu ei fod wedi annog rhai i barhau i ganolbwyntio.’ (Athro, B1)

> ‘Polisi ein hysgol yw rhoi adborth drwy wneud sylwadau preifat at waith y plant ar ôl iddo gael ei gwblhau. Adborth cadarnhaol yw hwn yn bennaf, yn eu canmol am eu hymdrechion a'r pethau y maent wedi'u gwneud yn dda... I rai plant, mae'r dull hwn yn effeithiol am fod rhai plant yn darllen ein sylwadau ac yn gadael sylwadau mewn ymateb, a bydd rhai plant yn gwneud y cywiriadau y byddwn yn gofyn iddynt eu gwneud. Fodd bynnag, bydd llawer o blant yn peidio ag ymateb i'n sylwadau felly ni allwn ddweud p'un a ydynt wedi darllen ein hadborth ai peidio.’ (Athro, B1)

> ‘Lanlwythodd y plant waith ysgrifenedig i Purple Mash ac es i ati i wneud sylwadau arno a rhoi adborth. Mae defnyddio Purple Mash yn eich galluogi i wneud sylwadau ar waith ar-lein, a gwnes hynny pan gafodd ei gyflwyno. Roeddwn yn teimlo ei fod yn effeithiol am fod llawer o fy nisgyblion yn ymateb i fy sylwadau.’ (Athro, B1)

6.98 Pwysleisiodd nifer o ysgolion bwysigrwydd dod â'r ysgol neu'r dosbarthiadau ynghyd ar-lein:

> ‘Gwasanaethau dyddiol am 9.30am – Google Meet. Ar gyfartaledd, bydd 40 o ddisgyblion yn ymuno â ni bob dydd, gyda brodyr a chwiorydd yn bresennol gyda'i gilydd.’ (Athro, C2)

> ‘Sesiynau lles gyda phob dosbarth – dydd Llun a dydd Gwener. Diben y sesiwn ar ddydd Llun yw paratoi'r ffordd ar gyfer yr hyn y byddwn yn ei ddysgu drwy'r wythnos, ac mae'r sesiwn ar ddydd Gwener yn crynhoi sesiynau'r wythnos.’ (Athro, C3)

6.99 Roedd darlun cymysg mewn perthynas â lefelau ymgysylltu'r disgyblion rhwng yr ysgolion a thros amser, gyda llawer o ffactorau'n dylanwadu ar y graddau yr oedd disgyblion unigol yn ymgysylltu. Mae'n anodd dod i

gasgliadau cyffredinol ond daw rhai pwyntiau i'r amlwg. Mae'n ymddangos bod disgyblion wedi llwyddo i ymgysylltu â dysgu o bell yn effeithiol os oeddent eisoes wedi cael eu cyflwyno i'r llwyfannau a'r gweithgareddau cyn y cyfyngiadau symud, ac os oedden nhw eu hunain yn deall ei bwysigrwydd. Mewn ysgolion cynradd, roedd lefelau ymgysylltu'n dibynnu i raddau helaeth ar allu rhieni i gefnogi eu plant, e.e. amser, cyfarpar, cysylltedd. Mewn cyfnodau diweddarach o gyfyngiadau symud, byddai'r profiad yn amrywio wrth i rai dysgwyr ddod yn fwy cyfforddus â dysgu o bell, tra oedd eraill yn blino arno. I rai dysgwyr, roedd athrawon yn teimlo bod yr annibyniaeth a gynigir gan ddysgu o bell wedi cyflymu eu cynnydd.

**Ymgysylltiad disgyblion ar draws cyfnodau a phynciau**

6.100 Roedd y grwpiau ffocws yn cynnwys athrawon o bob cyfnod ac amrywiaeth o bynciau. Roedd ganddynt brofiadau gwahanol o'u darpariaeth ar gyfer disgyblion ac ymgysylltiad disgyblion a safbwyntiau gwahanol ar hyn. Nododd un ysgol uwchradd fod y disgyblion wedi colli'r profiad o gael cymorth i bontio i gyfnod nesaf eu haddysg:

> ‘Rwy'n credu bod y rhai hynaf yn mwynhau'r dysgu annibynnol, ond mae angen cymorth o hyd ar y rhai iau. A'r llynedd sy'n gyfrifol am hyn gan na wnaeth ein blwyddyn wyth ni orffen blwyddyn saith. Felly hyd yn oed pan oeddem yn yr ysgol, gallech weld y gwahaniaeth ynddynt. Chawson nhw ddim y profiad o bontio. Ac, yn amlwg, chafodd Blwyddyn 7 ddim y cyfnod o bontio i'r ysgol uwchradd. Ac i raddau, chafodd ein Blwyddyn 10 ni ddim cyfnod go iawn o bontio i TGAU.’ (Athro, A3)

6.101 Ar gyfer pynciau ymarferol mewn ysgolion uwchradd, roedd y ffaith nad oedd cyfarpar arbenigol ar gael yn rhwystr mor fawr i ymgysylltiad â'r problemau technoleg a chysylltedd:

> ‘Ac yn fy adran i, er enghraifft, gyda ffotograffiaeth, mae'r disgyblion wedi mynd â rhai dyfeisiau adref. Mae'r adran ffotograffiaeth wedi

cynnig i'r myfyrwyr ffotograffiaeth hynny fynd â chyfarpar i'w defnyddio adref.’ (Athro, A1)

> ‘Cyn y Nadolig, dywedais wrthynt am fynd â llawer o adnoddau, a mynd â'r llyfrau braslunio rhag ofn i ni gael cyfnod atal byr ar ôl y Nadolig, oedd yn lwcus oherwydd, yn amlwg, cawsom gyfnod o gyfyngiadau symud, ond roedd y myfyrwyr Safon Uwch a TGAU wedi cael pecynnau peintio bach, ac roeddent wedi gallu mynd â'r hyn roeddent yn credu y byddai ei angen arnynt o'r ystafell ddosbarth i barhau â'u prosiectau.’ (Athro, A1)

6.102 Fodd bynnag, nid oedd y strategaethau hyn ar gael i'r disgyblion sy'n astudio tecstilau y mae angen iddynt ddefnyddio peiriannau gwnïo ac i'r disgyblion sy'n astudio technoleg dylunio y mae angen iddynt allu defnyddio gweithdai. Roedd yr athrawon yn pryderu y byddai'r diffyg cyfleoedd i ymgysylltu â'r agwedd hon ar y pwnc yn cael effaith mwy hirdymor ar gyfraniad yn y pwnc yn y dyfodol:

> ‘Oherwydd y sgil-effaith arall yw, rydym yn siarad am nosweithiau opsiynau ac opsiynau TGAU, ac opsiynau Safon Uwch ac ati, gan fod cryn amser ers iddynt allu gwneud gwaith Dylunio a Thechnoleg ymarferol, adeiladu, peirianneg, rydym yn rhagweld y bydd sgil-effaith ar nifer y disgyblion fydd yn cymryd y dewisiadau am nad ydynt wedi cael blas go iawn. . Maent wedi colli allan ar yr hyn fyddai wedi denu llawer ohonynt i'r pwnc, sef yr agwedd ymarferol.’ (Athro, A1)

6.103 Bu'n rhaid i athrawon ymarfer corff fod yn greadigol wrth gynllunio tasgau dysgu o bell:

> Felly, buom yn edrych ar fonitro cyfradd curiad y galon ac rydym wedi creu modiwl cyfan ar gyfraddau curiad y galon nawr ac maen nhw'n mesur eu cyfraddau wrth wneud ymarfer corff. Dyna un peth y bu'n rhaid i ni fynd i'r afael ag ef. Felly, yn y dyfodol, rydym yn rhagweld y bydd defnyddio iPads a gwylio fideos ohonynt yn gwneud ymarfer corff

a monitro hyn yn dod yn fwy o ffocws, fel y gall athrawon roi adborth i'r myfyrwyr.’ (Athro, A3)

‘Profi a methu ydym ni ar hyn o bryd. Ond rydym yn ymwybodol mai dyma'r ffordd ymlaen. A bues i'n gwneud llawer gan ddefnyddio iPads yn y brifysgol hefyd,  ac mae'n bendant yn ffordd o ennyn diddordeb plant llawer mwy. Ac rydym yn eu paratoi ar gyfer pethau fel diwrnod i ffwrdd oherwydd eira. Rydym wedi chwerthin a thynnu coes am y ffaith nad oes y fath beth â diwrnod i ffwrdd oherwydd eira mwyach, felly, os bydd y plant yn mynd allan i daflu peli eira, byddant yn recordio eu hunain. Gallwn edrych ar eu dull o daflu. Felly, gall fod mor wirion â hynny.’ (Athro, A3)

6.104 Roedd heriau amlwg gyda disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ond canfu athrawon ffyrdd o ennyn eu diddordeb nhw a'u rhieni:

‘Yn y cyfnod sylfaen, tystiolaeth ddarluniadol yw llawer o'r gweithgareddau y mae rhieni yn eu cyflwyno a'u lanlwytho, sy'n rhoi cipolwg bach, a gwnaethant nodi bod hyn wedi bod yn ddiddorol iawn neu nad oeddent am ddechrau darllen heddiw, ond unwaith iddynt ddechrau cymryd rhan, roedd ganddynt ddiddordeb mawr. Felly, rwy'n cael y math hwn o gyswllt bob dydd.’ (Athro, A2)

6.105 Y cyfyngiad â'r grŵp oedran hwn yw'r graddau y mae rhieni yn cymryd rhan yn y gwaith ond mae sawl safbwynt gwahanol ar hyn:

‘Oherwydd, yn amlwg, mae'n rhaid i'r rhieni ymgysylltu â nhw hefyd. Felly, rydych wedi cael gwybod pa blentyn sy'n cael arweiniad a pha fath o fewnbwn y mae'r rhiant yn ei roi. Felly mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn i ni gael y dystiolaeth ffotograffig yn ogystal â'r gwaith a'r deialog bach hefyd.’ (Athro, A2)

‘Achos dwi’n teimlo weithiau fel petai rhai rhieni yn cymryd drosodd ar y gwaith, a dwi’n gallu dweud fod y plentyn heb cwblhau’r gwaith yna ar ben ei hun, a fod nhw di derbyn gormod o help... Wedyn dwi’n gweld

> e’n anodd gwahaniaethu oherwydd help y rhieni. Mae modd clywed rhieni mewn gwersi byw yn rhoi atebion i’r plant.’
>
> (Athro, A4)

6.106 Mae adrannau pynciau a thimau cynradd wedi cael rhywfaint o ymreolaeth wrth gynllunio dysgu wedi'i anelu at ddeilliannau arbenigol. Er y cafwyd creadigrwydd amlwg, does dim cystal â rhoi mynediad i'r disgyblion i'r adnoddau a'r cyfarpar arbenigol sydd ar gael iddynt yn yr ysgol uwchradd na'r rhyngweithio â chyfoedion a gwella annibyniaeth y Cyfnod Sylfaen. Mae'n bosibl y bydd angen cymorth ychwanegol ar ddysgwyr i fynd i'r afael â'r cyfleoedd hyn a gollwyd.

**Gweithio gyda rhieni**

6.107 Yn sgil y dysgu o bell, bu'n rhaid i rieni ymwneud mwy nag erioed â dysgu eu plant. Ar gyfer disgyblion uwchradd hŷn, gallai hynny fod wedi golygu bod gartref gyda'r disgybl wrth iddo wneud ei waith ysgol. Fodd bynnag, roedd angen i rieni disgyblion cynradd ymwneud yn fwy uniongyrchol. Roedd sicrhau bod ysgolion yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni yn bwysicach nag erioed.

> ‘Mae'r rhieni yn rhoi llawer o gefnogaeth i helpu eu plentyn i ddysgu yn ystod y cyfyngiadau symud presennol.’ (Athro B1)

6.108 Gwnaeth yr ysgolion gydnabod yr heriau niferus y gallai rhieni eu hwynebu wrth gefnogi eu plant a buont yn ceisio rhagweld y rhain drwy gynnig cefnogaeth:

> ‘Ac rydym wedi recordio fideos bach er mwyn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl i'r rheini eu defnyddio i gefnogi'r plant gartref. Oherwydd ni allwn wybod beth yw amgylchiadau pob cartref.’ (Athro, A2)

> ‘Ond rydym hefyd wedi dechrau rhoi trosolwg wythnosol i'r rhieni gydag amserlenni cryno fel y gallant weld fformat yr hyn sydd ar y gweill a'r hyn a ddisgwylir.’ (Athro, A2)

6.109 Fel gydag agweddau eraill ar ddysgu o bell, nododd ysgolion newid agwedd yng nghyfnodau gwahanol y cyfyngiadau symud.

> ‘Yn y clo cyntaf, ‘sai’n credu oedd gymaint o bwyslais [ar waith], er fod gynon ni fe ysgol pwyslais ar wneud gwaith... Roedd y tywydd yn ffein ac oedd lot o bobl yn teimlo fod e’n bwysicach i fynd allan a neud pethau ar y cyd, a gwneud bana bread a phopeth oedd pawb yn gneud. Erbyn y cyfnod clo yna mae gymaint o amser wedi mynd heibio fel fod na elfen o banic gyda rhai rhieni lle ma nhw’n sylweddoli nad oedd yr output ddim cystal llynedd oherwydd doedden nhw ddim yn meddwl fyddai’r cyfnod hyn mor hir a be mae e wedi bod. Felly erbyn hyn ma lot o rhieni yn cysylltu yn eisiau mwy o gefnogaeth achos fod yr elfen yna o banic.’
>
> (Athro, A5)

6.110 Mewn rhai ysgolion, cafwyd pwyslais ar gadw sianeli cyfathrebu â rhieni mor agored â phosibl:

> ‘Ac rydym hefyd wedi ffonio ein holl deuluoedd i siarad â nhw gan roi cyfle iddynt ein ffonio'n ôl os bydd angen hefyd. Felly, gallwn ni fel athrawon gysylltu â'r rhieni a gallwn ddefnyddio system o'r enw Class Dojo i wneud hyn hefyd. Felly, os na fyddwn yn gweld bod pethau penodol yn digwydd, gallwn gysylltu â'r rhieni. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig cadw'r ddeialog yn agored rhyngom ni a'r cartref. Mae hynny wedi bod yn bwysig iawn.’ (Athro, A2)

6.111 Fodd bynnag, mewn rhai cyd-destunau, ychwanegodd y cyfathrebu at y pwysau ar staff:

> ‘Ma rheini wedi cymryd mwy o rôl yn addysg eu plant – sydd yn peth da – ond ar y llaw arall ni di cael lot mwy o e-byst gan rhieni yn gofyn am fwy o waith, ac ati, a dwi’n gweld fod gofynion nhw wedi mynd yn eithaf

extreme...ni'n derbyn hynny bob dydd fel athrawon, a da ni'n mynd i'r gwaith ac yn gadael y gwaith and that's life. Ond ma hwn just yn extreme hollol gwahanol. A mae'r pressure o rhieni yn y cefndir yn waeth. Dwi di rhai rhieni wedi gwersi ... yn fideo callio fi'n syth ... yn commentio ar y wers a eisiau rhoi cyngor i mi. So ma pethau bach fel na yn rhoi lot mwy o straen a lot mwy o stress. Oni byth eisiau teimlo fel hyn, ond dwi'n teimlo bo fi'n paratoi'r tasgau er mwyn cadw'r rhieni'n hapus. Dwi'n nabod anghenion pob un o'r plant yn fy nosbarth, ond dwi'n teimlo fod rhaid i fi newid y gwaith er mwyn siwtio'r rheini.'

(Athro, A4)

6.112 Mae ysgolion wedi ystyried y gall plant mewn rhai teuluoedd fod yn rhannu dyfais:

> 'Rydym wedi amserlennu ... dosbarthiadau ar adegau gwahanol, oherwydd yn amlwg efallai bod brodyr a chwiorydd mewn dosbarthiadau gwahanol ac efallai nad oes digon o ddyfeisiau. Does dim trawsgroesi rhwng teuluoedd sydd angen yr un ddyfais i gymryd rhan mewn cyfarfodydd Teams. Ac mae hynny wedi gweithio'n dda iawn'. (Athro, A2)

6.113 Wrth fonitro ymddygiad ac ymgysylltiad disgyblion ar-lein, ceisiodd ysgolion sicrhau bod eu harferion a'u gweithdrefnau arferol yn parhau:

> Ond gyda thîm bugeiliol da o benaethiaid blwyddyn sy'n sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu, ac sy'n cadw mewn cysylltiad â'r rheini sy'n rhagori ac yn ymgysylltu'n hefyd, sy'n beth da. Ac yna mae UDA yn defnyddio Go for Schools ac maent wedi newid y system ymddygiad i nodi os nad ydynt yn ymgysylltu mewn gwers ar-lein. Felly, mae botymau y gallwch eu pwyso nawr sy'n anfon neges gartref i'r rhieni ac i'r penaethiaid blwyddyn. Felly, maent wedi addasu hyn er mwyn iddo fod ar gael i ni gan nad oedd botwm i ddweud nad oeddent yn ymgysylltu ar-lein ac ati. (Athro, A3)

6.114 Drwy symud i ddysgu o bell, gwelwyd pwysigrwydd y gydberthynas rhwng ysgolion a theuluoedd a'r angen am ddisgwyliadau realistig gan y ddwy ochr er mwyn ategu dysgu disgyblion.

**Myfyrio ar y profiad cyfan**

6.115 Cynhaliwyd grwpiau ffocws ac arolygon ar ddiwedd 2020 ac ar ddechrau 2021 felly manteisiodd rhai o'r cyfranwyr ar y cyfle i fyfyrio ar y profiad cyfan. Roedd rhai o'r farn ei bod yn bwysig cynnal yr un ethos â phe byddai'r disgyblion yn yr ysgol:

> ‘Yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf, gwnaethom ymdrech fwriadol i gynnal ethos cymunedol cryf ein hysgol. Felly, pan oedd disgybl yn cael ei ben-blwydd, byddem yn rhannu neges ein bod am ddymuno pen-blwydd hapus iddo, a phethau eraill. Roedd hyn yn rhywbeth da i'w wneud ar y dechrau yn fy marn i, ac rydym yn parhau â'r arfer nawr. Eto, caiff hyn ei adlewyrchu yn y ffaith ein bod yn dîm sy'n meddwl am ein gilydd.’ (Athro, A2)

> ‘Ond wn i ddim... chwyrligwgan Corona yw hwn, ynte? Mae rhai wythnosau'n wych ac mae rhai wythnosau'n teimlo fel pe byddech yn ceisio dal eich cynffon.’ (Athro, A2)

6.116 Nododd yr athrawon pa mor wydn y mae rhai plant wedi bod:

> ‘Mae'r plant wedi bod mor wydn. Rwy'n cofio teimlo'n rhwystredig ym mis Medi am nad oeddwn wedi gwneud yr holl bethau arferol y byddwn i'n eu gwneud i groesawu'r garfan newydd hon o blant a rhieni – yr holl gyfarfodydd, yr holl ddiwrnodau agored, yr holl ymweliadau â'r feithrinfa a'r pethau bach hyfryd hynny sy'n arwain at gyfleoedd i sgwrsio ac ati. A daeth y plant ym mis Medi, a doedd rhai ohonyn nhw erioed wedi cwrdd â mi, a doedd rhai o'r rheini ddim wedi cwrdd â mi am eu bod yn newydd i'r ardal, a daethant i mewn i'r ystafell ddosbarth yn ddi-hid gan nad oedden nhw'n gwybod ei fod yn wahanol, a bod cynllun newydd i'r ystafell ddosbarth ac nad oeddent yn gweld y plant eraill am ei fod yn newydd iddynt. Felly, rwy'n meddwl bod hynny'n dangos pa mor wydn ydynt.’ (Athro, A2)

> ‘Mae'r plant yn addasu'n anhygoel o dda i'r newidiadau a ddaeth yn sgil y pandemig. Maent wedi dangos cryn wydnwch. Maent yn colli eu

ffrindiau a'r arferion sy'n gysylltiedig â bod yn yr ysgol yn fawr iawn. Dyna pam y mae ein ffrydiau byw mor bwysig. Maent wrth eu boddau yn gweld eu ffrindiau yn y cyd-destun hwn ac mae'n ffordd wych iddynt ddal i fyny â'u ffrindiau a gofalu am eu lles.' (Athro B1)

'Gall y newid hwnnw ddigwydd yn gyflym iawn. Gall dysgu gan y plant a gwrando ar ddysgwyr gael effaith gadarnhaol. Gall plant addasu'n gyflymach na rhai oedolion. Addysgu byw fel hyn yw'r ffordd ymlaen mewn cyfnod o gyfyngiadau symud. Mae gan bob plentyn yr hawl i ddysgu fel hyn. Mae'r ysgolion wedi gallu benthyca dyfeisiau fel y gall rhai plant fanteisio ar ddysgu o bell a dysgu ar-lein. (Athro C2)

6.117 Yn y cyd-destun hwn, roedd athrawon yn gresynu am y diffyg cyfleoedd i'r ysgol gyfan ddod at ei gilydd:

'Nid yw'n teimlo'n iawn heb y gymuned honno, ac mae'r plant, a'r plant hŷn, wedi colli cael cymysgu â'r plant hynny. Ni allaf gofio pryd oedd y tro diwethaf i mi weld yr ysgol gyfan amser chwarae. Rwy'n colli gwasanaethau a phan fyddwch yn canu gyda'r holl blant a phan fyddwch yn dweud bore da wrth bob un ohonynt ac yn gweld y brodyr a chwiorydd a phawb. Dyna beth rwy'n ei golli fwyaf.' (Athro, A2)

6.118 Newidiodd safbwynt rhai athrawon drwy weithio gyda'r disgyblion ar-lein:

'Mewn ffordd od dwi'n teimlo bo fi di dod i nabod rhai o'r disgyblion yn well yn y cyfnod yma achos ti'n sylwi fod so and so heb neud y gwaith, a ti'n darllen mewn mwy i'w anghenion nhw, ac yn trial dod i nabod disgyblion bach yn well er mwyn darparu'r cyfleodd iddyn nhw.'

(Athro, A5)

6.119 Mewn un ysgol, cafwyd pryder ynghylch herio'r drafodaeth ynghylch dysgu a gollwyd a phwysleisiodd un athro yr hyn roedd y disgyblion wedi'i gyflawni drwy ddysgu o bell:

'Mae'n syndod i mi. Maen nhw'n dweud bob diwrnod ar y newyddion bod y plant hyn ar ei hôl hi. Ac rwy'n gwybod bod llawer o ddisgyblion

ar ei hôl hi, ond o fy mhrofiad i â'r plant hyn, mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi gwneud yn dda iawn. Rwyf wedi addysgu pwnc cymhleth iawn i flwyddyn 10 yr hanner tymor hwn ac maent wedi dysgu'r holl beth ar-lein. Nid yw'n cael ei gydnabod bod llawer o'r plant wedi gwneud yn dda iawn. Maent wedi bod yn cael gwersi. Maent wedi cael eu haddysgu. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymgysylltu ac yn cael addysg dda, er ychydig yn wahanol. Rwy'n credu ei bod yn drueni nad yw hynny wedi cael ei gydnabod. Efallai nad yw pawb wedi cael yr un profiad.' (Athro, A3)

6.120 Roedd y rhan fwyaf o'r athrawon a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws neu'r arolwg o'r farn eu bod wedi dysgu mwy am eu hymarfer a'u disgyblion. Gwnaethant bwysleisio mai'r hyn y mae llawer o blant wedi'i golli yw rhyngweithio â'u cyfoedion ac aelodau o gymuned yr ysgol. Mynegodd y rhan fwyaf o'r athrawon hefyd edmygedd tuag at y ffordd y gwnaeth eu disgyblion ymdopi, ac mewn rhai achosion, y ffordd y gwnaethant ffynnu drwy ddysgu o bell.

**Myfyrio ar y profiad cyfan – Edrych i'r dyfodol**

6.121 Myfyriodd rhai athrawon ar eu defnydd gochelgar o dechnoleg yn y gorffennol, am resymau yn ymwneud â lles, a gwnaethant gydnabod ei gwerth:

> 'Yn y gorffennol, roeddwn i'n ceisio cyfyngu ar fy nefnydd o TGCh yn yr ystafell ddosbarth, gan fod plant heddiw yn cael eu hamlygu i lawer o amser sgrin, nad yw'n arbennig o iach i blant. Fodd bynnag, rwyf wedi dysgu ei bod yn rhywbeth i'w groesawu bellach, gan ei bod wedi bod mor werthfawr yn ystod y pandemig. Mae TGCh wedi galluogi plant i gyfathrebu â'u cyfoedion er mwyn eu hatal rhag bod yn unig, ac mae hefyd wedi helpu i'w galluogi i barhau â'u haddysg a'u dysgu yn ystod y pandemig.' (Athro B1)

6.122 Gallai'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr weld potensial defnyddio llwyfannau ar-lein ac agweddau eraill ar y profiad yn y dyfodol. Un agwedd yw recordio cynnwys ar gyfer staff a disgyblion:

> ‘Rwy'n credu bod effeithlonrwydd gwneud pethau ar-lein yn rhywbeth arall cadarnhaol. Rwy'n hoffi'r ffaith y gallwn recordio sesiynau briffio staff yn y bore felly os bydd pobl wedi'u colli, er enghraifft, gallwch wylio yn ôl.’ (Athro A1)

> ‘Un peth arall yn fy marn i yw, os bydd plant yn colli allan oherwydd salwch, neu pan oeddent yn ymweld â'r deintydd, y gallech lanlwytho'r PowerPoint ar Teams, a phe byddai gennym yr un grwpiau ar gyfer yr holl flwyddyn, y gallent agor y PowerPoint i ddal i fyny. Neu gallech roi'r gwaith cartref arno, a pharhau i wneud hynny, a'i ddefnyddio yn yr ystyr hwnnw.’ (Athro, A1)

6.123 Mae gweithio ar-lein drwy Teams a Google Classrom yn agor posibiliadau amrywiol fel datblygu deialog dysgu gyda disgyblion neu gydweithio ag ysgolion eraill:

> ‘O ran aseiniadau, rwy'n hoffi'r ffaith, unwaith y byddwch yn anfon yr adborth yn ôl, ac unwaith y byddant wedi gweithio arno, y gallant ei ailgyflwyno. Yn sicr, mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn cael y tasgau gwaith cartref a'r ddeialog.’ (Athro, A1)

> ‘Rwy'n credu y byddwn yn sicr yn parhau i ddefnyddio Google Classrooms. Mae wedi agor llawer o bosibiliadau i ni. Roeddem eisoes wedi dechrau gweithio gyda chwpwl o ysgolion clwstwr eraill mewn prosiectau ar-lein beth bynnag.’ (Athro, A1)

> ‘Byddaf yn parhau i ddefnyddio Google Classroom yn rheolaidd pan fydd yr ysgolion yn ailagor, fel bod y plant mor gyfarwydd â phosibl â'r llwyfan hwn rhag ofn i'r ysgolion gau eto yn y dyfodol.’ (Athro B1)

6.124 Mae gweithio ar-lein hefyd yn cynnig ffordd o ymgysylltu â dysgwyr na allant fod yn bresennol am ryw reswm:

‘Er enghraifft, mae gennyf ddisgybl sy'n dioddef yn wael â gorbryder ac nid yw wedi bod yn yr ysgol ers dwy flynedd ac mae wedi colli allan ar lawer o waith. Pan siaradais i â'i fam mewn noson rhieni ychydig o wythnosau yn ôl dywedais fod angen i ni feddwl am ffordd o gael ei waith gartref iddo gan fod y systemau hyn yn bodoli a'n bod yn eu deall, er mwyn sicrhau nad yw'n colli allan. Yn amlwg, yr hyn rydym am ei wneud yw goresgyn y gorbryder a sicrhau ei fod yn dychwelyd i'r ysgol, ond llinell denau sydd rhwng colli allan ar addysg a gwthio gennym ni. Felly, gallwn oresgyn pethau fel hyn, ac nid oedd hynny'n bosibl o'r blaen. Am y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd y disgybl hwnnw wedi colli allan ar lawer o addysg, a gobeithio na fydd hynny'n gorfod digwydd yn y dyfodol.’ (Athro, A3)

6.125 Mae rhai o'r ysgolion yn y sampl eisoes yn cymryd rhan yn E-sgol, ond gan fod pob aelod o staff wedi cael profiad o ddysgu o bell bellach, mae mwy o ymwybyddiaeth o'r ffordd y gallai hyn fod o fudd i ddisgyblion mewn ysgolion gwledig:

‘Ma' hwn di agor lot o bosibiliadau... ni’n ysgol fach, ac rydyn ni am ddarparu gymaint o gyfleoedd ag sy’n bosibl i’n disgyblion mewn pynciau sydd efallai yn llai poblogaidd, so, falle fod hyn wedi agor llwybr i ni o ran cynnig pynciau eraill i’r disgyblion ac wedi rhoi hyder i’r staff.’

(Athro, A4)

6.126 Roedd gan un athro safbwynt hir ar y profiad:

‘I fi, fel hanesydd, dwi’n gweld fod y 12 mis diwethaf wedi golygu fod addysg, a’r byd addysg, wedi gorfod datblygu yn fwy na'r hyn mae e wedi gwneud dros y ganrif a hanner ddiwethaf. Dwi’n teimlo fod e’n gyfnod lle mae’r elfennau yna o’r oes Fictoraidd - sef le mae addysgu wedi bod am gyfnod hir iawn - o athro o flaen y dosbarth yn neud y gwaith caib a rhaw o ddysgu rhesi o blant o’u blaen nhw, fod hyn wedi golygu fod y traddodiad yna wedi mynd ar chwâl. Mae’r newidiadau yn

y byd addysg nawr, a’r ffordd yr ydym ni wedi gorfod ymateb drwy fod yn hyblyg a defnyddio technoleg yn golygu ein bod ni fel corff o staff yn ein hysgol ni wedi symud ymlaen o arferion canrif a hanner mewn byr amser.’

(Athro, A5)

6.127 Cafodd un o ganlyniadau eraill protocolau COVID-19 effaith gadarnhaol iawn mewn un ysgol ac maent yn awyddus iddi barhau:

> ‘Efallai bod hyn yn swnio'n wirion, ond rwyf am ei ddweud, ers mis Medi pan ddechreuwyd defnyddio hylif diheintio dwylo a golchi dwylo a phopeth arall, y peth anhygoel yw, a ddylwn i ddim temtio ffawd, ond does yr un plentyn wedi bod yn sâl, does yr un achos o ddolur rhydd wedi bod, nac unrhyw achosion o salwch annisgrifiadwy arall. Ac mae rheswm dros hynny. Dydw i ddim yn dweud nad ydym yn hoffi cael plant yn golchi eu dwylo achos dyw hynny ddim yn wir – ond plant yw plant, a dyw dal eu dwylo o dan y tap am ddwy eiliad ddim yn olchi dwylo! Ac rwyf yn bendant yn credu y dylem barhau i ddefnyddio pethau fel hylif diheintio dwylo, ddim mor rheolaidd efallai, ond yn sicr ar adegau penodol yn ystod y dydd, gan ei fod wedi cael effaith hynod, ac mae wedi gwneud gwahaniaeth. Dydyn ni ddim wedi cael unrhyw byliau o salwch ers mis Medi. Temtio ffawd yw hyn. Bydd pawb i ffwrdd yr wythnos nesaf!’ (Athro, A2)

6.128 I rai athrawon, mae'r profiad wedi achosi iddynt ymrwymo i fwy o addysg awyr agored er mwyn sicrhau cydbwysedd ac amgylchedd dysgu diogel:

> ‘Yn y dyfodol, hoffwn ddatblygu fy ngwybodaeth a'm profiad o addysg awyr agored ac ysgolion coedwig, gan fod amser yn yr awyr agored wedi bod yn hynod o bwysig yn ystod y pandemig. Pan fydd yr ysgolion yn ailagor, bydd cynnal gwersi yn yr awyr agored yn lleihau pryderon ynghylch bod mewn cyswllt agos â'r plant, a bydd yn gwella fy lles i a'r plant yn sylweddol. Byddaf yn ceisio cynllunio ar gyfer cynnal amrywiaeth o wersi a gweithgareddau yn yr awyr agored, yn ogystal ag

arwain sesiynau lles yn seiliedig ar natur ar gyfer plant drwy Ysgol Goedwig.’ (Athro B1)

6.129 Gan grynhoi eu profiadau, mae'r athrawon yn llawn canmoliaeth o'u disgyblion a'u cydweithwyr:

> ‘Mae'r plant wedi gweld llawer o newidiadau yn y flwyddyn ddiwethaf ac maent wedi addasu'n arbennig o dda i'r hyn a daflwyd atynt. Rwyf wedi dysgu llawer am wydnwch plant. Rwyf hefyd yn meddwl fy mod i a'r staff addysgu eraill wedi dangos llawer o gryfder i barhau yn ein rolau dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi addasu'n hynod o dda heb lawer o rybudd i sefyllfaoedd amrywiol, ac rwy'n falch iawn o'r holl leoliadau addysg.’ (Athro B1)

> ‘Bod yn agored i newid a'r modd y gall plant y dyfodol ddysgu. Bydd dysgwyr yn y 21ain ganrif yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol i genedlaethau'r gorffennol. Efallai y bydd yn anodd dysgu sgil newydd i ddechrau, ond os bydd yn helpu plant i ddysgu, bydd hynny o fudd. Nid ydych byth yn rhy hen i ddysgu tric newydd.’ (Athro C4)

6.130 Mae'r athrawon wedi myfyrio ar eu profiad o addysgu ar-lein: ar eu hymarfer o ddydd i ddydd; ar eu gwaith fel timau; ac ar eu hysgolion fel cymunedau. Mae dysgu proffesiynol gwerthfawr wedi digwydd ond mae blaenoriaethau'r athrawon yn glir:

> ‘Yn y bôn, gwyddom mai'r ffordd orau o addysgu plant yw drwy eu cael yma gyda ni. Rydym wedi ceisio rhoi hanfod ein haddysgu yn yr amgylchedd rhithwir.’ (Athro, A2)

> ‘Mae'r athrawon yn anhygoel. Mae'r plant yn wydn. Dylai'r rhieni a'r cyfryngau werthfawrogi a pharchu ysgolion lawer mwy nag y maent. Gall athrawon addasu pan gânt eu cefnogi ac maent yn fwy na pharod i dderbyn newid.’ (Athro B2)

**Crynodeb**

6.131 Roedd y cyfyngiadau symud cyntaf ym mis Mawrth 2020 yn drafferthus iawn i athrawon; ymatebodd yr ysgolion a'r unigolion mewn amrywiaeth o ffyrdd. Datblygodd ymarfer yn sylweddol ym mhob ysgol a samplwyd dros y cyfyngiadau symud olynol. Roedd ffocws cryf ym mhob ysgol ar feithrin ymarfer i gefnogi lles myfyrwyr wrth iddynt wynebu'r her o ddysgu ar-lein.

- Gwnaeth ysgolion benderfyniadau annibynnol ynghylch y dewis o lwyfan ar-lein i ddiwallu anghenion eu dysgwyr. Mewn rhai achosion, roedd y penderfyniad yn seiliedig ar ddull a oedd yn bodoli eisoes o fabwysiadu'r llwyfan. Fodd bynnag, roedd rhai athrawon yn teimlo dan bwysau i ddefnyddio dulliau penodol gan Lywodraeth Cymru neu'r sir. Defnyddiodd yr ysgolion amrywiaeth o ddulliau: addysgu ar-lein byw; addysgu ar-lein cydamserol; copïau papur yn cael eu dosbarthu drwy'r post neu â llaw.
- Nododd athrawon fod eu sgiliau yn cyflwyno dysgu ar-lein wedi datblygu dros y cyfyngiadau symud olynol a bod amrywiaeth eang o hyfforddiant mewn addysgu ar-lein ar gael iddynt. Roeddent yn gwerthfawrogi'r cymorth oedd ar gael gan siroedd a chonsortia ond yn enwedig gan arbenigwyr mewn ysgolion.

- Mae'r data'n dangos bod gwahaniaethau amlwg ym mhrofiadau athrawon mewn cyfnodau gwahanol o'r cyfyngiadau symud a chyflwynwyd heriau ychwanegol pan ddychwelwyd i'r ysgol a dysgu cyfunol. Mabwysiadodd ysgolion ddulliau hyblyg mewn ymateb i anghenion dysgwyr o ran hygyrchedd caledwedd a phroblemau cysylltedd. Yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf, roedd prinder caledwedd i athrawon a dysgwyr yn broblem, a pharhaodd y problemau cysylltedd mewn ardaloedd gwledig drwy'r cyfnodau gwahanol.
- Galluogodd gwybodaeth yr athrawon a'r ysgolion am eu dysgwyr, eu teuluoedd a'u cymunedau nhw i ymateb yn hyblyg i'w hanghenion, yn

cynnwys rhoi cefnogaeth i rieni. Fodd bynnag, drwy gydol y cyfnod hwn, roedd ymgysylltiad dysgwyr yn her barhaus. Yn ogystal, ailwerthusodd yr athrawon eu dull o nodi disgyblion sy'n agored i niwed. Roedd rhai yn agored i niwed oherwydd yr amgylchiadau ond gwnaeth eraill ffynnu.

- Nododd athrawon cynradd eu bod yn dibynnu ar gefnogaeth ac ymyriad rhieni i alluogi'r disgyblion i ddysgu, ond roedd rhai athrawon yn teimlo bod gofynion y rhieni yn rhoi pwysau arnynt. Wynebodd athrawon pynciau ymarferol mewn ysgolion uwchradd (celf, tecstilau, dylunio a thechnoleg, ymarfer corff) heriau ychwanegol.
- Nododd yr athrawon hefyd gynnydd sylweddol yn eu llwyth gwaith oherwydd addysgu ar-lein ac roeddent yn teimlo eu bod wedi'u hynysu oddi wrth eu cydweithwyr. Ceisiodd rhai ysgolion efelychu dulliau cyfathrebu anffurfiol â'r staff er mwyn cefnogi eu lles.
- Mae'r athrawon wrthi'n nodi pa agweddau ar eu hymarfer newydd y byddant yn ei gadw yn y dyfodol.

# 7. Canfyddiadau: Llais Myfyrwyr AGA

**Y goblygiadau i addysg gychwynnol i athrawon**

7.1 Gofynnodd yr alwad ymchwil am ystyriaeth o oblygiadau COVID-19 ar Addysg Gychwynnol i Athrawon. Fel rhan o'r prosiect ymchwil, gwnaethom archwilio profiad myfyrwyr cyrsiau AGA i Israddedigion a Graddedigion ar leoliad rhwng mis Mawrth 2020 a mis Chwefror 2021 a'r hyn y gallwn ei ddysgu o'u profiad ar gyfer datblygu myfyrwyr AGA yn y dyfodol. Casglwyd data gan fyfyrwyr AGA o'r tri SAU, yn cynnwys myfyrwyr ar gyrsiau AGA i Israddedigion (Blwyddyn 1 a Blwyddyn 3) ac AGA i Raddedigion.

**Sut brofiad a gafodd myfyrwyr AGA mewn ysgolion? Mis Mawrth 2020 – mis Chwefror 2021**

7.2 Roedd gan y myfyrwyr lefelau gwahanol o brofiad addysgu. Roedd y rheini sydd ym mlwyddyn olaf cwrs gradd i Israddedigion wedi bod mewn ystafelloedd dosbarth wyneb yn wyneb ag amgylchedd sefydlog ac felly roedd yn bosibl cymharu. Ar gyfer myfyrwyr ar gyrsiau i Israddedigion a Graddedigion a ddechreuodd ym mis Medi 2020, gwnaethant ddechrau eu cwrs addysgu mewn cyfnod o newid cyson.

**Profiad o leoliad addysgu mewn amgylchedd cyfunol**

7.3 Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, rhoddwyd athrawon mewn sefyllfa heriol yn sgil y newid i ddysgu o bell a dysgu cyfunol ac roedd yr un peth yn wir am fyfyrwyr AGA. Bu'n rhaid i SAUau weithio gydag ysgolion mewn sefyllfa hyblyg er mwyn rhoi cyfleoedd i'w myfyrwyr fynd ar leoliad. Nododd y myfyrwyr lefelau gwahanol o baratoi.

> ‘Rwyf wir yn teimlo ein bod wedi paratoi'n eithaf da gyda'r tîm...rwy'n credu eu bod wedi gwneud gwaith da yn cadw ein meddyliau'n agored i

newid. Fel athrawon, mae'n rhaid i chi barhau i addasu i bopeth wrth gwrs'. (Myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

> 'Cawsom ein taflu i sefyllfa ym mis Ionawr lle roeddem yn ceisio gweithio drwy ddefnyddio llwyfannau gwahanol...mae wedi bod yn anodd ymgysylltu â'r gwersi ac ati heb lawer o hyfforddiant' (Myfyriwr Graddedig)

7.4 Trafododd un grŵp o fyfyrwyr eu prosiectau ymchwil weithredu mewn ysgolion yn ystod y lleoliad. Roedd hyn yn canolbwyntio ar gyfnod o 4 wythnos rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Rhagfyr 2020. Fel arfer, roedd y myfyrwyr yn yr ysgol am ddiwrnod yr wythnos ac roedd gweddill yr ymgysylltiad yn ddull dysgu cyfunol. Gweithiodd yr ysgolion â'r myfyrwyr i roi profiad wyneb yn wyneb a gweithgarwch ar-lein iddynt a diwygiodd y myfyrwyr eu cynlluniau i weithio mewn modd cyfunol.

> 'cafodd fy holl sesiynau eu recordio oherwydd yr amserlen yn y dosbarth ac roedd yn fwy cyfleus i'r athro dosbarth anfon recordiadau i'r plant wneud hynny yn eu hamser eu hunain, fel y byddent yn ymgysylltu â'r tasgau a osodwyd... Felly wyneb yn wyneb ar un diwrnod ac yna popeth arall y tu ôl i'r llenni gan wneud pethau o bell ar y pedwar diwrnod arall.' (Myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

7.5 Myfyriodd myfyriwr arall ar y ffaith bod angen canolbwyntio ar fonitro ymgysylltiad myfyrwyr a bu'n gweithio gyda'r athro dosbarth i fynd i mewn i'r ysgol ar 2 hanner diwrnod i gasglu adborth ac annog ymgysylltiad

> 'yn hytrach na mynd i mewn am ddiwrnod cyfan, roeddwn i'n rhannu'r cyfnod yn ddau hanner diwrnod.. Byddai'r rhan fwyaf ohonynt yn casglu gwaith a osodwyd iddynt dros lwyfan ar-lein, ond roedd gan sawl un esgus dros pam nad oeddent wedi gwneud hynny. Felly, gan ei fod wedi'i rannu allan drwy'r wythnos, byddwn yn gallu gosod gwaith ar ddydd Mawrth ac yna mynd i mewn ar ddydd Iau a nodi ble roeddent wedi cyrraedd.' (Myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

7.6 Rhoddwyd y cyfle i rai myfyrwyr gynnal gwersi byw ar-lein.

> ‘Rwy'n cynnal gwersi byw. Nid oeddwn yn defnyddio unrhyw ddeunydd a recordiwyd ymlaen llaw. Gwnaethom ddechrau gyda gwersi byw 120 munud o hyd, ar y dechrau ac yna gwnaethom symud i sesiynau 80 munud o hyd gan fod 120 braidd yn hir i'r myfyrwyr. Mae'n wers fyw. Nid oes gennym ddeunydd a recordiwyd ymlaen llaw er ein bod yn recordio'r wers rydym yn ei haddysgu’ (myfyriwr Graddedig)

**Sut beth oedd dysgu cyfunol?**

7.7 Gwelodd y myfyrwyr gymwysiadau/dehongliadau gwahanol o ddysgu cyfunol yn ystod eu lleoliadau mewn ysgolion ac mae hyn wedi dylanwadu ar eu dull gweithredu. Roedd dulliau gweithredu yn amrywio rhwng ysgolion oherwydd anghenion y dysgwyr. Gwnaethant hefyd nodi'r posibilrwydd o ddatblygu dysgwyr annibynnol drwy ddysgu cyfunol yn yr ystafell ddosbarth.

> ‘Nid dim ond ar-lein y mae dysgu cyfunol yn digwydd. Dywedodd fy mentor ei fod yn rhoi cyfleoedd gwahanol iddynt ar gyfer dysgu. Mae profiadau cyfunol yn ffyrdd gwahanol o oresgyn problem neu i ddatrys mater’ (Myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

> ‘Nid dim ond fel dysgu ar-lein y cafodd fy mhrofiad cyfunol ei ystyried...yn hytrach na dull cyfunol ar-lein, roedd yn gyfunol drwy waith annibynnol a help gen i.’ ‘ (Myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

> ‘Roeddwn yn y cyfnod sylfaen... byddwn yn mynd i ffwrdd yn ystod yr wythnos a byddai'r plant yn cyfathrebu â mi drwy seesaw a byddent yn defnyddio'r gweithgareddau a osodwyd gen i yn y ddarpariaeth. Felly, yn hytrach na'u tywys oddi wrth y gwaith a osodwyd gan yr athro neu ychwanegu ag y gwaith hwnnw, gallent ei wneud yn annibynnol’ (Myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

7.8 Roedd y myfyrwyr yn ymwybodol iawn o anghenion eu dysgwyr a gwnaethant ddatblygu dulliau yr oedd yn bosibl eu gwneud gartref.

‘roedd codau QR ar gyfer Tiwtorialau, sy'n hygyrch iawn ar gyfer y cartref. Roedd yr adnoddau a ddefnyddiais yn sicrhau y byddent yn ddeunyddiau a fyddai o amgylch y tŷ...roeddwn i'n canolbwyntio ar sgiliau echddygol manwl (Myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

7.9 Arsylwodd y myfyrwyr ar ddulliau gweithredu gwahanol o gynnal y diwrnod ysgol fel ‘diwrnod arferol’, defnyddio llwyfan ar-lein ond wedi'i strwythuro yn yr un modd â dull wyneb yn wyneb a oedd yn fwy hyblyg ac yn edrych yn wahanol gan ymateb i anghenion y dysgwyr a'r rhieni.

‘Gwnaeth fy ysgol y penderfyniad yn eithaf cynnar i geisio cadw at ei hamserlen, ond gan symud i wersi byw. Felly roedd y gwersi wedi'u hamserlennu fel y byddent yn yr ysgol. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad dramatig mewn presenoldeb ac ymgysylltiad. Felly, gwnaethant benderfynu symud i ddefnyddio Google Classroom a threfnu gwersi wedi'u recordio ymlaen llaw, yn bennaf gan ddefnyddio PowerPoint ac yna rhyw fath o arweiniad fideo pan fyddai angen’ (myfyriwr Graddedig)

‘Mae'n ymddangos bod yr athro'n dilyn yr un ffordd o ddysgu drwy recordio'r cyflwyniad a'r gweithgareddau i'w gwneud. A'r unig beth sydd ar goll yw'r drafodaeth grŵp wyneb yn wyneb... Efallai y bydd angen ystyried ffyrdd gwahanol o ddefnyddio hyn yn effeithiol dros lwyfan ar-lein.’ (Myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

‘mae'r llwyfan ar-lein yn newydd i bawb, mae'n edrych yn wych. Mae gan y plant sgiliau cyfrifiadurol gwych a dweud y gwir ac maen nhw'n gwybod yn union beth maen nhw'n ei wneud. Ond o ran yr ysgol, rwy'n credu, gan ei fod yn rhywbeth newydd i bawb, maen nhw'n ceisio cadw at yr hen ffordd o ddysgu drwy ddefnyddio ffordd newydd o ddysgu, os yw hynny'n gwneud synnwyr’ (Myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

7.10 Roedd y myfyrwyr yn ddiolchgar am y cymorth a gawsant pan oeddent ar leoliad gan eu hysgolion.

> ‘Rwyf wedi bod yn lwcus y gallaf fynd i'r ysgol a chael cyfarfodydd rheolaidd â nhw. Nid oes unrhyw gwestiwn yn rhy fawr nac yn rhy fach iddynt.’ (myfyriwr Graddedig)

> ‘roedd fy ysgol yn cynnal dwy sesiwn reolaidd yr wythnos ...gallech chi ymuno yn y cyfarfod a dysgu agweddau gwahanol ar yr adnoddau ar-lein gwahanol, ac roedd yr holl athrawon dan hyfforddiant i fod yno hefyd’ (myfyriwr Graddedig)

**Dulliau dysgu ac addysgu yr arsylwyd arnynt gan fyfyrwyr AGA**

7.11 Cafodd y myfyrwyr y cyfle i weld dysgu cyfunol a dysgu o bell ar waith gan fyfyrio ar ei effaith ar ddulliau o ddysgu ac addysgu a hefyd ar eu hymarfer eu hunain. Gallent werthfawrogi'r her o geisio cynnal strwythur cyfarwydd. Fodd bynnag, gwnaethant hefyd arsylwi ar y modd yr oedd ysgolion yn ceisio bod yn hyblyg yn eu darpariaeth i ymdopi â gofynion rhieni yn ystod y cyfyngiadau symud.

> ‘Byddai'r athrawes yn rhoi'r mewnbwn ac yna byddai'n annog trafodaeth grŵp ac yna byddent yn mynd i ffwrdd ac yn gwneud pethau'n annibynnol neu'n gweithio mewn parau neu grwpiau i gynhyrchu darnau gwahanol o waith. Ac mewn un sesiwn, arhosais i wrando ar-lein oherwydd roedd angen person arall at ddibenion diogelu.’ (Myfyriwr Israddedig, Blwyddyn 3)

> ‘Roedd yn ymddangos bod arddull y wers yr un peth, ac yna byddai'n rhoi'r mewnbwn, ac yn gadael i'r plant wneud rhywbeth. Yna, byddent yn lanlwytho eu gwaith a byddai'n ei asesu ac yn rhoi adborth.’ (Myfyriwr Israddedig, Blwyddyn 3)

> ‘Mae'r llwyfan ar-lein yn newydd i bawb, mae'n edrych yn wych. Mae gan y plant sgiliau cyfrifiadurol gwych a dweud y gwir ac maen nhw'n gwybod yn union beth maen nhw'n ei wneud. Ond o ran yr ysgol, rwy'n credu, gan ei fod yn rhywbeth newydd i bawb, maen nhw'n ceisio cadw

at yr hen ffordd o ddysgu drwy ddefnyddio ffordd newydd o ddysgu, os yw hynny'n gwneud synnwyr' (Myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

'Mae'n newydd i bawb. Mae angen dod o hyd i strategaethau sy'n gweithio i chi, sy'n gweithio i'r dysgwyr ac mae'r cyfyngiadau yno er diogelwch, felly dydw i ddim yn meddwl y bydd mor rhwydd ag y byddai yn yr ystafell ddosbarth o gwbl, ond sicrhau cydbwysedd sy'n bwysig yn fy marn i. Mae'n anodd sicrhau'r cydbwysedd hwn. Diwallu eu hanghenion a chasglu'r wybodaeth sydd ei hangen, yn ogystal ag ymarferydd.' (Myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

**Technoleg**

7.12 Mae gan fyfyrwyr brofiad o lawer o'r apiau technoleg a nodwyd gan yr athrawon a ymatebodd i'r arolygon, i'r cyfweliadau a'r grwpiau ffocws yn yr astudiaeth hon. Gwelodd y myfyrwyr ysgolion lle roedd technoleg wedi'i gwreiddio yn yr addysgu a'r dysgu.

'Roeddent bob amser wedi defnyddio Google Classroom. Mae gwaith yn cael ei lanlwytho i Google Classroom gyda neu heb COVID-19... roedd hyn yn cael ei ymgorffori bob amser' (Myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

7.13 Nodwyd bod Flip Grid yn adnodd trafod da ar-lein. Roedd See Saw yn cael ei ddefnyddio'n helaeth mewn lleoliadau cynradd. Roedd Google Classroom a Teams yn cael eu defnyddio ym mhob sector. Cafwyd adborth cadarnhaol ynghylch yr hyn sydd ar gael ar HWB,

'Mae HWB wedi cynnwys yr holl adnoddau roedd eu hangen arna i hyd yma, yn cynnwys meddalwedd. Dydw i ddim wedi gorfod edrych y tu hwnt i hynny. ' (myfyriwr Graddedig)

7.14 Anogwyd llawer o fyfyrwyr i rannu eu gwybodaeth am dechnoleg ar eu lleoliadau ac roedd enghreifftiau o fyfyrwyr yn gweithredu fel ymgynghorwyr

ar gyfer eu hysgolion yn ystod y cyfnod rhwng mis Mawrth 2020 a mis Chwefror 2021.

> 'Roeddem o'r farn ein bod yn gallu cefnogi athrawon dosbarth i ddeall sut y gallant ddefnyddio technoleg' (myfyriwr Israddedig, blwyddyn 1)

7.15 Nododd y myfyrwyr bod mynediad i dechnoleg, a oedd yn ymddangos fel prif bryder ym mhob grŵp yn y prosiect ymchwil hwn, hefyd yn broblem iddyn nhw a'u dysgwyr.

> 'Bu'n rhaid i mi brynu gliniadur er mwyn gallu cynnal gwersi...' (myfyriwr Graddedig).

> 'Dim cyfarpar TG priodol yng nghartref y teulu. Dim ond ffôn gyda data cyfyngedig oedd gan lawer o deuluoedd neu nid oedd ganddynt ddigon o ddyfeisiau ar gyfer pob plentyn yn y teulu' (myfyriwr Graddedig)

> 'Efallai nad oedd ganddynt yr adnoddau, y dechnoleg, y feddalwedd, y cyfarpar, y cysylltedd. Mae rhai yn colli allan ar brofiadau ar y funud. (myfyriwr Graddedig)

7.16 Siaradodd un grŵp o fyfyrwyr hefyd am y defnydd cadarnhaol o'r cyfryngau cymdeithasol i rannu ymarfer.

> 'Mae cymuned Twitter wedi bod yn wych, i weld yr hyn y mae athrawon eraill yn ei wneud, yn eu hystafelloedd dosbarth' (Myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

**Ymgysylltu dysgwyr mewn dysgu cyfunol**

7.17 Rhoddwyd y cyfle i rai myfyrwyr archwilio dulliau oedd yn canolbwyntio ar y dysgwr sy'n canolbwyntio'n benodol ar ymgysylltiad dysgwyr. Gwnaethant ystyried yr heriau a gweld bod rhai manteision pwysig. Mae'r dyfyniadau isod yn adlewyrchu eu profiadau a'r modd maent yn gweithio gyda'r plant.

> 'Roedd y rhyddid yn hollol newydd iddynt... roedd yn anfantais ar y dechrau. Dydw i ddim yn gwybod beth rwy'n ei wneud am nad oes neb

yn dweud wrtha i beth i'w wneud. Erbyn y diwedd roedd yr ymgysylltiad drwy'r to' (myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

'Yna, y dasg dysgu o bell oedd creu rysáit ar gyfer caredigrwydd yn seiliedig ar yr hyn y gwnaethom ei drafod yn y sesiwn, a chawsant y rhyddid i wneud pethau yn eu ffordd eu hunain. Gallent fod wedi tynnu llun, defnyddio technoleg ddigidol...galluogedd myfyrwyr, rhoi rhyddid iddynt.' (Myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

'Dim ond tua 50% o ran ymgysylltiad â gwaith ar-lein ac asesiadau'n cael eu cyflwyno.' (myfyriwr Graddedig)

'Mae Google Classroom yn ... eithaf da am gofnodi ymgysylltiad. Felly pan fyddwch yn gosod darn o waith i'r dosbarth, gallwch weld sawl un sydd wedi'i osod ac yna sawl un sy'n cael ei gyflwyno. Ac anaml iawn y bydd y niferoedd hynny uwchlaw 50 y cant. Ac mae fy athrawon wedi dweud wrthyf sawl gwaith na ddylid disgwyl mwy na phedwar neu bump ateb.' (myfyriwr Graddedig)

'gan nad ydym yn cynnal gwersi byw...daw adborth drwy'r math o sylwadau preifat y gallwch eu gadael ar waith myfyrwyr. Felly, yn amlwg, mae llai o fyfyrwyr yn cyflwyno'r gwaith ac yna does gennych chi ddim llawer o le nac yn gallu rhoi adborth go iawn' (myfyriwr Graddedig)

'roedd llais disgyblion yn gweithio'n eithaf da o ran ymgysylltu dysgwyr. Felly gofynnais iddynt beth roeddent am ei wneud yn eu gwers Celf. Roedd llawer o'r bechgyn am wneud Santas Minecraft [ac roedd ganddynt y cyfleuster i wneud hyn gartref], yr ymgysylltiad a ddaeth gydag ef oedd yn bwysig. A chadw popeth yn ddilys hefyd.' (Myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

7.18 Gwnaethant hefyd sylwi ar strategaethau gwahanol mewn sectorau addysg gwahanol. Er enghraifft, cafodd y myfyrwyr Israddedig ym mlwyddyn 1 a gymerodd ran yn yr ymchwil hon eu rhoi mewn lleoliadau Cyfnod Sylfaen ac

arsylwi ar fwy o ffocws ar gemau ac ymgysylltiad nag ar ddysgu, gan bwysleisio cefnogi rhyngweithio cymdeithasol.

7.19 Mynegodd un myfyriwr bryder ynghylch effaith dysgu o bell ar ddysgwyr oedd â phroblemau ymddygiad.

> ‘Ni allaf fod yn hollol sicr bod hynny'n wir, ond rwy'n credu bod tuedd amlwg ymysg y myfyrwyr hynny y gall fod ganddynt broblemau ymddygiad. Mae'n ymddangos mai'r rhain yw'r myfyrwyr nad ydynt yn mynychu gwersi neu nad ydynt yn ymgysylltu neu nad ydynt yn gwneud y gwaith. Felly rwy'n credu bod patrwm amlwg, fel petai. Byddwn i'n dweud o ran ymgysylltiad – ac wrth siarad â'm mentoriaid – mae'n ymddangos mai'r myfyrwyr hynny sy'n ymgysylltu ac yn canolbwyntio yn yr ystafell ddosbarth fyddai'r rheini sydd hefyd yn ymgysylltu ar-lein.’ (myfyriwr Graddedig)

7.20 Myfyriodd un myfyriwr ar heriau sefyllfa newidiol barhaus y byddai angen mynd i'r afael â hi ar ryw bwynt.

> ‘Rwy'n credu mai rhan o'r broblem yw ein bod ni wedi bod yn chwilio am y golau ar ben draw'r twnnel ers cyhyd... Ond yn amlwg, mae'r holl amser hwn wedi cronni i greu bwlch enfawr rhwng y rheini sy'n ymgysylltu â'r gwaith a'r rheini nad ydynt yn gwneud hynny. Ac mae'n gas gen i feddwl am fynd i'r ysgol am y saith wythnos hynny, gan fy mod yn gwybod y bydd cymaint o fwlch, a byddaf wedi cyrraedd man yn fy nghynllun gwaith lle byddaf yn meddwl, am fy mod wedi gosod y gwaith, y dylai pawb fod yn gwybod beth rwy'n ei wneud ond beth fydd yn digwydd i'r myfyrwyr hynny sydd wedi gwneud yr holl waith?’ (myfyriwr Graddedig)

**Heriau dysgu o bell a dysgu cyfunol**

7.21 Sylwodd y myfyrwyr fod yr athrawon yn wynebu heriau o ran cymell ac ennyn diddordeb eu dysgwyr o bell, ynghyd â'r rhieni/gofalwyr.

> ‘Gallwch weld yr heriau sy'n codi ar-lein. Rydych yn gwybod ei bod yn anodd sicrhau bod pawb yn deall gan ei bod yn amlwg yn yr ystafell ddosbarth y gallwch ddarllen iaith y corff a gweld mynegiadau wyneb i sicrhau bod rhywun yn deall yr hyn rydych yn ei drafod ai peidio, ond dyw hynny ddim mor hawdd ar-lein.’ (Myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

> ‘Os oes rhywbeth nad yw'r myfyrwyr yn ei ddeall, yna bydd llai o gymhelliant i gysylltu â'r athro a gofyn am ei fod yn wahanol. Yn y dosbarth, mae'n haws gweld pwy sy'n cael trafferth. Gallwch gerdded o gwmpas ac edrych ar y gwaith. Ond ar-lein, mae'n teimlo fel mwy o risg’ (myfyriwr Graddedig)

> ‘roeddent yn sgwrsio, ac nid oedd popeth yn briodol i'r dasg, ond dim ots am hynny achos gallwch weld pa mor heriol oedd y rhan honno. Ceisio cynnal ffocws plant ar beth oedd y pwnc a'r hyn y mae angen i ni ei drafod. Nid oes gennych chi gi miss? Na phethau tebyg’ (myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

7.22 Roedd pryderon hefyd ynghylch effaith COVID-19 ar ddisgyblion a gorfod ystyried lles dysgwyr.

> ‘Felly rydym yn ceisio peidio â bod yn rhy llym na gwthio'n rhy bell gan nad ydym yn gwybod beth yw'r amgylchiadau yn y cartref. Rydym yn cael negeseuon e-bost bob ychydig o wythnosau sy'n nodi bod rhyw wedi colli aelod o'r teulu... Mae'n anodd.’ (myfyriwr Graddedig)

7.23 Gwelsant hefyd bryderon ynghylch plant yn methu â chyflawni'r meini prawf llwyddiant ac yn cael trafferth i ymdopi mewn amgylchedd dysgu o bell ond clywsant rai straeon cadarnhaol hefyd.

> ‘Ni fydd llawer o'r plant yn cyflawni'r meini prawf llwyddiant. Roeddent yn anfon pethau amherthnasol neu nid oeddent yn deall y cysyniadau a'r geiriau. Ac, o edrych yn ôl, rwy'n teimlo, pe byddai wedi bod yn wers fyw, er enghraifft, y gallech fod wedi'i rhannu a'i sgaffaldio ychydig yn well’ (Myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

> ‘I ba raddau y mae rhai plant ar ei hôl hi ar ôl pob cyfnod o ddysgu o bell. Mae'r bwlch rhwng y cyflawnwyr uchaf ac isaf wedi ehangu ac, yn waeth na hynny, mae rhai plant wedi mynd am yn ôl yn eu datblygiad. Mae pwyslais ar ddal i fyny hefyd, ac nid yw hyn yn iach – mae'n peri straen i'r disgyblion a'r athrawon fel ei gilydd.’ (myfyriwr AGA Graddedig)

> ‘Mae rhai dysgwyr wedi datblygu ymhellach oherwydd y gefnogaeth gartref ac mae rhai wedi bod ar eu colled.’ (myfyriwr Israddedig, blwyddyn 1)

7.24 Roedd methu arsylwi ar broses ddysgu'r dysgwyr yn heriol, gan mai dim ond y cynnyrch terfynol y gallem ei weld. Mynegodd y myfyrwyr bryder mai dim ond gweld y cynnyrch yr oeddent.

> ‘yn dibynnu ar y modd roeddech yn mynd i'r afael â'r dysgu cyfunol, byddwch ond yn gweld cynnyrch yr hyn a wnaed ganddynt yn hytrach na phroses... wrth wneud coeden Nadolig glai, er enghraifft, roeddwn am edrych arnynt fesul cam, gan arsylwi ar eu sgiliau echddygol manwl yn pinsio'r clai’ (myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

7.25 Soniodd y myfyrwyr hefyd am y gofynion diogelu a welsant.

> ‘Mewn un sesiwn, arhosais i wrando ar-lein oherwydd roedd angen person arall at ddibenion diogelu.’ (Myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

7.26 Roedd cysylltedd yn her i lawer o'r ysgolion

> ‘Mae fy ysgol hefyd yn darparu gliniaduron. Ond y mater sy'n codi amlaf yw cysylltedd. Felly ni waeth pa liniadur sydd ganddynt, os nad oes ganddynt WiFi neu os na allant gysylltu â'r Rhyngrwyd yn gyson...[Oherwydd] pan fyddant yn teimlo eu bod wedi'u hysbrydoli i wneud y gwaith, efallai y byddant yn eistedd i lawr, ond os bydd cynnydd sydyn mewn traffig ar y we, yna gallent feddwl iawn, anghofia am hynny felly.’ (myfyriwr Graddedig)

‘mae bod mewn ardal wledig hefyd yn golygu eu bod yn teimlo ychydig yn fwy ynysig’ (myfyriwr Graddedig)

7.27 Roedd hefyd yn bryder nad cysylltedd oedd yn achosi problem bob amser.

‘Caiff llawer o hyn ei feio ar broblemau cysylltedd. Yn amlwg, ni allwn wybod yn bendant ai esgus yw hynny neu a yw'n broblem ddilys. (myfyriwr Graddedig)

7.28 Arsylwodd y myfyrwyr ar yr her o sicrhau ymgysylltiad rhieni er mwyn cefnogi dysgu o bell a dysgu cyfunol.

‘Y ffaith nad oedd y rhieni yn ymgysylltu â'r tasgau oedd y rhwystr mwyaf’ (myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

‘Roedd y ffaith nad oedd y rhieni'n gallu helpu yn amharu ar y dysgu... Roedd ganddynt rolau eraill’ (myfyriwr Israddedig, blwyddyn 1)

**Beth yw'r goblygiadau ar gyfer AGA**

‘Mae'n siŵr mai ni yw'r garfan fwyaf gwydn erioed o athrawon dan hyfforddiant ... rwy'n credu y bydd y gallu i feithrin cydberthnasau proffesiynol cryf yn gyflym â'r myfyrwyr o fantais fawr yn y dyfodol’ (myfyriwr Graddedig)

7.29 Cyflwynodd y myfyrwyr awgrymiadau ar y modd y gallwn baratoi myfyrwyr i addysgu mewn amgylchedd dysgu cyfunol a rôl technoleg

7.30 Siaradodd nifer o'r myfyrwyr am bwysigrwydd cael eu hamlygu i ddulliau gweithredu gwahanol yn y Brifysgol er mwyn meithrin sgiliau eang a bod yn hyderus ac yn wydn.

‘Drwy orfod addasu, rwy'n credu ein bod yn dangos y gallwn fod yn wydn ac rwyf wedi dysgu cymaint drwy'r holl broses gyda thechnoleg a ffyrdd gwahanol o addysgu a dysgu’ (myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

‘Rydych am gael eich amlygu i opsiynau gwahanol, dulliau gwahanol, llwyfannau gwahanol y gallwch eu defnyddio... Yn amlwg, mae'n rhaid i

chi gyd-fynd â'r hyn y mae'r ysgol yn ei ddefnyddio, ond mae'n bwysig magu'r hyder i allu addasu i ddulliau gwahanol a gweld ffyrdd gwahanol o wneud pethau.' (myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

'Sicrhau ein bod ni'n agored i newid.' (myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

'O ran hyfforddiant athrawon, cael eich cyflwyno â'r holl opsiynau gwahanol sydd ar gael a chael eich ysbrydoli o ran y llwybr y gallwch ei ddilyn.' (myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

'Mae angen bod yn agored i bob opsiwn o ran dysgu cyfunol a dysgu o bell.' myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3

7.31 Defnyddio dysgu cyfunol i gefnogi dysgu gartref. Wrth gynllunio dysgu, ystyriwch yr hyn y gellid ei wneud yn yr ysgol a'r hyn y gellid ei wneud yn y cartref.

'Ar gyfer unrhyw weithgaredd a wnawn, efallai y dylid awgrymu sut y gellid ei wneud gartref hefyd...gan gyflwyno ffordd baralel o hyrwyddo'r dull dysgu o bell. A fyddai'n fwy addas mewn ysgolion neu yn y cartref' (myfyriwr Israddedig, blwyddyn 3)

'Sicrhau bod y rhieni'n gwybod sut y gallant wneud pethau gartref a dod o hyd i'r adnoddau y gallant eu defnyddio' (myfyriwr Israddedig, blwyddyn 1)

7.32 Deall modelau o ddysgu cyfunol. Gall dysgu cyfunol gynnig cyfleoedd mewn cyfnodau o argyfwng ynghyd â chefnogi dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth a chefnogi dysgwyr y gall fod ganddynt heriau sy'n gysylltiedig â mynychu'r ysgol.

7.33 Sgiliau technoleg sydd wedi'u hategu gan addysgeg. Roedd rhai myfyrwyr o'r farn eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer amgylchedd estynedig drwy dechnoleg a'i fod yn rhan hanfodol o'r cwricwlwm AGA.

'Mae angen i ni gael hyfforddiant effeithiol ar sut i gynllunio, cyflwyno ac asesu dysgu ar-lein gan mai dim ond sesiwn esboniadol ar Google a gawsom. Roedd hyn yn ddefnyddiol o safbwynt TGCh ond nid oedd

yn cynnwys y ffocws addysgegol oedd ei angen' (myfyriwr AGA Graddedig)

'Nid yw pob ysgol yn ymwybodol o'r dyfeisiau sydd eu hangen a beth i'w ddefnyddio gyda nhw. Dylid canolbwyntio ar hyn ar gyfer myfyrwyr AGA' (myfyriwr Israddedig, blwyddyn 1)

7.34 Cyfleoedd yn ystod lleoliadau i allu gweithio gydag athrawon er mwyn arbrofi â dulliau sy'n seiliedig ar dechnoleg.

'Cyfle i rannu syniadau ag athrawon dosbarth a dysgu gyda'n gilydd er mwyn dod â syniadau'n fyw' (myfyriwr Israddedig, blwyddyn 1)

**Crynodeb**

7.35 O'n harsylwadau a'n sgyrsiau ag athrawon, staff AGA a myfyrwyr, ceir goblygiadau amlwg o ran sut i ddatblygu athrawon y dyfodol. Roedd y data yn dangos y modd yr aeth y darparwyr AGA yn yr astudiaeth hon ati i addasu eu dulliau gweithredu er mwyn sicrhau bod y myfyrwyr yn cael profiad addysgu yn ystod y pandemig a gwnaethant hefyd nodi meysydd meithrin gwybodaeth a sgiliau ar gyfer cyrsiau AGA.

7.36 Y negeseuon allweddol yw:

- Mae goblygiadau ar gyfer y wybodaeth bynciol a'r sgiliau rydym yn eu meithrin gyda'n hathrawon newydd
- Bu SAUau yn gweithio gydag ysgolion i gynnig profiad o leoliadau addysgu mewn amgylchedd cyfunol a dangosodd pawb dan sylw hyblygrwydd, gwydnwch ac addasrwydd
- Cynigiodd y myfyrwyr AGA fyfyrdodau gwerthfawr ar eu profiad o ddysgu cyfunol mewn ysgolion
- Cafodd y myfyrwyr AGA y cyfle i ddefnyddio eu sgiliau digidol i gefnogi ysgolion
- Dysgodd SAUau, myfyrwyr AGA ac ysgolion wersi gwerthfawr ar ennyn diddordeb dysgwyr drwy ddysgu cyfunol

- Ceir arsylwadau gwerthfawr ynghylch heriau dysgu o bell a dysgu cyfunol ar gyfer y proffesiwn
- Mae goblygiadau ar gyfer dysgu ac addysgu ar-lein a diogelwch a'r angen i gynnal trafodaethau cysylltiedig ag asiantaethau eraill sy'n rhan o fywyd y plentyn
- Cyflwynodd y myfyrwyr AGA awgrymiadau ar y modd y gallwn baratoi ar gyfer addysgu mewn amgylchedd cyfunol a chaiff y rhain eu hadlewyrchu yn yr argymhellion

# 8. Canfyddiadau: Llais Consortia

8.1 Ymatebodd swyddogion o'r tri chonsortiwm i gais am wybodaeth drwy gyfweliad neu ymateb ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth a rannwyd gan y consortia â'r ysgolion hefyd wedi'i chynnwys fel elfen o'r cyngor a'r cymorth a roddwyd.

8.2 Caiff y canfyddiadau eu cyflwyno mewn perthynas â'r themâu canlynol

- Cefnogaeth barhaus
- Canllawiau
- Y cynnig dysgu proffesiynol
- Effaith COVID-19
- Safbwyntiau ar brofiad ysgolion
- Heriau
- Cyfleoedd
- Edrych i'r dyfodol

**Cefnogaeth barhaus**

8.3 Pwysleisiodd pob cynrychiolydd o gonsortia bwysigrwydd darpariaeth barhaus wrth gefnogi ysgolion i ddatblygu dysgu cyfunol:

‘Roedd dysgu cyfunol wedi bod yn rhan o arlwy dysgu proffesiynol y rhanbarth cyn COVID-19, oherwydd y cyfeirir ato yn egwyddorion addysgegol Dyfodol Llwyddiannus ac roedd rhai ysgolion eisoes yn dechrau defnyddio llwyfannau dysgu rhithwir fel Google Classroom, Microsoft Teams/OneNote a'r J2 Suite ar Hwb er mwyn helpu i gadw trefn ar ddysgu yn y dosbarth a gwaith cartref.’ (Con 2)

> ‘Roedd ein harlwy dysgu proffesiynol presennol ar waith cyn COVID-19 a daeth yn amlwg iawn pan ddaeth y pandemig, bod angen hyn er mwyn sicrhau bod athrawon yn dysgu’ (Con 1)

8.4 Roedd y consortia yn ystyried mai eu rôl yn ystod y pandemig oedd parhau â'u cylch gwaith arferol ond mewn amgylchiadau newydd.

**Canllawiau**

8.5 Chwaraeodd y consortia rôl yn datblygu'r canllawiau ar ddysgu cyfunol gyda Llywodraeth Cymru a rhannu'r canllawiau hynny â'r ysgolion.

> ‘Felly pan ddaeth y cyfyngiadau symud cyntaf i rym ym mis Mawrth 2020, buom yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau dealltwriaeth newydd o'r hyn y bydd dysgu cyfunol a dysgu o bell yn ei gynnwys a'r hyn y bydd yn ei olygu i ysgolion.’ (Con 3)

8.6 Cafodd y canllawiau eu llywio gan brofiad ac arferion da rhyngwladol:

> ‘Rwy'n credu mai ein rôl gyntaf oedd dysgu o ymchwil ryngwladol a'r hyn oedd yn digwydd gyda'r pandemig yn rhyngwladol am ein bod yn gwybod bod rhai systemau addysg yn delio â hyn o'n blaenau ni o bosibl. (Con 1)

8.7 Rhoddodd y consortia sianel ar waith ar gyfer rhannu arferion da rhyngwladol ag ysgolion.

**Y cynnig dysgu proffesiynol**

8.8 Llywiodd canllawiau Llywodraeth Cymru a phrofiad rhyngwladol yr hyfforddiant yr oedd y consortia yn gallu ei gynnig i ysgolion, ynghyd â phrofiad ysgolion yng Nghymru a oedd wedi gwneud cynnydd o ran dysgu digidol cyn y pandemig:

> ‘Rhannodd y rhanbarthau lu o wybodaeth mewn amrywiaeth o gyfryngau yn gydamserol ac yn anghydamserol i ysgolion fanteisio arnynt, yn ogystal â chanllawiau ar y defnydd diogel o lwyfannau dysgu rhithwir. Lluniais Google Site er mwyn ceisio cyfosod yr holl wybodaeth mewn un lle ac mae'n cynnwys nifer o gyfweliadau ag ysgolion a fu'n rhannu eu harferion o'r dyddiau cynnar hynny yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf er mwyn cynnig cefnogaeth i ysgolion eraill.’ (Con 2)

> ‘Gwnaethom greu canolfan gymorth bwrpasol i rannu'r holl adnoddau dysgu digidol. (Con 3)

8.9 Ynghyd â diwallu'r angen cynyddol am ddysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar ddysgu cyfunol, aeth y consortia hefyd i'r afael ag addysgeg:

> ‘Felly yna bu'n rhaid i ni ailgynllunio'r arlwy yn unol â'r hyn roedd ysgolion am ei gael. Roeddem yn amlwg yn canolbwyntio ar ddysgu digidol, ond yna roedd hynny'n cael ei ategu gan addysg a dysgu effeithiol a da a'r ffordd y gallai hynny weithio yn y gofod digidol o ran y ffaith nad oeddem wyneb yn wyneb â'r myfyrwyr a'r athrawon.’ (Con 1)

8.10 Cynigiwyd y ddarpariaeth ar raddfa fawr:

> ‘Yn ddiweddar, rwyf wedi bod yn cynnal prosiect â 41 o ysgolion mewn Cynllunio Dysgu Anghydamserol o Bell. Mae'r ysgolion wedi cael rhestrau chwarae a gweithdai Ymddygiadol, Gwybyddol a Lluniadaethol er mwyn archwilio addysgeg mewn perthynas â dysgu anghydamserol o bell. (Con 2)

8.11 Cynigiwyd cymorth hefyd gyda'r patrymu sefydledig o weithio clwstwr gyda chymorth arbenigol:

> Felly roeddwn yn gweithio gyda dau glwstwr ar y pryd. Roeddwn yn gweithio gyda'r penaethiaid i adolygu'r canllawiau hynny, ac yna'n trefnu'r gweminarau neu'r cyfarfodydd. Gallwn roi cyflwyniad i'r staff neu os nad oeddwn i'n gallu ymdopi ag agwedd dechnegol y trafodaethau hynny, byddwn yn eu cyfeirio at fy nhimau fframwaith digidol, fy nghydweithwyr, a fyddai'n cymryd drosodd ac yn ateb cwestiynau arbenigol’. (Con 3)

> ‘Felly rydym wedi cynnal ein holl rwydweithiau fel eu bod yn teimlo eu bod yn cadw mewn cysylltiad ag ymarferwyr eraill yn y rhanbarth er mwyn gallu rhannu'r hyn roeddem yn ei ddysgu, a gwnaethom gadw hynny fel nodwedd barhaus. Gwnaethom sefydlu rhwydwaith newydd lle roeddem yn teimlo bod bylchau posibl. (Con 1)

8.12 Defnyddiwyd rhwydweithiau a oedd yn bodoli eisoes ond datblygwyd sianeli a rhwydweithiau newydd yn ôl yr angen.

**Effaith COVID-19**

8.13 Nododd staff y consortia effeithiau uniongyrchol gwahanol, gyda rhai yn canolbwyntio ar fanteision posibl:

> ‘Bu'n rhaid i ni newid y ffordd rydym yn cyflwyno DP ac mae hyn wedi arwain at welliant yn fy marn i. Nawr bod popeth ar gael drwy Teams, gallwn gyrraedd llawer mwy o ysgolion o gymharu â phan oeddem yn cyflwyno wyneb yn wyneb. Rydym wedi parhau i'w cefnogi yn eu dysgu proffesiynol drwy gynnig amrywiaeth o gyfleoedd DP yn y meysydd canlynol: Iechyd a Lles, Dysgu Digidol, Ymholiadau Ymchwil, Cwricwlwm i Gymru, Arweinyddiaeth a'r Iaith Gymraeg. (Con 2)

8.14 Mae colli ymweliadau ag ysgolion wedi bod yn heriol i eraill, yn enwedig ysgolion sy'n cael eu monitro gan Estyn.

> ‘Cafwyd bylchau mewn unrhyw fath o waith archwilio llyfrau ac arsylwi ar wersi, yn amlwg, sy'n rhan greiddiol o'r hyn rydych yn ei ddeall am ysgolion. Felly dim archwilio llyfrau, teithiau dysgu. Unrhyw drafodaethau manwl ag athrawon ac uwch-dimau arwain. Maent yn cael eu cynnal ar Teams, ond roedd yn anodd gwneud y pethau hyn a chael barn gyffredinol o'r dystiolaeth o gymharu ag edrych ar lyfrau. (Con 3)

8.15 Er y bydd rhai agweddau ar waith y consortia yn cael eu gwella yn sgil y gwersi a ddysgwyd yn y pandemig, mae agweddau creiddiol eraill fel y ddealltwriaeth a geir drwy ymweliadau ag ysgolion, wedi cael eu colli am y tro.

**Safbwyntiau ar brofiad ysgolion**

8.16 Roedd gan bob consortia farn unigryw ar brofiad ysgolion y maent yn eu hadnabod yn dda ac yn gallu myfyrio ar yr amrywiaeth o ymatebion gan yr ysgolion.

‘Roedd rhai ysgolion a oedd yn fwy effeithiol wrth ddysgu fel sefydliad ... eisoes wedi dangos y gallu i fod yn hyblyg ac i newid. Er enghraifft, gwneud cynnydd da tuag at reoli'r broses o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Neu efallai bod ganddynt strategaethau digidol blaengar fel bod technoleg wedi'i hintegreiddio yn yr addysgu a'r dysgu. Rwy'n credu mai'r ysgolion hynny oedd y catalyddion. Ond efallai bod ysgolion nad oedd ganddynt strategaethau digidol mor effeithiol, er enghraifft, nad oedd y seilwaith yn bodoli yn yr ysgol am ba bynnag reswm, yn ei chael hi'n anoddach. (Con 1)

‘Roedd yn ddarlun cymysg iawn. Cymerodd y rhai a wnaeth addasu'n gynnar gamau breision a chynnig darpariaeth ardderchog i'w dysgwyr, ond roedd sbectrwm eang o allu digidol a dealltwriaeth addysgegol yn bendant. Gwnaed cynnydd enfawr rhwng y cyfyngiadau symud cyntaf a'r ail gyfyngiadau symud gan fod llawer mwy o addysgu cydamserol yn yr ail. Roedd hyn yn golygu bod dysgu o bell yn agosach at ddarpariaeth wyneb yn wyneb ond roedd anfanteision hefyd o ran ymgysylltiad a lles disgyblion. (Con 2)

‘Mae wedi bod yn heriol iawn yn fy marn i ac mae'n ymddangos eu bod wedi cael llu o brotocolau a chanllawiau a chyngor – gormod o gyngor efallai. Ond rwy'n credu bod rhai ohonynt wedi gwneud yn dda iawn hyd yn oed i barhau i weithredu fel sefydliadau. Ac mae'n ymddangos eu bod wedi gallu trefnu dysgu cyfunol a dysgu o bell cymharol effeithiol, ynghyd â dychwelyd i'r ysgol wedyn’. (Con 3)

8.17 Ceir cydnabyddiaeth, er bod gwahaniaethau, y cafwyd enghreifftiau hefyd o arferion ardderchog drwyddi draw. Roedd gan ysgolion a oedd eisoes wedi dechrau ymgorffori dysgu digidol fantais ynghyd â'r rheini oedd â hanes o reoli newid yn effeithiol.

**Heriau**

8.18 Yn hytrach na chyffredinoli, nododd un consortiwm fod yr heriau yn amrywio mewn sectorau gwahanol a bod hyn yn effeithio ar y cymorth oedd ei angen:

> ‘Roedd un sesiwn DP yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion arbennig o ran rhai o'r heriau ar gyfer plant na allant gyfathrebu. Roedd sesiwn arall ar sut i gyfathrebu â rhieni, a'r ffaith bod cyfrifoldeb rhieni a chydberthnasau â rhieni mor bwysig. Yna, bu'r ysgolion uwchradd yn ystyried yr heriau ynghylch amserlennu ac addasu gwersi, yn enwedig ar ôl dychwelyd i'r safle. Cafwyd amrywiaeth o heriau gwahanol ar gyfer lleoliadau gwahanol, ond, yn yr un modd, gwelwyd enghreifftiau o ddysgu cryf’. (Con 1)

> ‘Tynnodd hyn sylw at lefelau isel iawn o ddealltwriaeth ddigidol ac addysgegol yn rhai o'n hysgolion gan ddangos pwy oedd yn deall yr hyn yr oedd ei angen. Mae'r ffocws ar ddysgu o bell wedi golygu nad yw ysgolion yn barod ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru am nad ydynt wedi cael yr amser na'r cyfle i feddwl y tu hwnt i'r materion uniongyrchol. Bydd effaith hirdymor ar ddysgwyr sy'n agored i niwed. (Con 1)

8.19 Roedd rhai o'r heriau yn rhai gweithredol:

> ‘Ond roedd hynny'n heriol gan fod adeg yn ystod haf 2020 pan oeddwn o'r farn bod yr amserlen ar gyfer y tymor ymhell o flaen cyfradd y wybodaeth a oedd yn cael ei darparu i ysgolion. Efallai eu bod ond yn cael pethau mewn pryd i wneud synnwyr ohonynt, er mwyn llwyddo i ailddechrau gweithredu'n rhwydd. ‘ (Con 3)

8.20 Er ei bod yn anodd cyffredinoli, a bod gan bob sector ac ysgol ei heriau ei hun, roedd yr ysgolion a oedd eisoes yn cyflawni eu heriau yn fwy llwyddiannus wrth addasu i ddysgu o bell. Ychwanegodd y profiad at ddealltwriaeth y consortia o'r cynnydd yr oedd ysgolion yn ei wneud yn fwy cyffredinol.

**Cyfleoedd**

8.21 Roedd pob consortia yn ystyried bod y profiad o ddysgu o bell yn cynnig cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Mae'r cynnydd mewn dysgu a rhannu arferion gorau yn cynnig cyfle:

> ‘Rwy'n credu ei fod yn sicr wedi cyflymu'r gwaith roeddem yn ei wneud o ran ceisio caffael arferion gorau mewn addysgu a dysgu mewn gofod digidol. Mae'n sicr wedi cyflymu'r dysgu o ran defnyddio adnoddau digidol i gefnogi dysgu athrawon, er enghraifft. Rwy'n meddwl am rai o'r adnoddau asesu y mae ysgolion yn eu defnyddio nawr i roi adborth mwy effeithiol ac i leihau'r baich marcio ac ati.’ (Con 1)

8.22 Nodwyd y gwelliant o ran sgiliau llythrennedd digidol a chynnydd mewn creadigrwydd:

> ‘Ffordd newydd o gyflwyno DP, dealltwriaeth well o'r hyn sy'n cael ei addysgu mewn ysgolion yn y rhanbarth a dulliau gweithredu o ran addysgeg. Drwy ddileu mesurau atebolrwydd, mae creadigrwydd wedi gallu ffynnu. Gwella sgiliau llythrennedd digidol yn sylweddol i bawb. (Con 2)

8.23 Arweiniodd yr angen i ddatblygu dulliau gweithredu newydd yn gyflym at gyfleoedd am sgyrsiau am addysgeg a'r Cwricwlwm i Gymru.

> ‘Ond rwy'n meddwl bod llawer o sôn am yr effeithiau ar gyfleoedd i ysgolion, y consortia efallai i hyrwyddo egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru’. (Con 3)

8.24 Nodwyd bod mynediad haws i ddysgu proffesiynol a chydweithio yn gyfle pwysig i wella'r effeithlonrwydd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig:

> ‘Mae'n bendant yn gyfle i weithio'n fwy effeithlon, ac rwy'n credu y gallai arwain at arbed costau heb unrhyw effeithiau llygredd ar yr amgylchedd drwy yrru o gwmpas, a gwneud defnydd mwy effeithlon o'n hamser. Felly mae'n fwy effeithlon gallu gweithio o bell a pheidio â gorfod gyrru i'r ysgol.’ (Con 3)

**Edrych i'r dyfodol**

8.25 Ymysg yr adnoddau a rannwyd â'r tîm ymchwil roedd taflen yr oedd un consortiwm yn annog ysgolion i'w defnyddio er mwyn hyrwyddo neges gytbwys i rieni sydd, gan gydnabod yr anawsterau a'r golled a brofwyd gan lawer o deuluoedd, hefyd yn cydnabod bod yr ysgol wedi ceisio cefnogi ei dysgwyr ac ati:

> ‘Fodd bynnag, mae rhai plant / myfyrwyr wedi rhagori, gan ddangos y gallant weithio'n annibynnol, ac addasu i ddefnyddio technoleg yn ogystal â mwy o lawer o sgiliau nag y byddent wedi cael cyfle i'w hymarfer yn y cyfnod cyn y pandemig o bosibl. [Taro'r Cydbwysedd Cywir, GCA 5]

8.26 Mae'r daflen hefyd yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio iaith y ofalus, gan gydnabod ei bod yn fframio profiad. Gall ysgolion ddefnyddio'r daflen i arwain dewisiadau ieithyddol tuag at y canlynol:

- Grymuso
- Ailgysylltu
- Adnewyddu
- Cefnogi ein gilydd
- Gweithio gyda'n gilydd
- Achub ar gyfleoedd
- Cynnig atebion a datrys problemau
- Ymgysylltu â'n cymuned
- Symud gyda'n gilydd
- Cyfle ac arloesedd
- ‘Tomorrow will be a good day’ (Capten Syr Tom Moore)

[Taro'r Cydbwysedd Cywir, GCA 5]

8.27 Mae'r daflen hefyd yn rhybuddio yn erbyn defnyddio iaith sydd wedi dod yn boblogaidd mewn rhai cyfryngau, gan bwysleisio pwysigrwydd rhannu neges gadarnhaol ymysg plant a phobl ifanc:

- Colli allan ar ddysgu
- Mae angen i bawb ddal i fyny
- Cau'r bwlch COVID-19
- Dechrau dysgu
- Mynd ar ei hôl hi
- Bylchau o ran dysgu

8.28 Yn gyffredinol, mae'r consortia wedi parhau i weithio gydag ysgolion mewn ymateb i anghenion ac amgylchiadau'r ysgol. Cafwyd pwyslais ar rannu arferion da, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ar gydweithio, ac amrywiaeth o hyfforddiant i ddiwallu anghenion gwahanol. Mae'r consortia yn cydnabod pwysigrwydd dathlu cyflawniadau dysgwyr yn ystod y pandemig a chefnogi ysgolion i'w helpu yn y dyfodol.

**Crynodeb**

8.29 O'n harsylwadau a'n sgyrsiau â staff consortia, nodwyd y canlynol yn y data.

- Roedd y consortia yn ystyried mai eu rôl oedd cynnig cefnogaeth barhaus i ysgolion. Defnyddiodd y consortia eu gwybodaeth am ysgolion i addasu canllawiau i gynnig cymorth priodol. Nodwyd bod yr heriau'n amrywio o ysgol i ysgol.
- Roedd y consortia'n gallu cynnig hyfforddiant ar raddfa fawr i ysgolion ond gan addasu'r ffyrdd y darparwyd yr hyfforddiant. Gan gydweithio â Llywodraeth Cymru, cyfrannodd y consortia at ganllawiau dysgu ar-lein gan gyfeirio at enghreifftiau rhyngwladol.
- Mae'r angen i symud i ddysgu digidol wedi cyflymu cyfradd y newid mewn ysgolion gan arwain at welliant mewn sgiliau llythrennedd digidol. Yn ogystal, arweiniodd y newid i ddysgu ar-lein at ragor o sgyrsiau am addysgeg.
- Pwysleisiodd y consortia lwyddiant y newid i ysgolion ddechrau dysgu digidol gan annog ysgolion i ddathlu hyn a chyfleu neges gadarnhaol i ddisgyblion a'u teuluoedd.

## 9. Prif Ganfyddiadau

9.1 Ceisiodd yr astudiaeth hon ymchwilio i rai o'r materion sy'n gysylltiedig ag effaith pandemig COVID-19 ar brofiadau ysgolion a rhanddeiliaid. Gwnaethom geisio caffael profiadau ysgolion partner, dysgwyr, rhieni/gofalwyr, consortia rhanbarthol a myfyrwyr AGA.Roedd y sampl ar gyfer y gwaith ymchwil hwn wedi'i rhagnodi yn nhelerau'r alwad gan Lywodraeth Cymru ac mae'n archwilio ymatebion, yn casglu gwybodaeth am brofiadau o ymarfer, yn gwneud argymhellion ar gyfer y sector ac yn ystyried yr hyn y gallwn ei ddysgu ar gyfer datblygiad a dysgu proffesiynol o fewn AGA.

9.2 Mae'r prif ganfyddiadau wedi'u crynhoi isod yn ôl thema.

**Addasu**

9.3 Bu'n rhaid i ysgolion addasu'n gyflym i'r cyfyngiadau symud cychwynnol ac roedd angen iddynt sefydlu ffordd newydd o weithio mewn cyfnod cymharol fyr. Fodd bynnag, siaradodd ysgolion a oedd yn arfer defnyddio llwyfannau/rhaglenni digidol am broses bontio fwy esmwyth i ddysgu ar-lein.

9.4 Ymatebodd ysgolion yn gyflym iawn i ofynion dysgu o bell er gwaethaf y sioc gychwynnol. Eu blaenoriaeth oedd dod o hyd i ddulliau a oedd yn gweithio i'r disgyblion, ac roedd cydweithio yn yr ysgol a rhwng ysgolion yn bwysig er mwyn datblygu ymarfer. Roedd yr ysgolion yn addasu ymarfer yn barhaus drwy gamau gwahanol y cyfyngiadau symud ac mewn ymateb i adborth gan ddisgyblion a'u teuluoedd er mwyn cynyddu ymgysylltiad disgyblion â'u dysgu i'r eithaf.

**Darpariaeth i ddysgwyr**

9.5 Ar y cyfan, roedd cyfuniad cyfartal o sesiynau byw ar-lein, dysgu anghydamserol ar-lein a chopïau caled drwy'r post ar draws y sampl yn unol ag anghenion dysgwyr a phrofiad athrawon. Mae adrannau pynciau mewn ysgolion uwchradd a thimau cynradd wedi cael rhywfaint o ymreolaeth wrth gynllunio dysgu wedi'i anelu at ddeilliannau arbenigol.Er y cafwyd creadigrwydd amlwg, nid oes dim cystal â rhoi mynediad i'r disgyblion i'r adnoddau a'r cyfarpar arbenigol sydd ar gael iddynt yn yr ysgol uwchradd ar gyfer pynciau ymarferol na'r rhyngweithio â chyfoedion a gwella annibyniaeth y Cyfnod Sylfaen. Mae'n bosibl y bydd angen i ddysgwyr gael rhagor o gyfleoedd i ymgysylltu ag agweddau penodol ar eu profiad dysgu.

**Dysgu Proffesiynol**

9.6 Mae'r darlun cyffredinol o ddysgu proffesiynol sydd ar gael i athrawon yn dangos amrywiaeth o ormod o gyfleoedd dysgu proffesiynol i fawr ddim cyfleoedd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod canoli hyfforddiant proffesiynol e.e. drwy gonsortia neu AALlau, neu ddysgu proffesiynol masnachol yn ddefnyddiol i ysgolion ond mai'r elfen a gaiff ei gwerthfawrogi gan ysgolion yw cyfleoedd dysgu proffesiynol neu gefnogaeth sy'n ymateb i'w hanghenion penodol. Dywed ysgolion fod hyn yn arbennig o effeithiol pan oedd yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno gan eu staff eu hunain.

9.7 Fel y nodir uchod, soniodd ambell ysgol am y defnydd o 'hyrwyddwyr technolegol' mewn ysgolion i arwain y broses o roi arweiniad i staff, rhieni a disgyblion. Ystyriwyd bod y defnydd o unigolion allweddol hefyd yn bwysig mewn rhai partneriaethau AGA.

9.8 Gwelwyd rhywfaint o dystiolaeth o lefelau uchel o gymorth gan Awdurdodau Addysg Lleol (AALl) yn ogystal â chonsortia ond nid oedd hyn yn gyson ledled Cymru.

**Caledwedd a Chysylltedd**

9.9 Yn aml, cyfeiriodd sawl ysgol at yr angen i brynu caledwedd priodol i'r staff, yn ogystal â'r angen i ddosbarthu caledwedd briodol i'r disgyblion pan oedd angen.Yn benodol, nododd ysgolion yr angen i ddosbarthu dyfeisiau i ddisgyblion sy'n agored i niwed ac anfonodd sawl un arolygon i ddisgyblion i ganfod lefel y galedwedd sydd ar gael iddynt a hefyd i ganfod a oeddent yn cael problemau cysylltedd.

9.10 Roedd cysylltedd yn broblem reolaidd a chyson i bob rhanddeiliad yn cynnwys ysgolion, staff, disgyblion a rhieni.Roedd ysgolion yn gallu cael caledwedd ychwanegol, anfon dyfeisiau mi-fi i helpu o ran cysylltedd, ond nid oedd y rhain yn effeithiol bob amser.

9.11 O safbwynt disgyblion, roedd heriau bob amser yn gysylltiedig â thechnoleg a chael mynediad i ddyfeisiau a chymorth rhieni, yn enwedig os oedd rhieni yn gweithio o gartref.Ymhellach, nodwyd bod gweithio ar eu pennau eu hunain a gallu canolbwyntio hefyd yn her.Mewn rhai achosion, roedd y mynediad i Amgylcheddau Dysgu Rhithwir yn anghyson.Fodd bynnag, er gwaethaf yr heriau, roedd y

disgyblion o'r farn bod gallu dewis y gweithgareddau roeddent am ymgysylltu ynddynt a gallu gweithio ar eu cyflymder eu hunain hefyd yn agwedd gadarnhaol ar ddysgu cyfunol.

**Llwyth gwaith**

9.12 Roedd yr effaith ar lwyth gwaith athrawon yn sylweddol ym mhob sector. Byddai lefel a natur y cynnydd yn amrywio yn ôl y cyfnod o gyfyngiadau symud a rôl yr unigolyn yn yr ysgol. Mae'n debygol y bydd y llwyth gwaith yn parhau i fod yn drymach nag arfer tra bydd protocolau COVID-19 ar waith mewn ysgolion. Y rhwystredigaeth i athrawon oedd ailgynllunio gwaith fel mesur dros dro. Roedd yr athrawon yn sicrhau eu bod ar gael yn gyson i gefnogi eu disgyblion e.e. dros e-bost ac roedd hyn yn ychwanegu ymhellach at y llwyth gwaith. Cododd y sefyllfa yn rhannol am fod disgyblion oedd â chysylltedd gwael neu fynediad cyfyngedig i galedwedd yn aml yn cwblhau gwaith ysgol y tu allan i oriau ysgol ac yn cysylltu â'u hathrawon i gael help.Mae cysylltiad rhwng anfantais ddigidol a llwyth gwaith athrawon. Yn aml, roedd y staff yn teimlo eu bod dan bwysau i ymateb a chynnig cymorth i rieni a disgyblion y tu hwnt i'w horiau gwaith a hyd yn oed yn ystod y gwyliau. Efallai bod athrawon dan hyfforddiant ac Athrawon sydd Newydd Gymhwyso (ANGau) yn teimlo pwysau i ymateb i ymholiadau gan rieni/disgyblion.

**Lles Staff**

9.13 Roedd ansicrwydd o'r anhysbys yn peri pryder cyson ymysg y staff a gallai fod yn fuddiol iddynt gael trywydd, llinell amser, gweithdrefnau y gellid eu nodi ar gyfer pandemigau yn y dyfodol.

9.14 Mae'r athrawon yn ymwybodol iawn o'r angen i gynnal cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith ond roedd gofynion y sefyllfa yn peryglu hyn.Un agwedd bwysig ar les athrawon yw cefnogaeth eu cydweithwyr: yn benodol, modelau o gymorth a roddwyd gan uwch-arweinwyr ond hefyd adrannau, timau neu'r ysgol gyfan.Roedd colli'r cyswllt dyddiol yn her i bob athro a mabwysiadodd ysgolion gyfuniad o strategaethau ysgol gyfan a hunanddisgyblaeth yn eu hymatebion.

### Ymgysylltu â Disgyblion

9.15 Roedd darlun cymysg mewn perthynas â lefelau ymgysylltu'r disgyblion rhwng yr ysgolion a thros amser, gyda llawer o ffactorau'n dylanwadu ar y graddau yr oedd disgyblion unigol yn ymgysylltu. Mae'n anodd dod i gasgliadau cyffredinol ond daw rhai pwyntiau i'r amlwg. Mae'n ymddangos bod disgyblion wedi llwyddo i ymgysylltu â dysgu o bell yn effeithiol os oeddent eisoes wedi cael eu cyflwyno i'r llwyfannau a'r gweithgareddau cyn y cyfyngiadau symud, ac os oedden nhw eu hunain yn deall ei bwysigrwydd. Mewn ysgolion cynradd, roedd lefelau ymgysylltu'n dibynnu i raddau helaeth ar allu rhieni i gefnogi eu plant, e.e. amser, cyfarpar, cysylltedd. Mewn cyfnodau diweddarach o gyfyngiadau symud, byddai'r profiad yn amrywio wrth i rai dysgwyr ddod yn fwy cyfforddus â dysgu o bell, tra oedd eraill yn blino arno. I rai dysgwyr, roedd athrawon yn teimlo bod yr annibyniaeth a gynigir gan ddysgu o bell wedi cyflymu eu cynnydd.

9.16 Canfuwyd mai dylanwad y rhieni ar ymgysylltiad ac ysgogiad rhieni oedd yn allweddol (gweler hefyd brosiect COVID-19 Llywodraeth Cymru ‘Archwilio Effaith Pandemig COVID-19 ar Ddysgwyr yng Nghymru, yn Enwedig y Rhai yr Ystyrir eu Bod Dan Anfantais’).

### Disgyblion yn dod yn Ddysgwyr Annibynnol

9.17 Un canlyniad cadarnhaol a nodwyd gan ambell ysgol oedd y gallent weld dysgwyr mwy annibynnol yn datblygu ar sail eu profiadau yn ystod y cyfyngiadau symud.Roedd hyn yn rhywbeth yr hoffent ei ddatblygu ymhellach.

### Disgyblion Agored i Niwed

9.18 Defnyddiodd ysgolion eu gwybodaeth am eu disgyblion a monitro lefelau ymgysylltu yn ofalus er mwyn cefnogi dysgwyr agored i niwed hysbys.Hefyd, gwnaeth y rhan fwyaf ohonynt ailwerthuso eu meini prawf ar gyfer adnabod y rhai a gafodd eu gwneud yn agored i niwed o ganlyniad i'r pandemig a datblygu cymorth fel y bo'n briodol. Roedd rhai dysgwyr yn ffynnu ar ddiogelwch gweithio gartref a chael cymorth ac adborth manwl gan eu hathrawon. Roedd ysgolion yn cael trafferth cadw mewn cysylltiad â disgyblion agored i niwed a chodwyd materion diogelu â'r gwasanaethau cymdeithasol weithiau.

**Cyswllt â Theuluoedd**

9.19 Drwy symud i ddysgu o bell, gwelwyd pwysigrwydd y gydberthynas rhwng ysgolion a theuluoedd a'r angen am ddisgwyliadau realistig gan y ddwy ochr er mwyn ategu dysgu disgyblion.

**Cymorth gan Rieni**

9.20 Nodwyd graddau amrywiol o gefnogaeth rhieni gan bob ymatebydd. Roedd graddau'r gefnogaeth gan rieni fel arfer yn dibynnu ar (i) argaeledd rhieni (gweithiwr allweddol sy'n gweithio o gartref); (ii) nifer y plant sydd angen cefnogaeth ar yr aelwyd; (iii) hyder/gwybodaeth rhieni mewn perthynas â rhoi cefnogaeth briodol ac roedd hyn hefyd yn gysylltiedig â (iv) dulliau gweithredu addysgegol a thechnegau a oedd yn wahanol i'w profiadau eu hunain ac roeddent yn teimlo nad oeddent yn gymwys i roi cefnogaeth i'w plant; (v) ymgysylltiad a chymhelliant rhieni a disgyblion; (vi) mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, nododd y rheini sydd o gartrefi cyfrwng Saesneg bod eu diffyg sgiliau Cymraeg wedi effeithio'n sylweddol ar eu gallu i roi cefnogaeth effeithiol i'w plentyn.

**Consortia (AALlau)**

9.21 Yn gyffredinol, mae'r consortia wedi parhau i weithio gydag ysgolion mewn ymateb i anghenion ac amgylchiadau'r ysgol.Nid oedd AALlau yn rhan o'r sampl ar gyfer y prosiect hwn, ond cyfeiriodd arweinwyr ac athrawon at eu rôl yn cefnogi ysgolion.Cafwyd pwyslais ar rannu arferion da, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ar gydweithio, ac amrywiaeth o hyfforddiant i ddiwallu anghenion gwahanol.Mae'r consortia yn cydnabod pwysigrwydd dathlu cyflawniadau dysgwyr yn ystod y pandemig a chefnogi ysgolion i'w helpu yn y dyfodol.

**Goblygiadau i ddarparwyr AGA**

9.22 O'n harsylwadau a'n sgyrsiau ag athrawon, staff AGA a myfyrwyr, ceir goblygiadau amlwg o ran sut i ddatblygu athrawon y dyfodol. Roedd y data yn dangos y modd yr aeth y darparwyr AGA yn yr astudiaeth hon ati i addasu eu dulliau gweithredu er mwyn sicrhau bod y myfyrwyr yn cael profiad addysgu yn ystod y pandemig a gwnaethant hefyd nodi meysydd meithrin gwybodaeth a sgiliau ar gyfer cyrsiau AGA.

### Cyfyngiadau

9.23 Fel y nodwyd yn 2.15, roedd rhai cyfyngiadau i'r broses o gasglu data a dylid ystyried y canfyddiadau yng ngoleuni hyn. Roedd yr amserlen ar gyfer casglu'r data yn golygu bod ymatebwyr yn adrodd ar gamau gwahanol o'u profiad o addysgu o bell. Yn ogystal, daeth y broses o gasglu data i ben cyn i'r addysgu ailgychwyn yn yr ystafell ddosbarth felly rhaid ystyried bod canfyddiadau'r data yn adlewyrchu'r profiad parhaus o addysgu o bell yn hytrach na gwerthusiad o'r profiad.

### Nodyn Terfynol

9.24 Gwelwyd bod y prif ganfyddiadau a nodir yma yn gyson yn y sectorau cynradd ac uwchradd, yn ogystal â mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg (ceir trafodaeth bellach ar effeithiau pandemig COVID-19 ar Addysg cyfrwng Cymraeg yn yr adroddiad 'Cael mynediad i'r Gymraeg yn ystod pandemig COVID-19: heriau a chefnogaeth i aelwydydd di-Gymraeg').

9.25 Roedd y rhan fwyaf o'r athrawon/consortia/staff AGA a'r myfyrwyr a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws neu'r arolwg o'r farn eu bod wedi dysgu mwy am eu hymarfer a'u disgyblion yn ystod y cyfyngiadau symud olynol. Gwnaethant bwysleisio mai'r hyn y mae llawer o blant wedi'i golli yw rhyngweithio â'u cyfoedion ac aelodau o gymuned yr ysgol. Mae hyn yn deillio o sylwadau'r rhieni a'r disgyblion eu hunain. Mynegodd y rhan fwyaf o'r athrawon hefyd edmygedd tuag at y ffordd y gwnaeth eu disgyblion a'u rhieni ymdopi, ac mewn rhai achosion, y ffordd y gwnaethant ffynnu drwy ddysgu o bell. Mae'r holl ymatebwyr wedi myfyrio ar eu profiadau o ddydd i ddydd a'u gwaith fel timau; ac maent wedi gwerthfawrogi eu hysgolion fel cymunedau. Mae dysgu proffesiynol ac unigol gwerthfawr wedi digwydd a fydd yn llywio ymarfer yn y dyfodol ond nid oes amheuaeth bod yr athrawon yn dal i ganolbwyntio ar ddarparu'r profiadau mwyaf effeithiol i'w dysgwyr.

## 10. Argymhellion

10.1 Mae'r holl ymatebwyr wedi myfyrio ar eu profiadau o ddydd i ddydd, a'u gwaith fel timau; ac maent wedi gwerthfawrogi eu hysgolion fel cymunedau. Mae dysgu proffesiynol ac unigol gwerthfawr wedi digwydd a fydd yn llywio ymarfer yn y dyfodol ond nid oes amheuaeth bod yr athrawon yn dal i ganolbwyntio ar ddarparu'r profiadau mwyaf effeithiol i'w dysgwyr.

10.2 Mae'r argymhellion wedi'u grwpio yn ôl thema ac maent yn berthnasol i fwy nag un rhanddeiliad. Mae'r tabl isod yn allwedd sy'n dangos pa randdeiliaid y mae'r argymhellion a nodir isod yn effeithio arnynt.

**Tabl 10.1: Perthnasedd themâu i randdeiliaid.**

| Thema | Ysgolion | Rhieni | Dysgwyr | Darparwyr AGA | Gwasanaethau plant a phobl ifanc | Consortia ac AALlau | Estyn | LLC | Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addasu i newid | • | • | • | • | • | • | • | • | • |
| Dysgu proffesiynol a hyfforddiant | • | • | | • | • | • | • | • | • |
| Technoleg – Caledwedd | • | | | | | • | • | • | |
| Llwyth Gwaith a Lles Staff | • | | | • | | • | • | • | • |
| Yr effaith ar ddysgwyr | • | • | • | • | • | • | • | • | • |
| Cymorth gan Rieni | • | • | • | • | • | • | • | • | • |
| Darparwyr AGA | • | | | • | • | • | • | • | • |

**Camau gweithredu i randdeiliaid**

10.3 Mae'r camau gweithredu i'w cymryd gan randdeiliaid perthnasol wedi'u crynhoi isod:

**Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| Caledwedd a Chysylltedd | • Dylai pob ysgol sicrhau bod y cyfarpar angenrheidiol ar gael i'r staff er mwyn iddynt ddarparu ar gyfer dysgu ar-lein. Yn yr un modd, mae angen i gyfarpar priodol fod ar gael i'r dysgwyr. Dylai'r gost ychwanegol gael ei hadlewyrchu yn y cyllidebau a roddir i ysgolion.<br>• Dylid cymryd camau i sicrhau bod gan bob athro a dysgwr ledled Cymru fynediad digonol i'r Rhyngrwyd. |
| Llwyth Gwaith a Lles Staff | • Mae'n hanfodol cydnabod yr effaith ar lwyth gwaith athrawon a'r gofynion ychwanegol sy'n gysylltiedig ag addysgu fel hyn. Rhaid deall hyn er mwyn llywio gwaith cynllunio yn y dyfodol ar lefel genedlaethol, ar lefel leol ac ar lefel ysgolion. |
| Yr effaith ar ddysgwyr | • Gall fod angen cymorth/cyllid ychwanegol er mwyn helpu'r rhai sy'n symud i gam arall yn eu haddysg yn ystod cyfnod o gyfyngiadau symud. Mae hyn yn bwysig yn gyffredinol, ond yn arbennig i'r rhai sy'n symud o addysg gynradd i addysg uwchradd ac yn dechrau cymwysterau TGAU/Blwyddyn 12/yn y coleg. |
| Cymorth gan Rieni | • Dylai ysgolion barhau i gadw mewn cysylltiad â theuluoedd a rhoi cymorth iddynt yn rheolaidd, fel sydd wedi datblygu yn ystod y cyfyngiadau symud. Dylid ystyried cymorth i rieni yn ofalus wrth gynllunio darpariaeth ar-lein (yn enwedig pan fydd angen llawer o gymorth gan rieni i gwblhau tasgau). Gellid ystyried swyddi cymorth i deuluoedd mewn ysgolion er mwyn sicrhau y caiff teuluoedd eu cefnogi'n effeithiol, a rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried goblygiadau ariannol datblygiad o'r fath.<br>• Gellid cynnig hyfforddiant i rieni ar dechnegau newydd a ddefnyddir mewn ysgolion (yn benodol mewn mathemateg, ond mewn pynciau eraill hefyd). Byddai hyn yn sicrhau bod rhieni'n fwy hyderus wrth gefnogi eu plentyn gartref, mewn perthynas â dysgu ar-lein neu weithgareddau dysgu ychwanegol. Mae hyn yn hollbwysig os ydynt yn cefnogi'r plentyn mewn iaith nad ydynt yn gyfarwydd â hi. Gall fod angen cyllid ychwanegol i helpu ysgolion yn hyn o beth. |

**AALlau a Chonsortia**

| | |
|---|---|
| Addasu i Newid | • Mae cyfle i roi arweiniad cliriach a gweithdrefnau cliriach i'w dilyn mewn cyfnodau o gyfyngiadau symud yn y dyfodol. Gellid rhoi cynllun wrth gefn ar waith a'i ddiweddaru'n rheolaidd fel rhan o bolisi'r ysgol. |
| Dysgu Proffesiynol a Hyfforddiant | • Dylai consortia/AALlau barhau i helpu ysgolion i ddatblygu'r gallu i gynllunio ar gyfer defnyddio dysgu cyfunol a dathlu cyflawniad ysgolion a dysgwyr yn ystod cyfnodau o ddysgu o bell a dysgu cyfunol.<br>• Dylid rhoi cyfle i ysgolion ddysgu o brofiadau ysgolion eraill wrth ddatblygu eu hymarfer ac archwilio llwyfannau ac adnoddau ar-lein newydd, a'u hannog i wneud hynny.<br>• Dylid annog ysgolion i ddatblygu a defnyddio arbenigedd ym maes technoleg o fewn yr ysgol. Gallai'r defnydd o 'hyrwyddwr technolegol' mewn ysgolion arwain yn hyn o beth. |
| Llwyth Gwaith a Lles Staff | • Mae'n hanfodol cydnabod yr effaith ar lwyth gwaith athrawon a'r gofynion ychwanegol sy'n gysylltiedig â dysgu cyfunol a dysgu o bell. Rhaid i hyn lywio gwaith cynllunio yn y dyfodol ar lefel genedlaethol, ar lefel leol ac ar lefel ysgolion. |

| | |
|---|---|
| | • Mae angen i uwch-arweinwyr fodelu'r effaith ar staff fel rhan o ymarfer arferol.<br>• Dylai ysgolion gydweithio'n agos ag AALlau/consortia er mwyn sicrhau y caiff staff eu cefnogi'n briodol, a bod cymorth ychwanegol i reoli llwyth gwaith a lles ar gael yn hawdd i bob aelod o staff.<br>• Dylai cyfleoedd dysgu proffesiynol pellach gael eu teilwra er mwyn mynd i'r afael â phryderon staff, h.y. hyfforddiant ar fagu hyder ym maes dysgu digidol/cyfunol ac arferion gweithio effeithiol. |
| Yr effaith ar ddysgwyr | • Mae'r model dysgu ar-lein wedi bod yn effeithiol i rai carfanau o ddisgyblion ond, ar ben hynny, dylid ystyried cyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol a dewis, sef agweddau cadarnhaol ar ddysgu cyfunol yn ôl disgyblion. Dylid gwrando ar leisiau a phrofiadau dysgwyr.<br>• Mae angen i AALlau/gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol roi strategaeth ar waith er mwyn helpu ysgolion i fesur lefelau ymgysylltu ag addysgu gartref.<br>• Dylid ymgorffori cynnwys digidol yn narpariaeth pob pwnc er mwyn hwyluso newid mwy esmwyth os bydd pandemig arall yn y dyfodol. Byddai hyn yn galluogi ysgolion i integreiddio sgiliau trawsgwricwlaidd yn llawn a 'bod yn hyderus wrth ddefnyddio ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd.'<br>• Gall fod angen cymorth/cyllid ychwanegol er mwyn helpu'r rhai sy'n symud i gam arall yn eu haddysg yn ystod cyfnod o gyfyngiadau symud. Mae hyn yn bwysig yn gyffredinol, ond yn arbennig i'r rhai sy'n symud o addysg gynradd i addysg uwchradd ac yn dechrau cymwysterau TGAU/Blwyddyn 12/yn y coleg. |
| Cymorth gan Rieni | • Dylai ysgolion barhau i gadw mewn cysylltiad â theuluoedd a rhoi cymorth iddynt yn rheolaidd, fel sydd wedi datblygu yn ystod y cyfyngiadau symud. Dylid ystyried cymorth i rieni yn ofalus wrth gynllunio darpariaeth ar-lein (yn enwedig pan fydd angen llawer o gymorth gan rieni i gwblhau tasgau). Gellid ystyried swyddi cymorth i deuluoedd mewn ysgolion er mwyn sicrhau y caiff teuluoedd eu cefnogi'n effeithiol.<br>• Dylid annog ysgolion i ddefnyddio pob dull posibl o hybu lefelau ymgysylltu ymhlith rhieni a dysgwyr. Mae cynyddu'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol yn opsiwn i'w ystyried. Gall fod angen hyfforddiant pellach ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol. Dylid arddel hyrwyddwr cyfryngau cymdeithasol a dylid trafod defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel rhan o AGA.<br>• Mae lle i ystyried dull datblygu ar y cyd mwy integredig ar gyfer dysgu, y tu hwnt i ddulliau traddodiadol o osod gwaith cartref. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â datblygu a meithrin sgiliau iaith Gymraeg, yn enwedig yn y cyd-destunau hynny lle nad yw'r Gymraeg yn hygyrch oni chaiff cyfleoedd eu creu fel estyniad o'r profiad ysgol.<br>• Mae lefel o arweiniad a chymorth dwyieithog yn allweddol er mwyn sicrhau y caiff rhieni disgyblion o gartrefi di-Gymraeg sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg eu cefnogi'n briodol. |

**Ysgolion**

| | |
|---|---|
| Addasu i Newid | • Mae cyfle i roi arweiniad cliriach a gweithdrefnau cliriach i'w dilyn mewn cyfnodau o gyfyngiadau symud yn y dyfodol ac i grwpiau a all wynebu heriau mewn perthynas â dysgu wyneb yn wyneb. Gellid rhoi cynllun wrth gefn ar waith a'i ddiweddaru'n rheolaidd fel rhan o bolisi'r ysgol. |
| Dysgu Proffesiynol a Hyfforddiant | • Dylid rhoi cyfle i ysgolion ddysgu o brofiadau ysgolion eraill wrth ddatblygu eu hymarfer ac archwilio llwyfannau ac adnoddau ar-lein newydd, a'u hannog i wneud hynny. |

| | |
|---|---|
| | • Dylid hefyd annog ysgolion i ddatblygu a defnyddio arbenigedd ym maes technoleg o fewn yr ysgol a dylid cydnabod arbenigedd. Gallai'r defnydd o 'hyrwyddwr technolegol' mewn ysgolion arwain yn hyn o beth (mae rhai ysgolion eisoes wedi cael budd o ddefnyddio hyrwyddwr o'r fath). |
| Caledwedd a Chysylltedd | • Dylai ysgolion ofyn i rieni am wybodaeth am y dechnoleg sydd ar gael yn y cartref er mwyn gallu rhoi'r cymorth priodol ar waith. |
| Llwyth Gwaith a Lles Staff | • Cydnabod yr effaith ar lwyth gwaith athrawon a'r gofynion ychwanegol sy'n gysylltiedig ag addysgu fel hyn. Rhaid deall hyn er mwyn llywio gwaith cynllunio yn y dyfodol ar lefel genedlaethol, ar lefel leol ac ar lefel ysgolion.<br>• Mae angen i uwch-arweinwyr fodelu'r effaith ar staff fel rhan o ymarfer arferol.<br>• Creu grwpiau ar-lein/cyfeillion er mwyn cefnogi'r staff (yn enwedig wrth addysgu o bell). Dylid parhau i annog rhwydweithiau cymorth mewn ysgolion er mwyn sicrhau bod athrawon, boed yn athrawon dan hyfforddiant, yn ANGau, yn staff profiadol neu'n uwch-arweinwyr, yn cael eu cefnogi'n ddigonol.<br>• Dylai ysgolion gydweithio'n agos ag AALlau/consortia er mwyn sicrhau y caiff staff eu cefnogi'n briodol, a bod cymorth ychwanegol i reoli llwyth gwaith a lles ar gael yn hawdd i bob aelod o staff (gan gynnwys gweithwyr cymorth sy'n gweithio mewn ysgolion).<br>• Hefyd, gallai cyfleoedd dysgu proffesiynol pellach fod yn fuddiol er mwyn mynd i'r afael â phryderon staff, h.y. hyfforddiant ar fagu hyder ym maes dysgu digidol/cyfunol; arferion gweithio effeithiol a gweithio'n effeithiol â thechnoleg. |
| Yr effaith ar ddysgwyr | • Mae'r model dysgu ar-lein wedi bod yn ddull cyflawni effeithiol ar gyfer rhai carfanau o ddisgyblion ac mae angen ystyried model dysgu mwy hyblyg a fyddai'n galluogi disgyblion i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru a'r diben i greu dysgwyr galluog ac uchelgeisiol sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes. Dylid ystyried cyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol a dewis, sef agweddau cadarnhaol ar ddysgu cyfunol yn ôl disgyblion. Hefyd, mae'r Cwricwlwm i Gymru yn defnyddio llais y dysgwr ac yn ymateb i anghenion, profiadau a mewnbwn dysgwyr.<br>• Er mwyn codi lefelau ymgysylltu disgyblion, dylid ymgorffori cynnwys digidol yn narpariaeth pob pwnc er mwyn hwyluso newid mwy esmwyth os bydd pandemig arall yn y dyfodol. Byddai hyn yn galluogi ysgolion i integreiddio sgiliau trawsgwricwlaidd yn llawn fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru: 'bod yn hyderus wrth ddefnyddio ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd.'<br>• Mae angen ystyried ymhellach sut y bydd ysgolion a gwasanaethau plant yn cyfathrebu yn ystod cyfnodau pan fydd ysgolion ar gau er mwyn cefnogi plant a theuluoedd agored i niwed. Er bod dyletswydd gofal ysgolion wedi parhau yn ystod y cyfnod hwn, roedd yn anos monitro hyn pan oedd y disgyblion yn dysgu gartref na phe baent mewn lleoliad wyneb yn wyneb.<br>• Yn achos disgyblion ysgolion cynradd, gall fod angen cymorth/cyllid ychwanegol er mwyn helpu'r rhai sy'n symud i gam arall yn eu haddysg yn ystod cyfnod o gyfyngiadau symud neu ddysgu cyfunol. Hefyd, gall fod angen rhagor o gymorth ar ddisgyblion uwchradd wrth iddynt symud i gam nesaf eu haddysg, naill ai TGAU, Blwyddyn 12 neu'r coleg, yn enwedig mewn pynciau ymarferol. |
| Cymorth gan Rieni | • Dylai ysgolion barhau i gadw mewn cysylltiad â theuluoedd a rhoi cymorth iddynt yn rheolaidd, fel sydd wedi datblygu yn ystod y cyfyngiadau symud, a sicrhau bod y disgwyliadau'n glir. Dylid ystyried cymorth i rieni yn ofalus wrth gynllunio darpariaeth ar-lein (yn enwedig pan fydd angen llawer o gymorth gan rieni i gwblhau tasgau). Mewn rhai ysgolion, gellid ystyried |

| | |
|---|---|
| | swyddi cymorth i deuluoedd er mwyn sicrhau y caiff teuluoedd eu cefnogi'n effeithiol. Fodd bynnag, mae goblygiadau ariannol posibl i'w hystyried yma.<br>• Dylid annog ysgolion i ddefnyddio pob dull posibl o hybu lefelau ymgysylltu ymhlith rhieni a dysgwyr, ac mae cynyddu'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol yn opsiwn i'w ystyried. Gall fod angen hyfforddiant pellach ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol, dylid arddel hyrwyddwr cyfryngau cymdeithasol a dylid trafod defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel rhan o ddarpariaeth AGA.<br>• Gellid cynnig hyfforddiant i rieni ar dechnegau newydd a ddefnyddir mewn ysgolion (yn benodol mewn mathemateg, ond mewn pynciau eraill hefyd). Byddai hyn yn sicrhau bod rhieni'n fwy hyderus wrth gefnogi eu plentyn gartref, mewn perthynas â dysgu ar-lein neu weithgareddau dysgu ychwanegol. Mae hyn yn hollbwysig ac yn arbennig o wir os ydynt yn cefnogi'r plentyn mewn iaith nad ydynt yn gyfarwydd â hi. Gall fod angen cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu ysgolion i gyflawni'r nod hwn.<br>• Mae lefel o arweiniad a chymorth dwyieithog yn allweddol er mwyn sicrhau y caiff rhieni disgyblion o gartrefi di-Gymraeg sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu cefnogi'n briodol. |

**Estyn**

| | |
|---|---|
| Addasu i Newid | • Dylid cefnogi ysgolion i wneud penderfyniadau annibynnol wrth gynllunio ar gyfer eu dysgwyr. Dylid eu hannog a'u cefnogi i ddilyn dulliau gwahanol wrth iddynt addasu i anghenion unigryw ac unigol dysgwyr yn yr ysgol. |
| Llwyth Gwaith a Lles Staff | • Mae'n hanfodol cydnabod yr effaith ar lwyth gwaith athrawon a'r gofynion ychwanegol sy'n gysylltiedig ag addysgu fel hyn. Rhaid deall hyn er mwyn llywio gwaith cynllunio yn y dyfodol. |
| Yr effaith ar Ddysgwyr | • Mae'r model dysgu ar-lein wedi bod yn ddull cyflawni effeithiol ar gyfer rhai carfanau o ddisgyblion ac mae angen ystyried model dysgu mwy hyblyg a fyddai'n galluogi disgyblion i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru a'r diben i greu dysgwyr galluog ac uchelgeisiol sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes. Dylid ystyried cyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol a dewis, sef agweddau cadarnhaol ar ddysgu cyfunol yn ôl disgyblion. Hefyd, mae'r Cwricwlwm i Gymru yn defnyddio llais y dysgwr ac yn ymateb i anghenion, profiadau a mewnbwn dysgwyr.<br>• Er mwyn codi lefelau ymgysylltu disgyblion, dylid ymgorffori cynnwys digidol yn narpariaeth pob pwnc er mwyn hwyluso newid mwy esmwyth os bydd pandemig arall yn y dyfodol. Byddai hyn yn galluogi ysgolion i integreiddio sgiliau trawsgwricwlaidd yn llawn fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru: 'bod yn hyderus wrth ddefnyddio ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd.' |
| Cymorth gan Rieni | • Dylai ysgolion barhau i gadw mewn cysylltiad â theuluoedd a rhoi cymorth iddynt yn rheolaidd, fel sydd wedi datblygu yn ystod y cyfyngiadau symud, a sicrhau bod y disgwyliadau'n glir. Dylid ystyried cymorth i rieni yn ofalus wrth gynllunio darpariaeth ar-lein (yn enwedig pan fydd angen llawer o gymorth gan rieni i gwblhau tasgau). Mewn rhai ysgolion, gellid ystyried swyddi cymorth i deuluoedd er mwyn sicrhau y caiff teuluoedd eu cefnogi'n effeithiol. Fodd bynnag, mae goblygiadau ariannol posibl i'w hystyried yma.<br>• Mae lle i ystyried dull datblygu ar y cyd mwy integredig ar gyfer dysgu, y tu hwnt i ddulliau traddodiadol o osod gwaith cartref. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â datblygu a meithrin sgiliau iaith Gymraeg, ac yn bwysicaf yn y cyd-destunau hynny lle nad yw'r Gymraeg yn hygyrch y tu allan i'r cartref oni chaiff cyfleoedd eu creu fel estyniad o'r profiad ysgol. |

| | |
|---|---|
| | • Mae lefel o arweiniad a chymorth dwyieithog yn allweddol er mwyn sicrhau y caiff rhieni disgyblion o gartrefi di-Gymraeg sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu cefnogi'n briodol. |

**Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc**

| | |
|---|---|
| Yr effaith ar ddysgwyr | • Mae angen ystyried ymhellach sut y bydd ysgolion a gwasanaethau plant yn cyfathrebu yn ystod cyfnodau pan fydd ysgolion ar gau er mwyn cefnogi plant a theuluoedd agored i niwed. Er bod dyletswydd gofal ysgolion wedi parhau yn ystod y cyfnod hwn, roedd yn anos monitro hyn pan oedd y disgyblion yn dysgu gartref na phe baent mewn lleoliad wyneb yn wyneb. |

**Darparwyr AGA**

10.4 Cododd y data gan staff a myfyrwyr AGA themâu sy'n benodol i'r sector ac yn gysylltiedig â gofyniad yr alwad ymchwil i ystyried y goblygiadau i AGA yng Nghymru.

| | |
|---|---|
| Addasu i newid | • Sicrhau y caiff strategaethau ar gyfer rheoli newid eu hymgorffori yn eu cyrsiau AGA<br>• Gwerthuso dulliau a ddefnyddiwyd i ddarparu AGA yn ystod y pandemig ac ystyried yr effaith ar ymarfer yn y dyfodol |
| Datblygu athrawon newydd | • Ystyried addysgegau dysgu cyfunol a'r ffordd y cânt eu hymgorffori yn eu cyrsiau AGA<br>• Cynnig cyfle i weithio gyda gwahanol lwyfannau dysgu;<br>• Mae gan SAUau rôl yn y gwaith o ddatblygu sgiliau dysgu cyfunol a sgiliau digidol eu myfyrwyr a'u hysgolion partner<br>• Annog mwy o archwilio dulliau asesu gwahanol er mwyn cefnogi amrywiaeth o ddysgwyr a rhoi adborth o bell<br>• Ystyried gwahanol fodelau dysgu cyfunol yn y cartref ac yn yr ysgol |
| Dysgu proffesiynol gydag ysgolion partner | • Creu grwpiau ar-lein/cyfeillion er mwyn cefnogi'r staff (yn enwedig wrth addysgu o bell). Dylid parhau i annog rhwydweithiau cymorth mewn ysgolion er mwyn sicrhau bod athrawon, boed yn athrawon dan hyfforddiant, yn ANGau, yn staff profiadol neu'n uwch-arweinwyr, yn cael eu cefnogi'n ddigonol<br>• Mae gan SAUau rôl yn y gwaith o ddatblygu sgiliau dysgu cyfunol a sgiliau digidol eu myfyrwyr a'u hysgolion partner |
| Gweithio gyda Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc | • Meddwl mewn ffordd gydgysylltiedig am y defnydd o amgylcheddau ar-lein a diogelu |

**Casgliad**

- Dylid cydnabod gallu ysgolion i addasu i newid wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.
- Mae angen dull gweithredu mwy cydgysylltiedig, rhwng AALlau, consortia ac ysgolion gan y byddai hyn yn sicrhau bod cymorth a negeseuon yn gyson ledled Cymru.
- Mae angen darpariaeth gyson a rhagor o gymorth i ddisgyblion mewn perthynas â newidiadau i batrymau dysgu a mynediad at ddyfeisiau digidol priodol a'r rhyngrwyd er mwyn cefnogi dysgu cyfunol.

- Mae cysylltedd yn allweddol er mwyn sicrhau y gall pob rhanddeiliad yn y sector addysg ymgysylltu a chyflawni hyd eithaf ei allu.

10.5 Fel y pwysleisiwyd gan ganfyddiadau'r adroddiad hwn, mae ysgolion, staff a dysgwyr wedi ymateb yn gadarnhaol ac wedi addasu'n dda i sawl her yn ystod cyfnod(au) y cyfyngiadau symud. Mae angen inni sicrhau y caiff eu hymdrechion a'u cyflawniadau eu cydnabod ac y gellir dysgu gwersi gwerthfawr o'r profiadau hyn.

***

---

*‘Mae'r athrawon yn anhygoel.*

*Mae'r plant yn wydn*

*Dylai'r rhieni a'r cyfryngau werthfawrogi a pharchu ysgolion lawer mwy nag y maent.*

*Gall athrawon addasu pan gânt eu cefnogi ac maent yn fwy na pharod i dderbyn newid.’*

(Athro, B2)

---

## 11. Adran Gyfeiriadau


Andrew, A. et al. (2020) Learning during the lockdown: real-time data on children's experiences during home learning. The Institute for Fiscal Studies

Bowyer, J a Chambers, L (2017) Evaluating blended learning: Bringing the elements together*. Research Matters: A Cambridge Assessment publication.*

Consortiwm Canolbarth y De (2020) Canllawiau Dysgu Cyfunol.

Centre on Reinventing Public Education (CRPE) (2020) Lessons from Remote Learning in Six School Systems, Centre on Reinventing Public Education. Centre on Reinventing Public Education

Creswell. J. W. (2013), *Qualitative Inquiry and Research Design: Choosing Among Five Approaches.* 3ydd argraffiad. Llundain: Sage Publications Ltd.

Crotty, M. (1998), *The Foundations of Social Research: meaning and perspective in the research process.* Llundain: SAGE Publications.

Cullinane, C a Montacute, R. (2020) *COVID-19 and Social Mobility Impact Brief #1: School Shutdown.* Ymddiriedolaeth Sutton.

Denzin, N.K. a Lincoln, Y.S. (2013), *The Landscape of Qualitative Research.* 4ydd argraffiad. Llundain: Sage Publications Ltd.

Y Sefydliad Gwaddol Addysgol: (2020a) Remote Learning Rapid Evidence assessment

Y Sefydliad Gwaddol Addysgol: (2020) Distance Learning Rapid Evidence assessment

Y Sefydliad Polisi Addysg (2020) Addressing the digital divide in education-Enabling a blended learning approach for all pupils and teachers

Finlay, L. (2012), *Hermeneutic Phenomenology in Education: Method and Practice.* Friesen, N, Henriksson, C, a Saevi, T. (golygyddion). Rotterdam: Sense Publishers.

Flick, U. (2014), An Introduction to Qualitative Research. 5ed argraffiad. Llundain: Sage Publications Ltd.

Gray, D.E. (2018), Doing Research in the Real World. 4ydd argraffiad. Llundain: Sage Publications Ltd.

Hammersley, M. (2008), Questioning Qualitative Inquiry: Critical Essays, Llundain; Sage Publications Ltd.

Henriksson, a Friesen, (2012), *Hermeneutic Phenomenology in Education: Method and Practice.* Friesen, N, Henriksson, C, a Saevi, T. (golygyddion). Rotterdam: Sense Publishers.

Hood, R. (2016), 'Combining phenomenological and critical methodologies in qualitative research', *Qualitative Social Work,* Cyf. 15, Rhif 2, tt.160-174.

Kafle, N. P. (2011), 'Hermeneutic phenomenological research method simplified'. *Bodhi: An Interdisciplinary Journal,* Cyf. 5, tt. 181-200.

Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) CYMRU (2020) Remote Teaching and Learning – Arrangements Issues and Support.

Lucas, M., Nelson, J. Sims, D (2020) Schools' Responses to COVID-19: Pupil Engagement in Remote Learning. Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg

Morgan, H. (2020) 'Best Practices for Implementing Remote Learning during a Pandemic', Clearing House: A Journal of Educational Strategies, Issues and Ideas, 93(3), tt. 134–140.

Müller L-M a Goldenberg, G. (2020) Education in times of crisis: *Teachers' views on distance learning and school reopening plans during COVID-19.* Y Coleg Addysgu Siartredig

Poirier Mark, Law Jeremy M, a Veispak Anneli. (2019). A Spotlight on Lack of Evidence Supporting the Integration of Blended Learning in K-12 Education: A Systematic Review. International Journal of mobile and blended 11(4), tt.1-14.

Ravitch, S.M. a Riggan, M. (2012), *Reason and Rigor: How Conceptual Frameworks Guide Research.* Llundain: SAGE Publications Ltd.

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol, Estyn, CCD, GCA, ERW, GwE (2020) Datblygu dulliau integredig i gefnogi dysgu cyfunol ar gyfer agor ysgolion yn raddol.

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol, Estyn, CCD, GCA, ERW, GwE (2020) Modelau Dysgu Cyfunol.

Sharp, C. et al. (2020) Schools' Responses to COVID-19: The Challenges Facing Schools and Pupils in September 2020, Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA)

Smith, J.A., Flowers, P. a Larkin, M. (2009), *Interpretive Phenomenological Analysis.* Llundain: Sage Publications Limited.

Thomas, D. R. (2006), A General Inductive Approach for Analyzing Qualitative Evaluation Data'. *American Journal of Evaluation,* Cyf. 27, Rhif 2, tt. 237-246.

Van Manen, M. (1997), *Researching lived experience: Human science for an action sensitive pedagogy.* 2il argraffiad. Llundain: The Althouse Press.

Llywodraeth Cymru (2020) Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref. Llywodraeth Cymru